


BBC

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2002/2003

# Pwrpas, gweledigaeth a gwerthoedd



**Ein pwrpas** yw cyfoethogi bywydau pobl gyda rhaglenni a gwasanaethau sy'n hysbysu, addysgu a diddanu

**Ein gweledigaeth** yw bod y sefydliad mwyaf creadigol yn y byd

**Ein gwerthoedd**

- Ymddiriedaeth yw sail y BBC: rydym yn annibynnol, diduedd ac onest
- Mae cynulleidfaoedd wrth wraidd popeth a wnawn
- Rydym yn ymfalchïo mewn darparu ansawdd a gwerth am arian
- Creadigrwydd yw enaid ein sefydliad
- Rydym yn parchu ein gilydd ac yn dathlu ein hamrywiaeth fel y gall pob un wneud ei orau
- Un BBC ydym: mae pethau mawr yn digwydd wrth i ni weithio gyda'n gilydd

# Cynnwys




**2 Rhagair y Cadeirydd** Blwyddyn hanesyddol a llwyddiannus wrth i'r BBC gyflwyno amrywiaeth llawn ei wasanaethau digidol

**4 Bwrdd y Llywodraethwyr** Y dynion a'r gwragedd sy'n sicrhau bod y BBC yn rhoi blaenoriaeth i fudd y cyhoedd

**5 Rhedeg y BBC** Sut mae Llywodraethwyr, Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phwyllgor Gweithredol y BBC yn gweithio i sicrhau bod y BBC yn gwasanaethu'r cyhoedd yn effeithiol





**6 Crynodeb o'r flwyddyn** Ffeithiau allweddol am gyllid a chynulleidfaoedd y BBC yn 2002/2003





**8 Asesiad y Llywodraethwyr o berfformiad** I ba raddau y llwyddodd y BBC i fodloni'r amcanion a bennwyd gan y Llywodraethwyr ar gyfer 2002/2003?

**16 Arolwg y Cyfarwyddwr Cyffredinol** Creodd amrywiaeth mwy cyfoethog o raglenni mwy arbennig flwyddyn nodedig i'r BBC

**18 Y Pwyllgor Gweithredol** Y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am ddarllediadau a gweithrediadau'r BBC








**Arolwg o'r gwasanaethau** Ynglŷn â rhaglenni a gwasanaethau'r BBC yn 2002/2003

**20** Teledu
**28** Radio
**36** Y Gwledydd a'r Rhanbarthau
**42** Newyddion
**46** Dysgu
**48** Cyfryngau Newydd
**50** BBC World Service & Global News

**Gweithgareddau masnachol** Perfformiad is-gwmnïau masnachol y BBC
**54** BBC Worldwide Limited
**56** BBC Ventures Group Limited


**58 Rhoi blaenoriaeth i gynulleidfaoedd** Beth y dywedodd cynulleidfaoedd wrth y BBC am faterion allweddol a sut y bu'r BBC yn atebol i dalwyr y drwydded a'r Senedd

**64 Y BBC yn y gymuned** Beth a wnaeth y BBC i gyflawni safonau uchel o gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol

**67 Pobl a thalent y BBC** Hyfforddiant, talent a sut mae *Making it Happen* yn datblygu creadigrwydd a gwerthoedd

**68 Cydymffurfiad** Adroddiad y Llywodraethwyr a'r archwilwyr ar bob agwedd ar rwymedigaethau cyfreithiol, ariannol a rheoli'r BBC

**82 Arolwg ariannol** Trosolwg o fusnes y BBC a'i gyfrifon archwiliedig cyflawn

**85 Datganiadau ariannol**

**122 Ffeithiau a ffigurau darlledu**

**132 Cysylltu â'r BBC**

**133 Rhestr termau a gwybodaeth arall**




Clawr blaen: Dathliadau Jiwbilî Aur y Frenhines.

Chwith: DJ Erick Morillo yn *Dance Party* BBC Radio 1 yn Newquay.

Uchod, clocwedd o'r brig: *The Life of Mammals*, *Bitesize*, *3 Non-Blondes*, Jeremy Vine, *The Lost Prince*, darlledu yn Baghdad, *The Office*.

# Rhagair y Cadeirydd



**Dathlodd y BBC ei ben-blwydd yn 80 oed gyda chyngerdd yn Neuadd Symffoni Birmingham fis Tachwedd diwethaf. O ystyried bod y sefydliad yn wythdeg, mae mewn cyflwr iechyd ardderchog. Cyrhaeddodd cyfraddau cymeradwyaeth cynulleidfaoedd uchelfannau newydd, a lansiwyd yr holl wasanaethau teledu a radio digidol newydd a gynlluniwyd dair blynedd yn ôl. Mae portffolio o wasanaethau bellach wedi'i sefydlu sy'n addas ar gyfer yr oes ddigidol, ac sy'n galluogi'r BBC i gyflwyno mwy o werth nag erioed o'r blaen i holl dalwyr y drwydded. Yn gyffredinol, mae'r Llywodraethwyr o'r farn y bu i'r BBC fwynhau blwyddyn gryf iawn. Cyflawnwyd gwelliant amlwg o ran amrywiaeth ac uchelgais rhaglenni, yn arbennig ar BBC One, a pharhaodd nifer y gynulleidfa yn sefydlog yn wyneb cystadleuaeth gynyddol.**

Bu dau ddigwyddiad yn amlwg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Llwyddodd dathliadau Jiwbilî Aur y Frenhines, ac yn arbennig y penwythnos hudol o bartïon ledled Prydain fis Mehefin diwethaf, i uno'r genedl mewn ffordd a fyddai, ym marn rhai, yn amhosibl yn yr oes fodern. Ar nodyn tristach, roedd y rhyfel yn Irac yn her i undod y genedl gan amlygu gallu'r BBC i ohebu yn gywir ac yn ddiduedd.

Barn y Llywodraethwyr yw bod y BBC wedi ymateb yn ardderchog i'r ddau ddigwyddiad mawr hyn. Cydnabu hyd yn oed ein beirniaid mwyaf llym bod y BBC wedi cyfrannu rhywbeth arbennig i'w ddarllediadau o'r Jiwbilî. Heb gyrhaeddiad cyffredinol y BBC, a heb ei sgiliau heb eu hail wrth gyflwyno digwyddiadau emosiynol o'r fath i bob cartref ym Mhrydain, ni fyddai'r ymdeimlad o ddathliad gwirioneddol genedlaethol, o wladgarwch eithriadol, wedi bod cystal o bell ffordd.

Darparodd dechrau'r rhyfel yn Irac her wahanol. Fel erioed, roedd gan y BBC gyfrifoldeb allweddol i dalwyr y drwydded i adlewyrchu a dadansoddi'r drafodaeth a oedd yn mynd rhagddi ledled y wlad, ac i ohebu ar y rhyfel ei hun gydag ymrwymiad llwyr i fod yn ddiduedd a darlledu'r gwirionedd. Nid oedd amgylchiadau anodd rhyfel yn rheswm i gyfaddawdu safonau golygyddol darllediadau newyddion y BBC.

Er gwaethaf cyfnodau o bwysau dwys o bob tu, parhaodd newyddion y BBC i wasanaethu talwyr y drwydded gyda'i ymlyniad traddodiadol i'r gwirionedd, a'r holl wirionedd, yn ystod y rhyfel. Wrth gwrs bu rhai gwallau unigol ar hyd y ffordd, ond cydnabu ein cynulleidfaoedd na fyddai'r ymddiriedaeth a fu ganddynt erioed yn y BBC yn cael ei bradu. Yn ogystal â throi at y BBC fel ffynhonnell o newyddion mewn niferoedd eithriadol, dengys y dystiolaeth yn glir iddynt ymddiried yn y BBC fwy nag unrhyw ffynhonnell arall o wybodaeth.

Wynebodd newyddiadurwyr a gweithwyr newyddion proffesiynol y BBC berygl mawr er mwyn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn ystod y rhyfel. Anafwyd chwech ohonynt a lladdwyd dau. Mae ein colled yn fawr.

Mewn meysydd eraill, mwy cyffredin, mwynhaodd y BBC flwyddyn o gynnydd sylweddol. Mae'r Llywodraethwyr yn disgwyl iddo fod yn ddarlledwr cyhoeddus a all apelio at gynulleidfa eang. Gwrthodwn y cysyniad y dylai'r BBC gael ei wthio i gornel fach o'r tirlun darlledu, neu y dylai ddiystyru ei fandad hanesyddol i wasanaethu holl gynulleidfaoedd y DU gyda'r un brwdfrydedd. Rhaid caniatáu i'r BBC ymateb i'r cyfleoedd a grëir gan dechnolegau newydd ym maes y cyfryngau. Ac mae'n annhebyg, yn ein barn ni, bod gwell ffordd o ariannu'r sefydliad na ffi'r drwydded.

Er mwyn cadw cyfreithlondeb cyhoeddus, rhaid i ffi'r drwydded wrth gwrs ddarparu gwerth am arian i bob cartref. Felly rhaid i gyfraddau cynulleidfaoedd, ac yn arbennig cyrhaeddiad cynulleidfaoedd, fod yn ddangosydd perthnasol o lwyddiant y BBC. Bu'r BBC yn llwyddiannus yn hyn o beth, gyda radio yn ffynnu fwy neu lai yn gyffredinol, BBCi yn cyflawni'r ffigurau uchaf erioed o ran ymweliadau â thudalennau a chyrhaeddiad defnyddwyr, BBC One yn cynyddu ei chyfran mewn cartrefi analog ac aml-sianel, a BBC Two yn parhau fel yr unig sianel ddaearol i gynyddu ei chyfran gyffredinol yn wyneb cystadleuaeth ddigidol gynyddol.

Ond nid oes angen ein hatgoffa nad yw cynulleidfaoedd mawr yn ddigon i gynnal yr amcanion a bennwyd yn Siarter y BBC. Byddai'n

ddigon hawdd cynyddu cyfran y gynulleidfa i'r eithaf gyda rhaglennu poblogaidd a deilliadol. Ond ni fyddai unrhyw werth i hynny. Cenhadaeth y BBC yw darparu pecyn sy'n fwy cyfoethog ac uchelgeisiol na'r hyn y gallai'r sector masnachol ei ddarparu ar ei ben ei hun.

Unwaith eto, mae'r BBC wedi llwyddo mewn perthynas â'r amcan hanfodol hwn yn ystod y flwyddyn dan sylw. Bu'n flwyddyn o raglenni gwych, fel *The Gathering Storm*, *The Life of Mammals*, *The Lost Prince*, *Great Britons* a llu o raglenni eraill. Bu'n flwyddyn lle y dangosodd BBC One a BBC Two fudd cyllidebau sylweddol uwch ar gyfer rhaglenni, a lle yr ychwanegodd sianelau teledu digidol y BBC yn helaeth at y dewis dyddiol sydd ar gael i wylwyr. Bu'n flwyddyn lle y llwyddodd radio cenedlaethol a lleol y BBC, hyd yn oed yn erbyn ei safonau heriol ei hun, i gyrraedd statws newydd.


Yn rhyfeddol, lansiwyd mwy o wasanaethau cenedlaethol newydd gan y BBC yn ystod y 18 mis diwethaf na'r nifer a lansiwyd yn ystod wyth degawd cyntaf hanes y BBC. Mae rhai o'r gwasanaethau newydd hyn eisoes yn llwyddiant. Bydd angen amser i ddatblygu rhai ohonynt. Bydd angen pob un ohonynt er mwyn cyflawni cylch gwaith cyhoeddus y BBC yn y dyfodol.

O ganlyniad i lansio gwasanaethau newydd a buddsoddi mwy mewn rhaglenni llwyddwyd i gyflawni'r gostyngiad ym malans arian parod cadarnhaol y BBC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gostyngiad a gynlluniwyd ers amser. Mae'r BBC ar y trywydd cywir i gyflawni pob un o'i amcanion ariannol tymor canolig. Mae'r busnesau masnachol yn ffynnu mewn amodau marchnad anodd, gan ddychwelyd arian er budd talwyr y drwydded. Mae'r BBC wedi cyflawni ac wedi rhagori ar bob un o dargedau'r Llywodraethwyr i leihau biwrocratiaeth a gwastraff y tu mewn i'r sefydliad. Daeth tri chwarter o'r holl arian ychwanegol a fuddsoddwyd mewn rhaglenni yn ystod y blynyddoedd diwethaf drwy hunan-help, nid drwy gynyddu ffi'r drwydded.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, Greg Dyke, ei uwch dîm rheoli a'r staff a gaiff eu harwain ganddynt yn haeddu cael eu gwobrwyo'n ddigonol am yr hyn y maent wedi'i gyflawni. Polisi'r BBC, dros amser, yw talu swyddogion gweithredol a staff ar lefel sy'n gyfwerth â'r cyfartaledd ar gyfer grwpiau cymharol o fewn sefydliadau cyhoeddus neu breifat eraill yn y DU. Eleni, o ganlyniad i lai o gystadleuaeth am uwch staff o'r sector preifat, mae'r bonws a dalwyd ar gyfartaledd i'r grŵp gweithredol wedi gostwng er gwaethaf perfformiad ardderchog y sefydliad.

Yn fuan ar ôl dechrau yn fy swydd fel Cadeirydd, cyhoeddais ddiwygiadau i system llywodraethedd y BBC, wedi'u cynllunio i amlygu'r gwahaniaeth rhwng y Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Gweithredol, ac i bennu amcanion mwy tryloyw i'r sefydliad eu cyflawni. Rhydd yr adroddiad hwn wybodaeth llawer manylach gan y Llywodraethwyr yn nodi i ba raddau y cyflawnwyd yr amcanion a bennwyd gennym flwyddyn yn ôl. Gwnaed cynnydd ar bob un ohonynt, ond mae angen gwella sawl maes ymhellach, ac felly erys y rhan fwyaf o'r amcanion fel amcanion ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae un amcan na fydd byth yn newid. Enw'r sefydliad yw'r Gorfforaeth Ddarlledu *Brydeinig* a hynny am reswm da. Wrth i ddylanwadau tramor fygwth dod yn anos i'r sector masnachol eu gwrthod, bydd yn bwysicach fyth i'r BBC gynnal safon rhaglennu brodorol yn y wlad yr ydym mor falch o fod yn rhan ohoni. Mae'n her yr ydym yn ymfalchïo ynddi, ac yr ydym yn barod i ymateb iddi.



**Gavyn Davies**
*Cadeirydd*

# Bwrdd y Llywodraethwyr

**Gavyn Davies** OBE Cadeirydd o fis Hydref 2001 a chyn Is-Gadeirydd. Hefyd yn cadeirio'r Pwyllgor Eiddo a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Cyfarwyddwr Ymgynghorol yn Goldman Sachs International. Cyn hynny roedd yn Gadeirydd yr Adran Ymchwil Buddsoddi Byd-eang ac yn Brif Economegydd Rhyngwladol yn Goldman Sachs. Bu'n aelod o'r Uned Bolisi yn 10 Downing Street o 1974 i 1979 a chadeiriodd arolwg annibynnol i ariannu'r BBC yn y dyfodol ym 1999. Ganed ym 1950.

**Y Gwir Anrhydeddus Yr Arglwydd Ryder** Is-Gadeirydd ers mis Ionawr 2002. Cadeirydd y Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg ac aelod o'r Pwyllgor Eiddo a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Cyfrin Gynghorydd ers 1990. Fe'i gwnaed yn arglwydd am oes ym 1997. AS dros ganol Norfolk o 1983 i 1997. Is-Ysgrifennydd Seneddol yn MAFF; Ysgrifennydd Economaidd i'r Trysorlys; y Tâl-feistr Cyffredinol ac yna'n Brif Chwip y Llywodraeth o 1988 i 1995. Ysgrifennydd Gwleidyddol i Margaret Thatcher o 1975 i 1981. Cyfarwyddwr Clwb Pêl-droed Ipswich Town ers 1999. Cadeirydd Eastern Counties Radio tan iddo gael ei benodi i'r BBC. Ganed ym 1949.

**Y Fonesig Ruth Deech** DBE Llywodraethwr y BBC ers mis Hydref 2002. Aelod o'r Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg. Meinciwr Anrhydeddus o'r Deml Fewnol; Ymddiriedolwr Rhodes; Cymrawd Anrhydeddus y Gymdeithas Uwch Astudiaethau Cyfreithiol; Pennaeth Coleg St Anne, Rhydychen, a Dirprwy-Is Ganghellor Prifysgol Rhydychen. Cadeirydd yr Awdurdod Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg o 1994 i 2002. Ganed ym 1943.

**Syr Richard Eyre** CBE Llywodraethwr y BBC o 1995 i fis Mai 2003, pan ymddeolodd oherwydd pwysau gwaith arall. Roedd yn aelod o'r Pwyllgor Cwynion am Raglenni. Cyfarwyddwr ac awdur theatr, ffilm a theledu llawrydd. Cyfarwyddwr a chyd-awdur y ffilm *Iris*, a wobrwywyd yn yr Oscars. Ar ôl deng mlynedd yn y theatr ranbarthol yng Nghaerlŷr, Caeredin a Nottingham, bu'n Gyfarwyddwr y Theatr Genedlaethol Frenhinol o 1988 i 1997, gan gyfarwyddo 27 o gynyrchiadau a chynhyrchu mwy na 100 o gynyrchiadau pellach. Cynhyrchydd y gyfres *Play For Today* ar gyfer Teledu'r BBC o 1978 i 1981. Ganed ym 1943.

**Dermot Gleeson** Llywodraethwr y BBC ers mis Tachwedd 2000. Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Eiddo. Cadeirydd Gweithredol M J Gleeson Group Limited. Un o gyfarwyddwyr y Gorfforaeth Dai o 1990 i 1995 ac o Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu o 1995 i 2002. Cyn Bennaeth Is-adran Materion Cartref Adran Ymchwil y Blaid Geidwadol ac aelod o Gabinet Christopher Tugendhat yn y Comisiwn Ewropeaidd o 1977 i 1979. Ganed ym 1949.

**Y Farwnes Hogg** Llywodraethwr y BBC ers mis Chwefror 2000. Aelod o'r Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Mae Sarah Hogg yn Gadeirydd anweithredol 3i Group plc a Frontier Economics. Mae'n gyfarwyddwr GKN, Carnival Corporation a Carnival plc. Mae hefyd yn aelod o Bwyllgor Materion Economaidd Tŷ'r Arglwyddi. Fe'i gwnaed yn arglwyddes am oes ym 1995. Ganed ym 1946.

**Yr Athro Merfyn Jones** Llywodraethwr Cenedlaethol y BBC yng Nghymru ers mis Ionawr 2003. Aelod o Bwyllgor y Cynghorau a'r Cyrff Ymgynghorol. Hanesydd a darlledwr. Athro Hanes Cymru ym Mhrifysgol Cymru, Bangor, yn arbenigo mewn hanes modern a chyfoes cymdeithas a gwleidyddiaeth yng Nghymru. Ers 1998 bu'n Ddirprwy-Is Ganghellor y Brifysgol. Mae hefyd yn awdur nifer o lyfrau ac erthyglau. Ganed ym 1948.

**Yr Athro Fabian Monds** CBE Llywodraethwr Cenedlaethol y BBC yng Ngogledd Iwerddon ers mis Awst 1999. Aelod o'r Pwyllgor Cwynion am Raglenni, y Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg a Phwyllgor y Cynghorau a'r Cyrff Ymgynghorol. Arbenigwr mewn systemau gwybodaeth a chyfathrebu. Cadeirydd Invest Northern Ireland a Chanolfan Trawma a Thrawsnewid Gogledd Iwerddon yn Omagh. Cyn Ddirprwy-Is Ganghellor Prifysgol Ulster. Un o sylfaenwyr Medical and



Scientific Computer Services Limited a WesternConnect Limited. Ganed ym 1940.

**Y Fonesig Pauline Neville-Jones DCMG** Llywodraethwr Rhyngwladol y BBC ers mis Ionawr 1998. Yn cadeirio'r Pwyllgor Archwilio a Grŵp Ymgynghorol World Service y Llywodraethwyr. Aelod o'r Pwyllgor Cwynion am Raglenni a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Cadeirydd QinetiQ Group plc a Chadeirydd y Cyngor Ymgynghorol ar Sicrwydd Gwybodaeth. O 1996 i 2000 gweithiodd i farchnadoedd NatWest a'i gangen ymgynghorol gorfforaethol, Hawkpoint Partners. Yn aelod gyrfa o'r Gwasanaeth Llysgenhadol o 1963 i 1996, yn cynnwys secondiad pum mlynedd ym Mrwsel a thair blynedd fel Cyfarwyddwr Gwleidyddol yn y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad. Ganed ym 1939.


**Angela Sarkis CBE** Llywodraethwr y BBC ers mis Hydref 2002. Aelod o'r Pwyllgor Cwynion am Raglenni. Ymgynghorydd annibynnol; cyfarwyddwr anweithredol Bwrdd Gwasanaethau Cywirol y Swyddfa Gartref; aelod o Gomisiwn Penodiadau Interim Tŷ'r Arglwyddi, a Chynghorydd i'r Adran Addysg a Sgiliau ar reoli baich gwaith athrawon. Cadeirydd Project Amrywiaeth yr NCVO; aelod o Banel Ymgynghorol Uned Cymunedau Gweithgar y Swyddfa Gartref, ac Is-Lywydd y Gynghrair Efengylaidd Garibïaidd Affricanaidd. Prif weithredwr Cronfa Drefol yr Eglwysi o 1996 i fis Ionawr 2002.

Bwrdd y Llywodraethwyr, o'r chwith

*Yn sefyll:* Yr Arglwydd Ryder, Y Farwnes Hogg, Yr Athro Fabian Monds, Dermot Gleeson, Angela Sarkis, Syr Robert Smith

*Yn eistedd:* Y Fonesig Ruth Deech, Ranjit Sondhi, Gavyn Davies, Yr Athro Merfyn Jones, Y Fonesig Pauline Neville-Jones

*Isod:* Syr Richard Eyre



O 1996 i fis Gorffennaf 2002 roedd yn un o ymddiriedolwyr *Plant mewn Angen y BBC*. Ganed ym 1955.

**Syr Robert Smith** Llywodraethwr Cenedlaethol y BBC yn yr Alban ers mis Awst 1999. Cadeirydd y Pwyllgor Cwynion am Raglenni ac aelod o'r Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Eiddo a Phwyllgor y Cynghorau a'r Cyrff Ymgynghorol. Cadeirydd ymddiriedolwyr *Plant mewn Angen y BBC*. Cadeirydd Weir Group o fis Gorffennaf 2002 ac aelod o Fwrdd y Cyngor Prydeinig. Cyn Brif Weithredwr ac Is-Gadeirydd Deutsche Asset Management; un o gyfarwyddwyr yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, a Chadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfeydd Cenedlaethol yr Alban. Ganed ym 1944.

**Ranjit Sondhi CBE** Llywodraethwr y BBC ers mis Awst 1998 gyda chyfrifoldeb arbennig dros Ranbarthau Lloegr. Cadeirydd Fforwm Cenedlaethol Lloegr a Phwyllgor y Cynghorau a'r Cyrff Ymgynghorol ac aelod o'r Pwyllgor Cwynion am Raglenni. Uwch Ddarlithydd yng Ngholeg Westhill, Prifysgol Birmingham. Un o ymddiriedolwyr yr Oriel Genedlaethol a Chadeirydd Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Heart of Birmingham. Cyn Ddirprwy Gadeirydd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a chyn aelod o'r Awdurdod Darlledu Annibynnol a'r Awdurdod Radio. Ganed ym 1950.

*__Roger Jones OBE__ oedd Llywodraethwr Cenedlaethol y BBC yng Nghymru o fis Rhagfyr 1996 tan y daeth cyfnod ei swydd i ben ym mis Rhagfyr 2002.*

*Bu __Syr Anthony Young__ yn un o Lywodraethwyr y BBC o fis Awst 1998 tan y daeth cyfnod ei swydd i ben ym mis Gorffennaf 2002.*

# Rhedeg y BBC

Mae'r adroddiad hwn yn egluro sut y cyflwynodd y BBC ei gylch gwaith cyhoeddus yn 2002/2003. Mae Bwrdd Llywodraethwyr y BBC yn sicrhau ei fod yn gwneud hynny drwy bennu amcanion allweddol, cymeradwyo strategaethau a pholisïau a monitro ac asesu perfformiad.


Nodir asesiad y Llywodraethwyr o berfformiad y BBC yn erbyn yr amcanion a bennwyd ganddynt ar gyfer 2002/2003 ar dudalennau 8 i 15, a cheir adroddiad ar sut y cyflwynodd sianelau a gwasanaethau'r BBC ddibenion cyhoeddus y BBC yn ystod y flwyddyn ar dudalennau 20 i 53.

Mae'r Llywodraethwyr hefyd yn diogelu annibyniaeth y BBC ac yn sicrhau cydymffurfiad ac atebolrwydd i'r cyhoedd. Mae masnachu teg, rheolaeth effeithiol a chydymffurfiad â rhwymedigaethau cyfreithiol a chanllawiau golygyddol yn feysydd allweddol; ceir adroddiadau manwl arnynt ar dudalennau 68 i 81 ac yn yr adran Ffeithiau a ffigurau darlledu ar dudalennau 122 i 131. Mae datganiadau ariannol archwiliedig y BBC ar dudalennau 85 i 121. Mae'r Llywodraethwyr hefyd yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o farn cynulleidfaoedd. Eleni roedd y ffocws ar chwaeth a gwedduster, perthnasedd darllediadau newyddion a materion cyfoes y BBC, sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i farn cynulleidfaoedd Asiaidd, a dibenion cyhoeddus BBCi. Ceir adroddiadau ar dudalennau 58 i 63.

Y Llywodraethwyr sy'n penodi'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a, chydag ef, aelodau eraill o'r Pwyllgor Gweithredol, a hwy sy'n penderfynu ar eu cydnabyddiaeth. Nodir polisi cydnabyddiaeth y Pwyllgor Gweithredol yn fanwl ar dudalen 76.

Y Cyfarwyddwr Cyffredinol yw prif weithredwr a phrif olygydd y BBC. Caiff gweithrediadau'r BBC eu rhedeg gan gyfarwyddwyr naw is-adran rhaglennu a darlledu a phum gwasanaeth proffesiynol, a chan brif weithredwyr gwasanaethau masnachol y BBC. Maent yn atebol i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a hwy, gyda'i gilydd, sy'n ffurfio'r Pwyllgor Gweithredol. Mae hwn yn cynnig amcanion allweddol, yn datblygu strategaeth a pholisïau yng ngoleuni'r amcanion a bennir, ac yn gweithredu'r holl wasanaethau o fewn y fframwaith strategol a pholisi a gymeradwywyd gan y Llywodraethwyr.

# Crynodeb o’r flwyddyn




Eglurir y ffigurau hyn yn fanylach ar dudalen 95

Yn 2002/2003:

- Gwariodd y BBC £346miliwn ychwanegol ar raglenni a gwasanaethau yn y DU o ganlyniad i incwm ac arbedion cynyddol
- Gwellodd y BBC y broses o gasglu ffi’r drwydded a gostyngodd yr achosion o osgoi talu’r ffi, gan greu cynnydd o £54miliwn mewn incwm
- Ariannodd y BBC fwy o raglenni cyhoeddus drwy elw arian parod o £124miliwn o’i is-gwmnïau masnachol, a lwyddodd hefyd i gyfrannu at ostyngiadau o ran costau cymorth
- Gostyngodd y BBC ei orbenion i 13% o 24% dair blynedd yn ôl
- Gwariodd y BBC 86% o’r gwariant ar raglenni a ddarlledwyd ar wasanaethau analog

**Gwariant ar raglenni yn ôl genre**




**Gwariant ar deledu a radio lleol yn y Gwledydd a Rhanbarthau Lloegr**

Yn ogystal â’r gwariant lleol a nodir isod, gwariwyd £325miliwn y tu allan i Lundain ar deledu a radio rhwydwaith






FYI...

---------------------------------------

Yn 2002/2003 llwyddodd y BBC i gyflawni'r canlynol:

> Gwneud cynnydd wrth ymestyn amrywiaeth a natur arbennig ei ddarllediadau gyda strategaethau newydd ar gyfer y celfyddydau, gwleidyddiaeth, materion cyfoes a chrefydd

> Cyflawni'r sgôr cymeradwyaeth uchaf erioed sef 7.1 allan o 10 ym mis Ionawr 2003 a chyfartaledd o 6.8 yn ystod y flwyddyn (gweler y siart cymeradwyaeth isod)

> Cwblhau ei bortffolio o wasanaethau, gan lansio'r 4 gwasanaeth a oedd yn weddill o'r 9 gwasanaeth digidol newydd

> Darparu mynediad rhad a hawdd i gynulleidfaoedd i wasanaethau daearol digidol drwy ei bartneriaeth yn Freeview - erbyn diwedd mis Mawrth roedd manwerthwyr wedi gwerthu dros 680,000 o flychau Freeview a gallai dros 1.4 miliwn o gartrefi dderbyn darllediadau DTT

> Cyrraedd 92.7% o'r boblogaeth gyda'i wasanaethau. Treuliodd pobl gyfartaledd o 21 awr 16 munud yr wythnos gyda theledu a radio'r BBC – sef 44.4% o'u hamser gwylio a gwrando a 24.2% o'u hamser hamdden (gweler y siart cyrhaeddiad wythnosol isod)

> Denu cyfartaledd o 38% o'r holl oedolion yn y DU sy'n defnyddio'r rhyngrwyd i BBCi ar y we, gyda'r ganran uchaf erioed ym mis Mawrth 2003, sef 43%. Parhaodd nifer defnyddwyr teledu rhyngweithiol BBCi i gynyddu hefyd (gweler siart BBCi isod)


> Cynnal cyfran BBC One o'r gwylwyr, cynyddu cyfran BBC Two, a chynnal perfformiad eithriadol Radio'r BBC o ran nifer y gynulleidfa (gweler y siart cyfran isod). Cadwodd BBC Radio 2 ei statws fel gorsaf radio fwyaf poblogaidd y DU, gyda thros 13 miliwn o wrandawyr yr wythnos a chyfran o 15.7% ar ddiwedd y flwyddyn

> Denu cyfartaledd o 5.7 miliwn o wylwyr ar gyfer newyddion teledu rhanbarthol am 6.30pm – y rhaglen newyddion fwyaf poblogaidd yn y DU

> Sefydlu isadran Newyddion Byd-eang, gan ddod â holl wasanaethau newyddion rhyngwladol y BBC ynghyd.



## Cymeradwyaeth y gynulleidfa i'r BBC





- 2002/2003
- 2001/2002

Ffynhonnell: Arolwg darlledu cenedlaethol

Gweler y rhestr termau ar dudalen 133 am esboniad o'r mesuriadau a ddefnyddiwyd yma


## Cyrhaeddiad wythnosol gwasanaethau'r BBC




- Teledu 2002/2003
- Teledu 2001/2002
- Radio 2002/2003
- Radio 2001/2002
- Teledu a radio wedi'u cyfuno 2002/2003
- Teledu a radio wedi'u cyfuno 2001/2002

Ffynhonnell: BARB, TNS/Infosys, RAJAR, 4+ oed, cyrhaeddiad wythnosol 15 munud ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn


## Y defnydd o BBCi ar y rhyngrwyd a'r defnydd o deledu rhyngweithiol




- BBCi ar y rhyngrwyd 2002/2003[1]
- BBCi ar y rhyngrwyd 2001/2002
- Teledu rhyngweithiol 2002/2003[2]
- Teledu rhyngweithiol 2001/2002

Ffynhonnell: [1]BMRB Access (cyrhaeddiad misol)
[2]Astudiaeth olrhain teledu rhyngweithiol (cyrhaeddiad misol)

## Cyfran y BBC o'r gwylio a'r gwrando




- Cyfanswm Teledu'r BBC (gan gynnwys sianelau digidol) 2002/2003
- Cyfanswm Teledu'r BBC (gan gynnwys sianelau digidol) 2001/2002
- BBC One 2002/2003
- BBC One 2001/2002
- BBC Two 2002/2003
- BBC Two 2001/2002
- Cyfanswm Radio'r BBC 2002/2003
- Cyfanswm Radio'r BBC 2001/2002

Ffynhonnell: BARB, TNS/Infosys, RAJAR, 4+ oed, cyfran ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn









# Asesiad y Llywodraethwyr o berfformiad

Fel Llywodraethwyr, ni sy'n gyfrifol am farnu pa mor effeithiol y mae'r BBC wrth gyflawni ei gylch gwaith cyhoeddus. Rydym yn monitro'r broses o gyflawni'r amcanion allweddol a bennwyd gennym y llynedd ac yn asesu perfformiad pob un o wasanaethau'r BBC yn erbyn Datganiadau o Bolisi Rhaglenni a gyhoeddir. Fe'n cynghorir gan rwydwaith o gyrff ymgynghorol ledled y DU ac fe'n cynorthwyir gan dîm o bobl broffesiynol, sy'n annibynnol ar reolwyr y BBC. Dyma ein hasesiad o flwyddyn o berfformiad cryf gan y BBC.

**Amcan 1: Ategu cylch gwaith cyhoeddus y BBC drwy ehangu amrywiaeth ac ansawdd ei wasanaethau radio a theledu, gyda ffocws ar ddarlledu mwy o raglenni cofiadwy, effaith uchel, yn arbennig ym maes y celfyddydau a materion cyfoes.**

Eleni darlledwyd rhaglennu arbennig, effaith uchel a chofiadwy ar draws amrywiaeth estynedig gwasanaethau'r BBC ar radio a theledu. Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gennym yn y gorffennol, mae rhaglennu celfyddydol ar y teledu yn dangos arwyddion cryf o adfywiad. Rydym hefyd yn falch o weld mentrau newydd ym maes materion cyfoes. Y prif heriau nawr yw cyflawni ansawdd cyson ar draws holl gynnwys y BBC a datblygu portffolio integredig, cryf o wasanaethau sy'n ategu ei gilydd.

Bu'n flwyddyn ardderchog i radio rhwydwaith. Enillodd BBC Radio 4 wobr Sony am Orsaf y Flwyddyn ac am y tro cyntaf denodd gynulleidfa o fwy na 10 miliwn. Bu'n flwyddyn arbennig o dda hefyd i BBC Radio Five Live gyda Chwpan pêl-droed y Byd a Gemau'r Gymanwlad ym Manceinion. Yn gyffredinol, daeth y flwyddyn i ben i Radio'r BBC gyda chyrhaeddiad cynulleidfa wythnosol o 67.9% a chyflawnodd sgôr cymeradwyaeth o 7.8 allan o ddeg ar gyfartaledd ar draws pob un o'i wasanaethau.

Dair blynedd yn ôl, cymeradwywyd cynnydd mawr gennym yn yr arian a fuddsoddir yn Nheledu'r BBC yn benodol er mwyn gweithredu ar yr amcan hwn ac mae'r amserlenni yn ystod y flwyddyn wedi adlewyrchu effaith y cynnydd hwnnw. Cyflawnwyd gwelliannau gwirioneddol yn amserlenni BBC One a BBC Two gyda pherfformiadau cryf ar draws genres. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd *Great Britons, Moses*, *The Fall of Milosevic*, *The Lost Prince* gan Stephen Poliakoff, *The Gathering Storm* a *The Office*, yn ogystal â darllediadau eithriadol o ddigwyddiadau byw fel dathliadau'r Jiwbilî.

Cymeradwywyd strategaeth newydd gennym ar gyfer y celfyddydau ar y teledu er mwyn adeiladu ar rai darllediadau effaith uchel eleni gan gynnwys rhaglenni ar Turner, Jane Austen, George Eliot a Vivaldi yn ogystal â *Rolf on Art* a *Dickens* gan Peter Ackroyd. Eleni ceir mwy o ganlyniadau cadarnhaol ar y sgrîn, gan gynnwys maes celfyddydol newydd, *Imagine*, ar BBC One.

Gwelwyd adfywiad ym maes rhaglennu materion cyfoes yn ystod y flwyddyn gyda llwyddiannau arwyddocaol o fewn meysydd hir-sefydledig fel *Panorama* ac arbrofi mewn fformatau newydd fel *Real Story*. Canolbwyntiodd diwrnodau digwyddiadau ar draws gwasanaethau'r BBC ar droseddau ac Irac gan gyrraedd cyfanswm o fwy nag 20 miliwn o bobl. Caiff cyfres materion cyfoes newydd yn ystod oriau brig ei lansio yn ddiweddarach eleni ar BBC Two. Cafwyd cryn lwyddiant ar y radio hefyd gyda *File on Four: Mothers of Dead Babies, The Cuban Missile Crisis, With Us or Against Us* a *The Making of Saddam*.

Mae'r argymhellion o'r arolwg gwleidyddiaeth a gynhaliwyd y llynedd bellach yn cael eu gweithredu ac, er ei bod yn rhy gynnar i farnu eu llwyddiant cyffredinol, rydym yn fodlon ag uchelgais y rhaglennu newydd i ddenu cynulleidfa ehangach i wleidyddiaeth. Mae rhai o'r arwyddion cynnar yn galonogol gyda'r *Politics Show* yn cofnodi cynnydd o 25% yn ei chynulleidfa o'i gymharu â'i rhagflaenydd, *On the Record*.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, rydym yn disgwyl i BBC One a BBC Two gydweithio'n agosach wrth amserlennu er mwyn osgoi rhaglenni o'r un genre yn cael eu darlledu ar y ddwy sianel ar yr un pryd. Yn ogystal, croesawn y ffaith y bydd BBC Two yn newid ei chymysgedd yn ystod oriau brig er mwyn cynnig arlwy mwy arbennig, yn bennaf drwy leihau nifer y rhaglennu ffordd o fyw.

**Amcan 2: Atgyfnerthu gwasanaethau digidol y BBC, er mwyn sicrhau bod y portffolio cyffredinol yn cynnwys rhywbeth o werth i bawb, ei fod yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu rhyngweithiol a'i fod yn helpu i gynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar wasanaethau digidol.**

Yn dilyn y gwaith o atgyfnerthu gwasanaethau digidol y BBC, a fydd, yn ein barn ni, yn helpu i gynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar radio a theledu digidol, mae angen rhoi sylw nawr i sicrhau bod y portffolio yn gweithio'n effeithiol i gynulleidfaoedd, ac i ddatblygu amrywiaeth y cyfleoedd dysgu rhyngweithiol ar y teledu ymhellach.






Chwith pellaf: Niclas Fasth yn anelu pyt yn y 34ain Cwpan Ryder yn y Belfry.

Chwith: Portreadodd Rolf Harris ei hun fel Toulouse-Lautrec yn ei ail gyfres o *Rolf on Art*.

Dde: Allan Little yn Havana lle yr ymchwiliodd i safbwyntiau Sofietaidd a Chiwbaidd stori'r argyfwng arfau ar ei 40ain mlwyddiant i BBC Radio 4.



Bu 2002/2003 yn flwyddyn nodedig wrth i elfennau terfynol y portffolio digidol a ddatblygwyd gan y BBC yn 2000 ac a gymeradwywyd wedi hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol gael eu lansio. Rydym yn cymeradwyo'r ymdrech sylweddol a wnaed i lansio BBC Three a thri rhwydwaith radio digidol er mwyn cwblhau arlwy digidol y BBC o wyth rhwydwaith teledu a deg rhwydwaith radio.

Cafwyd rhai llwyddiannau amlwg. Mae gwasanaethau teledu digidol yn unig y BBC bellach yn cyrraedd 35% o gartrefi digidol o'i gymharu â 23% y llynedd, ac mae cynulleidfa fwy na'r lefel a ragwelwyd eisoes yn gwrando ar y rhwydweithiau radio digidol gyda gwrandawyr yn gwrando drwy deledu digidol a'r rhyngrwyd. Mae CBeebies, a lansiwyd ym mis Chwefror 2002, wedi ymsefydlu fel y brif sianel i blant yn y DU. Er bod gwasanaethau eraill wedi cymryd yn hirach i ymsefydlu, mae'r sianelau hyn yn cael eu lansio mewn marchnad gystadleuol a bydd angen sawl blwyddyn arnynt i ddatblygu cynulleidfaoedd. Byddwn yn monitro eu cost a'u perfformiad yn ofalus wrth iddynt ddatblygu ymhellach.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn ddiwethaf fu ymrwymiad y BBC i ddyfodol teledu daearol digidol drwy lansio Freeview. Gwerthwyd dros 680,000 o flychau daearol digidol gan fanwerthwyr rhwng adeg lansio Freeview ym mis Hydref a diwedd mis Mawrth, gan ddod â chyfanswm nifer y cartrefi sy'n gallu derbyn teledu daearol digidol i 1.4 miliwn.


Gwnaed cynnydd calonogol wrth ddatblygu gwasanaethau dysgu rhyngweithiol. Lansiwyd 37 o wasanaethau rhyngweithiol newydd yn seiliedig ar ddarllediadau teledu fel *The Life of Mammals*, o'i gymharu â phump y flwyddyn flaenorol. Llwyddodd treial teledu band eang y BBC yn Hull i ddangos sut y gellir cyflwyno gwasanaethau teledu lleol eu naws mewn amgylchedd digidol. Daw'r Cwricwlwm Digidol, gwasanaeth cwricwlwm ar-lein y BBC, a gymeradwywyd gan y Llywodraeth ym mis Ionawr, â'n huchelgeisiau dysgu digidol i'w llawn ffrwyth.

Rydym yn edrych ymlaen at arolwg y Llywodraeth o bwrpas a rôl gwasanaethau ar-lein y BBC yng ngoleuni eu llwyddiant hyd yma.

Mae gwella ymwybyddiaeth a chynulleidfaoedd ar gyfer y sianelau digidol newydd yn flaenoriaeth, ac am y rheswm hwn rydym wedi cynnwys elfen ychwanegol yn yr amcan hwn ar gyfer y flwyddyn nesaf. Amcan 2 (2003/2004): Atgyfnerthu gwasanaethau digidol y BBC gyda'r nod o ddarparu rhywbeth o werth i bob cynulleidfa ddigidol. Yn benodol darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu rhyngweithiol a help i gynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar ddigidol







Dde uchod: Ross Boatman fel JMW Turner mewn bywgraffiad wedi'i ddramateiddio am arlunydd tirlun gorau Prydain.

Dde: Tamzin Outhwaite a Danny Young yn y ddrama *Out of Control*, rhan o'r diwrnod *Cracking Crime*.

Chwith: Denodd gwefan *The Life of Mammals* 300,000 o ymweliadau â thudalennau yr wythnos.

# Asesiad y Llywodraethwyr o berfformiad

drwy ehangu argaeledd y gwasanaethau a chanolbwyntio ar gomisiynu ac amserlennu traws-sianel.

**Amcan 3: Denu cynulleidfaoedd ifancach i wasanaethau'r BBC drwy ddatblygu rhaglenni a chynnwys mentrus ac arloesol gyda ffocws penodol ar wneud newyddion a materion cyfoes y BBC yn fwy perthnasol a diddorol i'r grŵp hwn heb gyfaddawdu ymrwymiad y BBC i ohebu seneddol.**

Lansiwyd gwasanaethau a rhaglennu newydd ar gyfer gwylwyr iau a byddwn yn monitro cynnydd y mentrau hyn yn ofalus yn ystod y flwyddyn nesaf.

Gwnaed ymdrech sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i geisio gwyrdroi'r gostyngiad hir dymor yn nifer y bobl o dan 35 oed sy'n defnyddio gwasanaethau'r BBC drwy lansio dau wasanaeth newydd wedi'u targedu, sef BBC Three ac 1Xtra. Mae'r arwyddion cynnar yn addawol. Mae BBC Three, sydd ag ymrwymiadau cyhoeddus sylweddol, eisoes yn cyrraedd cynulleidfa ehangach na BBC Choice a ddisodlwyd ganddi ym mis Chwefror 2003. Rydym yn ymrwymedig i roi amser i'r sianel newydd hon arbrofi gyda chynnwys a fformatau a chynyddu cynulleidfaoedd.

Dechreuwyd ar waith i ddenu cynulleidfaoedd ifancach i newyddion a materion cyfoes fel rhan o gylch gwaith cyhoeddus y BBC. Mae'r genre yn amlwg wrth wraidd pob gwasanaeth a dargedwyd at y gynulleidfa hon, gan eu gosod ar wahân i ddewisiadau masnachol amgen. Mae'r BBC yn arbrofi gyda fformatau arloesol ar gyfer *The News Show* ar BBC Three a *TX* ar lXtra gan ddefnyddio'r profiad a gafwyd ar *Newsbeat* ar BBC Radio 1. Wedi dweud hynny, mae pobl mewn gweithdai cyhoeddus a gynhaliwyd gennym ledled y wlad yn aml yn nodi eu bod yn poeni mwy am berthnasedd y cynnwys na fformatau. Yn ystod y flwyddyn nesaf gallwn benderfynu p'un a yw'r safbwyntiau hyn yn cael eu profi gan ymddygiad.

Mae adran Newyddion ar-lein y BBC bellach yn rhan hanfodol o bortffolio newyddion a materion cyfoes y BBC ac mae'n llwyddiannus iawn wrth gyrraedd pobl ifancach. Wrth i gynulleidfaoedd ifancach ymwrthod â chyfryngau traddodiadol, mae cyfrifoldeb gan y BBC i fanteisio ar botensial technolegau newydd i'w denu drwy gyfryngau newydd.

Mae'n rhy gynnar i farnu p'un a yw'r BBC yn llwyddo i ddenu cynulleidfaoedd ifancach i raglennu gwleidyddol. Ar ôl i ni gymeradwyo strategaeth wleidyddiaeth newydd ym mis Medi 2002, edrychwn ymlaen at raglennu newydd wedi'i dargedu at bobl o dan 35 oed yn 2003/2004. Rydym yn cydnabod maint yr her sy'n wynebu'r BBC fel gweddill byd y cyfryngau wrth geisio cael pobl ifanc i ymddiddori mewn gwleidyddiaeth ond mae dyletswydd gyhoeddus ar y BBC i ddyfalbarhau.

Mae darllediadau newydd a sefydledig, fel *The Daily Politics* a *This Week*, wedi galluogi'r BBC i barhau â'i ymrwymiad i ohebu seneddol.

Gan edrych i'r dyfodol, byddwn yn monitro datblygiad y gwasanaethau, y darllediadau a'r mentrau newydd a ddatblygwyd yn ofalus er mwyn ceisio cyflawni'r amcan hwn. Mae angen i'r rhaglennu fod yn berthnasol ac yn ddiddorol i'r gynulleidfa hon tra'n cynnal safonau golygyddol y BBC.

**Amcan 4: Parhau i chwilio am ffyrdd newydd o ddenu cynulleidfaoedd o leiafrifoedd ethnig y DU, drwy wasanaethau prif ffrwd a gwasanaethau wedi'u targedu.**

Caiff gwasanaethau a mentrau newydd eu rhoi ar waith, ond bydd angen amser ac ymdrech farchnata gynyddol i wireddu'r buddiannau.

Mae'r BBC wedi lansio dau wasanaeth radio cenedlaethol wedi'u hanelu at leiafrifoedd ethnig, carfan o'r gynulleidfa y mae'r BBC yn ei chael hi'n anos ei chyrraedd drwy rai o'i rwydweithiau radio sefydledig. Chwe mis ar ôl ei lansio fel gwasanaeth digidol cenedlaethol, mae BBC Asian Network bron wedi treblu ei gyrhaeddiad wythnosol i 433,000. Er na ellir mesur cynulleidfaoedd 1Xtra yn gywir eto, mae tystiolaeth yn awgrymu bod y rhwydwaith eisoes yn denu cynulleidfa eang o wrandawyr cerddoriaeth ddu ifanc drwy'r rhyngrwyd a theledu digidol. Un o heriau parhaus mwyaf Radio'r BBC yw gwasanaethu gwrandawyr o leiafrifoedd ethnig yn Llundain, ardal lle y mae 46% o leiafrifoedd ethnig y DU yn byw.

Mae wyth gwobr Race in the Media a saith gwobr EMMA yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn adlewyrchu ymdrechion y BBC i ddarparu ar gyfer buddiannau lleiafrifoedd ethnig mewn rhaglennu wedi'i dargedu yn ogystal ag amrywiaeth cynyddol o raglennu mwy prif ffrwd, fel *Babyfather* a'r tymor *Jamaica 40*. Gwnaed ymdrechion sylweddol gan y BBC eleni i ddeall cynulleidfaoedd o leiafrifoedd ethnig yn well ac rydym yn edrych ymlaen at fwy o ddarllediadau sy'n gwasanaethu buddiannau traws-ddiwylliant, gan gydnabod eu gwerth wrth hyrwyddo dealltwriaeth rhwng carfanau o gymdeithas. Ond rydym yn cydnabod hefyd yr her o daro'r cydbwysedd

Dde: Dathlu'r tymor *Jamaica 40* ar deledu a radio'r BBC.

Dde pellaf: BBC Radio 1 yn fyw, yn uchel ac yn denu torfeydd.





rhaglennu cywir er mwyn darparu ar gyfer yr amrywiaeth llawn o gynulleidfaoedd lleiafrifoedd ethnig.

Gwnaed cynnydd pellach wrth gynyddu portreadau lleiafrifoedd ethnig mewn rhaglennu prif ffrwd ar y teledu a'r radio. Daw cyfran sylweddol o gast *Holby City* o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, felly hefyd y cyflwynwyr ar yr holl wasanaethau sydd wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd ifancach, gan adlewyrchu proffil cymharol ifancach y boblogaeth lleiafrifoedd ethnig. Mae BBC Three yn ymrwymedig, drwy ei chylch gwaith, i ddod ag amrywiaeth o gyflwynwyr a thalent gwahanol eu natur i'r sgrîn.

Mae'n siomedig, er gwaethaf yr ymdrechion hyn, nad oes llawer o dystiolaeth hyd yma bod y BBC yn denu mwy o bobl o leiafrifoedd ethnig i'w ddarllediadau. Mae cyrhaeddiad a chyfran Radio'r BBC a Theledu'r BBC ymhlith lleiafrifoedd ethnig wedi gostwng ychydig. Gostyngodd cyrhaeddiad radio o 46.9% i 45.2% a chyrhaeddiad teledu o 78.6% i 78.3%. Erys ymwybyddiaeth o raglennu prif ffrwd a rhaglennu wedi'i dargedu y BBC ymhlith lleiafrifoedd ethnig yn isel. At hyn, mae'r BBC hefyd yn wynebu cystadleuaeth ddwys ar gyfer y gynulleidfa hon o'r amrywiaeth enfawr o wasanaethau masnachol niche. Rydym yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i newid amgyffrediadau o'r BBC a'i ddarllediadau ymhlith lleiafrifoedd ethnig. Mae'r ymgyrchoedd marchnata eleni wedi dangos y gellir gwella ymwybyddiaeth drwy roi cyhoeddusrwydd cliriach i raglennu a allai fod o ddiddordeb.

**Amcan 5: Sicrhau bod y BBC yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd ymhob un o wledydd a rhanbarthau'r DU.**

**Yn dilyn ymgynghori â Chynghorau Darlledu Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a Fforwm Cenedlaethol Lloegr, down i'r casgliad fod y strategaeth y cytunwyd arni gyda hwy yn ystod hydref 2000 yn galluogi'r BBC i gyflwyno rhaglennu a gwasanaethau sylweddol well i gynulleidfaoedd ledled y DU.**

Cynyddodd cymeradwyaeth y gynulleidfa i'r BBC yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac ar draws rhanbarthau Lloegr, gyda'r gwelliannau yn arbennig o amlwg yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Nododd ein cyrff ymgynghorol annibynnol eu bod o'r farn bod y gwelliant o ran cymeradwyaeth yn deillio'n uniongyrchol o'r gwariant cynyddol ar raglennu a gwasanaethau wedi'u targedu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Atgyfnerthwyd apêl BBC One yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban drwy fuddsoddi mwy mewn rhaglenni nad ydynt yn ymwneud â'r newyddion, gan gynnwys drama a chomedi sy'n adlewyrchu diwylliant lleol. Darparodd parth wedi'i frandio ar fersiwn digidol BBC Two yng Nghymru a Gogledd Iwerddon (BBC 2W a BBC Two NI) leoliad ar gyfer creadigrwydd ac arbrofi.

Lansiwyd *Inside Out*, rhaglen materion cyfoes ranbarthol newydd ar gyfer BBC One, ymhob un o 11 o Ranbarthau Lloegr ym mis Medi 2002 ac mae wedi cynyddu'r gynulleidfa ar gyfer materion cyfoes rhanbarthol yn sylweddol. Mae ymrwymiad y BBC i raglennu newyddion rhanbarthol ar y teledu wedi'i ariannu'n dda yn parhau i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd. Rhagorodd rhaglenni newyddion lleol y BBC ar y gystadleuaeth leol ymhob ardal ond tair o'r DU. Mae diddordebau gwleidyddol cynulleidfaoedd rhanbarthol a chenedlaethol hefyd yn cael eu gwasanaethu gan yr elfen leol benodol 20 munud o hyd yn ystod y *Politics Show*, y rhaglen a ddisodlodd *On the Record* ar BBC One.

Mae perfformiad radio lleol a chenedlaethol wedi parhau yn gryf, gyda chyrhaeddiad cynulleidfa wythnosol yn cyrraedd 11.1 miliwn yn ystod y flwyddyn, ei ffigur cyrhaeddiad uchaf erioed. Roedd perfformiad BBC Radio Wales a BBC Radio Scotland yn arbennig o gryf, gyda BBC Radio Wales yn cyflawni ei gynulleidfa wythnosol uchaf erioed. Mae BBC Radio Ulster/Foyle yn dal i gyrraedd nifer cymharol uwch o wrandawyr radio nag unrhyw un o wasanaethau radio cenedlaethol y BBC.

Bu cysylltu â chymunedau lleol drwy gyfryngau newydd yn ffocws yn ystod y flwyddyn ac yn rhan allweddol o gylch gwaith cyhoeddus y BBC. Y llynedd cynyddodd nifer y safleoedd *Lleol i Mi* i 55, gan ddarparu presenoldeb gwefan leol i'r BBC ymhob ardal yn y DU a gwella cysylltiad y BBC â chymunedau lleol, yn arbennig y carfanau ifancach. Mae pedair Canolfan Agored newydd ac wyth bws BBC newydd yn cynnig hyfforddiant rhyngrwyd a chyfleoedd dysgu eraill hefyd yn helpu cymunedau lleol i gysylltu â'r BBC.

Mae'r BBC yn cydnabod ei rôl gyhoeddus wrth ddarparu rhaglennu iaith brodorol ac mae'n ymrwymedig i hynny. Gwelwyd cynnydd bach yng nghyrhaeddiad a chyfran BBC Radio Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unol â'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg a nodwyd gan Gyfrifiad 2001.



Chwith: *Reporting Scotland*, gyda (o'r chwith i'r dde) Sally Magnusson, Jackie Bird a David Robertson, yw rhaglen newyddion teledu fwyaf poblogaidd yr Alban.

Dde: Enillydd *Fame Academy* David Sneddon a Sinead Quinn a ddaeth yn ail yn dathlu drwy ganu deuawd.



Mae'r BBC yn wynebu nifer o heriau o hyd wrth geisio gwasanaethu pob cynulleidfa ledled y DU. Nodwn nad yw'r ymdrechion i ddatblygu drama leol yng Nghymru a'r Alban wedi llwyddo i ddenu cynulleidfaoedd cyson uchel hyd yma ond rydym yn cydnabod ei bod yn cymryd amser i'r mentrau hyn gyflwyno canlyniadau. Er bod darllediadau newyddion cenedlaethol a rhanbarthol y BBC yn perfformio'n gryf, o'u cymharu â ffynonellau newyddion eraill, bydd y gostyngiad cyffredinol mewn cynulleidfaoedd newyddion min nos yn her gynyddol ac edrychwn ymlaen at weld mentrau eraill i geisio mynd i'r afael â hyn.

**Amcan 6: Gwneud i'r BBC deimlo fel sefydliad mwy creadigol, cydweithredol a chyffrous, lle y mae pob aelod o'r staff yn deall ei bwrpas a'i werthoedd yn llawn.**

Y fenter *Making it Happen* a lansiwyd ar ddechrau 2002, gyda'r nod o gyflwyno newid diwylliannol sylfaenol o fewn y sefydliad dros nifer o flynyddoedd, fu'r prif sbardun ar gyfer cyflawni'r amcan hwn. Er gwaethaf yr anhawster wrth asesu newid diwylliannol, rydym yn fodlon bod her enfawr eisoes wedi'i bodloni o ran ennyn diddordeb a chyfranogiad yn y project hwn, a chynyddu dealltwriaeth y staff o bwrpas a gwerthoedd y BBC. Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor Gweithredol y bydd yn hanfodol cynnal momentwm yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn cyflawni canlyniadau amlwg i staff y BBC ac i'n cynulleidfaoedd gyda rhaglenni gwell byth.

Yn ystod y flwyddyn gwelwyd *Making it Happen* yn dechrau cael ei roi ar waith. Un llwyddiant cynnar oedd sefydlu *Upfront*, cwrs sefydlu arloesol bedwar diwrnod o hyd i bob aelod newydd o staff wedi'i anelu at ddeall pwrpas a gwerthoedd y BBC. Erbyn diwedd mis Mawrth 2003 roedd mwy na 2,250 o bobl wedi ei fynychu. Yn ogystal, drwy gyfres o sesiynau ymgynghori, cymerodd 10,000 o aelodau o staff ran wrth lunio gweledigaeth o ddyfodol y BBC. Daeth chwe gwerth craidd i'r amlwg yn ystod y broses hon sydd nid yn unig yn pwysleisio cydweithredu, parch a chreadigrwydd, ond sydd hefyd yn rhoi cynulleidfaoedd wrth wraidd yr hyn a wna'r BBC ac yn anelu at ansawdd a gwerth am arian, ac ymddiriedaeth. Rydym yn gadarn o blaid gweithredu'r gwerthoedd hyn fel ffordd o gyflwyno budd i'r bobl a wasanaethir gennym. Nodir y gwerthoedd yn llawn y tu mewn i glawr blaen yr adroddiad hwn.

Dengys ymchwil annibynnol gan MORI fod dealltwriaeth ymhlith staff y BBC o bwrpas a gwerthoedd y BBC wedi cynyddu flwyddyn ar flwyddyn. Dangosodd yr un arolwg fod cysylltiadau ar y lefel gorfforaethol gan uwch dîm y BBC hefyd yn sgorio'n uchel, gan roi'r BBC ymhlith y deg cwmni gorau mewn pedwar allan o chwech mesur. Fodd bynnag, dengys mesuriadau eraill yn ymchwil MORI, fel i ba raddau y mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac i ba raddau mae'r sefydliad yn cydweithredu, er ein bod yn gwella, bod llawer i'w gyflawni o hyd. Er mwyn i newid gwirioneddol ymsefydlu, bydd angen canlyniadau mwy amlwg o'r fenter *Making it Happen* yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Ar gyfer y flwyddyn nesaf, mae'r BBC wedi llunio cynllun newid mawr i weithredu'r gwerthoedd newydd ar draws y BBC. O gofio hyn, rydym wedi newid pwyslais yr amcan hwn i ganolbwyntio'n uniongyrchol ar *Making it Happen*. Amcan 6 (2003/2004): Gweithredu argymhellion *Making it Happen,* yn arbennig mewn perthynas â gwerthoedd ac arweinyddiaeth, er mwyn sicrhau bod y BBC yn sefydliad mwy creadigol, cydweithredol a chyffrous lle y mae pob aelod o'r staff yn deall ei bwrpas a'i werthoedd cyffredin yn llawn.

**Amcan 7: Sicrhau bod y BBC yn fwy cynrychioliadol o'r cynulleidfaoedd a wasanaethir ganddo. Yn arbennig:**

- **cyflymu'r cynnydd tuag at darged y BBC o sicrhau bod 10% o'i weithlu cyfan a 4% o'r uwch reolwyr yn dod o leiafrifoedd ethnig erbyn mis Rhagfyr 2003**
- **cynyddu cyfran y bobl ag anableddau sy'n gweithio i'r BBC**

Mae'r BBC ar y trywydd cywir i gyflawni'r targedau ar gyfer lleiafrifoedd ethnig ond mae angen mwy o ymdrech i wella cynrychiolaeth pobl ag anableddau.

Cyrhaeddodd y BBC ei darged o 4% ar gyfer lleiafrifoedd ethnig mewn swyddi uwch reolwyr flwyddyn yn gynnar ym mis Rhagfyr 2002, gan gyrraedd 4.3% erbyn mis Mawrth 2003, ac rydym yn obeithiol y gellir cynnal y cynnydd hwn. Mae cyfran y staff o leiafrifoedd ethnig ar raddau yn union islaw uwch reolwyr hyd yn oed yn uwch, sef 6.4% ym mis Mawrth 2003.

Cynyddodd cyfran y staff o leiafrifoedd ethnig ar draws y sefydliad cyfan i 9.5%, o 8.9% ar ddechrau'r flwyddyn, a gobeithir y bydd y BBC yn cyflawni'r targed o 10% erbyn mis Rhagfyr 2003. Gwnaed ymdrechion sylweddol i ddenu lleiafrifoedd ethnig i'r sefydliad drwy





Chwith: Nesáu at gymunedau lleol – *Straeon Digidol* yng Nghymru.

Dde: Hugh Dancy, Romola Garai a Hugh Bonneville yn y ddrama gyfnod glasur *Daniel Deronda*.

amrywiaeth eang o ymgyrchoedd recriwtio a mentrau allgyrch. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf trefnodd *The Writers' Room* feistr ddosbarthiadau ysgrifennu, cystadlaethau a phrojectau datblygu gyda chyw awduron o amrywiaeth eang o gefndiroedd ledled y wlad. Yn gyffredinol daeth 14% o'r ceisiadau i drydedd flwyddyn BBC Talent gan leiafrifoedd ethnig a'n gobaith yw y bydd hyn yn dwyn ffrwyth yn y dyfodol.

Mae cyfran y staff sy'n datgan anabledd wedi gostwng ychydig yn ystod y flwyddyn o 1.8% i 1.6% erbyn mis Mawrth 2003. Yn answyddogol, gallai'r ffigur hwn fod yn uwch gan y cydnabyddir yn gyffredinol bod rhai aelodau o staff sy'n anabl o dan ddiffiniad newydd y Llywodraeth yn amharod i ddatgan eu hanabledd. Er ein bod yn dal i ddisgwyl i'r rheolwyr wella cynrychiolaeth pobl anabl, ceir arwyddion calonogol o gynnydd. Mae gan y BBC strategaeth mynediad ar waith ac mae'n ceisio gwella ei brosesau ar gyfer recriwtio pobl ag anableddau drwy hysbysebion wedi'u targedu yn y wasg i'r anabl. Fe'i henwyd hefyd yn Bencampwr Amrywiaeth mewn Cyflogaeth yng Ngwobrau Amrywiaeth Prydain fis Tachwedd diwethaf ar gyfer ei gynllun lleoliadau gwaith i'r anabl, *Extend*.

Rydym yn cydnabod mai dim ond os bydd adrannau gwneud, comisiynu, amserlennu a marchnata rhaglenni'r BBC yn cynrychioli'r gynulleidfa a wasanaethir ganddynt y gall y BBC obeithio cysylltu â'i gynulleidfa gyfan. Dangosodd y tymor *What's Your Problem?* o ddramâu a rhaglenni dogfen am anabledd ar BBC Two sut y gellid mynd i'r afael â phroblemau cymhleth ar y sgrîn a darparodd lwyfan ar gyfer actorion anabl.

**Amcan 8: Parhau i gynyddu swm yr arian sydd ar gael i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus y BBC gyda ffocws penodol ar:**

- **cynyddu'r llif arian parod i'r BBC drwy wella'r broses o gasglu ffi'r drwydded**
- **cynyddu cyfraniad is-gwmnïau masnachol y BBC i'w wasanaethau cyhoeddus**
- **lleihau gorbenion ymhellach**
- **gwella effeithlonrwydd wrth gynhyrchu rhaglenni heb gyfaddawdu ansawdd y darllediadau**

Rydym yn fodlon bod camau mawr wedi eu cymryd i weithredu ar yr amcan hwn. Yn ystod y flwyddyn nesaf, mae angen meincnodi costau cynhyrchu rhaglenni er mwyn penderfynu a ellir cyflawni arbedion pellach. Rydym hefyd wedi cytuno gyda'r Pwyllgor Gweithredol i chwilio am ffyrdd i gynnal arolwg trwyadl o fesurau o berfformiad y BBC yn seiliedig ar effeithiolrwydd a gwerth am arian.

Gwnaed ymdrech sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gynyddu swm yr arian sydd ar gael i wneud rhaglenni. Gwnaed cynnydd wrth wella effeithlonrwydd y broses o gasglu ffi'r drwydded drwy gostau casglu is a lleihau'r achosion o osgoi talu i 7.2%. Yn ystod y flwyddyn ariannol, mae incwm gros ffi'r drwydded wedi cynyddu £126miliwn a chodwyd £54miliwn o'r swm hwnnw drwy well prosesau ar gyfer casglu ffi'r drwydded. Ym mis Ebrill 2000, pennwyd targed o 15% ar gyfer gorbenion fel cyfran o'r gwariant darlledu. Bodlonwyd y targed hwn ym mis Mawrth 2002. Eleni mae'r BBC wedi gostwng cost gorbenion ymhellach. Maent bellach yn cyfrif am 13% o'r gwariant darlledu o'i gymharu â 24% ym 1999.

Cyfrannodd is-gwmnïau masnachol y BBC £147miliwn yn ôl i'r BBC yn 2002/2003, o'i gymharu â £142miliwn yn y flwyddyn flaenorol, gyda £124miliwn ohono yn arian parod a £23miliwn wedi'i greu drwy arbedion mewn costau cymorth. Dim ond BBC World, gwasanaeth newyddion teledu byd-eang y BBC, sydd heb gynhyrchu llif arian parod cadarnhaol eto. Ei darged yw cyrraedd sefyllfa o adennill costau erbyn 2006.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi sut y dosbarthwyd incwm ffi'r drwydded y BBC – yn ôl genre ac yn ôl sianel. Bwriedir i lefel yr arian a ddarperir i'r gwasanaethau barhau yn gyffredinol debyg tan 2007. Mae'n amserol yn awr cynnal ymarfer meincnodi trwyadl i sicrhau bod cyfiawnhad dros gostau rhaglenni'r BBC mewn perthynas â gwerth ac ansawdd ei raglenni, o'i gymharu â darlledwyr eraill.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn ceisio mynd y tu hwnt i'r broses o fesur costau uned, gan ddatblygu ffyrdd dilys a dealladwy o fesur gwerth rhaglenni a gwasanaethau'r BBC i dalwyr y drwydded, fel defnyddwyr a dinasyddion, gan gyfeirio'n benodol at gylch gwaith cyhoeddus y BBC. Am y rheswm hwn, rydym wedi newid pwyslais yr amcan hwn i gynnwys effeithiolrwydd yn ogystal ag effeithlonrwydd. Amcan 8 (2003/2004): Parhau i gynyddu swm yr arian sydd ar gael i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus y BBC drwy wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ffordd y BBC o weithredu.

**Amcan 9: Ennill mwy o werthfawrogiad gan gynulleidfaoedd y DU i'r BBC fel sefydliad cyhoeddus agored, creadigol, y gellir ymddiried ynddo.**

Bu gwelliant yn statws y BBC gyda'i gynulleidfaoedd, wedi'i lywio gan werthfawrogiad o werthoedd a brand y BBC. Y BBC yn gyson yw'r darlledwr yr ymddiriedir ynddo fwyaf mewn arolygon



Chwith: Peidiwch â digalonni – rhoddodd y cynllun talent *The Writers' Room* gymorth i 5,000 o bobl.

Dde: Christopher Eccleston a Peter Kirby yn *Flesh and Blood*, rhan o dymor BBC Two ar anabledd, *What's Your Problem?*

Dde pellaf: *Sinners*, drama bwerus o Ogledd Iwerddon.





**cyhoeddus. Er y gwnaed llawer o waith i gael cydnabyddiaeth am ein natur cynyddol agored, erys rhywfaint o amheuaeth o hyd, yn arbennig ymhlith llunwyr barn, o ran p'un a yw'r BBC wedi gwneud digon.**

Parhaodd y duedd ar i fyny o ran cyfradd cymeradwyaeth y BBC ymhob cwr o'r DU yn 2002/2003. Ar raddfa o un i ddeg, sgoriodd y BBC gyfartaledd o 6.8 drwy'r flwyddyn, gan gyrraedd uchafbwynt o 7.1 ym mis Ionawr, y sgôr uchaf ers i'r mesur ddechrau. Yn ogystal, dangosodd ymchwil annibynnol i'r diwydiant gan yr ITC/BSC mai'r BBC yw'r darparwr newyddion yr ymddiriedir ynddo fwyaf. Gan ymateb i'r cwestiynau "Pwy rydych yn ymddiried ynddynt i ddweud y gwir?" ac "A yw darparwyr newyddion yn ddiduedd?", roedd sgôr y BBC yn uwch na'r holl ddarlledwyr eraill.

Cyflawnwyd llwyddiant sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wrth sicrhau bod y BBC yn fwy hygyrch i'r cymunedau a wasanaethir ganddo. Bu gwell deialog gyda chynulleidfaoedd drwy gyfres o seminarau a digwyddiadau atebolrwydd i'r cyhoedd a ganolbwyntiodd ar chwaeth a gwedduster, newyddion a materion cyfoes, ac ar BBCi. Cynyddodd nifer y cyhoedd a gysylltodd â'r BBC i bron 2.5 miliwn ac roedd 90% ohonynt o'r farn bod gwasanaeth cwsmeriaid y BBC yn ardderchog neu'n dda iawn. Mae lle i wella o hyd ar y ffordd yr ymdrinnir ag adborth a chwynion gan gynulleidfaoedd o fewn adrannau rhaglenni ac mae arolwg o'r broses hon bellach yn mynd rhagddo.

Moderneiddiwyd system llywodraethedd ac atebolrwydd y BBC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn sicrhau y gallwn gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddiol. Mae tîm annibynnol bellach yn ein cynorthwyo i fonitro'r ffordd y caiff cylch gwaith budd cyhoeddus y BBC ei gyflwyno. Bu'r Pwyllgor Dethol Seneddol yn craffu ar *Adroddiad Blynyddol* y llynedd ar y diwrnod y'i cyhoeddwyd, a'r BBC oedd yr unig gorff cyhoeddus i fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus agored o'r fath.

Rydym yn ymwybodol bod ymchwil ymhlith ASau yn datgelu nad oes gan bob plaid wleidyddol yr un lefel o hyder yn y BBC. Rydym yn derbyn adroddiadau rheolaidd sy'n darparu sicrwydd bod y BBC yn ddiduedd. Yn y dyfodol, bydd adroddiadau chwarterol mwy cynhwysfawr yn nodi pa mor ddiduedd y mae'r BBC yn ein galluogi i asesu'r mater hwn yn fanylach fyth (gweler tudalen 79).

Rhydd y BBC bwysigrwydd mawr i'w rôl fel dinesydd corfforaethol. Yn ystod 2002/2003, lansiwyd Canolfan Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol y BBC sy'n gyfrifol am gydlynu'r holl fentrau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ar draws y BBC. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiadau elusennol mawr fel *Plant mewn Angen* y BBC a *Sport Relief* yn ogystal ag amrywiaeth o waith cymunedol a gwirfoddol a wneir gan staff y BBC ledled y wlad. Am ragor o fanylion am weithgareddau'r Ganolfan Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol gweler tudalennau 64 i 66.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd y BBC yn wynebu rhai heriau allweddol, yn arbennig o ran amgyffrediadau o'i allu i fod yn agored. Bydd yn rhaid iddo sicrhau bod trefniadau llywodraethedd y BBC yn gweithio'n dda gyda'r rheoleiddiwr newydd Ofcom; gwella atebolrwydd y BBC i'r Senedd; cynyddu hygyrchedd, a dangos mewn ffordd fwy gweithredol fyth ein hymrwymiad i ddinasyddiaeth gorfforaethol.

**Amcan 10: Adeiladu ar effaith gwasanaethau newyddion byd-eang y BBC yn y flwyddyn ddiwethaf drwy strategaeth newyddion byd-eang wedi'i chydlynu ar draws radio, teledu a chyfryngau newydd.**

**Yn ystod 2002/2003, ffurfiwyd is-adran newydd, BBC World Service & Global News, gan ddod ag arlwy newyddion rhyngwladol gyfan y BBC ar radio, teledu ac ar-lein ynghyd o dan un tîm rheoli. Yn ogystal, cymeradwywyd strategaeth newyddion byd-eang wedi'i chydlynu gennym fel rhan greiddiol o enw da a brand y BBC dramor. Dangosodd darllediadau'r BBC o'r rhyfel yn Irac effaith gynyddol y strategaeth honno. Roedd ymateb yr holl wasanaethau rhyngwladol yn eithriadol, gan arwain at gynnydd mawr yng nghynulleidfaoedd BBC World, a chynnydd enfawr yn y defnydd o wefan ryngwladol y BBC.**

Dathlodd BBC World Service ei 70ain flwyddyn ym mis Rhagfyr gyda 14 awr o ddarlledu byw yn gorffen gyda darlith pen-blwydd arbennig gan Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, Kofi Annan. Roedd ei dystiolaeth bersonol yn adlewyrchu enw da BBC World Service fel y darlledwr rhyngwladol a gydnabyddir fwyaf am ymddiriedaeth a gwrthrychedd. Mewn marchnad radio cynyddol gystadleuol, mae BBC World Service wedi cadw ei 150 miliwn




Chwith: DJs Rampage yn stiwdios digidol newydd 1Xtra.

Dde: Meera Syal gyda Jimi Mistry yn *The Kumars at No.42*.



o wrandawyr wythnosol, ond, wrth i nifer y bobl sy'n gwrando ar donfedd fer ostwng, mae'n wynebu'r her barhaus o lunio mwy o bartneriaethau gydag ailddarlledwyr FM ledled y byd.

Gwelodd y gwasanaeth teledu masnachol, BBC World, gynnydd o 25% mewn dosbarthu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae bellach ar gael mewn 255 miliwn o gartrefi mewn dros 200 o wledydd a thiriogaethau, ac mae ar gael 24 awr mewn dros 100 miliwn o'r cartrefi hynny. Nod cynllun busnes newydd ar gyfer y sianel, a gymeradwywyd gan y Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg, yw i'r sianel gyrraedd sefyllfa lle mae'n adennill costau yn 2006. Eleni gweithredodd y sianel o fewn ei chyllideb gyda cholled o £15miliwn. Yn ystod y rhyfel yn Irac, cynyddodd BBC World ei ddosbarthiad yn ddramatig gan gynyddu ei enw da, yn arbennig yn yr Unol Daleithiau, ond, ar yr un pryd, collodd refeniw o ganlyniad i lai o hysbysebu yn ystod y gwrthdaro.

Lansiodd BBCi safle newyddion rhyngwladol fis Gorffennaf diwethaf, sy'n galluogi defnyddwyr ar-lein rhyngwladol i gael mynediad i straeon yn haws. Cynyddodd ymweliadau ar-lein dros 200% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda 227.7 miliwn o ymweliadau â thudalennau yn cael eu cofnodi ym mis Mawrth 2003 ar gyfer y safle rhyngwladol cyfun yn Saesneg a safleoedd iaith BBC World Service. Bu llawer o'r twf hwnnw o ganlyniad i'r rhyfel yn Irac, felly yr her ar gyfer y flwyddyn nesaf fydd cynnal y twf hwnnw a chynyddu ymwybyddiaeth o arlwy cyfryngau newydd y BBC.

Llwyddodd cyd-fentrau golygyddol fel *Talking Point*, a ddarlledwyd ar draws y tri llwyfan, i gynnwys ffigyrau rhyngwladol fel Hamid Karzai, Aung San Suu Kyi a Tony Blair mewn dadleuon rhyngweithiol byd-eang gyda chynulleidfaoedd. Un o'r nodau ar gyfer y flwyddyn nesaf fydd datblygu cyd-fentrau o'r fath ymhellach er budd holl wasanaethau'r BBC. Rydym yn edrych ymlaen at weithredu'r strategaeth newyddion byd-eang yn llawn a fydd yn atgyfnerthu effaith ac enw da'r BBC dramor ymhellach.

**Perfformiad yn erbyn *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni'r BBC 2002/2003***

Ym mis Gorffennaf 2002 cyhoeddodd y BBC ei gyfres gyntaf o *Ddatganiadau* o *Bolisi Rhaglenni*, yn egluro sut yr oedd yn bwriadu cyflawni ei gylch gwaith cyhoeddus yn 2002/2003. Roedd y Datganiadau yn seiliedig ar yr amcanion a bennwyd gennym ar gyfer y flwyddyn.

Mae perfformiad yn erbyn y Datganiadau yn cynnwys ansawdd, amrywiaeth a natur arbennig y rhaglenni a'r cynnwys. Mae'r Arolwg o'r gwasanaethau yn yr *Adroddiad Blynyddol* hwn (ar dudalennau 20 i 49) yn disgrifio beth y cyflawnodd pob gwasanaeth.

Yn ogystal, roedd *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni'r BBC 2002/2003* yn cynnwys nifer o ymrwymiadau mesuradwy mewn meysydd allweddol. Ceir adroddiad ar berfformiad yn erbyn yr ymrwymiadau hyn ar dudalen 122. Cyflawnwyd mwyafrif helaeth yr ymrwymiadau mesuradwy.

Ar y cyfan, rydym o'r farn bod cyfraniad y BBC i ddarlledu cyhoeddus yn 2002/2003 yn cyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd yn y Datganiadau.

Cyhoeddodd y BBC y ddogfen *Datganiadau* o *Bolisi Rhaglenni 2003/2004* ym mis Ebrill eleni. Bydd *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon* y flwyddyn nesaf yn cynnwys adroddiad ar berfformiad yn eu herbyn ac ar gynnydd pellach ar amcanion y BBC.

**Cynnal safonau golygyddol**

Mae'r Llywodraethwyr yn sicrhau bod y BBC yn cynnal safonau golygyddol uchel, gan fonitro ei gydymffurfiad â'r *BBC Producers' Guidelines* a'r *Code on Impartiality and Accuracy* sy'n rhan ohonynt. Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon bod y BBC wedi bodloni'r safonau disgwyliedig yn 2002/2003 (gweler tudalen 79).

Fel rhan o'n gwaith o sicrhau bod y BBC yn ddiduedd, cyflwynwyd adroddiadau chwarterol yn lle rhai bob hanner blwyddyn yn ogystal ag asesiadau gan arbenigwyr allanol annibynnol. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn gwneud mwy o waith i fodloni ein hunain bod darllediadau'r BBC yn parhau i fodloni'r safonau uchaf o ran bod yn ddiduedd.





Chwith pellaf: Nick Woolley yn ne Irac ym mis Mawrth 2003.

Chwith: David Dimbleby yn arwain y drafodaeth ar BBC One, *Iraq – Britain Decides*.

Dde: Cyflwynydd *Inside Out* Canolbarth Lloegr Ashley Blake.



# Arolwg y Cyfarwyddwr Cyffredinol



Yn ystod y 12 mis rhwng mis Chwefror 2002 a mis Chwefror 2003 lansiodd y BBC fwy o wasanaethau cenedlaethol newydd na'r hyn a lansiwyd yn ystod yr 80 mlynedd cyn hynny: lansiwyd cyfanswm o bedair sianel deledu genedlaethol a phum gorsaf radio genedlaethol gennym. Roedd yn gyflawniad eithriadol iddynt oll gael eu lansio'n llwyddiannus, ar amser a'u bod oll o ansawdd uchel. Cyflawnodd y sianelau newydd hyn ymrwymiad y BBC i ehangu'r dewis i dalwyr y drwydded ac i hyrwyddo'r broses o ddatblygu Prydain ddigidol.

Ymhlith y sianelau teledu newydd roedd dwy sianel, CBeebies a CBBC, a lwyddodd i ennill eu plwyf fel y sianel gyntaf a'r bumed sianel o ran cyfran y gynulleidfa ymhlith sianelau i blant, o fewn 12 mis o gael eu darlledu am y tro cyntaf, a hynny drwy gynnig cynnwys Prydeinig penodol. Bu'n flwyddyn gyntaf lwyddiannus iawn i BBC Four, gan ennill gwobrau gan y Gymdeithas Deledu Frenhinol a gwobrau am raglenni dogfen a chyrraedd dros 12 miliwn o wylwyr gyda'i chymysgedd eclectig o gelfyddydau, drama, perfformiad a materion cyfoes. Eleni hefyd cawsom ganiatâd gan y Llywodraeth i lansio BBC Three, wedi'i hanelu at oedolion iau. Wrth i ni ei lansio ym mis Chwefror 2003, cwblhawyd ein portffolio sianelau digidol newydd gan synnu llawer gyda chwmpas a gwreiddioldeb ei gynyrchiadau o'r DU.


Mae Radio'r BBC yn chwarae rhan ganolog wrth gynyddu nifer y bobl sy'n gwrando ar radio digidol gyda phum gorsaf newydd: BBC Five Live Sports Extra, 6 Music, 1Xtra, BBC Asian Network a BBC 7. Mae radio digidol wedi dechrau dod i'w oed eleni gyda llawer mwy o wrandawyr drwy'r rhyngrwyd a theledu digidol. Mwynhaodd radio analog y BBC flwyddyn eithriadol arall, gan ennill dros 53% o'r gynulleidfa bosibl yn ystod chwarter cyntaf 2003. Denodd BBC Radio 4, buddsoddwr mwyaf y DU mewn drama radio newydd, ei chynulleidfaoedd uchaf erioed unwaith eto ac enillodd wobr Sony am Orsaf y Flwyddyn. BBC Radio 2 yw gorsaf radio fwyaf poblogaidd y wlad o hyd gyda thros 13 miliwn o wrandawyr bob wythnos.

Caiff Teledu'r BBC ei feirniadu weithiau am fethu â chynhyrchu amrywiaeth o raglenni o safon arbennig ond barn y gwylwyr sy'n bwysig. Bellach sefydlwyd BBC One ar ei newydd wedd fel hoff sianel Prydain ac mae ei chyfran o'r gynulleidfa yn parhau'n uwch na chyfran ITV. Mewn arolwg gan y Comisiwn Teledu Annibynnol a ofynnodd i wylwyr pa sianel y byddent yn ei dewis pe gallent ond gael un sianel, BBC One oedd ar y brig am y tro cyntaf. Mae BBC Two yn arloeswr amlwg ar deledu Prydain ac, ar ôl blwyddyn lwyddiannus iawn, mae bellach yn cyflwyno mwy o raglenni materion cyfoes a chelfyddydol yn ystod oriau brig.

Mae newyddion, a ddarlledir yn ddiduedd ac yn annibynnol, wrth wraidd ein cylch gwaith cyhoeddus. Rydym wedi glynu at yr egwyddorion hyn, yn aml gan wynebu pwysau gwleidyddol a masnachol dwys, drwy gyfnod treisgar ac ansicr. Un mesur o faint mae'r cyhoedd yn ymddiried yn yr ymrwymiad hwn ac yn ei werthfawrogi yw y defnyddiodd 93% o'r boblogaeth yn y DU wasanaethau teledu, radio, testun neu ar-lein y BBC yn ystod pythefnos gyntaf y rhyfel yn Irac. Cymerodd ein newyddiadurwyr newyddion, materion cyfoes a BBC World Service risgiau mawr er mwyn cyflwyno adroddiadau diduedd o'r gwrthdaro i'r cyhoedd ym Mhrydain a chynulleidfaoedd ledled y byd. Lladdwyd un o ddynion








Chwith: Anafwyd Golygydd Materion y Byd y BBC John Simpson yng ngogledd Irac.

Chwith uchod: Lansiwyd BBC Three ym mis Chwefror 2003, gan gwblhau portffolio gwasanaethau teledu'r BBC.

Uchod: Ymgyrch glodwiw adran Chwaraeon y BBC yn ystod Cwpan y Byd.

camera clodwiw'r BBC Kaveh Golestan a chyfieithydd Cwrdeg, Kamaran Abdurazaq Muhamed. Anafwyd John Simpson, Stuart Hughes, Craig Summers, Fred Scott, Tom Giles a Dragan Petrovic. Mae ein dyled yn fawr iddynt oll.

Un o ddibenion canolog arall y BBC yw dod â'r DU ynghyd ar adegau o ddathlu cenedlaethol pwysig. Yn ystod haf 2002 llwyddodd y BBC i wneud hynny gan helpu i greu awyrgylch cenedlaethol o lawenydd. Llwyfannodd y BBC gyngherddau cerddoriaeth glasurol a phop o Balas Buckingham i ddathlu Jiwbilî Aur y Frenhines gan danio dychymyg y cyhoedd gartref ac ymhob cwr o'r byd, gyda thros 29 miliwn o bobl yn gwylio ein darllediadau teledu yn y DU yn unig. Cwblhaodd Cwpan y Byd 2002 a Gemau'r Gymanwlad ym Manceinion y gwrthbwynt hwn o haf hapus mewn cyferbyniad â natur ddifrifol a ffurfiol ein rôl genedlaethol unigryw o bryd i'w gilydd.

Yn ystod y flwyddyn lawn gyntaf o fuddsoddiad uwch yng Ngwledydd a Rhanbarthau'r BBC gwelwyd cynnydd o ran cymeradwyaeth i'r amrywiaeth gwell o raglenni cenedlaethol a rhanbarthol arbennig. Parhawn, drwy ein rhaglenni drama a materion cyfoes, i sicrhau ein bod yn gwasanaethu pob cynulleidfa yn y DU. Mae perfformiad rhaglenni newyddion teledu rhanbarthol y BBC bellach yn well na'r gystadleuaeth fasnachol ymhob ardal ond tair o'r DU ac yn ystod y flwyddyn llwyddodd newyddion rhanbarthol y BBC am 6.30pm i gadw ei statws fel y slot newyddion mwyaf poblogaidd ar deledu Prydain.

Mae hysbysu cynulleidfaoedd am gyfoeth cynnwys y BBC yn galluogi talwyr y drwydded i fwynhau'r gwerth mwyaf o'n gwasanaethau. Daeth ein hymgyrchoedd marchnata a chysylltiadau clodwiw yn aml yn destunau trafod ynddynt eu hunain. O ystyried pwysigrwydd cysylltu rhaglenni â'n cynulleidfaoedd, llwyddom hefyd i ennyn gwell dealltwriaeth o lawer o'n gwylwyr a'n gwrandawyr drwy ein canolfannau galwadau a'n fforymau ar-lein.

Mae cyflawni gwerth am arian i dalwyr y drwydded a gwerthoedd i'n staff yn amcanion sy'n ategu ei gilydd. Ddeunaw mis yn ôl lansiwyd *Making it Happen* gyda'r uchelgais o sicrhau mai'r BBC fydd y sefydliad mwyaf creadigol yn y byd. Ar yr un pryd rydym yn ymdrechu i leihau costau. Rydym yn gwneud cynnydd gyda'r ddau beth. Rydym wedi gostwng costau gorbenion o 24% i 13% mewn tair blynedd ac, yn rhannol o ganlyniad i hyn, rydym wedi cynyddu buddsoddiad mewn rhaglenni £616miliwn dros ddwy flynedd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mynychodd 10,000 o'n gweithwyr sesiynau staff *Just Imagine,* a arweiniodd at gyfres o fentrau gan gynnwys cyhoeddi ein chwe gwerth craidd, a fydd, yn ein barn ni, yn helpu i droi'r weledigaeth o Un BBC sy'n gwasanaethu ac yn cyfoethogi bywydau pob un ohonom yn realiti.



**Greg Dyke**
*Cyfarwyddwr Cyffredinol*







Uchod: Darllediad BBC Four o'r perfformiad cyntaf yn y byd o opera newydd Nicholas Maw *Sophie's Choice.*

Chwith: Andy Kershaw a Verity Sharp, cyflwynwyr BBC Radio 3 ar gyfer gŵyl WOMAD 2002.

Dde: *Balamory* a gynhyrchwyd gan BBC Scotland i CBeebies.

# Y Pwyllgor Gweithredol

**Greg Dyke** Cyfarwyddwr Cyffredinol ers mis Ionawr 2000, ar ôl ymuno â'r BBC fel Darpar Gyfarwyddwr Cyffredinol ym mis Tachwedd 1999. Cyn Gadeirydd a Phrif Weithredwr Pearson Television o 1995 i 1999. Swyddi blaenorol yn cynnwys Prif Olygydd TV-am (1983); Cyfarwyddwr Rhaglenni TVS (1984), a Chyfarwyddwr Rhaglenni (1987), Rheolwr Gyfarwyddwr (1990) a Phrif Weithredwr y Grŵp (1991) yn London Weekend Television. Bu hefyd yn Gadeirydd Channel 5; Cadeirydd yr ITA; cyfarwyddwr ITN, Channel 4 a BSkyB, a chyfarwyddwyr anweithredol Clwb Pêl-droed Manchester United.

**Jenny Abramsky CBE** Cyfarwyddwr Radio a Cherddoriaeth ers mis Ebrill 2000. Yn gyfrifol am BBC Radio 1, 2, 3, 4, Five Live, Asian Network, 6 Music, 1Xtra, Five Live Sports Extra, BBC 7, cerddoriaeth glasurol ar y teledu, *Music Live*, *BBC Proms* a thair cerddorfa'r BBC a leolir yn Lloegr. Cyn Gyfarwyddwr Newyddion Parhaus; Cyfarwyddwr Radio; Rheolwr BBC Radio Five Live; Golygydd, Newyddion a Materion Cyfoes Radio, a Golygydd y rhaglen *Today*.

**Jana Bennett OBE** Cyfarwyddwr Teledu ers mis Ebrill 2002. Yn gyfrifol am ddarllediadau'r BBC ar BBC One, BBC Two, BBC Three a BBC Four ac am oruchwylio cynnwys ar sianelau cyd-fenter UKTV a'r sianelau rhyngwladol BBC America a BBC Prime. Cyn Reolwr Cyffredinol a Dirprwy Lywydd Gweithredol yn Discovery Communications Inc. yn yr UD. Swyddi blaenorol yn cynnwys Cyfarwyddwr Cynhyrchu yn y BBC; Pennaeth adran Wyddoniaeth y BBC; Golygydd *Horizon*, ac Uwch Gynhyrchydd ar *Newsnight* a *Panorama*.

**Glenwyn Benson** Cyfarwyddwr, Ffeithiol a Dysgu ers mis Ionawr 2003. Cyd Gyfarwyddwr, gyda Michael Stevenson, Mawrth 2001 – Ionawr 2003. Yn gyfrifol (tan fis Ionawr 2003 gyda Michael Stevenson) am yr holl raglenni a chynnwys ffeithiol cyffredinol ac arbenigol, a dysgu ar gyfer oedolion a phlant, ar gyfer teledu, radio a'r cyfryngau rhyngweithiol. Cyn Reolwr rhaglenni Ffeithiol Arbenigol. Swyddi blaenorol yn cynnwys Pennaeth adran Wyddoniaeth y BBC a Golygydd, *Panorama*.

**Mark Byford** Cyfarwyddwr World Service & Global News ers mis Hydref 2001. Yn gyfrifol am holl wasanaethau newyddion a gwybodaeth rhyngwladol y BBC ar draws pob cyfrwng gan gynnwys radio BBC World Service, teledu BBC World a'r safleoedd newyddion ar-lein rhyngwladol. Cyn Gyfarwyddwr Darlledu Rhanbarthol. Swyddi blaenorol yn cynnwys Pennaeth y Ganolfan, Leeds a Golygydd Cartref Newyddion Teledu.

**Stephen Dando** Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Chysylltiadau Mewnol ers mis Mehefin 2001. Yn gyfrifol am holl bobl a materion sefydliadol y BBC, yn cynnwys cysylltiadau staff. Cyn Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol byd-eang Guinness Limited. Swyddi blaenorol yn cynnwys Cyfarwyddwr Datblygu Rheolaeth Grŵp, Diageo, a chyfnodau gyda UDV Europe, United Distillers, Ferranti International ac Austin Rover.

**Andy Duncan** Cyfarwyddwr Marchnata a Chysylltiadau ers mis Mehefin 2001. Yn gyfrifol am holl weithgareddau marchnata, cyhoeddusrwydd, y wasg a chysylltiadau cyhoeddus, gwasanaethau cwsmeriaid a gweithgareddau ymchwil cynulleidfaoedd y BBC. Cyn Gyfarwyddwr Ewropeaidd adran Bwyd a Diod Unilever. Swyddi blaenorol yn cynnwys Cyfarwyddwr Marchnata'r DU yna Cyfarwyddwr Marchnata Ewrop gydag adran Bwyd a Diod Unilever yn y DU a Chadeirydd y Cyngor Te.

**Carolyn Fairbairn** Cyfarwyddwr Strategaeth a Dosbarthu ers mis Ebrill 2001. Yn gyfrifol am gynllunio strategol a dosbarthu gwasanaethau'r BBC. Cyn Gyfarwyddwr Strategaeth. Swyddi blaenorol yn cynnwys Cyfarwyddwr Strategaeth, BBC Worldwide Limited; gweithio yn Uned Bolisi Downing Street, ac i McKinsey and Company.

**Roger Flynn** Prif Weithredwr BBC Ventures Group Limited ers mis Mehefin 2001. Yn gyfrifol am fusnesau gwasanaethau cyfryngau masnachol y BBC: BBC Broadcast Limited, BBC Technology Holdings Limited, BBC Resources Limited a BBC Vecta Limited. Cyn Reolwr Gyfarwyddwr Prudential Retail. Swyddi blaenorol yn cynnwys Rheolwr Cyffredinol, World Sales and Distribution, British Airways a Chyfarwyddwr Masnachol, Virgin Communications Group.



Y Pwyllgor Gweithredol, o'r chwith

*Rhes gefn*: Alan Yentob, Mark Byford, Jana Bennett, Roger Flynn, Caroline Thomson, Greg Dyke

*Rhes flaen:* Pat Loughrey, Jenny Abramsky, Peter Salmon

**Rupert Gavin** Prif Weithredwr BBC Worldwide Limited ers mis Gorffennaf 1998. Yn gyfrifol am holl weithgareddau defnyddwyr masnachol y BBC yn y marchnadoedd cartref ac o amgylch y byd. Cyn Reolwr Gyfarwyddwr Adran Defnyddwyr BT. Swyddi blaenorol yn cynnwys Cyfarwyddwr Gwybodaeth, Cyfathrebu ac Adloniant BT a Dirprwy Reolwr Gyfarwyddwr Grŵp Dixons Stores.

**Ashley Highfield** Cyfarwyddwr Cyfryngau Newydd a Thechnoleg ers mis Hydref 2000. Yn gyfrifol am allbwn rhyngrwyd, teledu rhyngweithiol a llwyfannau newydd y BBC (band eang, symudol, ac ati), portffolio technoleg y BBC, dyfeisgarwch technegol, ac ymchwil a datblygu. Cyn Reolwr Gyfarwyddwr Flextech Interactive, adran cyfryngau newydd y cwmni teledu tâl. Swyddi blaenorol yn cynnwys Pennaeth TG a Chyfryngau Newydd Sianelau NBC yn Ewrop.

**Pat Loughrey** Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau ers mis Mai 2000. Yn gyfrifol am raglenni a gwasanaethau'r BBC yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Rhanbarthau Lloegr. Cyn Reolwr, BBC Northern Ireland. Swyddi blaenorol yn cynnwys Pennaeth Rhaglenni a Phennaeth Darlledu Addysgol BBC Northern Ireland, a swyddi addysgu a darlledu yn Iwerddon a Chanada.

**Peter Salmon** Cyfarwyddwr Chwaraeon ers mis Tachwedd 2000. Yn gyfrifol am holl weithgaredd Chwaraeon y BBC ar gyfer teledu, radio a'r cyfryngau newydd. Cyn Reolwr, BBC One, am dair blynedd. Swyddi blaenorol yn cynnwys Cyfarwyddwr Rhaglenni yn Granada TV; Rheolwr Rhaglenni Ffeithiol yn Channel 4, a Phennaeth Rhaglenni Nodwedd yn BBC Bristol.

**Richard Sambrook** Cyfarwyddwr Newyddion ers mis Mawrth 2001. Yn gyfrifol am weithrediadau darlledu newyddion y BBC a'r ddarpariaeth rhaglennu newyddion a materion cyfoes dyddiol ar gyfer teledu, radio a gwasanaethau ar-lein y BBC ledled y DU. Cyn Ddirprwy Gyfarwyddwr, Newyddion. Swyddi blaenorol yn cynnwys Cyfarwyddwr Chwaraeon Dros Dro; Pennaeth Casglu Newyddion, a Golygydd Newyddion a Dirprwy Olygydd, *Nine O'Clock News*.

**John Smith** Cyfarwyddwr Cyllid, Eiddo a Materion Busnes ers mis Ebrill 2000. Yn gyfrifol am holl gyllid y BBC yn cynnwys casglu trwyddedau teledu a'r strategaeth eiddo. Cyfarwyddwr Ariannol y Flwyddyn *AccountancyAge* (2001). Yn flaenorol gyda British Rail Group, yn goruchwylio dad-gyfuniadau. Cyfarwyddwr anweithredol Vickers plc tan fis Rhagfyr 1999. Aelod o'r Bwrdd Safonau Cyfrifo.

**Caroline Thomson** Cyfarwyddwr, Is-adran Polisi a Chyfreithiol (Cyfarwyddwr Polisi Cyhoeddus, Gorffennaf 2000 – Mai 2003). Yn gyfrifol am brif bolisïau'r BBC ym meysydd golygu, rheoleiddio a chydymffurfiad, materion cyfreithiol, cysylltiadau llywodraethol, cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ac am ymdrin â chwynion am raglenni. Cyn Ddirprwy Gyfarwyddwr, BBC World Service. Swyddi blaenorol yn cynnwys Cyfarwyddwr Strategaeth a Materion Corfforaethol, BBC World Service; Golygydd Comisiynu, Gwyddoniaeth a Busnes yn Channel 4 a chynorthwy-ydd gwleidyddol i Roy Jenkins.

**Alan Yentob** Cyfarwyddwr yr is-adran Ddrama, Adloniant a CBBC ers mis Ebrill 2000. Yn gyfrifol am yr holl ddarllediadau creadigol yn y meysydd hyn, yn cynnwys Ffilmiau'r BBC, ac am reoli talent ar draws y BBC. Cadeirydd Sefydliad y Celfyddydau Cyfoes. Cyn Gyfarwyddwr Teledu'r BBC; Rheolwr BBC One a BBC Two; Pennaeth Cerddoriaeth a'r Celfyddydau, a Golygydd cyntaf, *Arena*.

*Roedd* **Michael Stevenson** *yn Gyd Gyfarwyddwr, Ffeithiol a Dysgu o fis Ebrill 2000 i fis Ionawr 2003. Roedd yn gyfrifol (gyda Glenwyn Benson) am yr holl raglenni a chynnwys ffeithiol cyffredinol ac arbenigol, a dysgu ar gyfer oedolion a phlant, ar gyfer teledu, radio a'r cyfryngau rhyngweithiol.*



O'r chwith

*Rhes gefn:* Glenwyn Benson, Rupert Gavin, Richard Sambrook, Ashley Highfield, Andy Duncan

*Rhes flaen:* Stephen Dando, Carolyn Fairbairn, John Smith

# Arolwg o'r gwasanaethau: Teledu



# Dewis poblogaidd

BBC One yw sianel fwyaf poblogaidd Prydain gyda'r amrywiaeth ehangaf o raglenni o blith unrhyw ddarlledwr.

**Bu hon yn flwyddyn hollbwysig i Deledu'r BBC wrth iddo anelu at ehangu dyfnder, amrywiaeth ac effaith ei raglenni tra'n sefydlu sianelau newydd am ddim fel rhan o bortffolio'r BBC ar gyfer yr oes ddigidol.**

Gyda thros hanner poblogaeth y DU bellach yn gallu gwylio darllediadau aml-sianel, mae Teledu'r BBC yn cystadlu mewn byd darlledu cyfnewidiol iawn. Eleni nod y BBC oedd gwella amrywiaeth ac arbenigrwydd gyda ffocws cryfach ar y celfyddydau ar draws pob sianel, adfywio gwleidyddiaeth a materion cyfoes, strategaeth newydd ar gyfer crefydd a chynnwys mwy uchelgeisiol ar BBC One. Ymatebodd y cyhoedd yn gadarnhaol gyda chyfran y gwylwyr a chyrhaeddiad ar gyfer portffolio'r sianelau yn gwella mewn cartrefi analog a digidol.

O ganlyniad i lansio'r gwasanaeth daearol digidol Freeview ym mis Tachwedd galluogwyd y rheini nad oeddynt wedi ystyried o'r blaen bod digidol yn ddewis iddynt hwy i dderbyn gwasanaethau teledu newydd y BBC. Gall gwylwyr analog hefyd gael blas ar y sianelau digidol newydd ar barthau rhaglenni arbennig ar BBC One a BBC Two.

Er mwyn cyflawni ei uchelgeisiau mae angen cydweithio gyda'r amrywiaeth ehangaf posibl o dalent greadigol a datblygu gwell cysylltiadau â chynhyrchwyr annibynnol y DU, ac mae Teledu'r BBC wrthi'n gwneud hynny.

**BBC One**
Ar y cyfan bu'n flwyddyn gryf i BBC One. Yn ôl yr arolwg *The Public's View 2002* gan ITC/BSC, BBC One yw'r sianel y byddai'r rhan fwyaf o bobl bellach yn ei dewis pe gallent ond gael un sianel. Roedd ei chyfran o wylwyr llai na 0.1% yn is na'r llynedd er gwaethaf y twf parhaus yn y dewis i wylwyr a llwyddodd i gadw ei statws fel y sianel a gaiff ei gwylio fwyaf yn y DU.

Canolbwyntiodd ail flwyddyn strategaeth tair blynedd i adfywio BBC One, gan fanteisio ar gynnydd o £90miliwn yn y gyllideb, ar rôl unigryw'r sianel wrth ddarlledu digwyddiadau pwysig ym mywyd y DU ac ar wella drama boblogaidd.

Roedd amrywiaeth drama BBC One yn cynnwys cynyrchiadau cyfnod fel *Daniel Deronda* a *The Lost Prince*, cynllwynion gwleidyddol modern fel *The Project* a rhaglenni dychan fel *Jeffrey Archer – The Truth*. Ymhlith yr uchafbwyntiau eraill roedd y ddrama gymdeithasol glodwiw *Out of Control,* a ddarlledwyd fel rhan o'r diwrnod *Cracking Crime*, a chyfres gyntaf lwyddiannus y rhaglen ias a chyffro gyfoes *Spooks* a'r ddrama fodern, wedi'i lleoli ym Manceinion *Cutting It.*

Ymhlith y cyfresi a ddychwelodd a berfformiodd yn dda roedd *Born and Bred, Judge John Deed, Red Cap, Murphy's Law, Messiah* a *The Inspector Lynley Mysteries*. Ysgogodd y ddrama gyfresol hir-sefydledig *EastEnders* ddadleuon cyson am bynciau nas darlledir yn aml cyn y trothwy. Llwyddodd *Casualty* a *Holby City* i gadw eu cynulleidfaoedd sylweddol, felly hefyd *Doctors* yn ystod y dydd. Chwaraeodd drama hefyd ran allweddol fel rhan o fenter ehangach i wella gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd Gogledd Lloegr o'r BBC. Denodd hynt a helynt yr adeiladwyr o Newcastle mewn cyfres newydd o *Auf Wiedersehen, Pet* gynulleidfaoedd o fwy na 10 miliwn o wylwyr. Gwyliodd cyfran llawer uwch na'r cyfartaledd yng Ngogledd Orllewin Lloegr y rhaglen *Merseybeat* gan ddenu cyfartaledd o 6 miliwn o wylwyr a chyfran o 25% o'r gynulleidfa ledled y DU.

Mae agor drysau i bynciau newydd na fyddai gwylwyr o bosibl yn eu gwylio fel arfer yn gonglfaen i strategaeth BBC One ar gyfer y celfyddydau. Ymhlith y rhaglennu celfyddydau nodedig roedd rhaglen ddogfen ar yr arlunydd Turner, ac ategwyd y ddrama *Daniel Deronda* a'r ffilm *Mansfield Park* gan raglenni dogfen ar yr awduron George Eliot a Jane Austen, y seiliwyd y cynyrchiadau ar eu gwaith. Denodd *Rolf on Art* gynulleidfa o 5.7 miliwn ar gyfartaledd ar gyfer ei hail gyfres.

Mae poblogrwydd BBC One yn deillio'n rhannol o'i hymrwymiad i ddarparu darllediadau byw unigryw o adegau pwysig o fywyd

Gyferbyn, chwith: Datgelodd drama gyfnod gyntaf Stephen Poliakoff i BBC One, *The Lost Prince*, stori deimladwy'r Tywysog John, mab epileptig ifancaf Brenin Siôr V a'r Frenhines Mari.



Chwith: Dychwelodd Robert Lindsay a Zoë Wanamaker fel Ben a Susan Harper yn y gyfres gomedi boblogaidd *My Family*.

# **Arolwg o'r gwasanaethau:** Teledu




Roedd prawf blynyddol Anne Robinson a Phillip Schofield o IQ y genedl yn manteisio i'r eithaf ar bosibiliadau teledu rhyngweithiol a'r wefan er mwyn cynnwys y gwylwyr.

cenedlaethol a rhyngwladol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cafwyd darllediadau yn amrywio o ddifrifwch angladd y Fam Frenhines a'r gwasanaeth coffa i ddioddefwyr Prydeinig yr ymosodiadau terfysgol yn Efrog Newydd ar 11 Medi, i awyrgylch llawen cyngherddau Jiwbilî Aur y Frenhines, gyda'r *Party at the Palace* yn denu 15 miliwn o wylwyr yn ei anterth.

Roedd 2002 yn haf o chwaraeon ar BBC One. Llwyddodd ymagwedd newydd tuag at ddarlledu i ennill dilynwyr newydd ac o ganlyniad i dechnoleg ryngweithiol arloesol cliciodd 4 miliwn o wylwyr y botwm coch ar eu rheolydd yn ystod gemau pêl-droed Cwpan y Byd a thenis Wimbledon. Gyda chymorth tîm cyflwyno'r BBC, denwyd uchafswm cynulleidfa o fwy na 13 miliwn i bump o gemau pêl-droed Lloegr yng Nghwpan y Byd, gan olygu yn gyffredinol mai BBC One oedd y sianel fwyaf poblogaidd gyda'r gwylwyr. Daeth yr haf bythgofiadwy i ben gyda Gemau'r Gymanwlad o Fanceinion, ac enillodd tîm Chwaraeon y BBC wobr BAFTA am ei ddarllediadau ohonynt.

Bu atgyfnerthu materion cyfoes gyda rhaglenni dadansoddi effaith uchel yn flaenoriaeth. Derbyniodd *Panorama* sylw yn y wasg gyda rhaglenni pwysig ar lygredd ym myd rasio ceffylau, peryglon Seroxat ac ymchwiliadau i derfysgaeth fyd-eang. Lansiwyd *Inside Out* (gweler Rhanbarthau Lloegr, tudalen 38) pan symudodd materion cyfoes rhanbarthol o BBC Two i BBC One, gan ddyblu'r gynulleidfa i gyfartaledd o 3.4 miliwn o wylwyr yr wythnos. Symudodd darllediadau o San Steffan o BBC Two i BBC One gyda'r rhaglen newydd *This Week*.

Darlledodd BBC One tua 25 o gyfresi a rhaglenni unigol ffeithiol yn ystod oriau brig. Ategwyd rhaglenni hanes naturiol a gwyddoniaeth nodedig gan deledu rhyngweithiol. Llwyddodd *The Life of Mammals* gyda David Attenborough, ynghyd â *Human Instinct* gyda Robert Winston a'r digwyddiad undydd arloesol *The Abyss Live* i gyfuno ansawdd ag effaith. Adlewyrchwyd strategaeth newydd ar gyfer rhaglenni crefyddol sy'n seiliedig ar graffu, dathlu, amrywiaeth a syndod yn *Moses* a *The Virgin Mary*, a gyfunodd graffeg gyfrifiadurol arloesol ac ailgreadau dramatig i gynhyrchu ffilmiau effaith uchel yn ystod oriau brig. Roedd y rhain yn ategu gwasanaethau crefyddol ar yr amserlen a chyfresi fel *Songs of Praise* a *The Heaven and Earth Show*.

Erys ymrwymiad BBC One i sicrhau bod materion difrifol yn hygyrch i bawb yn gadarn. Ysgogodd diwrnodau digwyddiadau ffeithiol ar droseddau ac Irac ddadl genedlaethol a chyrhaeddodd y ddau ohonynt tua 7 miliwn o wylwyr. Cyflwynodd y tymor *Hitting Home* bwnc anodd trais yn y cartref i gynulleidfaoedd drwy gymysgedd creadigol o raglenni dogfen, materion cyfoes a drama.

Mae creu digwyddiadau, yn ogystal â'u darlledu, yn greiddiol i BBC One ac ysgogodd *Test the Nation* – yr her IQ genedlaethol flynyddol – drafodaeth a dryswch fel ei gilydd ymhlith miliynau o wylwyr.

Profodd parthau CBBC ochr yn ochr â rhaglenni dyddiol i blant ar BBC One a BBC Two yn llwyddiant gyda chynulleidfaoedd ifanc. Llwyddodd *The Saturday Show* ar BBC One i ddenu cynulleidfa uwch nag ITV am y tro cyntaf ers tair blynedd.

Rhoddodd *Fame Academy* gyfle heb ei ail i berfformwyr addawol dderbyn hyfforddiant gan oreuon y busnes cerddoriaeth tra'n llwyddo i godi ymron £1miliwn i ddarparu bwrsariaethau cerddorol i bobl ifanc. Rhaglen y rownd derfynol oedd y rhaglen adloniant fwyaf poblogaidd ar BBC One i'r grŵp oedran 16 i 34 oed yn 2002 (ac eithrio wythnos y Nadolig).

Parhaodd teledu yn ystod y dydd i ddenu cynulleidfaoedd newydd ac i ddatblygu rhaglenni fel *Bargain Hunt*, *Escape to the Country* a *Flog It!* a all drosglwyddo i oriau brig. Mae creu dramâu unigol gwreiddiol i'w darlledu yn ystod y dydd yn risg, ond bu'n risg lwyddiannus i BBC One wrth iddi lansio *The Afternoon Play*.

Er bod cymysgedd cyfoethog o raglenni yn cael ei ddarlledu ar nos Wener gyda *My Family, Alistair McGowan's Big Impression, All About Me, Friday Night with Jonathan Ross* a *Have I Got News for You* – a





Chwith: Gôl! Cic gosb David Beckham yn curo'r Ariannin yng Nghwpan y Byd 2002.

Dde: Ymchwiliodd yr Athro Robert Winston i'r rhesymau pam ein bod yn ymddwyn fel y gwnawn yn *Human Instinct*.



Dde: Daeth *This Week* ag ymagwedd newydd tuag at drafodaethau gwleidyddol hwyrnos ar BBC One.

## Haf o chwaraeon

Roedd pedair o'r rhaglenni teledu mwyaf poblogaidd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys gemau pêl-droed Lloegr yng Nghwpan y Byd.

fu'n rhan o'r newyddion ei hun, mae adloniant ar nos Sadwrn yn un o'r meysydd mwyaf heriol i BBC One o hyd. Ni ddaeth un fformat cymhellgar i'r amlwg yn ystod y flwyddyn er y bu *The National Lottery Jet Set, The Weakest Link Celebrity Special, Comic Relief Does Fame Academy* a rhaglenni unigol arbennig fel *Elton John at the Albert Hall* yn fwy llwyddiannus. Dychwelodd *Parkinson* gan roi hwb i amserlen yr hwyrnos.

BBC One yw'r unig sianel yn y DU i fuddsoddi'n sylweddol er mwyn darparu amserlen i'r teulu adeg y Nadolig a thalodd yr ymrwymiad hwnnw ar ei ganfed. BBC One unwaith eto oedd y sianel fwyaf poblogaidd yn ystod yr ŵyl, gyda'r rhifyn arbennig o *Only Fools and Horses* yn denu cyfran o 67% o'r gynulleidfa.


Yn ystod y flwyddyn, arweiniodd cystadleuaeth ddwys at ostyngiad ymhlith cynulleidfaoedd ifancach yn Ne Ddwyrain Lloegr. Fodd bynnag, o ganlyniad i gyflwynwyr newydd a chynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig well ar raglenni prif ffrwd poblogaidd, gwelwyd cynnydd sylweddol mewn cymeradwyaeth. Serch hynny, gostyngodd cyfran y gwylwyr ymhlith cynulleidfaoedd lleiafrifol. Bydd angen ymateb i'r heriau hyn yn ystod y flwyddyn nesaf.

**BBC Two**
Mae strategaeth barhaus BBC Two o ddod â deallusrwydd, soffistigeidrwydd, arloesedd a phleser i gynulleidfa amrywiol wedi cyflawni cryn lwyddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Bu ansawdd holl ddarllediadau'r sianel yn gyson uchel, gan ennill 30 o wobrau iddi.

Darparodd meysydd sy'n diffinio'r sianel fel *Newsnight, Correspondent, Horizon, Timewatch* a *The Money Programme* graidd cryf i amserlen genre cymysg BBC Two. O ganlyniad i allu BBC Two i ymdrin â phynciau ffeithiol mewn ffordd argyhoeddiadol cynhyrchwyd *The Hunt for Britain's Paedophiles* a fu wrthi'n cael ei gwneud am dair blynedd ac enillodd *El Alamein* glod gan feirniaid a llwyddiant cynulleidfaol. Llwyddodd yr ail gyfres o *A History of Britain*, y rhaglen ddogfen grefyddol *Country Parish* a'r clasur moduro *Top Gear* ar ei newydd wedd, i ddenu cynulleidfaoedd mawr. Datblygodd enw da'r







Dde uchod: Roedd cariad a rhyfela i'w gweld mewn siop trin gwallt ym Manceinion yn y ddrama *Cutting It* ar BBC One.

Dde: *Tipping the Velvet*, stori gariad lesbiaidd liwgar o oes Fictoria ar BBC Two.

Chwith: Pedwerydd ddewis y gwylwyr oedd Charles Darwin, dewis naturiol Andrew Marr ar gyfer *Great Britons*.





sianel fel cartref comedi arloesol gyda *Double Take* a *Dead Ringers* a'r comedi a enillodd wobrau lu *The Office*, tra y dychwelodd *Marion and Geoff, I'm Alan Partridge* a *The League of Gentlemen* gan fwynhau llwyddiant mawr.

Roedd drama ar BBC Two yn cynnwys *Tipping the Velvet; Murder; Real Men; Flesh and Blood*, canolbwynt tymor BBC Two ar anabledd; *This Little Life*, drama unigol bwerus a enillodd wobr Dennis Potter i awduron newydd ar y sgrîn; a phortread clodwiw Albert Finney o Syr Winston Churchill yn *The Gathering Storm*.

Yr arweinydd adeg y rhyfel oedd enillydd *Great Britons* yn y pen draw. Gyda'r enwebeion yn dod o 400 mlynedd o ddiwylliant Prydain o Frenhines Elizabeth I i'r Dywysoges Diana, roedd y gyfres yn destun trafod ledled y wlad. O ganlyniad i lwyddiant beirniadol a phoblogaidd *Great Britons* roedd yn un o ddeg o raglenni mwyaf cofiadwy'r BBC ar ddiwedd 2002. Gan adeiladu ar y llwyddiant hwnnw, nod *The Big Read* yn awr yw canfod hoff lyfr y DU ac ymestyn ymrwymiad y BBC i hyrwyddo llythrennedd.

Mae BBC Two yn defnyddio amrywiaeth o genres i adlewyrchu profiadau cynulleidfaoedd amrywiol. Llwyddiant mawr yn hyn o beth fu'r ymrwymiad parhaus i raglenni effaith uwch fel tymor *Jamaica 40*, *Babyfather* a *The Kumars at No.42*, ynghyd â *What's Your Problem?* a ddeliodd â materion yn ymwneud ag anabledd mewn cyfres o ddramâu, rhaglenni dogfen a ffilmiau byr.

Mabwysiadwyd llwyddiant BBC Two mewn rhaglennu hamdden fel garddio, coginio a gweddnewid tai, yn eang gan weddill y diwydiant. Bydd strategaeth newydd, a nodwyd yn y ddogfen *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni'r BBC 2003/2004,* yn anelu at ostyngiad yn y rhaglennu gweddnewid a chyflwyno mwy o ddarllediadau celfyddydol a materion cyfoes i'r amserlen oriau brig gyda'r nos, tra'n parhau ag ymgyrch y sianel i ailddyfeisio ac adfywio darllediadau ffeithiol cyfoes o *What Not to Wear* i *Life Laundry*. Yr her yn ystod y flwyddyn nesaf fydd ailffocysu meysydd allweddol o'r amserlen gyda'r nos er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw.






Chwith uchaf: Enillodd Albert Finney wobr Golden Globe yn yr UD fel Syr Winston Churchill yn *The Gathering Storm*.

Chwith: *3 Non-Blondes*, y sioe gomedi gyntaf gan ferched yn defnyddio camera cudd, ar BBC Three.

Chwith uchod: *The Hunt for Britain's Paedophiles* ar BBC Two.

Uchod: Y ddrama newydd lwyddiannus *Burn It*, ar BBC Three.

## Dyfodol digidol

O fis Chwefror 2002 i fis Chwefror 2003 lansiodd y BBC bedwar gwasanaeth teledu digidol newydd.

**BBC Three**
Wrth lansio BBC Three i ddisodli BBC Choice ym mis Chwefror 2003 cwblhawyd portffolio sianelau teledu'r BBC gan ei alluogi i gyrraedd y gynulleidfa 25 i 34 mlwydd oed nad oeddynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan y BBC. Synnwyd llawer gan gyfoeth a chwmpas cymysgedd rhaglennu yr wythnosau cychwynnol a llwyddodd i gyrraedd 25% o'r gynulleidfa darged. Er mai megis dechrau y mae'r sianel, mae ei chyrhaeddiad wythnosol sef 15.1% yn sylweddol uwch na'r gynulleidfa ar gyfer BBC Choice.

Uchelgais BBC Three yw cyrraedd gwylwyr ifanc craff sy'n gyfarwydd â'r cyfryngau a chanddynt ddisgwyliadau uchel ac amrywiol ar gyfer teledu modern. Yn anarferol i sianel ddigidol, mae BBC Three yn cynnig amserlen gymysg, gydag o leiaf 90% o'r rhaglenni wedi'u cynhyrchu yn y DU, a mwy nag 80% ohonynt yn gomisiynau newydd. Mae'r ymrwymiad hwn i gynhyrchu gwreiddiol o Brydain wedi arwain at raglenni arbrofol, gwahanol iawn fel yr animeiddiadau *Angry Kid*, gan y tîm a enillodd Oscar am greu *Wallace and Gromit*, a'r comedi swrrealaidd *Monkeydust*.

Mae gan BBC Three ymrwymiad cryf i ddarparu newyddion, rhaglenni dogfen a materion cyfoes perthnasol i'w chynulleidfa. Darlledwyd ymchwiliadau gwreiddiol fel *Blood Diamonds* a *Jailed by the State* a throsglwyddwyd fformatau newydd fel *The War This Week* i BBC One. Enillodd *The News Show* gydnabyddiaeth am ei hymagwedd wreiddiol tuag at ddigwyddiadau'r dydd mewn maes oriau brig tra bod *The Third Degree* yn ennill cydnabyddiaeth fel rhaglen materion cyfoes arloesol ac awdurdodol. Archwiliodd y sianel faterion anodd gyda chyfresi mentrus fel *Body Hits*, yn edrych ar effaith fiolegol ffordd o fyw ormodol ar y corff dynol.

Mae BBC Three eisoes wedi llwyddo i drawsnewid genres traddodiadol a gwthio ffiniau cydweithredu traws-genre. *Celebdaq* yw'r rhaglen deledu gyntaf i'w chomisiynu o fformat gwefan ar BBCi gan ddod â dulliau gweithredu marchnadoedd stoc yn fyw mewn ffordd hygyrch a phoblogaidd iawn, a denu 5 miliwn o ymweliadau â thudalennau ar wefan BBCi bob wythnos.


Mae comedi ac adloniant gwreiddiol yn genres pwysig ar gyfer cynulleidfaoedd ifancach. Daeth *3 Non-Blondes* a rhan reolaidd o'r *Fast Show* gynt, *Swiss Toni*, yn rhaglenni poblogaidd tra y denodd *Two Pints of Lager and a Packet of Crisps* gynulleidfaoedd da ar gyfer sianel ddigidol. Ymsefydlodd y talentau adloniant adnabyddus Dom Joly a Johnny Vaughan ar y sianel. Ymhlith llwyddiannau eraill roedd y ddrama gyfresol newydd *Burn It*, *Grease Monkeys*, yn cynnwys talent Asiaidd ifanc, a'r gyfres pensaernïaeth fodern *Dream Spaces*.

Ar ôl lansio'n llwyddiannus, mae BBC Three bellach yn wynebu'r dasg anodd o droi hunaniaeth brand gryf yn gyfran uwch o'r gynulleidfa yn ystod y 12 mis nesaf.

**BBC Four**
Bu'n flwyddyn gyntaf lwyddiannus iawn i BBC Four, sydd wedi sefydlu ei hun yn feirniadol, gan ennill gwobrau RTS, BAFTA a rhaglenni dogfen Grierson, a denodd gynulleidfa graidd hynod ffyddlon. Drwy ei darllediadau unigryw eraill, daeth BBC Four ag arloesedd deallusol i ran o'r maes darlledu aml-sianel nas gwasanaethwyd yn ddigonol.

Cyflwynodd y tymor *Pinter at the BBC*, mewn cydweithrediad â BBC Two, y deyrnged fwyaf erioed ar y teledu i ddramodydd byw drwy ddarlledu ei holl waith, a chyfoethogi'r ddwy sianel. Cynigiodd BBC Four gyd-destun a dyfnder i dymhorau ar y BBC a rhaglennu ychwanegol fel y rhaglen ddogfen am Billy Elliott adeg y Nadolig, a ddilynodd ddarllediad cyntaf y ffilm ar BBC One ac a wyliwyd gan 400,000 o wylwyr. Ymhlith buddiannau cydweithredol eraill roedd cynyddu nifer y rhifynnau o *Storyville* o wyth i 52 a chyfresi dogfen dadleuol fel *Holidays in the Axis of Evil* a gyflwynodd dalent a rhaglennu newydd i BBC Two a BBC Four.

Mae BBC Four wedi galluogi'r BBC i gynnig graddfa a dyfnder o ddarllediadau celfyddydol cyfoes gwreiddiol a gynhyrchir yn fewnol nad oedd ar gael drwy danysgrifiad mewn cartrefi aml-sianel cyn hynny. Fel noddwr a darlledwr Gwobr Samuel Johnson, mae'r sianel wedi helpu i roi proffil uwch i gyhoeddi ffeithiol. Cynigiodd



**Cyfanswm cyfran teledu (%) pob cartref** 2002/2003

- BBC One **26.5%** (18.8%*)
- BBC Two **11.2%** (6.0%*)
- Sianelau digidol y BBC **1.4%** (3.3%*)
- ITV1 **23.9%** (18.2%*)
- Channel 4 **9.8%** (6.2%*)
- Five **6.3%** (4.1%*)
- Sianelau eraill **20.9%** (43.3%*)

* Nodir y gyfran mewn cartrefi digidol ar gyfer 2002/2003 mewn cromfachau

Ffynhonnell: BARB, TNS/Infosys, 4+ oed Gwahaniaethau oherwydd talgrynnu

Cyfanswm cyfran Teledu'r BBC 39.1% (2001/2002 38.6%)



Dde: *Angry Kid* gan Aardman Animation ar BBC Three.

Dangosodd *Storyville* ar BBC Four a BBC Two raglenni dogfen gan wneuthurwyr ffilmiau a berchir yn rhyngwladol. Yma, *More than a Life* gan Luke Holland.



bythefnos ychwanegol o ddarllediadau o *BBC Proms* gan gyflwyno nodiadau rhaglenni syml, rhyngweithiol, arloesol ar gyfer pob cyngerdd. Fel rhan o rôl y sianel wrth gefnogi'r celfyddydau cynhaliodd BBC Four sesiynau yn y Barbican a chynyddodd ei chyfranogiad ym maes cerddoriaeth fyd-eang, gyda'i darllediadau o Wobrau Cerddoriaeth y Byd BBC Radio 3 yn llwyfan i hynny. Teithiodd y *Readers and Writers Roadshow* ledled y DU gan roi cyfle i awduron adnabyddus siarad yn uniongyrchol â chynulleidfaoedd.

Cyflwynodd BBC Four ddeunydd heriol a dadleuol i'r sgrîn gan gynnwys *The Situation Room* a *Strange New World*. Mae rhaglenni o'r fath yn rhan o'i chylch gwaith i annog gwneuthurwyr rhaglenni a ffilmiau i gymryd risgiau. Dangosodd rhaglenni dogfen fel *Ceausescu – King of Communism*, *In Love with Terror* a phroffil o'r ffotograffydd ffasiwn dadleuol Corinne Day, a greodd y ddelwedd 'heroin chic' yn y 1990au ac a ddarganfu'r supermodel Brydeinig Kate Moss, fuddiannau'r ymagwedd ddeinamig hon.

Bu dramâu unigol a sinema'r byd yn elfennau arbennig yn rhaglennu amrywiol y sianel. Cymerodd BBC Four gamau mentrus tuag at ddod yn gartref i sinema'r byd ar deledu Prydain gan ddarlledu nifer o ffilmiau arwyddocaol am y tro cyntaf gan gynnwys drama gwrth-ryfel ddadleuol François Dupeyron *The Officers' Ward*.

O ganlyniad i gydweithredu gyda byd y theatr darlledwyd cynyrchiadau ar y sgrîn, gan gynnwys *Vincent in Brixton* a enwebwyd am dair gwobr Olivier, cynhyrchiad deallusol gymhellol Michael Frayn *Copenhagen* a *A Day in the Death of Joe Egg* gan Peter Nichols.

Daeth BBC Four hefyd â phersbectif byd-eang i ohebu newyddion a materion cyfoes sy'n caniatáu iddi gau'r bwlch rhwng y genres hyn yn ystod ei rhaglen ganol min nos *BBC Four News*.

Er i ffigurau cynulleidfaoedd isel i raglenni unigol ddenu sylw negyddol yn y wasg, gwyliodd dros 12 miliwn o bobl y sianel yn ystod ei blwyddyn gyntaf. Er nad fel sianel prif ffrwd y'i rhagwelwyd erioed, yr her i BBC Four fydd cynyddu ei chynulleidfa yn ystod ei hail flwyddyn.

**CBBC**

Mae sianel CBBC yn cynnig rhaglennu newydd yn bennaf o'r DU o fewn amserlen genre cymysg i'r ystod oedran chwech i 12 oed. Ar ôl dechrau araf, erbyn diwedd y flwyddyn cynyddodd ei statws o'r 16eg uchaf i'r pumed uchaf o ran y gyfran o blant a oedd yn gwylio. Ei chyrhaeddiad wythnosol ar gyfartaledd ymhlith plant oedd 6.5%. Yn wahanol i lawer o sianelau eraill i blant, mae CBBC yn cynnig llwyfan amgen i'r rheini sydd am weld cynnwys o Brydain. Er gwaethaf arwyddion calonogol o dwf, mae gwella ei pherfformiad o ran denu cynulleidfa yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae cyfresi mentrus newydd fel *Stitch Up, Kerching!, Serious Jungle* a'r darllediad cyntaf o'r ddrama wreiddiol *My Dad's The Prime Minister*, wedi'u hategu gan gyfresi cyfarwydd *Byker Grove* a *Grange Hill*, wedi helpu i greu apêl arbennig CBBC. Bu BBC Scotland yn ddarparwr pwysig o ran rhaglenni unigryw i'r sianel fel y gyfres ffantasi *Raven*, cymysgedd o sioe gemau, cynllwynio a dirgelwch. Caiff dros dri chwarter cyllideb CBBC ei gwario ar gomisiynu rhaglenni newydd a gwreiddiol, sy'n gyfrifol am chwarter yr holl amser ar yr awyr.

Cynyddodd nifer y bwletinau dyddiol a gynhyrchwyd gan *Newsround* i saith y diwrnod gan gynnwys wythnos o ddarllediadau byw o Affrica a bwletinau o'r rhyfel yn Irac.

Bu *Class TV*, blociau o raglennu yn seiliedig ar y cwricwlwm i athrawon a phlant oed ysgol, yn rhan bwysig o'r amserlen gyda rhaglenni Saesneg, hanes, daearyddiaeth ac ieithoedd.

Mae'r sianelau digidol newydd i blant yn gwneud defnydd helaeth o gynnwys rhyngweithiol. Aeth ymweliadau misol â thudalennau CBBC heibio i 16 miliwn ym mis Rhagfyr 2002 a'r wefan oedd wythfed cyrchfan fwyaf poblogaidd BBCi.



Chwith: 17 mlynedd ar ôl ei gomisiynu, darlledodd y BBC *The Falklands Play*, dramateiddiad Ian Curteis o baratoadau rhyfel Margaret Thatcher, ar BBC Four.

Dde: Darcey Bussell a Jonathan Cope yn perfformio *Tryst* a ffilmiwyd yn Ffrainc ac a ddarlledwyd ar BBC Four.



## Cerddoriaeth yn y nos

Denodd *Prom at the Palace* Jiwbilî'r Frenhines un o'r cynulleidfaoedd uchaf erioed ar gyfer cyngerdd clasurol ar y teledu.

**CBeebies**
Adeiladodd CBeebies, sy'n cynnig amrywiaeth o raglenni addysgol ac adloniant i blant o dan chwech oed, ar ei llwyddiant ers ei lansio yn 2002 a hon bellach yw'r sianel fwyaf poblogaidd i blant mewn cartrefi digidol gyda chyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol o 15.2% a chyfran o 6.9% o'r holl wylio ymhlith plant.

Mae'n sianel ddiogel, benodol i blant cyn oed ysgol wylio, chwarae a dysgu, ac mae'n atgyfnerthu'r ymddiriedaeth rhwng rhieni, eu plant a'r BBC. Bodlonodd ei chylch gwaith o gynnig 80% o raglenni gwreiddiol gydag elfen dysgu drwy chwarae ryngweithiol gryf.

Ymhlith y rhaglenni eithriadol yn ystod y flwyddyn roedd darllediad cyntaf y ddrama gyntaf i blant cyn oed ysgol, *Balamory*, a wnaed gan BBC Scotland; y sioe gylchgrawn newydd *Tikkabilla*, a phrif sioeau, *Fimbles*, *Teletubbies* a *Tweenies*.

Darlledodd CBeebies fwy o raglennu addysgol yn ystod y dydd nag unrhyw sianel arall sydd wedi'i hanelu at y grŵp oedran hwn. Derbyniodd gwefan CBeebies rhwng 7 miliwn ac 8 miliwn o ymweliadau â thudalennau yr wythnos gan ddarparu cyfleoedd dysgu pellach drwy gemau a straeon, a chyngor i rieni er mwyn iddynt helpu eu plant i ddatblygu i'w llawn potensial.







Dde uchod: Cynhyrchodd BBC Scotland *Balamory* ar gyfer CBeebies.

Dde: Lansiwyd y gyfres herfeiddiol newydd *Stitch Up* ar CBBC.

Chwith: Rhoddodd *Serious Jungle* gyfle i wyth o blant helpu orang-wtangau mewn perygl.

# Arolwg o'r gwasanaethau: Radio



## Erys 2 yn rhif 1

BBC Radio 2 yw'r orsaf y gwrandewir arni fwyaf yn y DU gyda 13 miliwn o wrandawyr bob wythnos.

**Yn ystod blwyddyn ei 80ain mlwyddiant, trawsnewidiwyd portffolio rhwydweithiau radio cenedlaethol y BBC drwy gwblhau'r dasg o lansio ei wasanaethau digidol newydd. Roedd yn flwyddyn hanesyddol mewn ffyrdd eraill, gyda darllediadau byw unigryw o Gyngherddau Jiwbilî'r Frenhines, *Music Live* ledled y DU, a rhaglenni cerddoriaeth a llafar, rhaglenni dogfen ac adroddiadau gohebu clodwiw a ddenodd y cynulleidfaoedd uchaf erioed.**

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd y BBC yn denu 53.5% o gyfanswm y gynulleidfa radio ac yn cyrraedd 33.3 miliwn o bobl yr wythnos, cynnydd blwyddyn ar flwyddyn o 400,000 o wrandawyr. Daeth y ffigurau gwrando uchaf erioed ar ddiwedd blwyddyn o her, cyfuno ac arloesi i Radio'r BBC gyda newidiadau sylweddol o ran talent, cystadleuaeth fasnachol anodd a datblygiad gwasanaethau digidol ac ar-lein newydd. Er mwyn aros ar flaen y gad yn y chwyldro darlledu digidol, cwblhaodd Radio'r BBC y broses lwyddiannus o lansio ei bum gorsaf ddigidol – BBC Five Live Sports Extra, 6 Music, 1Xtra, BBC Asian Network a BBC 7.

Mae gwefannau BBCi yn rhan hanfodol o bob rhwydwaith ac mae'r BBC Radio Player newydd yn cynnig cyfle i ailwrando ar lawer o raglenni radio yn ystod y saith diwrnod ar ôl eu darlledu. Mae wedi datgelu cynulleidfaoedd sylweddol ar gyfer sain ar gais – derbynnir tua miliwn o geisiadau bob wythnos, a hynny dim ond deg mis ers ei lansio.

Cofnododd ymron pob un o rwydweithiau cenedlaethol y BBC y ffigurau gwrando uchaf erioed, er i BBC Radio 1 brofi gostyngiad bach yn ei gynulleidfa darged o bobl ifanc 15 i 24 mlwydd oed am yr ail flwyddyn yn olynol. Serch hynny, cyflawnodd gynnydd bach mewn cyrhaeddiad ymhlith y merched ifancach sy'n gwrando. Atgyfnerthodd BBC Radio 2 ei statws fel hoff orsaf y DU gyda chyrhaeddiad wythnosol o 13.2 miliwn, cynnydd o draean o filiwn ar y flwyddyn flaenorol a chyda chyfran o 15.7%. Am y tro cyntaf ers pum mlynedd, cyflawnodd BBC Radio 3 gyrhaeddiad rheolaidd o fwy na 2 filiwn o wrandawyr yr wythnos er i'w gyfran ostwng ychydig i 1.1%. Cafodd BBC Radio 4 flwyddyn arbennig o dda, gan gyflawni ei gyrhaeddiad uchaf erioed o fwy na 10 miliwn a chyfran o 11.8%. Llwyddodd hefyd i ennill gwobr Sony am Orsaf y Flwyddyn. Daeth blwyddyn BBC Radio Five Live i ben gyda chyrhaeddiad o 6.4 miliwn, tra y cynyddodd ei gyfran ychydig i 4.7%.

Cyflawnodd gwasanaethau radio lleol a chenedlaethol y BBC ffigurau eithriadol hefyd gyda'r cyrhaeddiad wythnosol uchaf erioed o 11.1 miliwn a chyfran o 11.5% (gweler y Gwledydd a'r Rhanbarthau, tudalennau 36 i 41). Am y tro cyntaf mesurwyd cynulleidfa DU World Service digidol y BBC gan gyrraedd ffigur trawiadol o 1.4 miliwn (gweler tudalennau 50 i 53 am adroddiad llawn ar BBC World Service). Mesurwyd BBC Asian Network hefyd yn genedlaethol am y tro cyntaf gan gofnodi cyrhaeddiad wythnosol o 433,000. Fodd bynnag, mae lle i wella cyrhaeddiad radio rhwydwaith y BBC o hyd yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Gogledd Lloegr ac ymhlith oedolion du ac Asiaidd yn Llundain, er bod nifer y gwrandawyr o leiafrifoedd ethnig y tu allan i'r brifddinas yn gytbwys â nifer y gwrandawyr gwyn.

### BBC Radio 1

I lawer o bobl ifanc BBC Radio 1 yw eu cyflwyniad cyntaf i werthoedd cyhoeddus y BBC. Mae hanner poblogaeth 15 i 24 mlwydd oed y DU yn gwrando ar yr orsaf ac mae ganddi gyrhaeddiad wythnosol o 12.8 miliwn (pedair oed a throsodd) a chyfran o 8.4% o'r gynulleidfa. Mae cyrraedd y gynulleidfa heriol a chyfnewidiol hon yn her i BBC Radio 1. Erys ei statws fel y rhwydwaith cenedlaethol mwyaf llwyddiannus o ran ei apêl i gynulleidfaoedd ifanc a lleiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, mae cyrhaeddiad BBC Radio 1 ac, yn arbennig, ei gyfran wedi gostwng o ganlyniad i gystadleuaeth gan y sector masnachol am wrandawyr ifanc.

*Breakfast Show* Sara Cox yw'r sioe frecwast i ieuenctid y gwrandewir arni fwyaf yn y DU o hyd, gan ddenu cyfartaledd o 7 miliwn o wrandawyr yr wythnos. Cynyddodd cynulleidfa'r *Official Chart Show,* a ail-lansiwyd o'r newydd gyda Wes Butters sy'n 24 mlwydd oed yn ei chyflwyno, i 2.7 miliwn. Enillodd John Peel Wobr Sony 2002 am





Gyferbyn, chwith: Jeremy Vine oedd llais amser cinio newydd BBC Radio 2.

Uchod: Aeth Destiny's Child ar daith gyda BBC Radio 1.

Dde: Sara Cox yn cwrdd â'i dilynwyr yn *One Big Sunday*.



Dde: Yn 24 mlwydd oed, Wes Butters oedd wyneb newydd yr *Official Chart Show* ar ôl ei hail-lansio.

gyflawniad oes am ei 36 mlynedd diflino o hyrwyddo cerddoriaeth newydd ar BBC Radio 1.

Mae hyrwyddo cerddoriaeth newydd a darlledu'r perfformiadau byw cyfoes gorau wrth wraidd cylch gwaith BBC Radio 1. Teithiodd *One Big Sunday* ledled y wlad, gan ddenu torfeydd o hyd at 100,000 i weld amrywiaeth eang o artistiaid fel Destiny's Child a Super Furry Animals. Daeth degau o filoedd o ddilynwyr dawns hefyd i'r *Dance Parties* yn Newquay a Sheffield. Daeth haf cerddoriaeth fyw BBC Radio 1 i ben ym mis Hydref gyda *One Live*, gŵyl wythnos o hyd yn Nottingham a ddarparodd lwyfan i fandiau lleol ochr yn ochr â sêr sefydledig. Cymerodd BBC Radio 1 bersbectif byd-eang hefyd gan ddarlledu sioeau o Gynhadledd Cerddoriaeth Gaeaf Miami, Ayia Napa, Ibiza, Berlin, ac hyd yn oed Alpau'r Swistir.

Ategir trac sain cyfoes BBC Radio 1 gan *Newsbeat*, sy'n apelio i wrandawyr ifancach gyda newyddion, materion cyfoes a gwleidyddiaeth, a *The Sunday Surgery*, sy'n cynnig help ymarferol gydag arholiadau, gyrfaoedd, teuluoedd, materion corfforol, ffyrdd o fyw ac ymwybyddiaeth o gyffuriau.

Mae pobl ifanc yn defnyddio gwefannau yn rheolaidd ac ail-lansiodd BBC Radio 1 ei wefan ei hun gan ychwanegu'r gwasanaeth 'ailwrando' arloesol. Gyda *One Life* a'r gwefannau addysgol *One Music* newydd, mae'r rhwydwaith yn darparu adnoddau personol, dysgu a gyrfaol cynhwysfawr yn ogystal ag amlygiad ar-lein gwerthfawr i artistiaid newydd a all arwain at ddarllediadau cenedlaethol, ac yn wir sydd yn gwneud hynny.


### 1Xtra gan y BBC


Lansiwyd 1Xtra i lenwi bwlch mewn gwasanaethau radio i ddilynwyr ifanc cerddoriaeth drefol. Daeth yr orsaf ddigidol â thalent newydd i'r awyr ac mae'n cynnwys cymysgedd o raglennu llafar sy'n mynd i'r afael â materion sy'n berthnasol i'w chynulleidfa.

Mae 1Xtra eisoes yn dangos ei gallu newyddiadurol. Ymunodd DJ Spoony a chyflwynydd *TX* Derren Lawford â gohebwyr BBC Radio Five Live ar gyfer *Who'll Show Racism the Red Card?* – ymchwiliad i hiliaeth ym maes pêl-droed. Roedd yr orsaf newydd hefyd ar flaen y gad newyddiadurol wrth i deuluoedd dioddefwyr yr achosion o saethu yn Birmingham ar Nos Galan siarad gyntaf â 1Xtra. Cymerodd *TX Unltd*, sy'n cyflawni ymrwymiad 1Xtra yn y *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni* i ddarlledu rhaglen drafod ddyddiol awr o hyd, ran yn niwrnod y BBC ar Irac gyda thrafodaeth fyw o amgylch y bwrdd gydag aelodau o banel cynulleidfa 1Xtra.

Yn ystod y dydd ac ar ddechrau oriau cymudo, ceir sain prif ffrwd ar 1Xtra, ond gyda'r nos ac yn ystod y nos mae'n fwy eclectig, gan amlygu amrywiaeth o arddulliau sy'n cwmpasu'r sbectrwm cerddoriaeth drefol o'r gerddoriaeth soca a reggae orau i hip hop a drum & bass.

Mae slot nos Lun ar BBC Radio 1 yn galluogi 1Xtra i ddarlledu ei harlwy i gynulleidfa analog ehangach na gwrandawyr y gwasanaeth digidol, sy'n bennaf brifddinesig. Wyth mis ar ôl ei lansio, aeth gwefan 1Xtra y tu hwnt i filiwn o ymweliadau â thudalennau yr wythnos, gan olygu mai dyma oedd un o gyrchfannau ar-lein mwyaf poblogaidd y BBC.





Chwith: Darlledodd 1Xtra o Garnifal Trinidad.

Dde: Edith Bowman a Colin Murray, lleisiau newydd poblogaidd ar BBC Radio 1.

## Tri ar y brig

BBC Radio 3 yw comisiynydd gweithiau clasurol newydd mwyaf y byd.

**BBC Radio 2**
Mewn marchnad radio lawn, parhaodd BBC Radio 2 i gynyddu ei chynulleidfa a llwyddodd i gadw ei statws fel yr orsaf radio y gwrandewir arni fwyaf yn y DU, gan gynnal ei hapêl i'w chynulleidfa graidd tra'n ymestyn ei chyrhaeddiad ymhlith cynulleidfaoedd newydd ifancach. Newidiodd yr amserlen yn sylweddol yn ystod chwarter olaf y flwyddyn gan gynnwys ymddeoliad Jimmy Young, Jeremy Vine yn cymryd yr awenau yn y slot amser cinio a marwolaeth cyflwynydd y rhaglen *Your Hundred Best Tunes*, Alan Keith.

Mae amrywiaeth BBC Radio 2 yn cynnwys dros 40 mlynedd o gerddoriaeth a diwylliant poblogaidd gan gynnig y detholiad ehangaf o gerddoriaeth boblogaidd ac arbenigol ar y radio. Llunnir sain yr orsaf gan gyflwynwyr amrywiol fel Russell Davies a Jonathan Ross, Mica Paris, Ken Bruce, Michael Parkinson a Terry Wogan, a gyflawnodd ei gynulleidfa uchaf erioed gyda chyrhaeddiad wythnosol o 7.9 miliwn. Mae'r orsaf yn parhau i fuddsoddi mewn sioeau cerddoriaeth arbenigol, rhaglenni dogfen, darlleniadau, comedi a darllediadau llafar eraill yn ogystal â rhaglennu prif ffrwd poblogaidd.

Yn ystod y flwyddyn, darlledwyd amrywiaeth o raglenni dogfen am gerddoriaeth gan gynnwys cyfresi yn archwilio cerddoriaeth o Jamaica, hanes cerddoriaeth Asiaidd ym Mhrydain, cyflwr presennol cerddoriaeth yn yr Unol Daleithiau a phyncs canol oed. Cyflwynodd *Live and Exclusive* berfformiadau gan sêr byd enwog fel David Bowie, Elvis Costello a James Taylor.

Dathlodd y BBC y Jiwbilî Aur gyda *Music Live* a thros 500 o oriau o ddarllediadau radio a theledu. Roedd BBC Radio 2 wrth wraidd y dathliadau hyn yn ogystal â dathlu llu o ddigwyddiadau cerddorol ar draws amrywiaeth eang o genres cerddorol nas clywir yn aml ar orsafoedd radio eraill.

**BBC Radio 3**
Ni fu BBC Radio 3 erioed mor fentrus yn ei hamserlennu nac uchelgais ei darllediadau, gyda rhaglenni yn amrywio'n eang o gerddoriaeth glasurol i gerddoriaeth y byd, ac o ddrama i






Dde uchod: Enillodd sioe frecwast Terry Wogan ar BBC Radio 2 600,000 o wrandawyr newydd, gan gyrraedd ei chynulleidfa uchaf erioed o bron 8 miliwn.

Dde: Cymerodd Elvis Costello ran yn *Live and Exclusive* ar BBC Radio 2.




Chwith: Darlledwyd y *BBC Proms* mewn digwyddiadau cyhoeddus ledled y DU.








drafodaethau ar y celfyddydau. Ymhlith yr elfennau a luniodd arlwy'r orsaf yn ystod y flwyddyn ddiwethaf roedd ymdrech lwyddiannus i gomisiynu mwy o waith newydd, darllediadau byw a rhaglenni arbennig, fel *Monsoon Night*.

Yn ei darllediadau cerddorol, parhaodd BBC Radio 3 i gynnig mwy o lawer i'w chynulleidfa na cherddoriaeth glasurol draddodiadol o'r gorllewin. Cyfrannodd partneriaeth â'r London Jazz Festival, Gwobrau Cerddoriaeth y Byd a darllediadau o wyliau'r DU o Brighton i Erch, at amserlen gyfoethog o arddulliau cerddorol gwahanol. Fodd bynnag, erys cerddoriaeth glasurol wrth wraidd yr amserlen, ac mae partneriaethau newydd gyda cherddorfeydd y DU yn Birmingham, Bournemouth a Manceinion wedi sicrhau amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth glasurol ar y rhwydwaith.

Mae BBC Radio 3 yn darlledu pob cyngerdd o'r *BBC Proms* yn fyw. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cynhaliwyd y *BBC Proms* mwyaf llwyddiannus erioed, gan gyflawni dros 2 filiwn o wrandawyr. Parhaodd y cynnydd sylweddol wrth sicrhau bod y *BBC Proms* yn fwy arbennig a hygyrch, a chyrhaeddodd y gwasanaeth teledu rhyngweithiol *Last Night of the Proms* 0.3 miliwn o ddefnyddwyr unigryw, gan olygu mai dyma oedd gwasanaeth mwyaf llwyddiannus BBCi o'r math hwn.

Mae BBC Radio 3 yn parhau i gyflawni ei rôl fel noddwr diwylliannol arwyddocaol. Yr orsaf yw comisiynydd gweithfeydd clasurol newydd mwyaf y byd. Yr orsaf hefyd yw'r prif lwyfan ar gyfer chwe grŵp perfformio'r BBC, ac mae hefyd yn cefnogi artistiaid newydd, drwy fentrau fel cynllun Artistiaid Cenhedlaeth Newydd BBC Radio 3. Mae gan BBC Radio 3 rôl bwysig hefyd wrth gomisiynu awduron newydd drwy *The Wire*, tra'n parhau i ddarparu mynediad i theatr glasurol, gan gynnwys Shakespeare, Middleton a Congreve.

**BBC Radio 4**

Daeth y flwyddyn i ben i BBC Radio 4 gyda'i chyrhaeddiad uchaf erioed sef 10.3 miliwn o wrandawyr yr wythnos, sy'n gyfwerth â thua un o bob pump oedolyn yn y DU. Cynyddodd cynulleidfa'r

Chwith uchod: Deidre Gribben, cyfansoddwraig cerddoriaeth wreiddiol y ddrama *Grace Notes* ar BBC Radio 3.

Chwith: Bembeya Jazz yn rownd derfynol Gwobrau Cerddoriaeth y Byd BBC Radio 3.



Chwith isaf: Aelodau o Gerddorfa Philharmonig y BBC yn cymryd rhan yn Supermarket Symphony cyntaf y byd, partneriaeth rhwng y BBC a North City Arts.

Dde: Britannia unwaith eto yn rheoli'r *Last Night of the Proms.*

## Mwy gan BBC Radio 4

BBC Radio 4 yw buddsoddwr mwyaf y DU mewn drama radio.

rhwydwaith ar gyfer pob rhan o'i amserlen gyda *The Archers* a *Woman's Hour* yn cofnodi'r ffigurau cyrhaeddiad wythnosol uchaf erioed, sef 4.9 miliwn a 2.9 miliwn.

Canolbwyntiodd newyddiaduraeth BBC Radio 4 ar faterion allweddol y flwyddyn drwy raglenni yn amrywio o *Today* i *The World at One, PM* a *The World Tonight*. Enillodd John Humphrys Wobr Aur Sony am ei gyfraniad eithriadol ar *Today*, sy'n cyrraedd 6.6 miliwn o oedolion bob bore yn ystod yr wythnos, ac a ddisgrifiwyd gan y beirniaid fel "enghraifft ddisglair o newyddiaduraeth gyfoes".

Parhaodd newyddiaduraeth ymchwiliol i ffynnu. Er enghraifft, ymchwiliodd *File on Four: Mothers of Dead Babies* i farwolaeth yn y crud, gan ystyried achos Sally Clark, ymhlith eraill, a chan holi cwestiynau ynglŷn â chamweinyddu cyfiawnder. Roedd trafodaethau am ddilemâu moesol a moesegol yn cynnwys cyfweliadau dadlennol Fergal Keane yn *Taking a Stand*.


Llwyddodd BBC Radio 4 i ddarparu darllediadau llafar heb eu hail drwy raglenni fel *Start the Week*, gyda'r cyflwynydd newydd Andrew Marr, ac *In Our Time* gyda Melvyn Bragg. Roedd rhaglenni dogfen yn amrywio o'r dylanwad Arabaidd ar hanes Ewrop i'r dilemâu sy'n wynebu entrepreneuriaid yng Nghaliffornia ar ôl y dirywiad dot.com.

Yr orsaf yw buddsoddwr mwyaf y DU mewn drama radio o hyd, gan gomisiynu dros 350 o ddramâu a straeon byrion newydd y flwyddyn. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd y clasuron *Brideshead Revisited*, *On the Waterfront* a *Strangers and Brothers* gan C P Snow. Mae gan y rhwydwaith enw da am ei amrywiaeth o ddarllediadau comedi clodwiw gan gynnwys *Dead Ringers*, *Just a Minute* a rhaglenni newydd fel y sioe sgetsys swrrealaidd *Little Britain*, a gyflwynodd gymeriadau fel y trawswisgwr gofidus a'r actor nad yw mor enwog â hynny, Olivier Lawrence.

I blant, mae BBC Radio 4 wedi darparu'r rhaglen gylchgrawn wythnosol *Go4It* a dramâu i'r teulu gan gynnwys *His Dark Materials,* yn ogystal â gwefan ryngweithiol.







Dde uchod: John Humphrys a Sarah Montague yn holi'r cwestiynau gwleidyddol anodd ar *Today*.

Dde: Denodd y newyddion am garwriaeth Brian Aldridge a Siobhan Hathaway yn *The Archers* 4.9 miliwn o wrandawyr yr wythnos.




Chwith uchod: Cymerodd Terence Stamp ran yn *His Dark Materials* gan Philip Pullman ar BBC Radio 4.

Chwith: Ar ôl 35 mlynedd o blesio cynulleidfaoedd, enillodd *Just a Minute* wobr Sony.

# Arolwg o'r gwasanaethau: Radio



Nicky Campbell a Victoria Derbyshire sy'n cyflwyno'r slot brecwast ar BBC Radio Five Live.

**BBC Radio Five Live**

Cafodd BBC Radio Five Live flwyddyn gofiadwy, gan gyflwyno amserlen newydd â sioeau brecwast a bore ffres a chyflwynwyr newydd. Daeth ei blwyddyn i ben gyda chyrhaeddiad cynulleidfa o 6.4 miliwn o wrandawyr bob wythnos. Bu ei fformat newyddion treigl yn llwyddiant mawr gan gynnwys darllediadau byw, parhaus o'r gwrthdaro yn Irac gyda Peter Allen yn cyflwyno darllediadau o Kuwait i Baghdad.

Cynyddodd sioe *Breakfast* newydd Nicky Campbell a Victoria Derbyshire ei chynulleidfa, felly hefyd sioe foreol newydd Fi Glover. Gyda Matthew Bannister gyda'r nos a Julian Worricker ar ddydd Sul yn cyflwyno'r rhaglen *Five Live Report*, ar ei newydd wedd, adfywiwyd yr orsaf.

Cynigiodd sylwebaeth BBC Radio Five Live y goreuon o blith digwyddiadau chwaraeon i wrandawyr, gan gynnwys Cwpan Criced y Byd, yr Uwch Gynghrair, Cwpan yr FA, Wimbledon, y Bencampwriaeth Agored, Cwpan Ryder, rygbi'r Chwe Gwlad, a Fformiwla Un. Gostyngwyd darllediadau chwaraeon yn ystod wythnosau'r gwrthdaro yn Irac er mwyn darlledu'r newyddion diweddaraf, ond darparodd BBC Five Live Sports Extra lwyfan ar gyfer sylwebaethau. Torrodd *Access All Areas* dir newydd, gan dywys gwrandawyr y tu ôl i'r llenni mewn gêm bêl-droed er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o'r gêm. Caiff y fformat hwn ei ymestyn i chwaraeon eraill yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Cynigiodd rhaglen ddogfen glodwiw Jeff Randall *Football Finance: The Bankrupt Game* gipolwg prin ar gyflwr ariannol enbyd llawer o glybiau.

**BBC Five Live Sports Extra**

Yn ystod ei flwyddyn weithredu lawn gyntaf, darlledodd y gwasanaeth digidol newydd BBC Five Live Sports Extra bortffolio trawiadol o ddigwyddiadau chwaraeon o ansawdd uchel gan gynnwys sylwebaethau pêl-droed yr Uwch Gynghrair a Chynghrair Nationwide. Darlledodd yr orsaf gemau pêl-droed rhyngwladol, criced rhyngwladol, rygbi a rowndiau cymhwyso'r Grand Prix. Rhwydwaith rhan-amser yw'r orsaf, sy'n ceisio rhoi dewis o gemau i ddilynwyr chwaraeon, ac o ganlyniad mae'n galluogi'r BBC i roi gwell gwerth i dalwyr y drwydded o'i bortffolio o hawliau chwaraeon.

**6 Music gan y BBC**

Gwasanaeth digidol yw 6 Music sy'n canolbwyntio ar gerddoriaeth ac artistiaid nas cefnogir yn helaeth gan orsafoedd eraill. Ers ei lansio mae 6 Music wedi darlledu cyfoeth o gerddoriaeth fyw, gan gynnwys dros 150 o ymddangosiadau acwstig, 54 o sesiynau o stiwdios y BBC ym Maida Vale, a saith o'r prif wyliau cerddorol. Darparodd archif sesiynau'r BBC hefyd tua 2,500 o draciau sesiwn sy'n unigryw i'r BBC gan roi profiad cerddorol cyflawn i wrandawyr, boed ar yr awyr, ar-lein neu mewn cyngherddau.

Datblygodd 6 Music hefyd *The Main Event*, sy'n cynnwys sesiynau archif a deunydd dogfennol wedi'i ailolygu i ehangu cyd-destun digwyddiad byw newydd. Peilotiwyd y broses yn llwyddiannus ym mis Hydref 2002 ar gyfer cyngerdd teyrnged Kirsty MacColl. Mae cynlluniau ar droed ar gyfer mwy o gydweithredu gyda BBC Radio 2, a neilltuodd noson benodol i 6 Music y llynedd. Mae'r math hwn o gydweithredu yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn sydd gan 6 Music i'w gynnig a sut y gall gwrandawyr dderbyn y gwasanaeth hwn a gwasanaethau newydd eraill gan y BBC.


**BBC 7**

Drwy lansio BBC 7 ym mis Rhagfyr 2002 cwblhawyd portffolio radio digidol y BBC. Mae'r orsaf yn cynnig comedi, drama a darlleniadau gorau'r BBC o'r archif. Mae wedi ymestyn darllediadau Radio'r BBC i blant yn sylweddol. Mae BBC 7 yn darlledu dwy raglen y dydd i blant, saith diwrnod yr wythnos – *The Big Toe Radio Show*, rhaglen fyw a rhyngweithiol i blant naw i 11 mlwydd oed a *The Little Toe Radio Show* i blant ifancach.

Ymhlith uchafbwyntiau o archifau radio drama a chomedi'r BBC roedd clasur Anthony Trollope *Barchester Chronicles* ochr yn ochr â drama gyfoes fel *A Suitable Boy*. Mae comedi yn amrywio o glasuron



Chwith: Y gitarydd roc Lenny Kravitz ar 6 Music.



**Cyfanswm cyfran radio (%)** C1 2003

- BBC Radio 1 7.9%
- BBC Radio 2 15.7%
- BBC Radio 3 1.1%
- BBC Radio 4 11.8%
- BBC Radio Five Live 4.7%
- Radio Lleol y BBC (gan gynnwys y Gwledydd) 11.5%
- BBC World Service 0.7%
- Radio masnachol lleol (260 o orsafoedd) 36.6%
- Radio masnachol cenedlaethol (3 gorsaf) 7.9%
- Radio arall 2.1%

Cyfanswm cyfran Radio'r BBC C1 2003 53.5%
(C1 2002 52.6%)
Ffynhonnell: RAJAR 15+ oed. Gwahaniaethau oherwydd talgrynnu

## Cerddoriaeth newydd

Darlledodd 6 Music dros 7,500 o oriau o gerddoriaeth ac ychwanegodd 310 o gyngherddau i archif y BBC yn ystod ei flwyddyn gyntaf.

fel *Hancock's Half Hour* a *The Goon Show* i raglenni mwy cyfoes *The League of Gentlemen* a *Knowing Me, Knowing You*.

Yn ystod ei wythnos gyntaf, cyflawnodd BBC 7 ar-lein 920,000 o ymweliadau â thudalennau, y ffigur lansio uchaf ar gyfer unrhyw un o'r gwasanaethau newydd ac mae bellach yn cyflawni 1.6 miliwn o ymweliadau â thudalennau bob mis.

Mae BBC 7 yn ymrwymedig i gyflawni cylch gwaith y BBC i gynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar wasanaethau digidol ac fe'i hystyrir fel un o'r catalyddion ar gyfer y cynnydd yn nifer y derbynwyr radio digidol DAB a werthwyd ers Nadolig 2002.

**BBC Asian Network**
Ail-lansiodd BBC Asian Network fel rhwydwaith digidol cenedlaethol ym mis Hydref 2002, gan ddarlledu tua 50% o gerddoriaeth a 50% o gynnwys llafar gyda ffocws cryf ar newyddion a materion cyfoes. Yn unigryw, mae'r gwasanaeth yn parhau i ymdrin ag anghenion pobl Asiaidd cenhedlaeth gyntaf, gyda thros 2,000 o oriau y flwyddyn o raglenni gwreiddiol a gynhyrchir yn lleol mewn amrywiaeth o ieithoedd o Dde Asia.

Gan ddarlledu yn bennaf yn Saesneg i gymunedau Asiaidd Prydeinig ledled y DU, mae'r orsaf yn darparu pwynt canolog lle y gall cynulleidfaoedd gael newyddion, chwaraeon a cherddoriaeth cenedlaethol a rhyngwladol dyddiol.

Dathlwyd gwyliau pwysig y prif grefyddau Asiaidd yn ystod y flwyddyn gyda rhaglenni wedi'u comisiynu'n arbennig, i ategu'r rhaglenni defosiynol dyddiol a ddarlledir yn gynnar yn y bore drwy gydol y flwyddyn.

Er mwyn adlewyrchu ei gynulleidfa genedlaethol newydd yn well, cyflwynodd BBC Asian Network, sydd wedi'i leoli yng Nghanolbarth Lloegr, ddarllediadau llwyddiannus o Lundain drwy raglen ddyddiol Sonia Deol, gan ddarparu fforwm ar gyfer trafod materion cymdeithasol sy'n effeithio ar gymunedau Asiaidd.








Dde uchod: Paula Radcliffe yng Ngemau'r Gymanwlad, a ddarlledwyd ar BBC Radio Five Live a BBC Five Live Sports Extra.

Dde: Sonia Deol, cyflwynydd sioe foreol BBC Asian Network.

Chwith: Hen ffefrynnau ar BBC 7, y perfformwyr comedi mwyaf dylanwadol yn hanes radio.






radio newca
to find out m
about the bbc?
the place!
ask a member of
bbc bus

# Gwasanaethau cartref

Newyddion rhanbarthol y BBC am 6.30pm yw'r rhaglen newyddion fwyaf poblogaidd ar deledu Prydain.

**Mae'r Gwledydd a'r Rhanbarthau wrth wraidd cydberthynas y BBC gyda'i gynulleidfaoedd, gan gysylltu â chymunedau ymhob cwr o'r DU a dathlu diwylliannau ac amrywiaeth Prydain fodern. Mae buddsoddiad ychwanegol o £50miliwn mewn rhaglenni lleol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi helpu i ddenu cynulleidfaoedd uwch ac wedi arwain at gynnydd o ran cymeradwyaeth ymhob cwr o'r wlad. Llwyddodd syniadau gwreiddiol a defnydd arloesol o dechnoleg i wella pob un o'n gwasanaethau. Bu'n flwyddyn o gynnydd gwirioneddol i'r Gwledydd a'r Rhanbarthau.**

Llwyddodd newyddion rhanbarthol y BBC am 6.30pm i gadw ei statws fel y rhaglen newyddion fwyaf poblogaidd ar deledu Prydain. Roedd perfformiad rhaglenni newyddion rhanbarthol y BBC ar y teledu yn well na'r gystadleuaeth fasnachol ymhob ardal ond tair o'r DU.

Cyrhaeddodd radio lleol yn Lloegr a'r gwasanaethau radio cenedlaethol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon eu cynulleidfa agregedig uchaf erioed, gyda thros 11.1 miliwn o oedolion yn gwrando.

Mae'r BBC yn benderfynol o fynd yn agosach at gynulleidfaoedd ledled y wlad. Crëwyd gwasanaethau lleol newydd i wrandawyr yng Ngogledd Swydd Efrog, Wiltshire a Berkshire ac mae gan wylwyr yn Swydd Rydychen, Dwyrain Swydd Efrog a Swydd Lincoln bellach wasanaeth newyddion rhanbarthol llawn. Daeth saith gwefan *Lleol i Mi* newydd â'r cyfanswm i 42 o safleoedd yn Lloegr gyda phum safle arall yng Nghymru, saith safle yn yr Alban ac un yng Ngogledd Iwerddon. Bu i gyfanswm yr ymweliadau â thudalennau'r Gwledydd a'r Rhanbarthau ar-lein fwy na dyblu o 25.1 miliwn ym mis Mawrth 2002 i 52.9 miliwn ym mis Mawrth 2003.

Mae cynulleidfaoedd y sioeau gwleidyddiaeth a materion cyfoes newydd hefyd wedi mwy na dyblu ar ôl iddynt symud i BBC One yn Lloegr. Ychwanegodd rhaglenni drama, adloniant a ffeithiol newydd ar y teledu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon at gyfartaledd cyfran y rhwydwaith yn y tair gwlad.


Llwyddodd rhwydweithiau'r BBC i adlewyrchu'r DU yn fwy cyson fyth gyda chyfanswm oriau teledu o'r Gwledydd yn cynyddu 15%. Ymhlith yr uchafbwyntiau dychwelodd y cyfresi *Hidden Gardens*, *Easy Money* a *Lesley Garrett: The Singer* gan BBC Cymru, *Monarch of the Glen*, *Two Thousand Acres of Sky* a *Film 2002/2003* gan BBC Scotland a *Messiah 2*, *Patrick Kielty Almost Live* a *Sinners* gan BBC Northern Ireland.

2002 hefyd oedd y flwyddyn y dechreuodd y strategaeth Cysylltu Cymunedau i wella cydberthynas y BBC â'i gynulleidfa. Rhoddodd Canolfannau Agored y BBC mewn gorsafoedd radio yn Blackburn, Lerpwl, Sheffield a Stoke gyfle i bobl leol ddysgu am y cyfryngau, meithrin sgiliau TG a chymryd rhan mewn darllediadau cymunedol. Darparodd partneriaethau gydag asiantaethau dysgu gydol oes gyrsiau mwy ffurfiol a dysgu tymor hwy. Aeth deg o fysys y BBC â'r cyfleusterau hyn ar daith, gan gludo cyfrifiaduron personol ac offer darlledu i ardaloedd mwy anghysbell.

Mae Gwledydd a Rhanbarthau'r BBC yn ymrwymedig i alluogi cynulleidfaoedd i adrodd eu straeon yn eu geiriau eu hunain, gyda phrojectau fel *Straeon Digidol* yng Nghymru a *Video Nation* yn Lloegr. Mae'r fenter fwyaf newydd, *Lleisiau*, yn deillio o fisoedd o waith yn cysylltu â chymunedau lleol nas cynrychiolir yn ddigonol. Darlledwyd straeon pwerus, teimladwy o'r ffynonellau hyn ar bob gwasanaeth.

Er gwaethaf perfformiad cyfran cryf newyddion rhwng 6pm a 7pm, mae nifer cyffredinol y gwylwyr wedi gostwng (ac eithrio yn yr Alban). Er mwyn ymdrin â hyn, mae cynllun hyfforddi uchelgeisiol yn anelu at adfywio dulliau o adrodd straeon, gan fanteisio ar dechnolegau newydd sy'n dod i'r amlwg fel camerâu digidol a ddelir â llaw a golygu pen-glin. Caiff dau gant o aelodau o staff eu hyfforddi bob blwyddyn mewn canolfan ragoriaeth newydd yn Newcastle.

## Cynulleidfa ar gyfartaledd ar gyfer bwletinau newyddion rhanbarthol 2002/2003





Ffynhonnell: BARB, TNS/Infosys
*Nid yw'r ffigurau hyn ar gael gan fod y rhaglen newyddion hon yn cael ei hamserlennu ar amrywiol amseroedd



Tudalen gyferbyn, clocwedd o'r brig: Jim Fitzpatrick yn cyflwyno elfen ranbarthol Gogledd Iwerddon o'r *Politics Show*. Bws y BBC yn Sunderland lle y gall ymwelwyr fynd ar-lein. Michelle Collins a Paul Kaye yn y drydedd gyfres o *Two Thousand Acres of Sky*.

Chwith: *Lesley Garrett: The Singer* gan BBC Cymru.






## Rhanbarthau Lloegr

O ganlyniad i symud rhaglenni materion cyfoes Rhanbarthau Lloegr o BBC Two i BBC One bu i'r gynulleidfa fwy na dyblu i gyfartaledd o 3.4 miliwn o wylwyr yr wythnos. Y rhaglenni newydd, gyda'r teitl cyffredinol *Inside Out,* oedd y rhaglenni materion cyfoes mwyaf poblogaidd ar BBC One. Ym mis Ionawr, yn dilyn creu'r *Politics Show* newydd, symudodd darllediadau gwleidyddol rhanbarthol hefyd i BBC One. Bu i gyfartaledd y cynulleidfaoedd ar gyfer gwleidyddiaeth leol dreblu o ganlyniad, o 406,000 y llynedd i 1.5 miliwn.


Darlledwyd nifer o raglenni nodedig yn dathlu digwyddiadau, cyflawniadau neu hanes rhanbarthol arwyddocaol ledled y DU, yn fwyaf nodedig y rhaglen *North East on Film* a oedd yn seiliedig ar ddeunydd archif, a ddarlledwyd ar rwydwaith BBC Two ym mis Mawrth.

Mae radio lleol yn Lloegr yn wynebu heriau cystadleuol yn y dinasoedd mawr, yn arbennig Birmingham a Llundain, lle y mae strategaethau newydd yn cael eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, cynyddodd nifer gwrandawyr wythnosol BBC London 94.9 i'r nifer uchaf erioed sef 437,000 o oedolion a nifer BBC WM i 373,000 – y ddau yn gynnydd sylweddol ar ffigurau'r flwyddyn flaenorol.

Mae perfformiad a chymeradwyaeth wedi gwella yng Ngogledd Lloegr. Yn arbennig, llwyddodd y gwasanaeth newyddion rhanbarthol newydd, *Look North*, sydd wedi'i leoli yn Hull ac sy'n gwasanaethu Dwyrain Swydd Efrog a Swydd Lincoln, i ymsefydlu'n gyflym fel prif ddewis gwylwyr lleol.

Mae *Video Nation* erbyn hyn yn un o frandiau Rhanbarthau Lloegr, gydag 18 o gynlluniau ledled y wlad yn cynhyrchu fideos ar gyfer safleoedd *Lleol i Mi* a phorth ar-lein canolog *Video Nation*. Datblygwyd *Football First* i gefnogi chwaraeon llawr gwlad lleol i ieuenctid, gan gynnwys plant a rhieni yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr.





Chwith uchod: Cyflwynydd *Inside Out* David Whiteley.

Chwith: Moses Brazil, aelod o gymuned Sipsiwn Caint yn *Lleisiau*.

Uchod: Cyflwynydd brecwast London 94.9, Danny Baker.

Dde: Un o ddigwyddiadau *BBC Garden Design* yn The Forum yn Norwich.

## *Lleisiau*

Rhoddodd 48 o brojectau lleol lais i gymunedau ledled y DU.





**Gogledd Iwerddon**
Coronodd gwobr Sony am Orsaf y Flwyddyn i BBC Radio Ulster (ar gyfer gorsafoedd â chynulleidfaoedd o fwy nag 1 miliwn) flwyddyn o gyflawniad uchel, gan gynnwys cyfran o 23.6% o'r gynulleidfa yn ystod chwarter cyntaf 2003, a oedd yn agos at y gyfran uchaf erioed.

Roedd rhaglen allgyrch cynulleidfa fwyaf erioed BBC Northern Ireland yn cynnwys is-raglen leol benodol yn Enniskillen a darllediadau allanol yn ystod yr haf gan gynnwys *Proms in the Park*, a fynychwyd gan 7,000 o bobl. Gyda'i raglenni newyddion, ffeithiol ac adloniant llwyddiannus, bu'r mentrau hyn o gymorth i BBC Northern Ireland wrth gyflawni ei sgôr cymeradwyaeth gorau.

Roedd perfformiad ym meysydd materion cyfoes a rhaglenni ffeithiol yn eithriadol; denodd y brif raglen materion cyfoes *Spotlight* gyfran o 32%, 7% yn uwch na chyfran y rhwydwaith ar gyfer y slot, a chynnydd o 3 phwynt canran ar y llynedd. Enillodd wobr Materion Cyfoes Rhanbarthol Gorau'r Gymdeithas Deledu Frenhinol am ei ffilm ar y camddefnydd o weithwyr ymfudol yng Ngogledd Iwerddon. Ychwanegodd rhaglenni lleol penodol gyfartaledd o 5% at gyfran y rhwydwaith, a chynyddodd BBC One ei chyfran gyffredinol yng Ngogledd Iwerddon ymhellach, er ei bod 3.3% yn is na chyfartaledd y DU o hyd. Cyflawnodd *South City Beat*, cyfres am y broses o newid yr heddlu o'r RUC i Wasanaeth Heddlu newydd Gogledd Iwerddon (PSNI), gyfran iach o 36%. Dathlodd y gyfres comedi sefyllfa *Give My Head Peace* ei 50fed pennod fel hoff raglen leol Gogledd Iwerddon.

Denodd darllediadau'r BBC o Bencampwriaeth Pêl-droed Gaeleg Iwerddon Gyfan gyfran o 35% o'r gynulleidfa ac ychwanegodd perfformiad cryf Iwerddon ym Mhencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad 11% i gyfran y rhwydwaith yng Ngogledd Iwerddon.

Bydd arolwg strategol o'r ddarpariaeth iaith yng Ngogledd Iwerddon, a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, yn llywio'r broses o ddatblygu darllediadau yn yr iaith frodorol ymhellach.



Dde uchod: Dychwelodd Patrick Kielty o Ogledd Iwerddon gyda'i gyfres *Almost Live*.

Dde: Daeth miloedd i erddi Neuadd y Ddinas Belfast ar gyfer y *BBC Proms in the Park*.

Uchod: *Give My Head Peace*.






## Yr Alban

Fel darlledwr cenedlaethol y wlad, nod BBC Scotland oedd atgyfnerthu amrywiaeth ac ansawdd ei raglenni gyda drama, comedi ac adloniant newydd, cais llwyddiannus am hawliau pêl-droed yr Alban, a darllediadau newyddion a materion cyfoes estynedig ar gyfer etholiadau Seneddol 2003.

Bu'n flwyddyn arbennig o gryf i BBC One Scotland, gan gynyddu cyfartaledd ei gyfran o 24.5% i 25.1% a pherfformio'n well nag ITV am y tro cyntaf ers dechrau'r cofnodion presennol. Dangosodd ei le yng nghalon y genedl wrth iddo ennill cyfran enfawr o 63% o'r gynulleidfa i'w ddarllediadau o ddathliadau Hogmanay.

Dangosodd chwe enwebiad ar gyfer Gwobrau Sony 2003 ansawdd BBC Radio Scotland. Arhosodd newyddion a chwaraeon yn gonglfeini i'r orsaf, gan chwarae rhan allweddol wrth gynyddu cyrhaeddiad cyffredinol a chreu sefydlogrwydd ymhlith y gynulleidfa.

Denodd *Sportscene*, gyda 55 o gemau pêl-droed byw, gan gynnwys darllediadau o bob rownd o daith Celtic i rownd derfynol Cwpan UEFA, Uwch Gynghrair yr Alban, Cwpan yr Alban, gemau Ewropeaidd a rhyngwladol, gynulleidfaoedd eithriadol o bob cwr o'r wlad gan gynyddu cymeradwyaeth i BBC One yn yr Alban.

Denodd *Reporting Scotland* ei chyfran uchaf o'r gynulleidfa erioed, sef 31.4%, gan olygu mai hi oedd rhaglen newyddion teledu fwyaf poblogaidd y wlad. Cyfunodd *Holyrood Live, Politics Scotland*, *Newsnight Scotland* a BBC Radio Scotland i greu darllediadau gwleidyddol cynhwysfawr ar gyfer yr etholiadau cyntaf ers sefydlu Senedd yr Alban.

Efallai mai'r newid mwyaf mentrus fu lansio opera sebon newydd yn yr Alban, *River City*, cyfres ddrama a ddarlledir dwywaith yr wythnos sy'n defnyddio awduron a thalent perfformio lleol a gynhyrchodd ddiddordeb brwd yn yr achlysur lansio. Yn erbyn cystadleuaeth anodd, ymsefydlodd gan ddenu cyfran ffyddlon a sefydlog o tua 22% o'r gynulleidfa.






Chwith uchaf: Cast opera sebon newydd yr Alban *River City*.

Chwith: Celtic vs Rangers.

Chwith uchod: Cyflwynydd *Holyrood Live* Iain MacWhirter.

Uchod: Project *Lleisiau* BBC Radio Scotland yn Swydd Ayr.

## Radio lleol

Cyrhaeddodd gwasanaethau radio yn y gwledydd a'r rhanbarthau 11 miliwn o wrandawyr yn ystod chwarter cyntaf 2003, y nifer uchaf erioed.



### Cymru

Mwynhaodd rhaglenni teledu ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru rai llwyddiannau nodedig, gan gynnwys *The Story of Welsh with Huw Edwards* a *Love on the Rock*, drama ddogfen wedi'i lleoli ar Ynys Enlli. Dangoswyd poblogrwydd chwaraeon byw ar y teledu ar BBC Cymru wrth i'r gynulleidfa ar gyfer gêm gymhwyso Ewro 2004 rhwng Cymru a'r Eidal gyrraedd dros 500,000 o wylwyr yn ei hanterth – y gynulleidfa uchaf i BBC Two Wales ar gyfer unrhyw raglen ers dros chwe blynedd. Rhagorodd snwcer, golff, bowls ac, yn arbennig, rygbi, oll ar eu cyfran o'r gynulleidfa rhwydwaith.


Cafwyd perfformiad cryf gan *Wales Today* – bron 17.4% yn uwch na newyddion min nos ITV yng Nghymru – a pharhaodd llwyddiant y gyfres materion cyfoes glodwiw *Week In Week Out*. Darparodd BBC Cymru ddeg awr o raglennu Cymraeg bob wythnos i S4C, gan gynnwys *Pobol y Cwm*.

Ehangwyd rhaglennu adloniant ysgafn ar BBC One Wales a'r sianel ddigidol newydd BBC 2W. Ymhlith y llwyddiannau arbennig roedd *Pub Quiz* a'r comedi sefyllfa newydd *High Hopes*. Tra y parhaodd y ddrama wedi'i lleoli yn y Cymoedd, *Belonging*, i ddenu cynulleidfa ffyddlon, nid ailgomisiynwyd *The Bench* a *First Degree*.

Cyflawnodd gorsaf Saesneg BBC Cymru, BBC Radio Wales, ei chynulleidfa uchaf hyd yn hyn ar gyfer chwarter cyntaf 2003 gyda 527,000 o wrandawyr yr wythnos, y nifer uchaf erioed. Ehangodd BBC Radio Cymru, unig wasanaeth Cymraeg Cymru, ei darllediadau dyddiol o ddwy awr, gan ddarparu mwy o gyfraniadau byw o bob cwr o Gymru a rhaglenni newydd gyda'r nos i wrandawyr ifancach.

O ganlyniad i broject *Straeon Digidol* mawr crëwyd 96 o straeon digidol mewn gweithdai misol ledled Cymru. Fel rhan o'i weledigaeth *Digi-genedl*, agorodd BBC Cymru hefyd ddwy stiwdio gymunedol yn gwasanaethu Gogledd Ddwyrain a De Orllewin Cymru.






Dde uchod: Meistr y cwis (John Sparkes) wedi drysu yng nghomedi BBC Cymru *Pub Quiz.*

Dde: Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC.

Chwith: Adroddodd Huw Edwards *The Story of Welsh.*

Isod: Cyflwynydd *Week In Week Out* Louise Elliott.





## Llais y gellir ymddiried ynddo

Trodd 93% o boblogaeth y DU at wasanaethau teledu, radio, testun neu ar-lein y BBC yn ystod pythefnos gyntaf y rhyfel yn Irac.

**Ffrwydrodd y 'rhyfel' parhaus ar derfysgaeth i un stori a ddenodd brif sylw'r flwyddyn: ymosodiad y gynghrair ar Irac er mwyn disodli Saddam Hussein. Mewn byd cynyddol ranedig, ond eto mwy rhyngddibynnol, adran Newyddion y BBC oedd y ffynhonnell wybodaeth yr ymddiriedodd y DU ynddi fwyaf mewn perthynas â'r gwrthdaro.**


Bu'n flwyddyn o ddigwyddiadau newyddion eithriadol, gartref ac yn rhyngwladol, gydag argyfyngau treisgar yn fwy amlwg na dathliadau heddychlon ar yr agenda ddyddiol. Bu i filoedd ddioddef yn sgîl ymosodiadau terfysgol byd-eang, y rhyfel yn Irac a'r gwrthdaro parhaus yn y Dwyrain Canol. Gartref roedd angladd y Fam Frenhines a llofruddiaethau'r ddwy ferch ysgol o Swydd Gaergrawnt yn wrthbwynt difrifol i ysbryd parti haf Jiwbilî Aur y Frenhines, Cwpan y Byd a Gemau'r Gymanwlad.

Yn ystod y flwyddyn cafwyd perfformiad cryf gan brif fwletinau newyddion y BBC ar deledu a radio wrth i strategaeth newydd i atgyfnerthu newyddiaduraeth ymhellach a helpu cynulleidfaoedd i wneud synnwyr o fyd cymhleth gael ei gweithredu. Darparodd rhaglenni newyddion BBC Radio 4 ddealltwriaeth eithriadol o faterion anodd ar draws amrywiaeth eang eu darllediadau gan gyfrannu at lwyddiant y rhwydwaith wrth ennill gwobr Sony am Orsaf y Flwyddyn.

Mae sicrhau bod newyddion a materion cyfoes yn fwy perthnasol i gynulleidfaoedd ifancach yn flaenoriaeth barhaus ac mae gan y gwasanaethau digidol newydd ran allweddol i'w chwarae ar draws radio, teledu ac ar-lein wrth sicrhau eu bod yn eu cyrraedd.

Lansiwyd rhaglenni a rhaglenni dogfen newydd ar BBC Three gyda *60 Seconds*, bwletinau munud o hyd o'r penawdau newyddion ar yr awr, *The News Show* a *Liquid News* yn canolbwyntio ar fyd adloniant bob noson yn ystod yr wythnos. Mae 1Xtra yn darparu gwasanaeth newyddion a rhaglenni dogfen wedi'i dargedu ar gyfer cynulleidfa drefol ifanc a chynyddodd bwletinau *Newsround* i saith y dydd ar CBBC. Mae Newyddion y BBC ar-lein yn denu canran uchel o ddefnyddwyr ifancach – mae dros 55% ohonynt o dan 35 oed.

### Cynulleidfa ar gyfartaledd ar gyfer bwletinau newyddion rhwydwaith 2002/2003




Ffynhonnell: BARB, TNS/Infosys


Cynyddodd y defnydd ohono yn aruthrol yn ystod y rhyfel yn Irac gan dderbyn 140 miliwn o ymweliadau â thudalennau yn ystod yr wythnos gyntaf, y nifer uchaf erioed, cyn sefydlogi ar 3 miliwn o ddefnyddwyr y dydd – 50% yn fwy na'r arfer.

**Gohebu ar y rhyfel yn Irac**
Bu rhyfeloedd bob amser yn un o'r profion mwyaf o allu darlledwr a ariennir yn gyhoeddus fel y BBC, sy'n anelu at ddarparu persbectifau byd-eang, cenedlaethol a lleol ar faterion allweddol a chofnodi pob safbwynt yn gywir, i fod yn annibynnol ac yn ddiduedd.

Ymatebodd adran Newyddion y BBC i'r argyfwng rhyngwladol a arweiniodd at y rhyfel yn Irac gyda darllediadau ychwanegol ar unwaith. Drwy gyfnod y rhyfel, darlledwyd cyfartaledd o bum awr ychwanegol o newyddion bob dydd ar BBC One a BBC Two. Cyd-ddarlledwyd BBC News 24 ar BBC One a BBC Two a darlledodd *Newsnight* rifynnau arbennig ar y penwythnos bob nos Sadwrn. Daeth BBC Radio Five Live a BBC World Service yn sianelau newyddion treigl ac ehangodd BBC Radio 4 bob un o'i raglenni newyddion. Ymatebodd timau materion cyfoes yn gyflym, gyda David Dimbleby yn arwain rhaglenni arbennig.

Mewn arolwg gan ICM, derbyniodd adran Newyddion y BBC ganmoliaeth uchel am ei darllediadau o'r rhyfel ar bob cyfrwng. Defnyddiodd 93% o boblogaeth y DU y BBC i ddilyn digwyddiadau yn ystod pythefnos gyntaf y rhyfel. Yn ôl yr un arolwg, BBC One oedd y sianel a wyliwyd fwyaf ac yr ymddiriedwyd ynddi fwyaf a gwyliodd 70% o'r boblogaeth BBC News 24 – sef 40 miliwn o bobl – yn ystod wythnos gyntaf y gwrthdaro. Dewisodd 72% o'r bobl a ddefnyddiodd radio i ddilyn y rhyfel un o wasanaethau rhwydwaith y BBC a derbyniodd BBC Radio Five Live gyfartaledd o 2,400 o alwadau bob dydd.

Nodweddwyd y gohebu o'r rhyfel yn Irac gan y dechnoleg ddigidol ddiweddaraf wedi'i chyfuno â mynediad newyddiadurol. Er y cyfyngwyd ar eu persbectif yn ôl diffiniad, bu gohebwyr





Gyferbyn, chwith: Dynion camera a ffotograffwyr newyddion rhyngwladol yn adrodd hanes yr ymgyrch gymorth yn Irac.

Uchod: Rageh Omaar yn gohebu'n fyw ar fombardiad a chwymp Baghdad.

Dde: Hapusrwydd wrth i'r Frenhines ddathlu ei Jiwbilî Aur.

# Arolwg o'r gwasanaethau: Newyddion



Damwain reilffordd Potters Bar

a 'ymgartrefodd' gyda lluoedd yr UD a'r DU yn rhannu agosrwydd a pherygl y gwrthdaro wrth iddo ddatblygu.

Fodd bynnag, mae agosrwydd teledu a radio byw wedi cyflwyno dilemâu newydd – faint o risg sy'n dderbyniol er mwyn sicrhau lluniau a sylwebaeth? Lladdwyd un o ddynion camera'r BBC, Kaveh Golestan, gan ffrwydryn tir yng ngogledd Irac. Lladdwyd Terry Lloyd o ITN. Anafwyd Golygydd Materion y Byd, John Simpson a lladdwyd cyfieithydd Cwrdeg a oedd yn gweithio gydag ef, Kamaran Abdurazaq Muhamed yng ngogledd Irac. Er gwaethaf y risgiau cred y BBC y dylai ei newyddiadurwyr a'i ohebwyr, sydd bellach wedi'u lleoli mewn 44 o wledydd ledled y byd, fod yno i ohebu ar yr hyn a welant – yn hytrach na dibynnu ar luniau a gwybodaeth gan bobl eraill.

**Atgyfnerthu materion cyfoes**

Roedd *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni'r BBC 2002/2003* yn cynnwys ymrwymiad i atgyfnerthu materion cyfoes yn ystod yr amserlen oriau brig gyda'r nos. Ochr yn ochr â rhaglenni presennol fel *Correspondent* a *Real Story* ymatebodd BBC One gan gynnal diwrnodau digwyddiadau ar droseddau ac Irac. Cymerodd holl sianelau domestig adran Newyddion y BBC ran yn ogystal â gwasanaethau radio cenedlaethol a lleol, teledu digidol a rhyngweithiol, ar-lein, BBC World Service a CBBC, gan gyrraedd dros 20 miliwn o bobl.

Roedd trafodaethau arloesol *Newsnight* gyda Tony Blair yn ateb cwestiynau gan Jeremy Paxman a chynulleidfaoedd a oedd yn cynnwys pleidleiswyr â barn gyfnewidiol a phrotestwyr gwrth-ryfel yn fformat a gopïwyd yn ddiweddarach gan ddarlledwyr eraill. Parhaodd *Newsnight* i arloesi yn ei hymagwedd gan gynnwys Ms Dynamite, seren rap ddu newydd y DU, fel sylwebydd gwleidyddol ar gyfer trafodaeth arbennig ar bobl ifanc a throseddau sy'n ymwneud â gynau.

Gan ddathlu ei hanner can mlwyddiant, parhaodd *Panorama* ar flaen y gad ym maes materion cyfoes ar y teledu, gyda straeon a ddenodd sylw'r wasg fel *The Corruption of Racing, The Secrets of Seroxat* ac *A Licence to Murder*. Darparodd ymchwiliadau byd-eang Jane Corbin i gymeriadau a materion y tu ôl i'r argyfwng rhyngwladol dros Irac ac Afghanistan ddealltwriaeth werthfawr. Bu brwydr ddygn Peter Taylor i ganfod y gwirionedd ym myd cyfrin *True Spies* o gymorth iddo ennill gwobr y Gymdeithas Deledu Frenhinol am Newyddiadurwr Teledu'r Flwyddyn.

**BBC News 24**

Cynyddodd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud BBC News 24 ar gyfartaledd mewn cartrefi amlsianel 36% i 2.2 miliwn yn 2002/2003. Gan gyd-ddarlledu ar BBC One a BBC Two yn ystod y rhyfel yn Irac cyrhaeddodd 23 miliwn o bobl ar un diwrnod yn unig.

Gwellodd newyddiaduraeth fusnes ddyddiol yn sylweddol, gyda'r Golygydd Busnes, Jeff Randall yn amlwg yn yr ymgyrch. Ailffocyswyd *Business Today* ar BBC News 24 gydag amser dechrau hwyrach (10.30pm) a dull cyflwyno deuol arbennig o Lundain ac Efrog Newydd.

Yn ystod y flwyddyn, ehangodd BBC News 24 ei wasanaeth newyddion rhyngweithiol, gan ychwanegu newyddion busnes ac adloniant a gwasanaeth archif achlysurol, *On This Day.*

Bum mlynedd ar ôl lansio BBC News 24, gofynnodd y Llywodraeth i gyn olygydd y *Financial Times*, Richard Lambert, gynnal arolwg o ddibenion cyhoeddus y sianel. Cadarnhaodd ei adroddiad bwysigrwydd y sianel i bortffolio cyhoeddus y BBC ond nododd bod angen iddi fod yn fwy gwahanol i sianelau newyddion 24 awr eraill. Mewn ymateb, gofynnodd Llywodraethwyr y BBC i BBC News 24 ddatblygu ei chylch gwaith newyddion treigl gydag agenda fwy dadansoddol, gan ddefnyddio gohebwyr rhanbarthol a rhyngwladol i greu safbwynt ehangach. Mae'r sianel bellach yn bwrw ati gyda chynlluniau i ail-lunio'r gwasanaeth.

**Ymagwedd newydd tuag at wleidyddiaeth**

Nod arolwg gwleidyddiaeth y BBC yn 2002 oedd dod o hyd i ffyrdd newydd o gysylltu â chynulleidfaoedd ifanc nad oes ganddynt







Uchod: Fiona Bruce yn ystafell newyddion y BBC yn paratoi ar gyfer y bwletin am 10 o'r gloch.

Dde: *Newsround*, gwasanaeth newyddion y BBC a wneir yn benodol ar gyfer plant.

Dde pellaf: *The News Show* yn darlledu i wylwyr BBC Three.

## Yn barod i ymateb

Mae gan y BBC ohebwyr a newyddiadurwyr mewn 44 o wledydd ledled y byd.

ddiddordeb bob amser mewn trafodaethau gwleidyddol sy'n deillio'n bennaf o San Steffan ond a gaiff eu cymell yn aml gan faterion unigol. Disodlwyd *On the Record* gan y *Politics Show,* wedi'i chyflwyno gan Jeremy Vine, i gynnig golwg mwy cytbwys i wylwyr amser cinio dydd Sul ar wleidyddiaeth ledled y DU. Denodd y rhaglen newydd gynulleidfa o 1.5 miliwn ar gyfartaledd a chyfran o 18% – cynnydd o 0.3 miliwn a dau bwynt cyfran. Disodlwyd *Despatch Box* gan *This Week* ac fe'i symudwyd o BBC Two a'i hamserlenni yn syth ar ôl *Question Time* ar BBC One. Mae'n denu cyfartaledd o 2.1 miliwn o wylwyr fesul rhaglen. Mae *The Daily Politics,* y rhaglen a ddisodlodd *Westminster Live*, yn cael ei darlledu dair gwaith yr wythnos, wedi'i hamserlennu mewn slot boreol er mwyn ystyried y ffaith bod y Senedd wedi aildrefnu Cwestiynau'r Prif Weinidog.

**BBC Parliament**

Mae BBC Parliament wedi ehangu ac atgyfnerthu ei darllediadau Ewropeaidd gyda *Politique*, rhaglen wythnosol newydd ar weithrediadau'r UE, a gyflwynir o Frwsel a Strasbourg. Ailgynlluniwyd y sianel a'i hailfrandio er mwyn sicrhau ei bod yn cyfateb â gweddill portffolio digidol y BBC, a datblygwyd presenoldeb ar y we er mwyn darparu deunydd ategol ychwanegol.

Mae amserlen newydd, gliriach yn cynnwys slot ailddarlledu dyddiol ar gyfer *The Record*, yr adolygiad gan gyflwynwyr o San Steffan, yn ogystal â rhifyn awr o hyd bob wythnos. Mae *Briefings*, adolygiad wythnosol y sianel o wleidyddiaeth y tu allan i'r Senedd, wedi'i amserlennu mewn slot newydd ar nos Sadwrn.

Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd BBC Parliament nifer yr oriau a ddarlledwyd ganddi 30%. Neilltuwyd mwy o amser i'r gwledydd, yn ogystal â darllediadau o ddigwyddiadau arbennig – fel ailddarlledia o ddarllediad cyfan gwreiddiol Diwrnod y Coroni yn ystod dathliadau'r Jiwbilî Aur – ac mae mwy o raglennu yn ystod y seibiant wedi darparu amser ychwanegol i ddarlledu trafodaethau'r Pwyllgorau Dethol ar droseddau, iechyd ac addysg. Rhoddir sylw i'r pwyllgorau dethol hefyd yn ystod yr amserlen gyda'r nos ar benwythnosau.





Dde uchod: Dychwelodd y Green Goddesses yn ystod streic y gwasanaeth tân.

Dde: Cytunodd y Prif Weinidog Tony Blair i wynebu Jeremy Paxman ar *Newsnight* mewn dwy drafodaeth wleidyddol gyffrous.



Uchod: Arweiniodd David Dimbleby y drafodaeth ar Irac ar BBC One.

Dde: Evan Davis yn gwneud synnwyr o'r Ewro.





www.bbc.co.uk/bitesize

BITESIZE revision

# Creu argraff

Cysylltodd 17,000 o bobl â'r BBC am gyngor yn ystod y tymor *Hitting Home*.

**Mae addysg wrth wraidd cylch gwaith cyhoeddus y BBC; mae'r BBC yn cynnig amrediad gwell o bynciau nag unrhyw ddarlledwr arall. Mae technoleg ryngweithiol yn ein galluogi i sicrhau bod dysgu yn rhan annatod o'n darllediadau ar deledu, radio ac ar-lein ac i greu rhaglenni poblogaidd a heriol sy'n ysgogi dealltwriaeth a gwybodaeth ddyfnach i gynulleidfaoedd.**

Ein strategaeth yw cyflwyno dysgu i'r gynulleidfa ehangaf posibl, drwy gynnwys rhyngweithiol cyfoethog i ategu llawer o'n rhaglenni a'n gwasanaethau teledu a radio gorau. Ysgogodd rhaglenni hanes a gwyddoniaeth, fel *Pyramid*, *Human Instinct* gyda Robert Winston a *The Life of Mammals* gyda David Attenborough, filiynau i ddysgu mwy drwy eu 'botymau coch' ar gyfer y sianel ryngweithiol a thrwy'r we, lle y darparodd arbrofion, profion a gwybodaeth llawer manylach ffordd foddhaus o ddysgu.

Yn ogystal, mae'r BBC yn hyrwyddo dysgu drwy gyrsiau ac arddangosfeydd wedi'u cysylltu â rhaglenni ac yn cynnwys dwsinau o sefydliadau diwylliannol yn amrywio o'r Amgueddfa Brydeinig i'r Oriel Genedlaethol a'r Amgueddfa Hanes Naturiol lle yr ymwelodd 50,000 o bobl â'r arddangosfa *Life of Mammals* ryngweithiol; wedi hynny aeth yr arddangosfa ar daith o'r DU. Mae'r BBC hefyd yn gweithio gyda phrifysgolion i gynnig cyrsiau byr fel cwrs *The Life of Mammals* y Brifysgol Agored, sydd eisoes wedi denu diddordeb 2,000 o bobl. Ehangwyd y bartneriaeth 30 mlynedd rhwng y BBC a'r Brifysgol Agored er mwyn darparu mwy o raglenni o ansawdd uchel yn ystod oriau brig ar BBC One, BBC Two, BBC Three a BBC Four.

Mae'n anodd codi ymwybyddiaeth o fater cymdeithasol fel trais yn y cartref mewn ffordd sy'n boblogaidd gyda chynulleidfaoedd ond llwyddodd y tymor *Hitting Home* i wneud hynny. Gyda rhaglennu mentrus ar y teledu a'r radio wedi'i ategu gan gyngor ar-lein, enillodd ganmoliaeth gan gynnwys cynnig trawsbleidiol yn y Senedd.

Ategwyd rhaglenni dogfen yn archwilio diwylliant a phrofiad dynol, o *Walking with Cavemen* ar BBC One i *Double Helix*: *The DNA Years* ar BBC Four, gan ddysgu ar-lein. Cynigiodd *Motherland* ddealltwriaeth i eneteg, hanes du a hunaniaeth bersonol. Rhoddodd gyfle i Brydeinwyr du olrhain eu gwreiddiau Affricanaidd drwy gyfrwng profion DNA a chafodd argraff bwerus ar gynulleidfaoedd.


Erys dysgu ffurfiol yn rhan hanfodol o ymrwymiad y BBC. Ym mis Ionawr 2003, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei gymeradwyaeth i gynnig y BBC ar gyfer gwasanaeth Cwricwlwm Digidol i ddarparu deunyddiau dysgu rhyngweithiol i ysgolion drwy'r rhyngrwyd. Unwaith eto, dangoswyd y galw gan blant ysgol am ddysgu ar-lein drwy lwyddiant y gwasanaeth adolygu Bitesize, a gyflawnodd uchafbwynt o 17 miliwn o ymweliadau â thudalennau yn ystod tymor adolygu 2003.

Cynigiwyd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth i blant drwy adloniant o ansawdd uchel ar BBC One a'r sianelau digidol CBBC a CBeebies, gyda gwefannau ategol ar BBCi. Denodd *Sport Academy*, a ddatblygwyd i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon, ymhell dros filiwn o ymweliadau â thudalennau yr wythnos.

Yng Nglannau Merswy a Glannau Humber, datblygwyd ffyrdd arloesol newydd o gyrraedd cynulleidfaoedd nas gwasanaethwyd cystal gan y BBC yn draddodiadol, gan gynnig cyfle i gymunedau lleol fanteisio ar adnoddau'r BBC. Parhaodd y defnydd o wefannau sgiliau sylfaenol y BBC i gynyddu, gyda *Skillswise* yn cael ei chydnabod fel prif wefan y DU ar gyfer llythrennedd a rhifedd, a 1,000 o bobl yr wythnos yn ennill cymhwyster TG *Becoming WebWise*. Denodd y fenter gelfyddydol *Blast* filoedd o bobl ifanc yn eu harddegau i weithdai rhanbarthol ar gerddoriaeth, celf, dawns a gwneud ffilmiau, ac mae'n dychwelyd am ail flwyddyn.









Gyferbyn, chwith: Defnyddiodd tua 90% o fyfyrwyr TGAU a Gradd Safonol *Bitesize* eleni.

Chwith: David Attenborough ar ben ei ddigon gyda *The Life of Mammals*.

Uchod: Rhoddodd *Motherland* gyfle i Brydeinwyr du fapio eu hanes.

Dde: Cododd *Hitting Home* ymwybyddiaeth o drais yn y cartref ar deledu, radio ac ar-lein.

# Arolwg o'r gwasanaethau: Cyfryngau Newydd



# Y botwm coch

Lansiodd BBCi 37 o wasanaethau teledu rhyngweithiol yn 2002 er mwyn rhoi mwy o ddewis i wylwyr.

**Mae BBCi yn cwmpasu gwasanaethau rhyngweithiol y BBC ar y we, teledu a dyfeisiau symudol. Gyda 2 filiwn o dudalennau gwe a 200,000 o bytiau sain a fideo, mae BBCi yn darparu adnodd cyhoeddus sy'n galluogi pobl i archwilio pynciau sy'n eu diddori ac yn eu diddanu yn ogystal â fforwm ar gyfer trafod gyda'i gilydd a chyda'r BBC.**

**BBCi ar y rhyngrwyd**
Cadwodd gwasanaeth ar-lein BBCi ei statws fel y safle cynnwys yr ymwelir ag ef fwyaf yn Ewrop. Yn 2003 cynyddodd cyrhaeddiad misol BBCi o 34% i uchafbwynt o 43%, sy'n gyfwerth ag 8.3 miliwn o oedolion (15 oed a throsodd). Rhydd BBCi fynediad i bobl yn y DU i wybodaeth leol, cenedlaethol a byd-eang ar adegau sy'n gyfleus iddynt hwy ac yn ystod y rhyfel yn Irac denodd y nifer uchaf o bobl erioed gyda'r galw yn arwain at 1.182 biliwn o ymweliadau â thudalennau.

Erys addysg yn flaenoriaeth. Datblygodd BBCi yr hafan ddysgu i gynnig mynediad haws i holl gyfleoedd dysgu'r BBC a chefnogodd adnoddau addysgol ychwanegol i adran Ddysgu'r BBC a ddefnyddiwyd gan 2.9 miliwn o athrawon, rhieni a disgyblion yn ystod y cyfnod adolygu prysur yn 2003.

Mae BBCi yn gweithio gyda phartneriaid sy'n amrywio o'r Asiantaeth Gofod Ewropeaidd i Gyngor y Celfyddydau er mwyn sicrhau y gall defnyddwyr gael gwybodaeth fanwl am eu diddordebau. Parhaodd safleoedd Gwyddoniaeth a Natur BBCi yn gyrchfannau pwysig. Datblygodd safle clodwiw Crefydd a Moeseg BBCi ei gynrychiolaeth o'r prif gymunedau ffydd yn y DU ymhellach gyda chynnwys rhyngweithiol ar grefyddau unigol, newyddion crefyddol, a thrafodaethau am faterion moesegol.


Cynigiodd safle Chwaraeon y BBC ddarllediadau o ddigwyddiadau chwaraeon yn y DU a ledled y byd ac o ddiddordebau chwaraeon lleiafrifol. Lansiwyd *Sport Academy* ym mis Gorffennaf 2002 gyda'r nod o annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon, gan gynnig canllawiau sgiliau, meistr ddosbarthiadau fideo, dulliau hyfforddi ac amrywiaeth o wybodaeth.

Darparodd BBCi lawer o gyfleoedd mynegiant a deialog creadigol i'r defnyddwyr, gan gynnwys *Talking Point* a *Have Your Say* adran Newyddion BBCi a negesfyrddau fel *The Great Debate* a bwrdd *Today*. Bellach, mae dros 50 o safleoedd *Lleol i Mi* yn cysylltu cymunedau ledled y DU ac yn cwmpasu sbectrwm eang o drafodaethau cymdeithasol, diwylliannol a gwleidyddol. Gyda mwy na miliwn o negeseuon y mis yn cael eu creu drwy ebost, testun a negesfyrddau mewn ystafelloedd sgwrsio, mae BBCi bellach yn fforwm cenedlaethol, gan roi llais cryf i'w ddefnyddwyr a chynnig presenoldeb diogel, wedi'i reoli ar y we. Nod BBCi yw helpu i lunio amgylchedd newydd y cyfryngau a sefydlu DU sy'n gyfarwydd â defnyddio'r we. Lansiwyd peiriant chwilio i'r teulu ym mis Mai 2002, gan ddarparu canllaw wedi'i ddiogelu i archwilio'r we.


Mae BBCi yn un o brif ganolfannau'r DU ar gyfer arloesi digidol. Ymhlith y gwasanaethau newydd mae'r BBC Radio Player, sy'n darparu sain ar gais er mwyn i ddefnyddwyr y rhyngrwyd allu clywed rhaglenni radio'r BBC a fethwyd ganddynt.

**BBCi ar deledu**
Torrodd gwasanaethau teledu rhyngweithiol BBCi dir newydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. BBCi oedd y darlledwr cyntaf i ddarparu rhyngweithedd ar draws pob llwyfan teledu digidol. O ganlyniad i well gwasanaethau rhoddwyd dewis ehangach i 8 miliwn o wylwyr yn ystod haf chwaraeon y BBC a darparwyd fideo, testun a graffeg ychwanegol ar gyfer *The Life of Mammals*, y *Chelsea Flower Show* a *Fame Academy*. Defnyddiwyd gwasanaethau teledu rhyngweithiol yn effeithiol iawn hefyd wrth i'r gynulleidfa bleidleisio yn ystod *Great Britons* a *Cracking Crime*. Llwyddodd *Test the Nation* i ddangos gwerth galluogi cynulleidfa fawr i gyfrannu at brofiad teledu cenedlaethol ac yn *The Murder Game* daeth y gwylwyr yn dditectifs rhyngweithiol er mwyn datrys llofruddiaeth ffuglennol. Bydd gwasanaethau teledu rhyngweithiol BBCi yn faes allweddol i'w ddatblygu yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Ymweliadau misol â thudalennau gwefan BBCi**
Mawrth 2002 i Fawrth 2003





Ffynhonnell: Cofnodion gwasanaethydd BBCi
Dim ond is-adrannau â thros 75 miliwn o ymweliadau â thudalennau ym mis Mawrth 2003 a nodir
* Mae Arall yn cynnwys Radio a Cherddoriaeth, CBBC, BBC World Service, y Gwledydd a'r Rhanbarthau, hafan ac adrannau eraill




Uchod: *Ghosts of Albion*, gwegast animeiddiedig BBCi.

Chwith pellaf: Rhoddodd gwasanaethau rhyngweithiol mwy o ddewis i wylwyr yn ystod haf o chwaraeon y BBC.

# **Arolwg o'r gwasanaethau:** BBC World Service & Global News



# Cysylltiadau byd-eang

Dathlwyd pen-blwydd BBC World Service yn 70 oed gyda rhaglen 14 awr yn cysylltu 50 o ddarllediadau o bob cwr o'r byd.

**Daeth y BBC â'i wasanaethau newyddion rhyngwladol ynghyd – radio BBC World Service, teledu BBC World, a gwasanaethau newyddion ar-lein rhyngwladol y BBC – i greu un is-adran BBC World Service & Global News ym mis Rhagfyr 2002. Ei nod yw mai hi fydd y llais mwyaf adnabyddus ac a berchir fwyaf ym maes darlledu newyddion rhyngwladol – ar draws radio, teledu a'r cyfryngau newydd – gan ddod â chlod i Brydain ac i'r BBC.**

Mae'r is-adran newydd yn datblygu strategaeth newyddion byd-eang wedi'i chydlynu i gyflwyno arlwy fwy cydlynus i gynulleidfaoedd a chyflawni effaith ryngwladol fwy i wasanaethau newyddion y BBC, gan hyrwyddo eu gwerthoedd o annibyniaeth olygyddol a bod yn ddiduedd ledled y byd. Cynhaliwyd y gwerthoedd hyn o dan amgylchiadau heriol yn ystod y rhyfel yn Irac, gydag ymateb eithriadol gan wasanaethau newyddion rhyngwladol y BBC yn ystod y cyfnod trafod diplomataidd cyn y rhyfel a'r gwrthdaro milwrol.

Ymunodd teledu a ariennir yn fasnachol â gwasanaethau radio a chyfryngau newydd a ariennir yn gyhoeddus am y tro cyntaf. Perchir y dulliau ariannu gwahanol o fewn fframwaith masnachu teg cadarn ac ni cheir unrhyw groesgymorthdaliadau.

**BBC World Service**

Adeiladodd BBC World Service ar ei enw da am ymddiriedaeth, annibyniaeth ac ansawdd yn ystod blwyddyn ei 70 mlwyddiant. Fel pwynt cyfeirio aml-iaith, dangosodd gadernid naws a dadansoddi tra'n darparu'r cwmpas a'r dyfnder mwyaf o blith unrhyw ddarlledwr rhyngwladol. Datgelodd arolygon o naw marchnad ddethol ledled y byd mai BBC World Service oedd y darlledwr rhyngwladol mwyaf gwrthrychol yr ymddiriedwyd ynddo fwyaf o'i gymharu â'i brif gystadleuwyr rhyngwladol ymhob marchnad.

Wrth i'r rhyfel yn Irac ddechrau, ymgymerodd BBC World Service yn Saesneg â'i weithrediad newyddion a rhaglennu mwyaf erioed, gyda newyddion a dadansoddiadau parhaus am dros 220 o oriau. Chwaraeodd BBC Arabic ran ganolog wrth ddarparu gwybodaeth annibynnol i bobl Irac a'r byd Arabaidd. Fe'i cyflwynwyd yn fyw bob dydd o Cairo amser brecwast a chynhyrchodd 13 o oriau ychwanegol bob dydd o ddarllediadau newyddion a materion cyfoes. Roedd *World Forums* rhyngweithiol dyddiol ar y gwasanaethau Saesneg ac Arabeg, lle yr adlewyrchwyd amrywiaeth barn eang, yn un o nodweddion cryf ac arbennig y darllediadau.

Cadwodd BBC World Service ei gynulleidfa fyd-eang o 150 miliwn o leiaf o wrandawyr wythnosol mewn byd o gystadleuaeth gynyddol. Cyflawnwyd hyn drwy ehangu partneriaethau lleol a phresenoldeb ar FM. Mae BBC World Service bellach ar gael ar FM mewn 138 o brifddinasoedd. Dangosodd yr arolwg annibynnol cyntaf o ddinas gyfan Kabul ers cwymp y Taleban fod y nifer uchaf erioed o bobl Afghan, sef 82%, yn gwrando ar ddarllediadau Persieg a Phashto y BBC bob wythnos. Mae gan raglenni BBC World Service yn Nigeria a Kenya gyrhaeddiad wythnosol o fwy na 30%. Fodd bynnag, mae'r cynulleidfaoedd sy'n gwrando ar y donfedd fer yn dal i ostwng, yn arbennig yn y byd datblygedig ac mae'r ymgyrch i sicrhau gwell clywededd ar FM ac MW yn parhau.

Yng ngoleuni arferion gwrando cyfnewidiol, penderfynwyd ddwy flynedd yn ôl i roi'r gorau i ddarllediadau tonfedd fer uniongyrchol i UDA a chynyddu ailddarllediadau FM ar radio cyhoeddus. Ers hynny, cynyddodd cynulleidfaoedd ailddarllediadau 70% – i fyny o 2.3 miliwn yn 2001 i 3.9 miliwn. Ar gyfartaledd, mae 22% o'r llunwyr barn yn Boston, Efrog Newydd a Washington yn gwrando ar BBC World Service bob wythnos. Cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer y gwrandawyr yn yr UD yn ystod y cyfnod cyn y gwrthdaro yn Irac gyda 353 o orsafoedd yn yr UD yn manteisio ar ddarllediadau BBC World Service (o'i gymharu â 265 ym mis Mawrth 2002).

Mae tua 70% o'r boblogaeth yn y DU bellach yn ymwybodol o BBC World Service, cynnydd blwyddyn ar flwyddyn o 54%.






Gyferbyn, chwith: Gwrando ar newyddion y byd yn Baghdad.

Dde uchod: Nik Gowing yn gohebu o Doha ar gyfer BBC World.

Dde: Darlledu'n fyw o Table Mountain, De Affrica, ar gyfer dathliadau 70 mlwyddiant BBC World Service.






Mae cynlluniau buddsoddi newydd yn canolbwyntio ar gyfoethogi cynnwys ar gyfer gwasanaethau radio i'r byd Arabaidd ac Afghanistan; ehangu FM i'r prif gytrefi byd-eang, a chynyddu'r presenoldeb rhyngrwyd aml-iaith gyda gwell rhyngweithedd.

Dathlodd BBC World Service ei 70 mlwyddiant ym mis Rhagfyr 2002 gyda chyngerdd byd-eang – yn fyw o Dakar, Kabul, Llundain, Dinas Mexico a Mumbai – a rhaglen arbennig 14 awr o hyd yn cysylltu mwy na 50 o ddarllediadau allanol o bob cwr o'r byd. Mewn darlith arbennig ar gyfer y 70 mlwyddiant, disgrifiodd Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig Kofi Annan BBC World Service yn gofiadwy fel "llinell bywyd i ddysgu, i ddeall ac i obaith ei hun".

**BBC World**
Gwnaeth BBC World gynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf tuag at gyflawni ei nodau o sicrhau ei statws fel sianel newyddion teledu ryngwladol orau, fwyaf awdurdodol y byd ac arddangos newyddiaduraeth orau'r BBC. Yn ystod y gwrthdaro yn Irac, roedd ei naws, amrywiaeth y cyfranwyr a dyfnder y dadansoddiadau yn arbennig.

Gwelwyd arwyddion o awydd gwirioneddol am ymagwedd gytbwys, gwrthrychol a rhyngwladol y BBC. Cynyddodd dosbarthiad byd-eang BBC World 25% yn 2002/2003. Mae bellach ar gael mewn 255 miliwn o gartrefi gyda 103 miliwn ohonynt ar sail 24 awr. Cynyddodd y dosbarthiad mewn gwestai 17% flwyddyn ar flwyddyn i 870,000 o ystafelloedd. Ychwanegodd nifer y darlledwyr daearol a fanteisiodd ar ddarllediadau treigl BBC World ar ôl dechrau'r rhyfel yn Irac 80 miliwn o gartrefi. Yn UDA, mae bron i filiwn o wylwyr bellach yn gwylio BBC World drwy PBS lle mae'r sianel bellach ar gael mewn 86% o gartrefi teledu'r UD. Wrth i'r rhyfel yn Irac ddechrau, cynyddodd nifer gwylwyr newyddion rhwydwaith gyda'r nos yn yr UD 28% yn gyffredinol gyda chynnydd o 33% ar gyfer y bwletin am 6pm ar WNET. Dangosodd ymchwil o India, Awstralia a De Affrica i lefelau'r gynulleidfa ddyblu yn ystod y gwrthdaro yn Irac.

Chwith uchod: Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig Kofi Annan yn cyflwyno darlith arbennig o Efrog Newydd i ddathlu pen-blwydd BBC World Service.

Chwith: Pennaeth Gwasanaeth Hindi y BBC yn llongyfarch gwneuthurwyr ffilmiau o India sy'n dilyn BBC World Service fel enillwyr Gwobrau One World Media eleni.



Uchod: Gellir gweld *Click Online* ar BBC World.

## Byd sy'n tyfu

Mae BBC World bellach ar gael mewn 255 miliwn o gartrefi.

**Cyfryngau newydd**
Nod gwasanaeth cyfryngau newydd rhyngwladol y BBC yw mai'r gwasanaeth fydd y fforwm newyddion yr ymddiriedir ynddo fwyaf ar y rhyngrwyd a bod yn ganolfan ar gyfer trafod materion byd-eang allweddol ar draws ffiniau cenedlaethol a diwylliannol.

Lansiwyd fersiwn Saesneg rhyngwladol safle newyddion y BBC – bbcnews.com – yn llwyddiannus ym mis Gorffennaf gan adeiladu ar enw da'r BBC am gyfleustra, dyfnder, dadansoddi, arbenigedd ac arloesedd. Enillodd wobr Webby 2002 glodwiw am y wefan newyddion orau yn y byd.

Gwelwyd cynnydd aruthrol yn y traffig rhyngwladol yn ystod deufis olaf y flwyddyn oherwydd y rhyfel yn Irac a chynyddodd nifer y defnyddwyr o 7 miliwn i 13 miliwn ym mis Mawrth. Flwyddyn ar flwyddyn, cynyddodd traffig y safle newyddion rhyngwladol cyfun yn Saesneg a'r gwasanaethau iaith fwy na 200% i 228 miliwn o ymweliadau â thudalennau. Bu cynnydd sylweddol ar gyfer gwasanaethau ar-lein yn Saesneg, Arabeg, Sbaeneg a Phersieg.

**BBC Monitoring**
Ymatebodd BBC Monitoring, sydd wedi'i leoli yn Caversham, i'r galw uchel am fonitro cyfryngau byd-eang cyflym a chywir yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn arbennig yn ystod y gwrthdaro yn Irac. Darparodd ddeunydd ffynhonnell allweddol ar ddigwyddiadau byd-eang hanfodol i randdeiliaid gan gynnwys y Swyddfa Dramor, Swyddfa'r Cabinet, y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r BBC.


Parhaodd cyfraddau boddhad ymhlith cwsmeriaid o ran defnyddioldeb, amrywiaeth, dewis ac ymatebolrwydd ar lefelau uchel.

### Ymweliadau â thudalennau gwefan BBC World Service & Global News

| | Miliynau |
|---|---|
| Mawrth 2003 | 227.7 |
| Mawrth 2002 | 75.3 |

Ffynhonnell: Cofnodion gwasanaethydd BBCi






Dde uchod: Mae BBC Monitoring yn darparu deunydd ffynhonnell allweddol ar ddigwyddiadau byd-eang hanfodol.

Dde canol: Gohebydd y BBC Lyse Doucet.

Dde: *Hard Talk* gyda Tim Sebastian.

# Gweithgareddau masnachol: BBC Worldwide Limited



**Er gwaethaf dirywiad economaidd yn y marchnadoedd hysbysebu, teledu a chylchgronau byd-eang a effeithiodd ar lawer o'i gwsmeriaid, cyflawnodd BBC Worldwide Limited y gwerthiannau uchaf erioed o weithrediadau parhaus*, yr elw uchaf erioed a'r cyfraniad llif arian parod uchaf erioed i'r BBC. Dychwelodd y cwmni £123miliwn i'r BBC, cynnydd o 16% ar gyfraniad uchaf y llynedd o £106miliwn. Cynyddodd gwerthiannau o weithrediadau parhaus, gan gynnwys ei gyfran o gyd-fentrau, i £640miliwn gyda chynnydd mewn elw i £44miliwn.**

Nod BBC Worldwide yw cynyddu gwerth asedion cynnwys y BBC i'r eithaf er budd talwyr y drwydded, ailfuddsoddi ei enillion mewn rhaglennu cyhoeddus a sicrhau bod cynulleidfaoedd yn y DU a phob cwr o'r byd yn gallu mwynhau rhaglennu'r BBC.

Wrth gyflawni ei rôl fasnachol, mae BBC Worldwide yn cydymffurfio â gofynion masnachu teg trwyadl o dan Siarter Frenhinol y BBC (gweler tudalen 68). Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd y cwmni gyfres ychwanegol o fesurau llywodraethedd gorfforaethol a rheoli risg ar waith yn llwyddiannus.

Gwerthwyd dros 40,000 o oriau o raglennu teledu yn 2002/2003. Yn ôl ffigurau Cymdeithas Dosbarthwyr Teledu Prydain ar gyfer 2002, roedd BBC Worldwide yn gyfrifol am 54% o gyfanswm y farchnad allforio teledu yn y DU, ei gyfran uchaf erioed.

Roedd rhai o raglenni mwyaf creadigol y BBC, fel *The Life of Mammals* a *The Blue Planet* hefyd ymhlith y teitlau allforio mwyaf poblogaidd, gyda buddsoddiad gan BBC Worldwide yn cefnogi eu datblygiad. Ymhlith llwyddiannau allforio cwmnïau cynhyrchu annibynnol eleni mae *Spooks*, y gyfres ar BBC One gan Kudos, a lansiwyd yn UDA fel *MI5*.

Gwerthwyd darllediadau o gyngherddau'r Jiwbilî Aur i fwy nag 80 o wledydd. Gwerthwyd 160,000 o DVDs hefyd. Audiocall, un o is-gwmnïau BBC Worldwide, oedd yn gyfrifol am y bleidlais tocynnau fyd-eang, gyda thros 3,000 o linellau ffôn mewn naw iaith.

## Llif arian parod BBC Worldwide i'r BBC

| | £ miliynau |
|---|---|
| **2002/2003** | **123** |
| 2001/2002 | 106 |
| 2000/2001 | 96 |
| 1999/2000 | 82 |
| 1998/1999 | 81 |
| 1997/1998 | 75 |
| 1996/1997 | 53 |

Ffynhonnell: Cyllid y BBC

** Mae gweithrediadau parhaus yn cynnwys cyfran BBC Worldwide o gyd-fentrau ond nid yw'n cynnwys BBC World a beeb.com*




Uchod: Gan ddwyn y teitl *MI5* yn UDA, mae cyfres ddrama *Spooks* y BBC bellach wedi'i gwerthu i deledu Rwsia hefyd.

Dde: Gwerthodd y *Radio Times* ei 15 biliynfed copi yn ystod y flwyddyn.

# Allforio byd-eang

BBC Worldwide yw allforiwr rhaglenni teledu mwyaf Ewrop.

Rhoddwyd yr elw o'r holl weithgareddau hyn i elusennau (gweler Rhoddion, tudalen 81).

Dangosodd llwyddiant *The Office* allu BBC Worldwide i gefnogi a marchnata rhaglenni mwyaf arloesol y BBC. Gwerthwyd y gyfres i 25 o diriogaethau; fe'i darlledwyd ar BBC America gan dderbyn clod beirniadol; daeth yn un o'r llyfrau sgriptiau mwyaf poblogaidd yn y farchnad, a gwerthodd dros 1 miliwn o fideos a DVDs, gan olygu mai dyma oedd y teitl teledu a werthodd y nifer uchaf o gopïau fideo/DVD yn y DU. Yn ystod y flwyddyn trosglwyddodd BBC World i is-adran newydd (gweler tudalen 51).

Gyda chyrhaeddiad o 550 miliwn o gartrefi (gan gynnwys BBC World), BBC Worldwide yw un o weithredwyr sianelau teledu rhyngwladol mwyaf y byd. Cyflawnodd BBC America lwyddiant eithriadol, gan gyrraedd 35 miliwn o gartrefi ledled UDA, ac ennill ei phlwyf fel y sianel cebl sy'n tyfu gyflymaf ond un yn UDA. Cytunodd y BBC, BBC Worldwide a Discovery Communications Inc. ar estyniad deng mlynedd nodedig i'w partneriaeth cyd-gynhyrchu fyd-eang. Gwnaeth cyd-fenter BBC Worldwide gyda Flextech Television, UKTV, elw unwaith eto, er gwaethaf y dirwasgiad hysbysebu a thranc ITV Digital. Cynhaliodd ei hymrwymiad i sianelau newydd drwy lansio UK Bright Ideas a UK History.

BBC Worldwide yw cyhoeddwr ffeithiol clawr caled mwyaf y DU yn ôl gwerth ac yn ôl nifer y copïau. Daeth BBC Books yn arweinwyr yn y farchnad teitlau garddio a hanes yn ogystal â bwyd a diod, a theitlau teledu ategol. Roedd *The Life of Mammals* gyda David Attenborough, a'i hunangofiant *Life on Air*, ymhlith teitlau mwyaf llwyddiannus y flwyddyn, gan werthu cyfanswm o fwy na 368,000 o gopïau ac ennill Gwobrau Llyfrau Dewis y Bobl WHSmith. Enillodd BBC Audiobooks 18 o wobrau Spoken Word, y nifer uchaf erioed, gan gynnwys Cyhoeddwr y Flwyddyn. Rhyddhawyd deunydd sain o blith talent radio gorau'r BBC, fel *Dead Ringers* BBC Radio 4.

BBC Magazines yw trydydd busnes cyhoeddi cylchgronau mwyaf y DU, gan gyrraedd ymron un o bob pump oedolyn yn y DU.

Cynyddodd BBC Magazines ei gylchrediad 2.2% flwyddyn ar flwyddyn yn ystod ail hanner 2002 gan gynyddu ei elw. Gwerthodd *Radio Times* ei 15 biliynfed copi yn ystod y flwyddyn a bu diwyg newydd o gymorth i ddarllenwyr wneud synnwyr o'r amgylchedd aml-sianel. Yn gyfrifol am y chwe theitl cyn oed ysgol mwyaf poblogaidd, mae cylchgronau'r BBC yn ffefrynnau amlwg gyda darllenwyr iau.

Mewn blwyddyn anodd i ddeunydd i blant, roedd *Fimbles* yn llwyddiant amlwg. Mae ei thema gyffredinol o awydd naturiol plant i ddarganfod yn profi'n boblogaidd gyda darlledwyr ledled y byd, ac mae *Fimbles* eisoes wedi gwerthu mewn gwledydd o Ffrainc i Korea. Y Fimble lleiaf oedd tegan meddal mwyaf poblogaidd y DU adeg y Nadolig.

Datblygodd BBC Learning bartneriaethau arloesol gyda sefydliadau addysgol a chyhoeddwyr pwysig gan gynnwys y Brifysgol Agored. Mae'r project Lifesign, partneriaeth gyda phedair prifysgol yn y DU, yn golygu bod rhaglenni gwyddoniaeth y BBC fel *The Human Body* ar gael ar fand eang i bob myfyriwr ym maes addysg bellach ac uwch yn y DU.

Dyfarnwyd gradd uchaf y Gronfa Natur Fyd-eang (tair seren) i BBC Worldwide unwaith eto am ei ymrwymiad parhaus i'r amgylchedd, ac enillodd Wobr Aur Genedlaethol yng Ngwobrau Amgylcheddol Green Apple. At ei gilydd, enillodd BBC Worldwide 106 o wobrau yn ystod y flwyddyn, y nifer uchaf erioed, ac mewn arolwg cenedlaethol pleidleisiwyd am y BBC fel allforyn gorau Prydain.






Uchod: BBC America yw'r sianel cebl sy'n tyfu gyflymaf ond un yn UDA.

Dde: Y *Fimbles* – yn boblogaidd ymhob cwr o'r byd o Ffrainc i Korea.

# **Gweithgareddau masnachol:** BBC Ventures Group Limited



**Lansiwyd cwmnïau BBC Ventures Group yn 2002 i wireddu gwerth masnachol gwasanaethau a chyfleusterau cyfryngau'r BBC o fewn y BBC ac yn allanol er mwyn dychwelyd arian parod ac arbedion cost o £300miliwn yn ôl i'r BBC dros gyfnod o bum mlynedd.**

Wynebodd BBC Ventures Group amodau anodd yn y farchnad gyda marchnad stoc gyfnewidiol yn effeithio ar lawer o benderfyniadau buddsoddi gan fusnesau cyfryngau rhyngwladol. Er gwaethaf yr ansicrwydd hwnnw, cafodd y Grŵp flwyddyn gryf o ran gwerthiannau, gan gynhyrchu elw masnachu cyfunol cyffredinol.


Mae BBC Ventures Group yn cynnwys pedwar busnes masnachol: BBC Broadcast, BBC Resources, BBC Technology a BBC Vecta. Gyda'i gilydd mae gan y busnesau ymron 3,600 o aelodau o staff, gwerthiannau o £440miliwn (gyda £40miliwn ohono o ffynonellau o'r tu allan i'r BBC) ac maent yn ddarparwyr blaenllaw ym maes gwasanaethau, cynyrchiadau a chyfleusterau darlledu creadigol a thechnegol, yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae'r pedwar busnes gyda'i gilydd yn ymwneud â phob maes o gylch bywyd y cyfryngau modern o ddiwydiannau cydgyfeiriol y cyfryngau, darlledu, technoleg a thelathrebu i gynhyrchu cynnwys gwreiddiol, rheoli a dosbarthu.

Ymagwedd strategol BBC Ventures Group yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fu cynyddu arbedion o fewn y busnesau, ehangu yn rhyngwladol, datblygu dulliau arloesol a chynyddu refeniw allanol. Bu'r flwyddyn yn drobwynt pwysig lle y llwyddodd pob un o fusnesau'r Grŵp, am y tro cyntaf, i ragori ar eu targedau ariannol gan ddychwelyd gwerth gwirioneddol i'r BBC. Gwnaeth y Grŵp elw cyn llog a threth o £14.5miliwn, ar ôl dychwelyd gostyngiadau pris gwerth £23miliwn i'r BBC.

**BBC Resources**

Cafodd BBC Resources haf eithriadol o chwaraeon a dathlu cenedlaethol. Darparodd gyfleusterau darlledu allanol helaeth i'r BBC a chleientau eraill ar gyfer digwyddiadau pwysig gan gynnwys dathliadau'r Jiwbilî Aur, Gemau'r Gymanwlad a Phencampwriaeth Rali'r Byd. Datblygodd y cwmni hefyd fentrau i ddenu mwy o





Uchod: Roedd *Party at the Palace* yn weithrediad enfawr i BBC Resources.

Chwith pellaf: Technoleg ddi-wifr gan BBC Vecta gyda chamera radio digidol newydd.

Chwith: Lansiwyd Colledia, meddalwedd rheoli cylch bywyd y cyfryngau BBC Technology.

## Y darlun mawr

Llwyddodd technoleg ac adnoddau arloesol BBC Ventures Group i sicrhau bod haf 2002 o chwaraeon a dathliadau yn haf bythgofiadwy.

gwmnïau cynhyrchu annibynnol i fanteisio ar gyfleusterau a stiwdios y BBC. Yn ogystal, cydweithiodd ochr ôl-gynhyrchu'r busnes yn agos â chwsmeriaid cynhyrchu i ddod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o gadw ar y blaen gyda thechnolegau sy'n esblygu.

Mae BBC Resources, â 1,400 o aelodau o staff, wedi esblygu i'r busnes cyfleusterau cynhyrchu mwyaf yn Ewrop ac mae'n cyflenwi gwasanaethau i'r farchnad darllediadau allanol, stiwdios, ôl-gynhyrchu, dylunio a gwisgoedd a wigiau. Rhagorodd pob maes o'r busnes ar eu disgwyliadau o ran elw ar gyfer y flwyddyn.

**BBC Technology**

Crëwyd BBC Technology yn 2001 i fanteisio ar arbenigedd y BBC ym maes dylunio, llunio a gweithredu systemau ar gyfer creu, rheoli a dosbarthu cynnwys ar draws pob llwyfan darlledu, cyfryngau digidol a rhyngweithiol. Mae cwsmeriaid heddiw yn amrywio o BSkyB i Gorfforaeth Ddarlledu De Affrica. Mae'r llwyddiant wrth gaffael busnes atebion cyfryngau digidol IXL sydd wedi'i leoli yn San Francisco ac Atlanta wedi cyflymu'r broses o ddatblygu'r busnes yng Ngogledd America.

Yn ystod y flwyddyn, chwaraeodd BBC Technology ran arloesol wrth reoli'r gwaith o gynhyrchu cynnwys clyweledol gwasanaeth 3G cyntaf y DU, a gyflwynwyd gan 3; mae'r gwasanaethau yn cynnwys prosesu a golygu uchafbwyntiau pêl-droed er mwyn i wylwyr allu gweld eu hoff goliau ar sgrîn fach ar wyneb ffôn symudol.

Daeth y flwyddyn ariannol i ben gyda dêl bwysig gyda chwmni ESPN yn yr UD, contract newydd gyda'r darlledwr lloeren DirecTV a lansio Colledia, portffolio cynnyrch arloesol, clodwiw i ddarlledwyr y disgwylir iddo drawsnewid amgylcheddau newyddion, chwaraeon a chynhyrchu.

**BBC Broadcast**

Wedi'i lansio ym mis Ebrill 2002, mae BBC Broadcast yn cynnig yr amrywiaeth cyflawn o wasanaethau sydd eu hangen i lansio, hyrwyddo, darlledu a rheoli sianelau a gwasanaethau ar y teledu, y rhyngrwyd a dyfeisiau symudol. Ar hyn o bryd mae'n darlledu 25 o sianelau teledu a 12 o sianelau teledu rhyngweithiol ar ran darlledwyr cyhoeddus, masnachol a rhyngwladol ac mae'n cyhoeddi bbc.co.uk.

Yn ystod blwyddyn brysur, gweithiodd y cwmni gyda'r BBC i lansio a hyrwyddo ei wasanaethau teledu digidol, teledu rhyngweithiol a radio newydd; gydag UKTV i lansio estyniadau i'w sianelau presennol a dwy sianel ddigidol newydd yn ogystal â chyflwyno projectau creadigol ar gyfer Discovery Networks Europe, Emirates Media, HSBC, y Ganolfan Hysbysrwydd Ganolog a nifer o asiantaethau hysbysebu blaenllaw.

Derbyniodd BBC Broadcast gydnabyddiaeth y diwydiant gan y Gymdeithas Deledu Frenhinol, Cymdeithas Amlgyfrwng Rhyngweithiol Prydain (BIMA) a Promax am effeithiolrwydd ei ymgyrchoedd hunaniaeth sianelau a rhaglenni a delwedd.

**BBC Vecta**

Wedi'i greu o Kingswood Warren Ventures a'i ailenwi yn 2003, tasg BBC Vectra yw cyflwyno'r datblygiadau diweddaraf o ran cynnyrch technoleg i'r cyfryngau i farchnad ehangach gan greu elw i'r BBC. Gan gydweithio'n agos â thîm Ymchwil a Datblygu clodwiw'r BBC a phartneriaid allanol eraill, ei gynnyrch arloesol newydd cyntaf yw'r Camera Di-wifr Digidol chwyldroadol sy'n dileu'r angen am y ceblau sydd eu hangen ar gyfer darllediadau allanol, gan roi mwy o hyblygrwydd ac arbedion. Mae gan is-adran darlledu di-wifr BBC Vecta, BBC WiScape, rwydwaith helaeth o bartneriaid ledled Ewrop sy'n ymrwymedig i ymestyn cyrhaeddiad y camera newydd i ddarlledwyr ledled y byd.






Chwith: Cafodd y sianel UK History ei lansio a'i hyrwyddo gan BBC Broadcast.

Dde: Mae BBC Technology a BBC Broadcast yn darparu gwasanaeth ailchwarae ar unwaith ar gyfer ffonau 3G.

# Rhoi blaenoriaeth i gynulleidfaoedd





Mae cynulleidfaoedd wrth wraidd popeth a wna'r BBC a, chan mai hwy sy'n ei ariannu'n uniongyrchol, maent yn disgwyl i'r BBC fod yn fwy atebol na darlledwyr eraill. Nod y Llywodraethwyr yw sicrhau y bodlonir y disgwyliad hwn.

Cyhoeddwyd diwygiadau llywodraethedd wedi'u hanelu at wella atebolrwydd uniongyrchol y BBC i'r cyhoedd yn 2002. Roedd *Adroddiad Blynyddol* y llynedd yn cynnwys ymrwymiad i fwy o gyfranogiad gan y cyhoedd yn seiliedig ar amcanion y BBC a *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni'r BBC*. Pwysleisiodd y Llywodraethwyr werth unigryw trafodaethau wyneb-yn-wyneb â thalwyr y drwydded er mwyn datblygu dealltwriaeth o rôl gyhoeddus y BBC ac i ba raddau y caiff y rôl hon ei chyflawni. Bu dau ddatblygiad allweddol yn ystod y flwyddyn: cyflwyno arddull fwy pendant o ymgynghori â thalwyr y drwydded a ffocws ar faterion sy'n ymwneud ag amcanion sy'n gysylltiedig â chynulleidfaoedd.

**Ymatebion cynulleidfaoedd i raglennu newyddion a materion cyfoes y BBC**

Mewn sesiynau gweithdy rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2003 yn Wolverhampton, Belfast, Tunbridge Wells a Bryste, cyfarfu Llywodraethwyr y BBC â grwpiau cynulleidfa o wahanol oedrannau a phroffiliau cymdeithasol i glywed eu hymateb i'r hyn a gynigir gan y BBC ar draws y portffolio o wasanaethau analog a digidol (gan gynnwys ar-lein). Archwiliodd y gweithdai hyn i ba raddau yr oedd rhaglennu newyddion a materion cyfoes gan y BBC yn parhau yn unol â'i gylch gwaith cyhoeddus, p'un a oedd yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd amrywiol y DU yn nhermau ethnigrwydd, rhanbarth ac oedran a beth y gellid ei wneud i sicrhau ei fod yn apelio fwy at gynulleidfaoedd nas gwasanaethir yn ddigonol neu gynulleidfaoedd nad oes ganddynt ddiddordeb.

Roedd neges glir y dylai prif fwletinau teledu rhwydwaith ddarparu gohebu a dadansoddi difrifol – dylid gadael straeon diddordeb dynol i ddarlledwyr eraill. Roedd pobl hefyd o'r farn bod gormod o adloniant a straeon am enwogion yn cael eu cynnwys; nid dyma yr oeddynt yn ei ddisgwyl gan ddarlledwr cyhoeddus. Fodd bynnag, roedd agweddau tuag at newyddion rhanbarthol y BBC yn wahanol; roedd pobl yn croesawu diddordeb lleol ac yn mwynhau naws fwy personol.

Ar y cyfan, ystyriwyd mai'r BBC oedd y prif ddewis ar gyfer straeon newyddion pwysig a'r darlledwr yr ymddiriedwyd ynddo fwyaf. Roedd rhai yn poeni am ymyrraeth dybiedig gan y Llywodraeth – hyd yn oed os nad oes cyfiawnhad drosto, dylai'r BBC ystyried y pryder hwn. Cydnabuwyd bod amseru'r gweithdai, a gynhaliwyd yn

Chwith uchod: Ymgynghorwyd â defnyddwyr ar wasanaethau ar-lein y BBC yn un o seminarau'r Llywodraethwyr.

Chwith: Gweithdy atebolrwydd gydag un o Lywodraethwyr y BBC y Fonesig Pauline Neville-Jones.

# Gwrando ar gynulleidfaoedd

Bu cynulleidfaoedd yn trafod materion gyda'r Llywodraethwyr mewn gweithdai ar newyddion a gwasanaethau ar-lein.

ystod y cyfnod cyn ac yn ystod y rhyfel yn Irac, wedi lliwio amgyffrediadau o'r agenda newyddion.

Roedd y cyfranogwyr am weld mwy o gyd-destun ar gyfer straeon mawr, gyda rhaglennu materion cyfoes wedi'i hysbysebu'n dda i ategu bwletinau newyddion. Gofynnodd cynulleidfaoedd am sicrwydd nad oedd rhaglenni materion cyfoes presennol y BBC yn cael eu hymylu mewn slotiau hwyrnos neu benwythnos neu yn cael eu darlledu ar BBC Two yn unig.

Roedd y cyfranogwyr yn amau a oedd amseru prif fwletinau newyddion y BBC yn ddelfrydol ar gyfer ffordd o fyw yr oes sydd ohoni – a oedd 6pm yn rhy gynnar a 10pm yn rhy hwyr? A ddylid darlledu bwletinau newyddion byr drwy gydol y cyfnod hwnnw? Roedd cynulleidfaoedd ifancach yn arbennig am weld newyddion ar amseroedd a oedd yn gyfleus iddynt hwy a theimlwyd bod y syniad o aros am raglenni newyddion mawr yn hen ffasiwn. Yn ogystal, pwysleisiwyd nad cymaint mater o arddull oedd sicrhau bod y newyddion yn apelio fwy ond mater o berthnasedd.

**Ymgynghori â chynulleidfaoedd ar wasanaethau ar-lein y BBC**

Mae'r Llywodraethwyr yn monitro perfformiad gwasanaethau newydd yng nghyd-destun cylch gwaith a strategaeth y BBC a thelerau caniatâd y Llywodraeth ar gyfer eu lansio. Ym 1998 rhoddwyd caniatâd i'r BBC gynnig gwasanaethau ar-lein yn seiliedig ar yr amcanion canlynol:

- gweithredu fel adnodd hanfodol gan gynnig cynnwys unigryw eang ei gwmpas
- atgyfnerthu atebolrwydd a llunio cydberthynas newydd gyda thalwyr y drwydded
- darparu cartref i dalwyr y drwydded ar y rhyngrwyd a gweithredu fel tywysydd yr ymddiriedir ynddo

Yn un o seminarau'r Llywodraethwyr ym mis Mawrth 2003, ystyriodd dros 70 o ddefnyddwyr amrywiaeth a chymysgedd y cynnwys ar www.bbc.co.uk, defnydd y BBC o'r rhyngrwyd ar gyfer atebolrwydd, a dibenion cyhoeddus gwasanaethau ar-lein y BBC. Ym mis Ebrill, ymunodd cynrychiolwyr o'r Cynghorau Darlledu a Fforwm Cenedlaethol Lloegr â'r ddadl.

**Barn y defnyddwyr**

Pwysleisiodd y cyfranogwyr yn seminar y Llywodraethwyr fod bod yn dywysydd yr ymddiriedir ynddo i'r rhyngrwyd yn rôl hollbwysig i'r BBC fel darlledwr cyhoeddus. Ar yr un pryd, dylai'r BBC fod yn arloeswr wrth ddatblygu'r rhyngrwyd yn yr un ffordd ag y bu ar deledu a radio. Roedd pawb yn cytuno bod y BBC yn fan cychwyn da iawn i bobl sy'n dechrau defnyddio'r rhyngrwyd.

Roedd safbwyntiau am gynnwys yn amrywio. Roedd rhai o'r farn bod yr amrywiaeth yn rhy eang a phrosesau llywio yn anodd ac y dylai'r safle ganolbwyntio ar gynyddu darllediadau teledu a radio'r BBC ac osgoi dyblygu gwybodaeth sydd ar gael mewn lleoliadau eraill. Fodd bynnag, barn y mwyafrif oedd bod amrywiaeth cynnwys ac arddull y BBC a'r gallu i ymddiried ynddo yn cyfrannu at natur unigryw ei wasanaeth ar-lein.

O ystyried natur y rhyngrwyd awgrymwyd y dylai'r BBC gynnig deunydd cywir, arbennig ac o ansawdd ar-lein, ochr yn ochr â'r cylch gwaith craidd sef hysbysu, addysgu a diddanu. Pwysleisiodd y cyfranogwyr bwysigrwydd gwefan y BBC wrth ddysgu gartref a'i rôl wrth alluogi pobl i fynd ar drywydd diddordebau y cafwyd blas arnynt drwy raglenni.

Roedd barn gymysg o ran p'un a oedd angen peiriant chwilio www ar y BBC gan fod peiriannau eraill ar gael yn fasnachol. Er bod rhai cyfranogwyr yn amau gwerth darparu adnodd o'r fath, roedd eraill yn gwerthfawrogi peiriant chwilio a oedd yn gyfeillgar i blant ac a oedd yn canolbwyntio ar y DU. Roedd pawb yn cytuno bod y diffyg hysbysebion yn fonws.

Canmolwyd gallu'r BBC i gynnig safleoedd rhanbarthol a lleol cynhwysfawr wedi'u teilwra, er i rai nodi ei bod yn bryd ychwanegu mwy o fanylder ac apelio at amrywiaeth demograffig ehangach. Cafwyd dadl ynghylch p'un a ddylai'r safleoedd *Lleol i Mi* weithredu fel llwybr gwybodaeth o fewn cymunedau neu hwyluso cysylltiadau ag eraill.

Roedd rheoleiddio negesfyrddau yn bryder cyffredinol, er bod byrddau a fforymau trafod wedi'u safoni'n briodol yn ehangu cydberthynas y gynulleidfa y tu hwnt i'r teledu a'r radio. Teimlwyd bod negesfyrddau yn wasanaeth cyhoeddus pwysig iawn i bobl ifancach, gan ddarparu fforwm iddynt drafod materion personol yn ddienw.

Roedd rôl gwasanaethau ar-lein y BBC wrth ddatblygu atebolrwydd i dalwyr y drwydded yn parhau'n bwysig ond nododd llawer nad oeddynt yn ymwybodol o'r dulliau a ddefnyddir i wneud hyn ar hyn o bryd. Teimlwyd y dylai'r ardaloedd hyn o'r wefan fod yn fwy gweladwy, hygyrch a dealladwy.

Roedd rhywfaint o bryder ynghylch ariannu gwasanaethau ar-lein y BBC, yn arbennig gan nad oedd gan lawer o dalwyr y drwydded





Chwith pellaf: Mae gan *Lleol i Mi* 55 o safleoedd ledled y DU erbyn hyn.

Chwith: Dewch i ymweld â'r BBC – ble i ganfod teithiau ar-lein o'r Ganolfan Ddarlledu.

# Rhoi blaenoriaeth i gynulleidfaoedd

fynediad i'r rhyngrwyd. Cytunodd y mwyafrif o'r cyfranogwyr fod £5 yn swm addas o ffi'r drwydded i'r BBC ei gwario ar wasanaethau ar-lein. Roedd tua hanner ohonynt o'r farn y byddai'n briodol i'r BBC wario mwy na hyn yn y dyfodol.

### Barn ymgynghorwyr y BBC

Roedd cynrychiolwyr y rhwydwaith ymgynghorol o'r farn bod safleoedd fel safleoedd Newyddion y BBC, safleoedd *Lleol i Mi* a safleoedd addysgol yn greiddiol i'r hyn y dylai'r BBC ei gynnig.

Roedd problemau sylweddol yn deillio o negesfyrddau. Roedd gan y grŵp farn gymysg o ran p'un a ddylai'r BBC fod yn 'cysylltu cymunedau' neu'n 'cysylltu â chymunedau' ar-lein. Roedd rhai o'r farn mai rôl y BBC oedd cysylltu cymunedau a darparu llwyfan ar gyfer rhannu gwybodaeth. Roedd eraill yn ansicr o ran p'un a oedd safleoedd o'r fath yn cyfateb â'r cylch gwaith cyhoeddus ac yn teimlo bod gwell ffyrdd o gysylltu pobl. Fel cyfranogwyr y seminar, roedd aelodau'r Cyngor yn poeni am safoni. Yn gyffredinol, roedd y grŵp yn amau a oedd negesfyrddau yn ddefnydd da o adnoddau.

Ystyriwyd bod y safle *About the BBC* yn gymharol llwyddiannus; roedd yn darparu cryn dipyn o wybodaeth am yr hyn y mae'r BBC yn ei wneud, sut y caiff ei redeg a dogfennau polisi. Nid oedd yn perfformio cystal wrth ystyried barn talwyr y drwydded, er bod cyfleoedd i'r cyhoedd gyflwyno sylwadau. Ar y cyfan, dylid rhoi proffil uwch i atebolrwydd ar hafan BBCi, gan ei gwneud yn fwy amlwg bod fforwm i ddefnyddwyr ac annog adborth cadarnhaol a negyddol, gyda seilwaith ar waith i ymateb i sylwadau.

### Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn ystyried y safbwyntiau a ddaeth i law yn y ddau ymgynghoriad wrth ystyried adroddiad gan reolwyr y BBC a gaiff ei gyhoeddi yn ystod yr haf.

### Gwrando ar gynulleidfaoedd Asiaidd

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, adolygodd y Llywodraethwyr atebolrwydd y BBC i gynulleidfaoedd Asiaidd yng ngoleuni adborth o'u hymgynghoriad ar amrywiaeth diwylliannol yn 2000 a'r ffaith nad yw cylch gwaith a statws rhanbarthol Cyngor Ymgynghorol yr Asian Network bellach yn briodol o ystyried bod BBC Asian Network bellach yn wasanaeth ar gyfer y DU gyfan.

Er mwyn sicrhau y gallant fonitro i ba raddau y mae'r BBC yn diwallu anghenion pob cynulleidfa Asiaidd ac y cynhelir cyswllt cryf rhwng y BBC a'r gymuned Asiaidd wrth i'r BBC Asian Network newydd ymsefydlu, bydd y Llywodraethwyr, yn y dyfodol, yn disgwyl i'r adran Llywodraethedd ac Atebolrwydd gasglu amrywiaeth llawn o wybodaeth a'i hanfon atynt. Yn ogystal, byddant yn disgwyl i adnoddau gael eu rhyddhau i sicrhau bod gallu BBC Asian Network i ymgynghori â'r gynulleidfa a chael adborth ganddynt ar strategaeth rhaglenni yn cyfateb â gallu rhwydweithiau radio eraill. Bydd ystyriaeth systemataidd o fuddiannau cynulleidfaoedd Asiaidd hefyd yn ffurfio rhan o gylch busnes y Cynghorau Darlledu, Fforwm Cenedlaethol Lloegr a'r Rhwydwaith Ymgynghorol Rhanbarthol a Lleol.

### Llwyfan newydd ar gyfer grwpiau diddordeb

Mae angen cyngor ar y Llywodraethwyr ar faterion o bryder penodol i grwpiau diddordeb fel pobl anabl. Mae fforymau trafod sy'n cynnwys aelodau o'r Cynghorau Ymgynghorol yn cynnig ffordd newydd o ystyried materion sy'n deillio o wasanaethau a phryderon arbenigol fel hil, diwylliant, crefydd, rhyw, oedran, rhywioldeb neu anabledd. Sefydlwyd grŵp anabledd peilot a bydd grŵp Asiaidd hefyd yn cyfarfod yn ystod 2003.

### Gwella ein gallu i fod yn agored a thryloyw

Cyhoeddwyd *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni* cyntaf y BBC ym mis Gorffennaf 2002 ar yr un pryd ag *Adroddiad Blynyddol y BBC*. O ganlyniad i ddiwygio cylch busnes y BBC cyhoeddwyd y Datganiadau ar gyfer 2003/2004 lai na blwyddyn wedi hynny, ym mis Ebrill 2003.

Mae'r Llywodraethwyr o'r farn bod y Datganiadau yn gyfle i wella atebolrwydd y BBC. Gofynnwyd i grwpiau cynulleidfa i ba raddau yr oedd eu profiad fel gwylwyr a gwrandawyr wedi cyfateb â'r Datganiadau ar gyfer 2002/2003. Ar y cyfan, roedd cyfatebiaeth foddhaol rhwng disgwyliadau, y Datganiadau a phrofiad y gynulleidfa. Yn nhermau atebolrwydd, parhaodd talwyr y drwydded i gael eu siomi o'r ochr orau gan ymdrechion y BBC i sicrhau bod y ddogfen yn hygyrch iddynt. Serch hynny, roeddynt yn amau p'un a fyddai

Dde: *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni'r BBC* a gyhoeddwyd yn ystod y gwanwyn.

Dde pellaf: DJs BBC Radio 1 Nihal a Bobby.






## Lleisio barn

Mae rhwydwaith o 500 o bobl o bob cwr o'r DU yn cynghori'r Llywodraethwyr ar raglenni a gwasanaethau.

llawer o ddiddordeb cyffredinol mewn gwybodaeth y tu hwnt i gynlluniau am raglenni a byddent wedi hoffi gweld siartiau syml yn nodi'n union sut roedd y BBC yn bwriadu gwario ffi'r drwydded.

Mae'r *Adroddiad Blynyddol* hwn, ac yn arbennig yr amcanion a bennwyd gan Lywodraethwyr y BBC ar gyfer y flwyddyn nesaf, yn adlewyrchu eu hasesiad o lwyddiant y BBC wrth gyflwyno ei gylch gwaith cyhoeddus yn 2002/2003. Ymgorfforir pwyntiau pellach sy'n berthnasol i'r Datganiadau yn yr adroddiad ar berfformiad y BBC yn erbyn amcanion ar dudalennau 8 i 15; yr Arolwg o'r gwasanaethau ar dudalennau 20 i 53; yr adran Cydymffurfiad ar dudalennau 68 i 81, a'r adran Ffeithiau a Ffigurau darlledu ar dudalennau 122 i 131 yr adroddiad hwn.

### Adroddiadau gan gyrff ymgynghorol y BBC

#### Cynghorau Darlledu a Fforwm Cenedlaethol Lloegr

Mae'r BBC yn unigryw yn ei allu i droi at rwydwaith o fwy na 500 o bobl ledled y DU am gyngor ar raglenni a gwasanaethau. Mae Cynghorau Darlledu Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cynrychioli buddiannau pobl yn y gwledydd. Yn Lloegr, mae'r Cynghorau Ymgynghorol Rhanbarthol yn rhoi cyngor i'r Llywodraethwyr drwy Fforwm Cenedlaethol Lloegr (ENF) ac fe'u hysbysir yn eu tro gan rwydwaith o Gynghorau Ymgynghorol Lleol.

Tasg bwysicaf y Cynghorau yw rhoi cyngor i'r Llywodraethwyr ar amcanion rhaglenni a gwasanaethau ar gyfer Gwledydd a Rhanbarthau'r BBC a monitro, drwy broses o adolygu rheolaidd, i ba raddau y mae'r BBC yn llwyddo i'w cyflawni. Ar y cyfan, teimlwyd bod cynnydd arwyddocaol wedi'i wneud yn erbyn amcanion y flwyddyn. Roedd ymateb y gynulleidfa i raglenni yn eu hardal yn galonogol. Felly hefyd ystod ac amrywiaeth gwasanaethau allgyrch y BBC i wahanol gynulleidfaoedd.

Croesawodd Cyngor Darlledu'r Alban yn arbennig gyflwyno *Politics Scotland* ac edrychodd ymlaen at arolwg mawr o holl newyddiaduraeth newyddion BBC Scotland yn ystod y flwyddyn i ddod, gan nodi y byddai hyn yn cynnwys sylwadau gan amrywiaeth eang o unigolion a grwpiau. Nododd yr ENF y cynulleidfaoedd uwch i raglenni gwleidyddol a rhaglenni materion cyfoes rhanbarthol ar ôl iddynt gael eu symud o BBC Two i BBC One, er y teimlai rhai bod amserlennu'r *Politics Show* amser cinio dydd Sul yn anghyfleus. Dadleuodd yr ENF, hefyd, y dylid cynhyrchu rhaglen wleidyddol benodol ar gyfer rhanbarthau De Ddwyrain Lloegr a Dwyrain Canolbarth Lloegr a bod angen i deledu rhanbarthol yn Lloegr ehangu i gynnwys genres fel y celfyddydau, diwylliant ac etifeddiaeth er mwyn adlewyrchu amrywiaeth bywyd ledled Lloegr.

Roedd cysylltu â chynulleidfaoedd yn un o themâu allweddol y flwyddyn. Nododd Cyngor Darlledu Gogledd Iwerddon yn arbennig gyfraniad gohebwyr rhanbarthol a oedd newydd eu penodi yn hyn o beth gan amlygu arwyddocâd y cyfleusterau stiwdio newydd yn Enniskillen. Roedd rhaglen gweithgareddau uchelgeisiol BBC Cymru yn cynnwys datblygu'r project adrodd straeon digidol *Cipolwg ar Gymru* ymhellach. Bu projectau *Lleisiau* lleol, presenoldeb gwell nag erioed mewn digwyddiadau cymunedol a darllediadau allanol a gwell atebolrwydd oll o gymorth wrth atgyfnerthu'r gydberthynas â thalwyr y drwydded ledled y DU. Roedd adeiladu ar y cryfderau hyn yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Yn gyffredinol, nododd y Cynghorau Darlledu fod amrywiaeth a maint y comisiynau o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i rwydweithiau'r BBC, a oedd yn cynnwys rhai llwyddiannau amlwg, yn galonogol. Ystyriwyd y byddai cynnal y llwyddiant hwn yn her sylweddol.

Mae Cynghorau Ymgynghorol Rhanbarthol a Lleol yn monitro pa mor dda y caiff rhanbarthau Lloegr eu hadlewyrchu ar wasanaethau rhwydwaith y BBC. Er eu bod yn croesawu dramâu newydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Lloegr, roeddynt yn parhau i deimlo bod angen mwy – yn arbennig yn achos Canolbarth Lloegr. Roedd Cyngor Ymgynghorol Rhanbarthol Llundain yn awyddus i sicrhau bod *EastEnders* yn portreadu amrywiaeth llawn y brifddinas.

*Cyhoeddir safbwyntiau'r Cynghorau Darlledu a'r ENF yn fanylach yn* Arolygon Blynyddol *BBC Cymru, BBC Scotland, BBC Northern Ireland a Rhanbarthau Lloegr. Maent ar gael ar wefan y BBC yn www.bbc.co.uk/annualreport.*

#### Grŵp Ymgynghorol World Service y Llywodraethwyr

Darparodd Grŵp Ymgynghorol World Service (WSCG) arolwg annibynnol i'r Llywodraethwyr o amrywiaeth ac ansawdd darllediadau BBC World Service yn Saesneg, Arabeg, Hausa, Somali, Portiwgëeg, Sbaeneg a Thsieinëeg. Cafodd pob un ohonynt sgoriau uchel am awdurdod a chywirdeb.

Roedd darllediadau BBC World Service i Affrica yn Saesneg, Hausa a Somali wedi creu argraff eithriadol. Pwysleisiodd y WSCG ddimensiwn addysgol cryf darllediadau BBC World Service i Affrica, sy'n apelio i bob grŵp socio-economaidd. Nodwyd hefyd er bod BBC Arabic Service yn perfformio'n dda mewn marchnad heriol, bod angen i BBC World Service barhau i wella amrywiaeth ac apêl ei raglenni.




Dde: *Lleisiau* – yn Dallow.

# Rhoi blaenoriaeth i gynulleidfaoedd

Cyflawnodd BBC World Service effaith arwyddocaol yn amgylchedd hynod gystadleuol y cyfryngau yn yr UD lle mae cyd-gynyrchiadau gyda radio cyhoeddus America yn hanfodol er mwyn denu cynulleidfaoedd. Gofynnodd y WSCG i BBC World Service gynnal arolygon rheolaidd o'r cyd-gynyrchiadau hyn er mwyn sicrhau bod y rhaglenni yn parhau i ddangos cryfderau'r BBC o ran cywirdeb, bod yn ddiduedd, perthnasedd a dyfnder a bod arddull, naws a gwerthoedd y BBC yn parhau yn amlwg. Cytunodd y WSCG bod partneriaethau lleol proffil uchel yn hanfodol er mwyn cyflwyno'r darllediadau ond roedd yn poeni am ymwybyddiaeth isel o ddarllediadau'r BBC yn Sbaeneg a Phortiwgëeg yn America Ladin.

Mae'r cyfyngiadau a osodir ar ddosbarthiad BBC World Service gan awdurdodau Tsieina yn cyfyngu ar ei effaith, ar radio ac ar-lein. Anogodd y WSCG BBC World Service i ddatblygu partneriaethau lleol yn seiliedig ar ddarparu rhaglenni addysg, busnes, gwyddoniaeth a hyfforddiant iaith ac i adolygu'r gynulleidfa darged ar gyfer ei safle ar-lein Mandarin a'r posibilrwydd o ehangu ei agenda y tu hwnt i newyddion a materion cyfoes.

**Y Pwyllgor Ymgynghorol Canolog ar Grefydd**

Mae'r Pwyllgor Ymgynghorol Canolog ar Grefydd (CRAC) yn rhoi cyngor i'r BBC ar bolisi darlledu a rhaglenni crefyddol.

Roedd strategaeth newydd y BBC ar gyfer crefydd a moeseg yn un o themâu allweddol y flwyddyn. Croesawodd CRAC broffil uwch darlledu crefyddol a'r buddsoddiad mewn rhaglenni nodedig a digwyddiadau mawr, ond parhaodd yn anfodlon â'r diffyg addoli byw a oedd yn adlewyrchu cymunedau ffydd cyffredin ar y teledu. Croesawyd yr ymrwymiad yn *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni'r BBC 2002/2003* i isafswm o 112 o oriau y flwyddyn o ddarllediadau crefyddol ar BBC One a BBC Two, er i CRAC ofyn am sicrwydd na fyddai'r isafswm a ragwelwyd o 80 o oriau ar BBC One yn cael ei fodloni'n bennaf gan *Songs of Praise* a *Heaven and Earth*.

Parhaodd gwell cynrychiolaeth o grefyddau heb fod yn Gristnogaeth yn flaenoriaeth. Roedd y mater hwn yn amserol o ystyried strategaeth y BBC i fanteisio i'r eithaf ar botensial crefydd i gyrraedd carfanau o'r gynulleidfa.

Rhan o gylch gwaith cyhoeddus y BBC yw darparu gwybodaeth i ddiwallu angen y cyhoedd ac ystyriwyd bod gwefan Crefydd y BBC yn adnodd pwysig ar gyfer addysg aml-ffydd. Teimlai'r aelodau y gellid gwneud mwy ym maes newyddion crefyddol gan nodi hefyd bod llai o wybodaeth am raglenni a llawer mwy o gwisys na'r disgwyl.

Ymhlith y llu o raglenni a adolygwyd, nododd CRAC ganmoliaeth arbennig ar gyfer *Panorama – Suffer the Little Children*. Er nad rhaglen grefyddol ydoedd, teimlwyd y bu'r rhaglen yn ddewr, os yn frawychus, ac yn enghraifft o newyddiaduraeth ymchwiliol ar ei gorau.

**Ymateb i gwynion**

Mae Pwyllgor Cwynion am Raglenni'r Llywodraethwyr (GPCC) yn gyfrifol am sicrhau yr ymdrinnir yn briodol â chwynion a wneir gan wylwyr a gwrandawyr. Mae'r GPCC hefyd yn clywed apeliadau yn erbyn penderfyniadau gan yr Uned Cwynion am Raglenni (PCU) neu gan gyfarwyddwyr is-adrannau'r BBC ar gwynion difrifol. Cyflwynir adroddiad ar ganfyddiadau apeliadau mewn bwletin chwarterol. Yn ystod y flwyddyn, ystyriodd y Pwyllgor 39 o apeliadau, a chadarnhawyd dwy ohonynt yn llawn a thair yn rhannol.

Mae'r PCU yn ymdrin â chwynion sy'n rhoi achos i gredu y gallai rhywbeth a ddarlledwyd gan wasanaethau'r BBC a ariennir gan y drwydded fod wedi methu â chyrraedd y safonau a nodir yn y BBC *Producers' Guidelines*. Mae'n gyfrifol am ymchwilio i gwynion yn ddiduedd. Pan fydd yn cadarnhau cwyn, mae'n ofynnol i reolwyr y BBC gymryd camau priodol. Yn 2002/2003 ymdriniodd y PCU â 1,596 o gwynion (794 yn 2001/2002) a oedd yn ymwneud â 807 o eitemau, a chadarnhawyd 137 ohonynt yn llwyr neu'n rhannol – 8.5% o'r cyfanswm. Cyhoeddir y canfyddiadau ar gwynion a gadarnhawyd mewn bwletin chwarterol, ynghyd â nodyn o'r camau a gymerwyd ym mhob achos. Atebwyd 49.5% o'r cwynion o fewn yr amserau targed (20 diwrnod neu 35 diwrnod ar gyfer achosion mwy cymhleth), o'i gymharu â 65% yn 2001/2002. Roedd hyn





Chwith pellaf: *Moses*, un o'r rhaglenni nodedig a oedd wrth wraidd strategaeth crefydd newydd y BBC.

Chwith: Gwefan BBC World Service.

## Drwy'r dydd, bob dydd

Derbyniodd canolfannau galwadau 24 awr y dydd y BBC 2.3 miliwn o gysylltiadau gan gynulleidfaoedd dros y ffôn, negeseuon e-bost a llythyrau.

oherwydd y nifer uwch o gwynion yn dilyn cyflwyno cyfleuster cwyno dros yr e-bost ar BBCi ym mis Awst 2002.

Mae'r PCU hefyd yn cyd-drafod â'r Comisiwn Safonau Darlledu (BSC) ar gwynion am raglenni'r BBC. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2003, hysbysodd y BSC y BBC am 36 o gwynion o ran tegwch a phreifatrwydd a chadarnhawyd wyth ohonynt yn llawn neu'n rhannol. Hysbysodd y BSC y BBC am 1,399 o gwynion am safonau, a chadarnhawyd cwynion yn llwyr neu'n rhannol am 50 o eitemau a ddarlledwyd. Cydymffurfiodd y BBC â phob cyfarwyddyd a roddwyd o dan bwerau statudol y BSC.

Caiff cwynion am bolisi, newidiadau i'r amserlen, safonau technegol neu gwestiynau am ddewisiadau personol eu trosglwyddo i adrannau priodol o fewn y BBC i gael sylw. Ar y cyfan, cyfanswm nifer y cwynion a dderbyniwyd yng nghanolfannau BBC Gwybodaeth ym Mangor, Belfast a Glasgow, gan y PCU a chan uwch reolwyr yn 2002/2003, oedd 118,142 (2001/2002 95,638). Roedd y cwynion yn cynrychioli 8.4% o gyfanswm y cysylltiadau a dderbyniwyd gan BBC Gwybodaeth eleni, o'i gymharu â 9.6% y llynedd.

Eleni cyflwynwyd system fwy trwyadl ar gyfer sicrhau bod rheolwyr yn atebol o ran ymdrin â chwynion yn briodol. Mae'r broses o gyflwyno bwletinau ar wahân ar gyfer y PCU a'r GPCC, cylch gwaith newydd i'r GPCC, ac Ymgynghorydd Golygyddol allanol hefyd wedi pwysleisio rôl arbennig y Llywodraethwyr fel cynrychiolwyr budd y cyhoedd.

Cymerodd y Llywodraethwyr ran mewn gweithdai *Drawing the Line* fel rhan o ymgynghoriad parhaus gydag aelodau o'r cyhoedd am yr hyn sy'n dderbyniol iddynt o ran chwaeth a gwedduster a pha safonau a ddisgwyliant gan y BBC. Mae'r Cynghorau Darlledu a'r ENF bellach yn cyflwyno'r ymgynghoriadau hyn i gynulleidfaoedd mwy lleol. Yng ngoleuni cwynion diweddar, cynhaliodd y GPCC hefyd seminar gyda gwneuthurwyr rhaglenni, o dan arweiniad y Rheolwr Polisi Golygyddol, ar fam y BBC am dueddiadau cyfredol yn nisgwyliadau'r gynulleidfa. Gan gydnabod nad yw safonau yn unffurf a bod disgwyliadau'r gynulleidfa yn amrywio ar gyfer gwahanol sianelau ac mewn gwahanol gyd-destunau, pwysleisiwyd pwysigrwydd bod yn agored i adborth a gwahodd sylwadau gan gynulleidfaoedd.

**Hygyrchedd**

Mae BBC Gwybodaeth yn gweithredu 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, gan ymdrin â sylwadau ac ymholiadau ffôn ac ysgrifenedig gan gynulleidfaoedd. Caiff pob sylw ei logio a'i gofnodi'n ddyddiol ar draws y BBC. Yn gyffredinol, nifer y cysylltiadau digymell oedd 1,177,464 eleni. Cynyddodd nifer y galwadau digymell o'i gymharu â'r llynedd, i gyfanswm o 796,490. Cafwyd cynnydd bach yn nifer y llythyrau hefyd, sef 123,521. Cynyddodd nifer y negeseuon e-bost 39% arall o'i gymharu â'r llynedd, gan gyrraedd cyfanswm o 257,453. Yn ogystal, ymdriniodd y gwasanaeth Audience Lines â chyfanswm o 1,171,958 o gysylltiadau drwy alwadau byw, galwadau wedi'u hawtomeiddio a negeseuon e-bost. Yn gyffredinol, cafwyd 2,349,422 o gysylltiadau â chynulleidfaoedd y llynedd drwy'r canolfannau ym Mangor, Belfast a Glasgow.

Dde: Mewn gweithdai atebolrwydd ledled y DU bu cynulleidfaoedd yn trafod materion gyda Llywodraethwyr y BBC yn cynnwys Dermot Gleeson (dde pellaf).





# Y BBC yn y gymuned






**Cydweithio**
Mae'r BBC yn rhan o bob cymuned yn y DU. Yn aml mae'n ganolbwynt i bobl wrth chwilio am wybodaeth ac mae'n anelu at eu helpu i gysylltu â'u cymunedau. Mae hefyd yn rhan arwyddocaol o'r gymuned gorfforaethol fel sefydliad y mae pobl yn ymddiried ynddo ac yn ei werthfawrogi. Mae ymagwedd wedi'i chydlynu tuag at ei fuddsoddiad cymdeithasol, arfer moesegol, cymorth cymunedol a chyfrifoldeb amgylcheddol yn anelu at alluogi amrywiol rannau o weithgaredd corfforaethol y BBC i ddod yn un cyfanwaith ystyrlon er mwyn gwella enw da'r BBC am ddinasyddiaeth gorfforaethol. I'r perwyl hwn, crëwyd Canolfan Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol ac, yn 2004, bydd y BBC yn cyhoeddi ei adroddiad llawn cyntaf ar gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

**Gwella gwerthoedd y BBC**
Ymddiriedaeth yw sail cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol y BBC. Mae'r BBC yn anelu at y safonau uchaf o ran ymddygiad corfforaethol. Cyflwynodd 122 o gwmnïau a sefydliadau adroddiadau gwirfoddol i Fynegai Cyfrifoldeb Corfforaethol cyntaf Busnes yn y Gymuned. Gwelwyd y gyfradd gyfranogi uchaf gan sector y cyfryngau ac roedd perfformiad y BBC ar frig y grŵp hwnnw.

**Beth mae'r BBC yn ei wneud**
Bob dydd mae'r staff yn cyflawni gwaith sy'n dangos ymrwymiad cyhoeddus y BBC. Mae'r amrywiaeth yn eang, ond mae'r enghreifftiau isod yn dangos yr ysbryd sy'n sail iddo.

Mae BBC Audience Lines yn derbyn tua 2 filiwn o alwadau y flwyddyn gan bobl sydd am gael cyngor ar faterion cymdeithasol a amlygwyd mewn rhaglenni. Ymhlith y materion a gwmpaswyd y llynedd roedd cam-drin, profedigaeth, dibyniaeth ac iechyd.

Mae BBCi Hull yn rhan o fuddsoddiad £25miliwn sy'n llywio gweledigaeth Cysylltu Cymunedau'r BBC ac yn darparu canolfan aml gyfrwng ddigidol newydd, gwasanaeth newyddion teledu rhanbarthol newydd, bws y BBC a Chanolfan Agored y BBC. Gyda phartneriaid dysgu ac athrawon, mae'r BBC hefyd yn gweithio i ddatgloi potensial technoleg newydd a thechnegau gwneud rhaglenni newydd.

*Altogether Now* a drefnwyd gan BBC Radio Leeds oedd y project gweithredu cymdeithasol mwyaf a gynhaliwyd erioed gan un o orsafoedd Radio Lleol y BBC. Gweithiodd dau aelod o staff yn llawn amser yn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Prydain. Sefydlwyd stiwdio radio mewn ysgol leol ac fe'i defnyddiwyd fel canolfan ar gyfer arwain 25 o brojectau gweithredu cymunedol ar gyfer pobl o bob



Chwith uchod: Ymgymerodd BBC Cymru â phroject allgyrch uchelgeisiol gyda chynulleidfaoedd.

Chwith: Pudsey Bear a Terry Wogan gyda Dolly Parton a roddodd gîtar wedi'i lofnodi ar gyfer arwerthiant *Plant mewn Angen y BBC.*

Dde: *Altogether Now* yn BBC Radio Leeds.

## Helpu eraill

Mae *Apêl Plant mewn Angen y BBC* wedi codi dros £300miliwn mewn 23 mlynedd a llwyddodd i godi £13.5miliwn mewn un noson fis Tachwedd diwethaf.

oedran, gan roi cyfle iddynt adrodd eu hanes a dadlau yn erbyn yr ystrydebau cyffredin o'u hardal.

Gyda gweithlu o bron 12,000 yng Ngorllewin Llundain, bu'r BBC yn datblygu cysylltiadau cryf gyda'r gymuned leol. Ymgynghorwyd â thrigolion lleol wrth enwi adeiladau newydd; denodd diwrnod agored yn BBC Television Centre dros 600 o bobl, ac mae'r BBC hefyd yn helpu i redeg amrywiaeth o brojectau y gall gweithwyr wirfoddoli i gymryd rhan ynddynt gyda sefydliadau lleol.

Mae gweithwyr yn gwirfoddoli wrth wraidd rhaglen cyfranogiad cymunedol y BBC ac, fel aelod o Grŵp Meincnodi Llundain, roedd cyfraniad cymunedol y BBC y llynedd yn unol â chyfraniad cwmnïau tebyg eraill. Enghraifft ddiweddar yw cefnogaeth y BBC i Kids Company – elusen sy'n gweithio gyda hyd at 4,000 o bobl ifanc yn eu harddegau bob blwyddyn ac a oedd angen help i ailstrwythuro ei gweithrediadau busnes ac i ddatrys materion cynllunio ariannol.

### Apeliadau elusennol a ddarlledir gan y BBC

Mae'r BBC yn darlledu apeliadau elusennol er mwyn rhoi cyfle i gynulleidfaoedd roi i amrywiaeth eang o elusennau, yn ogystal â helpu elusennau i godi ymwybyddiaeth o'u gwaith. Dangosodd ymchwil i'r farchnad eleni fod dros 90% o'r cyhoedd o'r farn y dylai'r BBC ddarlledu apeliadau mawr fel *Plant mewn Angen y BBC* a *Red Nose Day*, a bod pobl yn ymddiried yn y BBC i sicrhau y caiff eu harian ei wario'n ddoeth.

Mae Llywodraethwyr y BBC yn goruchwylio'r broses o ddyrannu apeliadau ar gyfer elusennau unigol ar BBC Radio 4 a BBC One drwy'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Apeliadau (AAC), sydd hefyd yn rhoi cyngor iddynt ar bolisi ac yn eu helpu i graffu ar apeliadau mawr a ddarlledir. Eleni, diwygiodd yr AAC bolisi apeliadau'r BBC, gan ailddatgan diben apeliadau a ddarlledir ac egluro rôl y BBC yn fwy eglur. Helpodd hefyd i lunio'r apêl *Sport Relief,* gan ystyried sut y dylid dosbarthu'r arian a gweithio i sicrhau ei bod yn gydnaws ag apeliadau a phrojectau codi arian eraill y BBC.

Y llynedd, darlledodd teledu a radio rhwydwaith y BBC apeliadau ar gyfer 64 o elusennau gwahanol yn y DU. Cododd y *BBC Radio 4 Appeal* wythnosol dros £900,000 i 51 o elusennau (heb gynnwys *Plant mewn Angen y BBC*). Cododd yr apêl *Lifeline* fisol ar BBC One dros £210,000 ar gyfer elusennau yn amrywio o'r Gymdeithas Crymangell, sy'n cynorthwyo pobl yr effeithiwyd arnynt gan y salwch hwn yn y DU, i Riders for Health, sy'n hyfforddi ac yn helpu pobl yn Affrica i ddarparu gwasanaethau iechyd a lles i gymunedau gwledig. Darlledodd BBC Cymru, BBC Northern Ireland a Radio Lleol y BBC yn Lloegr hefyd apeliadau rheolaidd ar gyfer elusennau lleol, a pharhaodd BBC Scotland i adlewyrchu gwaith elusennau'r Alban ar draws ei raglenni. Y llynedd, cododd gorsafoedd Radio Lleol y BBC dros £1miliwn mewn arian parod, gan gynnwys £40,000 tuag at ganolfan sglerosis ymledol yn Swydd Lincoln a thros £200,000 i hosbis i blant yng Nglannau Humber. Darlledodd BBC Radio Cornwall yr apêl radio lleol fwyaf llwyddiannus erioed – gan godi dros £600,000 i helpu i dalu am ganolfan oncoleg yn Truro.

Cododd *Sport Relief* ym mis Gorffennaf dros £10miliwn ar gyfer projectau sy'n gweithio dramor gyda chymunedau difreintiedig a hefyd yn y DU lle bu chwaraeon yn gyfrwng o newid cymdeithasol ym mywydau pobl ifanc. Ym mis Tachwedd 2002, lansiodd *Blue Peter* ei WaterWorks Appeal i helpu pobl yn Nwyrain Affrica i gael gafael ar gyflenwadau dŵr glân a diogel yn agos at eu cartrefi. Mae digwyddiadau prynu a gwerthu plant wedi codi £1.3miliwn hyd yn hyn – mwy na dwywaith y targed o £500,000. Rhoddodd cynulleidfaoedd £13.5miliwn ar y noson i apêl *Plant mewn Angen y BBC* ac, hyd yn hyn, rhoddwyd cyfanswm o £25miliwn i blant difreintiedig ledled y DU. Cododd *Red Nose Day* ym mis Mawrth 2003 £55.8miliwn, ac mae'r rhoddion yn parhau. Caiff yr arian ei ddefnyddio i helpu rhai o'r cymunedau tlotaf, mwyaf difreintiedig yn Affrica a'r DU.

### Y BBC a'r amgylchedd

Yn 2002/2003 gwnaeth y BBC gynnydd gwirioneddol wrth leihau ei effaith negyddol ar yr amgylchedd drwy weithredu projectau amgylcheddol. Canolbwyntiodd y camau gweithredu ar bum maes (gweler drosodd). Bu gwell systemau mesur a rheoli o gymorth wrth fonitro cynnydd.





Chwith: Diwrnod agored yn y Television Centre.

Dde: Ruby Wax â'i thrwyn coch yn codi arian i *Comic Relief*.

# Y BBC yn y gymuned

Wrth i'r BBC symud i'r dyfodol, bydd angen i'w reolaeth amgylcheddol addasu i ymateb i amgylchiadau cyfnewidiol. Mae newid cyflym ym musnes y BBC a'r symudiad tuag at fwy o wasanaethau digidol, rhyngweithiol a rhyngrwyd yn achosi newid sylfaenol yn y ffordd y caiff gwybodaeth a chynnwys rhaglenni ei gyflwyno. Bydd hyn yn effeithio ar berfformiad amgylcheddol. Ar yr un pryd, mae'r BBC yn dibynnu fwy fwy ar bartneriaethau gwasanaeth i helpu i reoli a chyflwyno gweithgareddau amgylcheddol.

**Gwastraff**

Mae'r BBC wedi bwrw ati i ymateb i'r her o leihau ei wastraff a chynyddu'r lefel o ailgylchu. Gan mai papur yw tua 70% o'r gwastraff, bu'r ffocws ar weithredu cynlluniau ailgylchu papur. Ehangwyd cynlluniau peilot cychwynnol i swyddfeydd y BBC ledled y DU gan ddatblygu i gynnwys ailgylchu batris, arlliwyr a thapiau. Yn ogystal, mewn ardaloedd lle y ceir defnydd uchel, cesglir papurau newydd, cardfwrdd, caniau alwminiwm a gwydr ar wahân a'u hailgylchu. Ailgylchwyd 32% o wastraff y BBC yn 2002 (cynnydd o 17% yn 2001) ac mae'r sefydliad ar y trywydd cywir i gyflawni targed uchelgeisiol o 55% erbyn 2005.

Er mwyn hyrwyddo'r broses o ailddefnyddio offer swyddfa, lansiwyd Swapshop yn 2002, sef hysbysfwrdd ar-lein sy'n galluogi staff i drosglwyddo eitemau nas defnyddir fel dodrefn, offer electronig a chyfarpar i eraill a all eu defnyddio. Ar yr awyr, ymunodd BBC Radio Essex, Cambridgeshire a Northampton â'u cymunedau lleol i hyrwyddo ymgyrch 'Slim Your Bin', gan godi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth ar ailgylchu gwastraff.

**Ynni a newid hinsawdd**

Mae'r BBC yn cefnogi ymdrechion i leihau newid hinsawdd drwy ostwng carbon deuocsid ($CO_2$). Ar gyfer pob awr o raglenni a ddarlledir, targed datganedig y BBC yw lleihau lefel y nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir 8% o 2002 hyd at 2010 – yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth. Yn 2002, gostyngodd lefelau nwyon tŷ gwydr (wedi'u mesur fel $CO_2$) i 0.43 o dunelli fesul awr a ddarlledir (i lawr o 0.44 tunnell yn 2001).

Gostyngodd y BBC ei allyriadau $CO_2$ drwy ddefnyddio technolegau carbon isel fel yr offer gwres a phŵer cyfun yn y Television Centre a phrynu trydan gwyrdd. Yn ystod 2002, daeth 7% o ynni trydanol y BBC o ffynonellau adnewyddadwy fel melinau gwynt a phŵer hydrodrydan. Nid yw tua 22% o gyfanswm defnydd ynni'r BBC yn gollwng unrhyw garbon.

Gwelwyd cynnydd yng nghyfanswm y defnydd o ynni mewn adeiladau i 490 GWh yn 2002 o 425 GWh yn 2001. Mae rhaglen ynni bellach ar waith i ymchwilio i'r ffordd y bydd darlledu digidol yn effeithio ar y defnydd o ynni.

**Adeiladau**

Mae datblygiadau mawr yn mynd rhagddynt yn Llundain, Birmingham a Glasgow gyda datblygiadau llai mewn sawl dinas arall. Mae adeiladau swyddfa newydd yn White City, Llundain ar y trywydd cywir i gyflawni gradd BREEAM Ardderchog. Mae gan yr adeilad Mailbox yn Birmingham gysgod yr haul ac mae'n defnyddio golau naturiol. Mae proses ar waith i sicrhau bod pren a gaffaelir yn ystod gwaith adeiladu yn dod o ffynonellau a reolir yn gynaliadwy. Mae adeiladau'r BBC yn cynnwys nifer fawr o ardaloedd technegol arbenigol nas cwmpesir gan gynlluniau graddio amgylcheddol fel BREEAM. Mae meincnod adeiladau amgylcheddol priodol ar gyfer adeiladau darlledu wrthi'n cael ei ddatblygu.

**Trafnidiaeth**

Gwell dulliau ar gyfer casglu data oedd yn gyfrifol am y cynnydd tybiedig yn allyriadau trafnidiaeth y BBC i 1.48 tunnell fesul person o 1.23 tunnell fesul person yn 2001. Mewn gwirionedd, yn 2002, gwnaed gwelliannau sylweddol wrth i 20% o'r tacsis a ddefnyddir gan y BBC newid i danwyddau gwyrdd (LPG neu danwyddau hybrid). Lansiwyd cynllun rhannu tacsi hefyd gan ddefnyddio system archebu gyfrifiadurol sy'n nodi teithiau tebyg sy'n digwydd ar yr un pryd yn awtomatig ac yn cynnig system rhannu tacsi – gan arbed ar gostau teithio a thanwydd.

**Y gadwyn gyflenwi**

Mae gweithgareddau prynu'r BBC yn effeithio ar yr amgylchedd drwy'r dewis o gynnyrch a brynir ac yn anuniongyrchol drwy weithgareddau cyflenwyr. Gwnaed cynnydd wrth weithio gyda chyflenwyr. Mae holiadur amgylcheddol bellach yn rhan o bob tendr. Mae gan 63% o 100 o gyflenwyr mwyaf y BBC bolisi amgylcheddol ac mae'r BBC yn cynnal trafodaethau parhaus gydag 80% o'i 20 cyflenwr mwyaf mewn perthynas â'r amgylchedd.

*Mae'r BBC yn cyhoeddi adroddiad amgylcheddol llawn yn www.bbc.co.uk/info.*

Dde: Defnydd doeth – arbrawf car trydan y BBC.

Dde pellaf: Bydd adeiladau newydd y BBC yn cydymffurfio â safonau amgylcheddol uchel.





# Pobl a thalent y BBC

## Dychmygwch

Cymerodd 10,000 o bobl ran wrth lunio dyfodol y BBC yn yr ymgynghoriad staff mwyaf a gynhaliwyd erioed.

Rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2002 lleisiodd dros 10,000 o aelodau o staff y BBC eu barn mewn gweithdai *Just Imagine* – ymgynghoriad mwyaf erioed y BBC â'r staff – fel rhan o *Making it Happen*, y rhaglen newid diwylliannol i drawsnewid y BBC a chreu sefydliad mwyaf creadigol y byd.

O'r broses honno, am y tro cyntaf, daeth cyfres graidd o werthoedd i'r amlwg i'r BBC (gweler y tu mewn i'r clawr blaen) sy'n rhoi creadigrwydd a chynulleidfaoedd wrth wraidd pwrpas y BBC ac yn ysbrydoli pobl i gydweithio ac i fwynhau eu gwaith.

Mae datblygu staff a recriwtio a chadw talent newydd yn allweddol i greadigrwydd. Mae'r BBC yn gwario £53.3miliwn y flwyddyn ar hyfforddi staff (gan gynnwys £8miliwn ar hyfforddeion) – ymrwymiad sydd o fudd i'r diwydiant darlledu cyfan yn y DU. Buddsoddodd dros £200,000 er mwyn darparu hyfforddiant am bris gostyngol i weithwyr llawrydd ac mae'r rhan fwyaf o'r prif ddarlledwyr yn dibynnu ar y BBC am eu hyfforddiant crefft. Mae'r BBC hefyd yn cyfrannu nawdd sylweddol i Skillset (sefydliad sgiliau'r sector ar gyfer y diwydiannau sain a fideo) a'r Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol.

Lansiwyd BBC Talent dair blynedd yn ôl er mwyn rhoi cyfle i bobl o bob cefndir ymuno â'r byd darlledu. Y llynedd hyrwyddodd 16 o gynlluniau yn amrywio o gyfleoedd cyflwyno ar CBBC, gohebu chwaraeon ar BBC Radio Five Live, cyflwyno'r tywydd ar gyfer Rhanbarthau Lloegr y BBC ac amrywiaeth eang o swyddi cynhyrchu. Rhoddir cyfle i newydd-ddyfodiaid weithio ar y rhwydweithiau sefydledig a llwyfannau digidol newydd. Yn 2002, gweithiodd recriwtiaid talent newydd ar *Tomorrow's World*, *New Comedy Awards*, *Football Focus* a *Grandstand* ar BBC One, comedïau sefyllfa newydd a rhaglenni comedi peilot ar gyfer lansio BBC Three, a dwy gyfres ddogfen newydd – *Making It* a *Serious Jungle* – ar CBBC. Nod BBC Talent yw cyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl drwy ymgyrchoedd marchnata a chysylltiadau mawr a thrwy gynnal clyweliadau a digwyddiadau mewn 22 o drefi a dinasoedd ledled y DU. Bu pob un o 39 o orsafoedd Radio Lleol y BBC yn Lloegr hefyd yn cynorthwyo wrth chwilio am gerddorion a chantorion trefol newydd a gaiff y cyfle i berfformio cerddoriaeth o darddiad du ar raglen y DJ Trevor Nelson.

Mae dau gynllun talent arall wedi helpu i ddod â lleisiau newydd i'r broses o gynhyrchu drama, adloniant a rhaglenni plant y BBC. Llwyddodd *The Writers' Room*, hyrwyddwr talent ac amrywiaeth, i helpu dros 5,000 o awduron, gan arwain at gomisiynau ar draws y rhwydweithiau radio a theledu. Gweithiodd *Northern Exposure*, cynllun a redir mewn partneriaeth â theatrau rhanbarthol i ddatblygu a chynhyrchu awduron comedi a drama newydd, gyda thros 2,300 o awduron dros gyfnod o ddwy flynedd.

Yn 2002/2003, lansiodd y BBC hefyd *Upfront*, ei raglen sefydlu preswyl pedwar diwrnod i bob aelod newydd o staff. Waeth o lle y daethant a pha swydd bynnag a wnânt yn y BBC, rhydd *Upfront* gyfle iddynt wneud rhaglen deledu, cyfweliad ar gyfer rhaglen radio a llunio eu tudalen eu hunain ar y we, yn ogystal â'u helpu i ddeall cwmpas a chymhlethdod y BBC. Y nod yw trefnu i staff newydd fynychu *Upfront* yn ystod eu hwythnos gyntaf neu eu hail wythnos a'r targed yw i 75% o bob aelod newydd o staff â chontract tri mis neu fwy fynychu *Upfront* o fewn eu pedair wythnos gyntaf gyda'r BBC. Mynychodd dros 2,250 o aelodau o staff *Upfront* yn ystod y flwyddyn.

Learn.Gateway, y porth dysgu personol i bawb yn y BBC, oedd un o'r safleoedd mwyaf poblogaidd ar Gateway, mewnrwyd y BBC, gyda thros 10,000 o ymwelwyr bob mis yr oedd hyd at 4,000 ohonynt yn defnyddio'r modiwlau dysgu. Mae dros 6,000 o aelodau o staff wedi cwblhau cynlluniau datblygu personol ar Gateway ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi gorffen tri modiwl neu fwy o'r cynllun.



Chwith: BBC Talent – cyfle i ymuno â'r byd darlledu.

Isod: Anogwyd pob aelod o staff i gyfrannu eu safbwyntiau mewn sesiynau *Making it Happen*.



# Cydymffurfiad

**Mae gan y Llywodraethwyr gyfrifoldebau clir o dan Siarter y BBC i sicrhau bod y BBC yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn dilyn pob rheoliad a chod ymarfer cymwys.**

Rhaid iddynt fodloni eu hunain:

- bod y BBC yn cydymffurfio â phob ymrwymiad cyfreithiol
- bod gan y BBC strwythur rheoli priodol
- bod gan y BBC reolaethau synhwyrol i ddiogelu ei asedion
- bod y BBC yn glynu wrth ei ganllawiau a'i godau ymarfer ei hun

Ar y tudalennau canlynol, mae'r Llywodraethwyr a'r archwilwyr annibynnol yn cyflwyno adroddiad ffurfiol ar bolisïau, gweithdrefnau a chydymffurfiad y BBC fel a ganlyn:


| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Masnachu teg** | **68** |
| **2** | **Datganiadau ariannol** | **71** |
| **3** | **Risg a phrosesau rheoli** | **72** |
| **4** | **Cyfrifoldebau corfforaethol eraill** | **75** |
| **5** | **Adroddiad ar gydnabyddiaeth y Llywodraethwyr** | **76** |
| **6** | **Rhaglenni, sianelau a hyrwyddiadau** | **79** |
| **7** | **Rhoddion a chydnabyddiaethau** | **81** |


## 1 Masnachu teg

### Datganiad y Llywodraethwyr ar fasnachu teg

*Gweithgareddau masnachol a masnachu teg*

Diben craidd y BBC yw darparu darlledu cyhoeddus a ariennir gan ffi'r drwydded. Mae buddsoddiadau talwyr y drwydded, sydd wedi cronni dros lawer o flynyddoedd, wedi cynhyrchu màs critigol o dalent a gallu cynhyrchu ar gyfer y BBC, ynghyd ag archif heb ei hail o raglennu'r gorffennol. Mae gan yr asedion hyn werth arall yn ychwanegol at eu defnydd ar sianelau ac allfeydd cyhoeddus. Mae gan y BBC gyfrifoldeb i sicrhau bod y gwerth hwn yn cael ei ddatblygu'n gywir yn fasnachol, a'i ddefnyddio er budd talwyr y drwydded.

Wrth ymdrin â gweithgareddau masnachol, mae'r BBC, fel sefydliadau eraill, yn llwyr agored i gyfraith cystadleuaeth ddomestig ac Ewropeaidd. Fodd bynnag, yn wahanol i sefydliadau eraill, adlewyrchir cyfrifoldeb y BBC i fasnachu'n deg mewn gofynion pellach a mwy ymestynnol sy'n deillio o'i Siarter Frenhinol. Yn benodol, mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i osgoi croesgymhorthdal rhwng gweithgareddau'r BBC a ariennir gan y cyhoedd a'i weithgareddau masnachol.

*Gweithdrefnau cydymffurfio â masnachu teg*

Ymgorfforir ymrwymiadau masnachu teg y BBC yn ei Ymrwymiad Masnachu Teg y caiff ei gydymffurfiad ag ef ei archwilio drwy gydol y flwyddyn gan un o bwyllgorau sefydlog Bwrdd y Llywodraethwyr, sef y Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg (FTCC).

Cynghorir y Pwyllgor yn uniongyrchol gan archwilwyr annibynnol a gomisiynir ac a reolir gan yr adran Llywodraethedd ac Atebolrwydd a chan Bennaeth Masnachu Teg a Phennaeth Archwiliad Mewnol y BBC, os bydd angen, heb gyfryngdod rheolwyr y BBC. Mae pob is-gwmni a gweithrediad masnachol yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar eu gweithgareddau ac mae'r Pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o'r staff â chyfrifoldebau masnachol dderbyn hyfforddiant ym mholisïau masnachu teg y BBC.

Profir rheolaeth y BBC dros drefniadau masnachu teg yn rheolaidd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ac achredwyd y trefniadau hyn â safon ansawdd ISO 9001:2000. Cadarnhaodd yr asesiad diwethaf, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2002, fod y gweithdrefnau yn parhau i weithredu'n effeithiol.

Wrth eu natur, mae dyfarniadau masnachu teg yn gymhleth, gan adlewyrchu'r amgylchedd sy'n gyson ddatblygu y mae diwydiannau'r cyfryngau yn gweithredu ynddo. Drwy'r Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg, mae Llywodraethwyr y BBC yn craffu'n ddeallus ac yn gwneud dyfarniadau cytbwys ar faterion polisi pwysig sy'n deillio o ymrwymiad y BBC â mentrau masnachol.

Yn ei ymateb i arolwg Richard Lambert o BBC News 24 yn erbyn ei gymeradwyaeth DCMS, cynigiodd y BBC ystyried y berthynas rhwng BBC News a BBC World bob blwyddyn yn benodol ar sail masnachu teg. Byddai hyn yn cynnwys comisiynu ymarfer meincnodi bob tair blynedd ar gyfer ymgynghorwyr annibynnol i gadarnhau bod prisio cost ymylol yn parhau i gael ei arfer yn y farchnad a gwiriad blynyddol gan archwilwyr allanol bod yr egwyddor cost ymylol yn cael ei chymhwyso'n briodol yn ystod trafodion rhwng BBC News a BBC World. Yn dilyn adroddiad gan archwilwyr allanol, mae'r Llywodraethwyr yn fodlon bod yr egwyddor cost ymylol wedi'i chymhwyso'n briodol.

*Cwynion masnachu teg*

Un o gyfrifoldebau'r Pennaeth Masnachu Teg yw cynghori'r FTCC a'r Pwyllgor Gweithredol ar unrhyw gwynion masnachu teg a wnaed yn erbyn y BBC. Gellir cysylltu â'r Pennaeth Masnachu Teg yn BBC, Broadcasting House, London W1A 1AA. Mae'r FTCC yn cyhoeddi bwletin chwarterol ar ymateb y BBC i unrhyw honiadau o dorri'r Ymrwymiad â Masnachu Teg.

*Digwyddiadau'r flwyddyn*

*Heriau allanol*

Yn ystod y flwyddyn, ni chynhaliwyd unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i weithgareddau masnachol y BBC gan gyrff allanol e.e. y Swyddfa Masnachu Teg (OFT) neu'r Comisiwn Ewropeaidd. Fodd bynnag, gwnaed nifer o gwynion i Fwrdd y Llywodraethwyr neu i'r Pennaeth Masnachu Teg yn honni bod y BBC yn torri ei ganllawiau.

- Cyflwynodd RM ccc ac eraill her gyfreithiol i'r BBC yn yr Uchel Lys. Honnai'r hawlwyr y bu defnydd anghyfreithlon o nawdd y wladwriaeth ac y bu'r BBC yn gweithredu *ultra vires* ei Siarter a'i Gytundeb gyda'r Ysgrifennydd Gwladol. Ar 27 Ionawr 2003, setlwyd yr achos. Cytunodd y BBC a'r hawlwyr y byddai'r hawlwyr yn tynnu gweithrediadau'r arolwg barnwrol yn ôl ar y sail y byddai'r ddwy ochr yn talu eu costau eu hunain.

- Ysgrifennodd RM ccc hefyd at Gadeirydd y BBC yn honni achos o dorri'r *BBC Commercial Policy Guidelines* o ganlyniad i drafodaethau gyda phartner dosbarthu posibl yng nghyd-destun

gwasanaeth Cwricwlwm Digidol arfaethedig y BBC. Daeth ymchwiliad mewnol (gweler tudalen 75) i'r casgliad fod rhai trafodaethau rhagarweiniol wedi digwydd ond nad oedd methiant systematig o ran prosesau masnachu teg y BBC. Yn dilyn yr ymchwiliad, penderfynodd dau uwch aelod o staff adael y BBC. Yn ogystal, cododd RM ccc gwestiynau am gydymffurfiad y BBC â'r Rheoliadau Caffael Cyhoeddus. Mae'r BBC wedi cadarnhau i RM ccc ei fod yn fodlon iddo gydymffurfio â'r rheoliadau hyn.

- Derbyniodd y BBC gŵyn gan TAC (cymdeithas masnachu sy'n cynrychioli buddiannau cwmnïau annibynnol sy'n cynhyrchu'n bennaf ar gyfer darlledwyr yng Nghymru), yn herio'r telerau yr enillodd BBC Cymru dendr masnachol agored oddi tanynt i gyflenwi darllediadau rygbi yng Nghymru i S4C. Awgrymodd TAC fod darparu rhaglennu masnachol gan BBC Cymru i S4C ynddo'i hun yn torri'r *BBC Commercial Policy Guidelines*. Yn dilyn hynny, honnodd TAC hefyd bod y BBC wedi camddefnyddio ei sefyllfa flaenllaw wrth ymateb i'r tendr rygbi. Yn dilyn ymchwiliad, cadarnhaodd y BBC ei fod yn fodlon nad oedd y rhaglennu rygbi a gyflenwyd gan BBC Cymru i S4C yn anghyson â'r *BBC Commercial Policy Guidelines*. Gwrthododd hefyd yr honiad fod ganddo sefyllfa fanteisiol yn y farchnad tra'n nodi beth bynnag na fyddai cwmni blaenllaw yn cael ei atal rhag cystadlu'n deg ar gyfer busnes.

- Ysgrifennodd Cymdeithas Cyhoeddwyr Rhyngrwyd Prydain (BIPA) at Gadeirydd y BBC yn mynegi pryder am natur agored y broses gymeradwyo ar gyfer gwasanaethau newydd y BBC ac yn arbennig, y broses ar gyfer cynnig Ar-lein y BBC (a gafodd ei gymeradwyo'n gyntaf ym 1997). Honnodd y llythyr hefyd fod datganiadau a wnaed gan y BBC yn ystod gweithrediadau cyfreithiol a ddygwyd gan RM ccc yn erbyn gwasanaeth Cwricwlwm Digidol arfaethedig y BBC yn codi amheuaeth ynghylch gwerth Ymrwymiad Masnachu Teg y BBC. Ymatebodd y BBC gan egluro bod y broses gymeradwyo bellach yn fwy agored a bod cyfle llawn i bartïon â diddordeb wneud sylwadau i'r BBC a'r Llywodraeth ar yr holl gynigion newydd gan y BBC sy'n ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus. Yn ei ymateb i BIPA, nid oedd modd i'r BBC wneud sylwadau ar y gweithrediadau cyfreithiol (a oedd yn mynd rhagddynt ar y pryd) ond nododd yn glir fod ganddo seilwaith cydymffurfiad cryf wedi'i achredu yn unol ag ISO ac sy'n agored i archwiliadau masnachu teg blynyddol gan gyfrifwyr annibynnol. Mae'r BBC yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i gydymffurfio â'i rwymedigaethau masnachu teg.

- Ysgrifennodd Sequence, asiantaeth datblygu a chynnal gwefannau o Gymru, at Gadeirydd y BBC yn honni bod BBC MediaArc, un o gwmnïau cysylltiedig masnachol y BBC, wedi ennill contract i gyflenwi gwasanaethau darlledu ar y rhyngrwyd i Gynulliad Cymru mewn modd annheg. Yn arbennig, honnodd Sequence ei bod yn bosibl nad oedd y tendr a enillodd yn gymesur â'r hyn y gellid disgwyl ei ennill yn y farchnad yn yr hir dymor. Ar ôl ymchwilio'n drylwyr i'r cynnig tendr a dderbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a'r gost o gynnal y gwasanaeth, daeth y BBC i'r casgliad fod y gorsymiau a ychwanegwyd at gostau amcangyfrifedig BBC MediaArc yn ddigonol i fod yn gyson ag arferion y farchnad.

- Ysgrifennodd ITN at Ysgrifennydd y BBC yn herio datganiad a wnaed yn *Adroddiad Blynyddol y BBC 2001/2002*. Honnodd y datganiad fod OFT wedi gwrthod honiad ITN bod nifer o gytundebau cludo ar gyfer BBCi (Newyddion) gyda phyrth trydydd parti yn torri deddfau cystadleuaeth. Dadleuodd ITN nad oedd OFT wedi gwrthod ei achos. Mae'r BBC yn derbyn iddo wneud camgymeriad drwy ddatgan bod OFT wedi gwrthod cwyn ITN, a gwna'r cywiriad canlynol:

*Nododd* Adroddiad Blynyddol y BBC 2001/2002 *fod OFT, yn dilyn ymchwiliad gan OFT, o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998, wedi gwrthod cwyn ITN a honnai fod nifer o gytundebau cludo ar gyfer BBCi (Newyddion) gyda phyrth trydydd parti yn torri deddfau cystadleuaeth. Ers cyhoeddi'r adroddiad, daeth yn hysbys fod ITN mewn gwirionedd wedi dewis tynnu ei gŵyn yn ôl yn dilyn gohebiaeth gydag OFT.*

Cofnodir pob her allanol yn y *BBC Fair Trading Bulletin* sydd ar gael gan y Pennaeth Masnachu Teg yn BBC, Broadcasting House, London, W1A 1AA neu ar-lein yn www.bbc.co.uk/info.

***Barn y Llywodraethwyr***

Mae'r Llywodraethwyr o'r farn bod y polisïau a geir yn Ymrwymiad Masnachu Teg y BBC yn gyson â gofynion y Siarter Frenhinol a'r Cytundeb atodol. Drwy'r Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg, cawsant sicrwydd rhesymol bod y system o reolaethau a gweithdrefnau a gynlluniwyd i sicrhau y caiff y polisïau hyn eu defnyddio ar draws y BBC wedi bod yn gweithredu'n effeithiol drwy gydol y flwyddyn.

**Adroddiad gan yr Archwilwyr Masnachu Teg Annibynnol i Lywodraethwyr y BBC am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003**

Rydym wedi archwilio, yn ein rôl fel Archwilwyr Masnachu Teg y BBC, y system o reolaethau mewnol a sefydlwyd o fewn y BBC i roi sicrwydd rhesymol i'r Llywodraethwyr bod y BBC wedi cydymffurfio â'i Ymrwymiad Masnachu Teg a gyhoeddwyd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003.

Cytunwyd ar ein cyfarwyddiadau ar gyfer yr archwiliad hwn, a chwmpas ein gwaith, gyda Phwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg y Llywodraethwyr. Roedd y cyfarwyddiadau hyn yn cynnwys cytundeb y dylid cynnal ein harchwiliad yn unol â safonau archwilio perthnasol, cytundeb ar derfyn ein hatebolrwydd mewn perthynas â'r gwaith hwn a chytundeb mai ar gyfer y BBC yn unig y mae ein dyletswydd gofal mewn perthynas â'r gwaith hwn. Rydym yn fodlon bod y cwmpas y cytunwyd arno ar gyfer ein harchwiliad yn ddigonol i'n galluogi i fynegi'r farn a nodir isod.

***Priod gyfrifoldebau'r Llywodraethwyr, y rheolwyr a'r archwilwyr***

Mae'r Llywodraethwyr yn gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn bodloni holl ofynion deddfau cystadleuaeth a'i fod yn masnachu'n deg. Maent

# Cydymffurfiad

wedi sefydlu ei Ymrwymiad Masnachu Teg, wedi pennu amcanion y system o reolaethau mewnol a gynlluniwyd i sicrhau cydymffurfiad â'r Ymrwymiad hwn ac wedi monitro canlyniadau'r rheolaethau hynny. Maent hefyd yn gyfrifol am baratoi Datganiad y Llywodraethwyr ar gydymffurfiad â masnachu teg a gynhwysir yn *Adroddiad Blynyddol y BBC*, sy'n cynnwys datganiad ar fasnachu teg.

Mae'r Llywodraethwyr yn ymddiried y gwaith o weithredu system o reolaethau mewnol a gynlluniwyd i sicrhau cydymffurfiad â'r Ymrwymiad Masnachu Teg i reolwyr y BBC, gan gynnwys nodi ac asesu risgiau a allai fygwth masnachu teg, a chynllunio a gweithredu ymatebion i risgiau o'r fath.

Fel Archwilydd Masnachu Teg y BBC, ein cyfrifoldeb ni yw llunio barn annibynnol, yn seiliedig ar ein gwaith archwilio, ar y graddau y mae'r BBC wedi sefydlu ac wedi defnyddio system o reolaethau mewnol sy'n darparu sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â'i Ymrwymiad Masnachu Teg yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi adolygu penderfyniadau penodol y daethpwyd iddynt gan y BBC ar faterion masnachu teg i'r graddau sy'n angenrheidiol er mwyn llunio barn ar y system o reolaethau mewnol. Ni chynlluniwyd ein harchwiliad i fynegi barn ar ansawdd y penderfyniadau penodol a gymerwyd gan y BBC mewn perthynas â masnachu teg. Rydym hefyd wedi adolygu a yw datganiad y Llywodraethwyr ar fasnachu teg yn adlewyrchu ein canfyddiadau o gydymffurfiad y BBC â'i system o reolaethau mewnol, a nodwn os nad yw'n gwneud hynny.

Paratowyd y farn hon ar gyfer y BBC yn unig yn unol â'n cyfarwyddiadau y cytunwyd arnynt gydag Ysgrifennydd y BBC ar ran Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg y Llywodraethwyr. Wrth fynegi'r farn hon, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb dros unrhyw ddiben arall nac i unrhyw berson arall y dangosir yr adroddiad hwn iddynt neu y daw'r adroddiad hwn i'w dwylo, ac eithrio pan gytunir yn benodol i hyn ymlaen llaw drwy ein caniatâd ysgrifenedig.

*Sail y farn archwilio*

Cynhaliwyd rhaglen o weithdrefnau a phrofion gennym a gynlluniwyd i roi'r sicrwydd yr oeddem yn ei geisio. Roedd ein gwaith yn cynnwys ymchwilio ac asesu er mwyn ein galluogi i lunio barn ar pa un a oedd system briodol o reolaethau mewnol ar waith. Adolygwyd hefyd y gwaith o brosesu sampl o drafodion perthnasol er mwyn cael sicrwydd rhesymol bod y system o reolaethau mewnol wedi ei defnyddio.

Fel gydag unrhyw system reoli, waeth pa mor effeithiol ydyw, nid yw'n ymarferol sicrhau nad oes unrhyw wallau neu afreoleidd-dra wedi digwydd heb iddynt gael eu canfod. Cynlluniwyd ein gwaith archwilio felly i roi sicrwydd rhesymol i'r Llywodraethwyr, ond nid sicrwydd pendant, fod y system o reolaethau mewnol sydd mewn grym yn ddigonol a'i bod yn cael ei defnyddio i gydymffurfio â'r Ymrwymiad Masnachu Teg yn ystod y flwyddyn. At hynny, gan fod materion masnachu teg yn galw am ddyfarniadau a allai gael eu profi mewn llys barn, awdurdod cystadlu neu rywle arall yn y pen draw, mae risg bob amser y cânt eu herio hyd yn oed pan fydd y system o reolaethau mewnol wedi ei dilyn a phenderfyniadau wedi eu cymryd gyda'r gofal mwyaf.

*Barn*

Yn ein barn ni, mae'r BBC wedi sefydlu ac wedi defnyddio system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â'i Ymrwymiad Masnachu Teg am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003.

**PricewaterhouseCoopers LLP** — Llundain
Cyfrifwyr Siartredig — 19 Mehefin 2003

**Adroddiad y Llywodraethwyr ar Brotocolau Masnachu BBC World Service**

Mae BBC World Service yn gyfrifol am gomisiynu ac amserlennu ei raglenni ei hun ac am wneud rhaglenni ar gyfer ei wasanaethau ieithoedd, ond mae'n prynu gwasanaethau gwneud rhaglenni Saesneg a gwasanaethau technegol ac ategol oddi wrth is-adrannau eraill y BBC (yr Is-adrannau Cyflenwi). Mae BBC World Service hefyd yn derbyn gwasanaethau oddi wrth is-gwmnïau masnachol y BBC (yr Is-gwmnïau), ac yn cyflenwi gwasanaethau iddynt.

Cytunodd Cyd-Weithgor y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad (FCO) a BBC World Service y byddai'r BBC yn llunio canllawiau i reoli'r berthynas fasnachu rhwng BBC World Service a rhannau eraill o'r BBC, er mwyn sicrhau bod BBC World Service yn parhau i fod yn llais arbennig ac er mwyn cynnal y gwahaniaeth clir rhwng Grant-mewn-Cymorth ac incwm ffi'r drwydded. Cymeradwywyd y Protocolau Masnachu hyn gan Bwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg y Llywodraethwyr (FTCC) ym 1997. Yna lluniodd pob un o'r Is-adrannau Cyflenwi gytundebau manwl gyda BBC World Service, gan nodi:

- y gwasanaethau i'w darparu
- meini prawf er mwyn sicrhau ansawdd y gwasanaethau
- cost y gwasanaethau

Mae'r Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg yn gyfrifol am fonitro ac adolygu cydymffurfiad â'r Protocolau Masnachu. Mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y rheolwyr ar effeithiolrwydd y systemau a'r gweithdrefnau sydd ar waith er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r Protocolau Masnachu.

Mae KPMG LLP (yr archwilwyr allanol) wedi adolygu crynodeb o werth trafodion a'r llifau arian cysylltiedig a fu yn ystod y flwyddyn rhwng BBC World Service a'r Is-adrannau Cyflenwi a'r Is-gwmnïau. Mae KPMG LLP wedi cyflwyno adroddiad i'r Llywodraethwyr yn nodi, yn eu barn hwy, bod y wybodaeth a gafwyd yng nghrynodeb y trafodion ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003 wedi ei chasglu'n gywir o lyfrau a chofnodion BBC World Service a'r Is-adrannau Cyflenwi a'r Is-gwmnïau, ac wedi'i pharatoi'n gywir ar seiliau'r dulliau dyrannu a dosrannu cost a nodwyd yn y cytundebau rhwng BBC World Service a'r Is-adrannau Cyflenwi a'r Is-gwmnïau ac na fu, ar y sail hon, unrhyw groesgymorthdaliadau perthnasol rhwng Grant-mewn-Cymorth ac arian ffi'r drwydded na rhwng Grant-mewn-Cymorth ac is-gwmnïau masnachol y BBC.

*Datganiad y Llywodraethwyr ar Brotocolau Masnachu BBC World Service*

Yn dilyn adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg gan y Pennaeth Masnachu Teg ac archwilwyr mewnol ac allanol, mae'r Llywodraethwyr yn fodlon:

- bod y Protocolau Masnachu yn adlewyrchu gofynion Gweithgor yr FCO/BBC World Service
- bod cytundebau ar waith sy'n gyson â'r Protocolau Masnachu
- na fu unrhyw groesgymorthdaliadau perthnasol rhwng arian Grant-mewn-Cymorth ac arian ffi'r drwydded na rhwng Grant-mewn-Cymorth ac is-gwmnïau masnachol y BBC

## 2 Datganiadau ariannol

### Datganiad o gyfrifoldebau Bwrdd y Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Gweithredol dros baratoi'r datganiadau ariannol

Mae'n ofynnol yn ôl Siarter y BBC i'r Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Gweithredol baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion y BBC a'i incwm a'i wariant ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, mae'n ofynnol i'r Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Gweithredol:

- dethol polisïau cyfrifo addas ac yna eu defnyddio'n gyson
- dyfarnu ac amcangyfrif yn rhesymol ac yn ddarbodus
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifo perthnasol a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni fydd yn amhriodol gwneud hynny

At hyn, mae'r Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Gweithredol wedi penderfynu, o'u gwirfodd, i gydymffurfio â darpariaethau cyfrifo a datgelu Deddf Cwmnïau 1985 a, lle y bo'n briodol, Rheolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol. Maent hefyd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo digonol ac am gymryd y cyfryw gamau sy'n rhesymol agored iddynt i ddiogelu asedion y BBC ac atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

### Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i Lywodraethwyr y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC)

Rydym wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 85 i 121. Yn ychwanegol at ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fe'n cyfarwyddwyd gan y Llywodraethwyr i archwilio'r wybodaeth yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth y Llywodraethwyr, a ddisgrifir fel adroddiad sydd wedi'i archwilio, a baratowyd gan y Llywodraethwyr fel petai'r BBC yn gwmni rhestredig ac sydd felly'n cydymffurfio ag Atodlen 7A i Ddeddf Cwmnïau 1985.

Dim ond i Lywodraethwyr y BBC, fel corff, y gwneir yr adroddiad hwn, a hynny'n unol â'r Siarter Frenhinol ar gyfer parhad y BBC a ddaeth i rym ar 1 Mai 1996 (y Siarter). Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu Llywodraethwyr y BBC am y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu hysbysu yn eu cylch mewn adroddiad archwilydd, ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r BBC a Llywodraethwyr y BBC fel corff am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

*Priod gyfrifoldebau'r Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Gweithredol a'r Archwilwyr*

Y Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Gweithredol sy'n gyfrifol am baratoi *Adroddiad Blynyddol y BBC* a'r adroddiad ar gydnabyddiaeth y Llywodraethwyr. Fel y disgrifiwyd yn gynharach ar y dudalen hon, mae hyn yn cynnwys y cyfrifoldeb dros baratoi'r datganiadau ariannol, yn unol â chyfraith a safonau cyfrifo perthnasol y Deyrnas Unedig. Sefydlwyd ein cyfrifoldebau, fel archwilwyr annibynnol, yn y Deyrnas Unedig drwy statud, gan y Bwrdd Arferion Archwilio, arweiniad moesegol ein proffesiwn ac, yn unol â thelerau ein penodiad, Ddeddf Cwmnïau 1985 a'r Siarter.

Byddwn yn rhoi ein barn i chi ar pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth y Llywodraethwyr sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n gywir yn unol â'r Ddeddf Cwmnïau, fel petai'r Ddeddf honno wedi bod yn berthnasol i'r datganiadau ariannol hyn. Byddwn hefyd yn dweud wrthych os nad yw'r wybodaeth ariannol ar dudalen 6 yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r BBC wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir, yn ein barn ni, os na chawsom yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad, neu os na ddatgelwyd gwybodaeth a nodir gan y gyfraith o ran cydnabyddiaeth a thrafodion y Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Gweithredol gyda'r BBC.

Yn ogystal â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fe'n cyfarwyddwyd gan y Llywodraethwyr i adolygu eu datganiad ar lywodraethu corfforaethol fel petai yn ofynnol i'r BBC gydymffurfio â Rheolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol mewn perthynas â'r materion hyn. Rydym yn adolygu pa un a yw'r datganiad ar dudalennau 72 i 75 yn adlewyrchu cydymffurfiad y BBC â saith darpariaeth y *Cod Cyfunol* a nodir ar gyfer adolygiad drwy archwiliad yn ôl y rheolau hynny, a byddwn yn nodi os na fydd yn gwneud hynny. Nid yw'n ofynnol i ni lunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y BBC na'i reolaethau mewnol.

Rydym yn darllen y wybodaeth arall a geir yn A*droddiad Blynyddol y BBC*, yn cynnwys y datganiad ar lywodraethu corfforaethol a'r rhan o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth y Llywodraethwyr nas archwiliwyd, ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Rydym yn ystyried y goblygiadau ar gyfer ein hadroddiad os down yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau perthnasol yn y datganiadau ariannol.

*Sail y farn archwilio*

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio a gyhoeddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio tystiolaeth, ar sail prawf, sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth y Llywodraethwyr sydd i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol, yn ogystal ag asesiad i ganfod a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r BBC, ac a chânt eu defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

# Cydymffurfiad

Cafodd ein harchwiliad ei lunio a'i gyflawni gennym er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn ein barn ni er mwyn rhoi digon o dystiolaeth i ni sicrhau'n rhesymol bod y datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth y Llywodraethwyr sydd i'w harchwilio yn rhydd o unrhyw gamddatganiad perthnasol, waeth a achoswyd hynny trwy dwyll neu drwy afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall. Wrth lunio ein barn gwerthuswyd hefyd ddigonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd y wybodaeth yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth y Llywodraethwyr sydd i'w harchwilio.

***Barn***

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion UK Public Service Broadcasting ('Home Services' yn y Siarter) a'r BBC ar 31 Mawrth 2003 ac o ddiffyg y BBC am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny, ac mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth y Llywodraethwyr sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n gywir yn unol â darpariaethau Siarter y BBC a darpariaethau Deddf Cwmnïau 1985 fel petai'r Ddeddf honno yn berthnasol i'r datganiadau ariannol hyn.

KPMG LLP

Cyfrifwyr Siartredig — Llundain

Archwilydd Cofrestredig — 19 Mehefin 2003

**3 Risg a phrosesau rheoli**

Penodir y Llywodraethwyr fel ymddiriedolwyr er budd y cyhoedd, er mwyn sicrhau bod y BBC yn atebol i'r Senedd, talwyr y drwydded ac i wylwyr a gwrandawyr, a hynny'n briodol. Fel rhan o'r rôl hon mae'n ofynnol i'r Llywodraethwyr fodloni eu hunain bod y BBC yn defnyddio'r safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol.

Mae'r BBC yn glynu at saith egwyddor bywyd cyhoeddus fel y'u nodir yn adroddiadau Pwyllgor Nolan ar *Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus*.

Mae'r *Cod Cyfunol*, a gyhoeddwyd gan Gyfnewidfa Stoc Llundain, ym mis Mehefin 1998, yn nodi egwyddorion llywodraethu da. Mae'r BBC yn cydymffurfio'n wirfoddol â'r *Cod Cyfunol* lle y bo'n berthnasol. Gellir cymhwyso gofynion y *Cod Cyfunol* i'r BBC gyda dau eithriad. Yn gyntaf, mae'r gofynion hynny sy'n ymwneud â phenodi cyfarwyddwyr anweithredol yn amherthnasol gan fod y Llywodraethwyr yn cael eu penodi gan y Frenhines mewn Cyngor a phennir eu cydnabyddiaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Yn ail, dim ond i'r cyhoedd sy'n talu ffi'r drwydded, yn hytrach nag i gyfranddalwyr, drwy stiwardiaeth y Llywodraethwyr, y gellir cymhwyso'r gofynion hynny sy'n ymwneud â chyfranddalwyr.

Ymdrinnir â'r modd y mae'r BBC wedi cymhwyso'r egwyddorion cydnabyddiaeth ar wahân yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ar dudalennau 76 i 79.

**Strwythur y Bwrdd**

Aelodau o'r Gorfforaeth yw'r Llywodraethwyr. Maent yn gweithredu fel ymddiriedolwyr er budd y cyhoedd tra bod y Pwyllgor Gweithredol yn gyfrifol am y gweithrediadau o ddydd i ddydd. Nodir yn gryno fanylion am Fwrdd y Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Gweithredol ar dudalennau 4 i 5 a thudalennau 18 i 19. Cedwir cofrestr o fuddiannau'r Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Gweithredol ac mae modd ei harchwilio drwy wneud cais ysgrifenedig i Ysgrifennydd y BBC.

Mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn cyfeirio rhai materion at is-bwyllgorau. Eglurir prif gyfrifoldebau'r is-bwyllgorau hyn ar dudalennau eraill yn yr *Adroddiad Blynyddol* hwn fel a ganlyn:

Pwyllgor Cwynion am Raglenni'r Llywodraethwyr (tudalen 62)
Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg y Llywodraethwyr (tudalen 68)
Pwyllgor Archwilio'r Llywodraethwyr (tudalen 74)
Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Llywodraethwyr (tudalen 76)

Mae'r adran Llywodraethedd ac Atebolrwydd yn cynorthwyo'r Llywodraethwyr.

**Trefniadau llywodraethu ar gyfer is-gwmnïau masnachol**

Ym mis Gorffennaf 2002, cymeradwyodd yr Ysgrifennydd Gwladol y cynnig i sefydlu is-gwmni newydd, BBC Commercial Holdings Limited, er mwyn cydlynu a rheoli gweithgareddau ac anghenion ariannu'r prif is-gwmnïau masnachol. Cynhwysir nodau cyhoeddus y BBC ym Memorandwm Cyweithio'r cwmni ac mae'r gallu i weithredu llawer o'i bwerau, gan gynnwys y pŵer i benodi cyfarwyddwyr, yn amodol ar gymeradwyaeth ymlaen llaw gan Fwrdd y Llywodraethwyr. Mae'r cwmni newydd yn disodli'r hen Fwrdd Masnachol, a oedd yn is-bwyllgor i'r Pwyllgor Gweithredol.

**Y berthynas â'r Senedd a deiliaid trwydded**

Cyflwyna'r BBC ei *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon* gerbron y Senedd. Gellir galw ar Lywodraethwyr neu Bwyllgor Gweithredol y BBC, ac fe gânt eu galw'n aml, i fynd gerbron Pwyllgorau Dethol Seneddol i ateb cwestiynau ASau ynglŷn â gweithgareddau a chynlluniau'r BBC.

Mae'n rhaid gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am gymeradwyaeth ar gyfer sianelau a gwasanaethau newydd, boed yn gyhoeddus neu'n fasnachol.

Ariennir BBC World Service gan Grant-mewn-Cymorth ac mae'n atebol i'r Senedd drwy'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad (FCO). Er ei fod yn olygyddol annibynnol, mae'n rhaid i'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad gytuno ar ei amcanion a'i flaenoriaethau.

Mae'r BBC yn ceisio hysbysu'r cyhoedd yn llawn o'i wasanaethau a'r ffordd y mae'n gweithredu, a bod yn agored ac yn onest ynglŷn â llwyddiannau a methiannau. Dim ond pan fydd yna fater gwirioneddol o gyfrinachedd hawlfraint neu gyfrinachedd cytundebol neu fasnachol yn y fantol, y bydd y BBC yn atal gwybodaeth, neu pan fydd ystyriaethau cyfiawn parthed preifatrwydd yn berthnasol. Mae gwybodaeth ar gael, a cheir barn cynulleidfaoedd, mewn amrywiaeth o ffyrdd, a thrafodir llawer ohonynt mewn mannau eraill yn yr *Adroddiad Blynyddol* hwn. Mae'r rhain yn cynnwys *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni'r BBC*, gwasanaethau rhyngrwyd, digwyddiadau cyhoeddus a llawer o gyhoeddiadau.

## Atebolrwydd a rheolaeth fewnol

***Adroddiadau ariannol a busnes gweithredol***

Nodir priod gyfrifoldebau'r Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Gweithredol a'r archwilwyr allanol ar dudalen 71.

Ceir arolwg o sefyllfa ariannol y BBC ar dudalennau 82 i 84. Mae hwn, ynghyd ag arolwg y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar dudalennau 16 a 17, yn darparu asesiad o berfformiad a sefyllfa bresennol y BBC.

Mabwysiadwyd y sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol gan fod y Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Gweithredol yn credu bod gan y BBC ddigon o adnoddau i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld.

***Rheolaeth fewnol***

Diffinnir y cyfrifoldebau mewn perthynas â rheolaeth fewnol yn glir. Y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol yn y pen draw am ddefnyddio arian cyhoeddus yn gywir, tra bod y Pwyllgor Gweithredol yn gyfrifol am gynnal system ddigonol o reolaeth fewnol ac am adolygu ei heffeithiolrwydd. Lluniwyd system o'r fath i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes a dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid sicrwydd llwyr, y gall ei roi rhag camddatganiad neu golled berthnasol.

Mae'r Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Gweithredol o'r farn bod proses barhaus ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli'r risgiau sylweddol a wynebir gan y BBC. Bu'r broses ar waith am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003 a hyd at ddyddiad cymeradwyo *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC*. Fe'i hadolygwyd gan y Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Gweithredol ac mae'n unol â'r arweiniad a nodir yn arweiniad ICAEW i gyfarwyddwyr, sef *Internal control: Guidance for directors on the Combined Code*.

Er bod system sefydledig o reoli risgiau, gan gynnwys gweithdrefnau i fonitro a gwerthuso risgiau allweddol, wedi bodoli drwy'r flwyddyn, mae'r Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Gweithredol yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y broses yn parhau i fod yn briodol mewn perthynas ag ad-drefnu mewnol a wnaed yn ddiweddar ac ehangu gwasanaethau'r BBC.

Disgrifir y prif weithdrefnau rheoli a fu ar waith yn ystod y flwyddyn o dan y penawdau canlynol:

- rheoli risg

Mae gan bob un o brif risgiau'r BBC aelod penodol o'r Pwyllgor Gweithredol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cynnydd o ran rheoli eu risg benodol yn cael ei gyflwyno ar ffurf adroddiad i'r Pwyllgor Gweithredol cyfan yn rheolaidd. Adolygwyd prif risgiau a chynlluniau gweithredu cysylltiedig y BBC yn ystod y flwyddyn. Roedd gan gyfarwyddwr pob is-adran gyfrifoldeb clir yn ystod y flwyddyn dros nodi a rheoli'r risgiau a wynebid gan eu busnes. Gwnaeth rheolwyr yr is-adrannau gynnydd wrth adolygu'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion eu his-adran. Mae ystyriaeth o'r risgiau hyn yn cynnwys cynnal arolwg ym mhob is-adran o effaith prif risgiau'r BBC a nodi'r broses o reoli'r risgiau hynny drwy gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Gweithredol. Cedwir y risgiau a nodwyd, a'r camau y bwriedir eu cymryd mewn ymateb iddynt, mewn cofrestr risgiau ym mhob is-adran a gaiff ei gwirio gan adran Archwiliad Mewnol y BBC.

- monitro rheolaethau

Mae adran Archwiliad Mewnol y BBC yn profi'r systemau rheoli a chydymffurfiad â'r prosesau busnes craidd yn rheolaidd yn unol â chynllun y mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cytuno arno. Seilir y rhaglen brofi hon, a gaiff ei diweddaru dair gwaith y flwyddyn, ar asesiad parhaus o'r risgiau allweddol. Cyflwynir canlyniadau'r profi ar ffurf adroddiad ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, sy'n craffu ar y modd y caiff rheolaethau'r BBC eu gweithredu drwy gydol y flwyddyn.

- rheolaethau is-adrannol

Mae gan reolwyr yr is-adrannau gyfrifoldeb dros sicrhau y dilynir y rheolaethau a'r gweithdrefnau presennol. Mae rheolaethau allweddol dros risgiau busnes o bwys yn cynnwys cadw cofrestrau risgiau a'u diweddaru'n gyson, ynghyd ag adolygu perfformiad a chyflwyno adroddiadau eithrio. Mae arolygon gan adran Archwiliad Mewnol y BBC yn monitro'r modd y caiff rheolaethau is-adrannol y BBC eu gweithredu er mwyn sicrhau y cânt eu cymhwyso'n gyson, a'u bod o leiaf yn bodloni polisi rheoli'r BBC yn gyffredinol.

- systemau cyfrifiadurol

Mae'r BBC wedi sefydlu rheolaethau a gweithdrefnau i ddiogelu'r data a ddelir ar systemau cyfrifiadurol. Mae trefniadau ar waith i barhau i brosesu ar gyfrifiadur ac i gadw data petai cyfleuster prosesu data'r BBC ei hun yn methu.

- rheolaethau dros brosesu trafodion a osodir ar gontract

Caiff y mwyafrif o waith prosesu trafodion ariannol y BBC (ac eithrio BBC Worldwide a BBC World) ei osod ar gontract i gwmni gwasanaethau, sef Media Accounting Services Limited (medas), sy'n annibynnol ar y BBC. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid, Eiddo a Materion Busnes wedi sefydlu gweithdrefnau monitro i adolygu perfformiad medas yn rheolaidd. Mae'r rhain yn cynnwys arolygon rheolaidd gan adran Archwiliad Mewnol y BBC mewn rhaglen waith a gaiff ei llywio gan asesiad parhaus o'r risgiau a'r materion allweddol.

- casglu ffi'r drwydded

Dyfarnwyd y contract ar gyfer casglu ffi'r drwydded i Capita o fis Gorffennaf 2002. Mae'r BBC yn monitro ac yn adolygu darpariaethau a roddwyd ar waith gan Capita er mwyn sicrhau bod y ffi yn cael ei chasglu hyd yn oed os amherir ar y busnes, yn ogystal â rheolaethau eraill a gweithdrefnau adrodd. Mae camau diogelwch ar waith i ddiogelu prosesau casglu data'r BBC, a nodwyd prosesau casglu eraill y gellir eu mabwysiadu petai'r broses gasglu graidd yn methu.

- datgelu arferion amhriodol

Mae gan y BBC bolisi datgelu arferion amhriodol. Mae'r polisi yn ei gwneud yn bosibl i hysbysu'r BBC yn ddienw o unrhyw ddigwyddiad lle yr amheuir y gwnaed drygau. Gweinyddir y broses gan gwmni allanol annibynnol er mwyn sicrhau anhysbysrwydd. Hysbysir

# Cydymffurfiad

Pennaeth Archwiliad Mewnol y BBC am bob achos a nodwyd, a fydd yn sicrhau yr ymchwilir i bob achos, bod ymateb yn cael ei gyfathrebu a bod camau wedi'u cymryd fel y bo'n briodol.

- adroddiadau ariannol a pherfformiad busnes

Mae gan y BBC system gynhwysfawr ar gyfer cofnodi canlyniadau ariannol a pherfformiad busnes. Yn ystod y flwyddyn mae pob is-adran yn paratoi adroddiadau a chyfrifon misol. Adolygir y canlyniadau hyn yn lleol ac adolygir canlyniadau cyfunol y BBC yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol a Bwrdd y Llywodraethwyr bob mis.

Bob blwyddyn ariannol bydd yr is-adrannau yn diweddaru eu cynlluniau pum mlynedd ac yn paratoi cyllidebau manwl ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Adolygir cyllideb flynyddol pob is-adran gan y Cyfarwyddwr Cyllid, Eiddo a Materion Busnes. Cymeradwyir y gyllideb gyffredinol gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Pwyllgor Gweithredol a Bwrdd y Llywodraethwyr.

Mae perfformiad pob is-adran yn agored i fonitro parhaus ac ar ddiwedd y flwyddyn, mae pob is-adran yn agored i arolwg trylwyr o'u perfformiad er mwyn cadarnhau pa mor effeithiol y buont wrth fodloni eu hamcanion.

***Pwyllgor Archwilio'r Llywodraethwyr***

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, ac mae'n gyfrifol am:

- adolygu effeithiolrwydd rheolaeth fewnol
- cymeradwyo a monitro cynllun gwaith adran Archwiliad Mewnol y BBC
- ystyried materion sy'n deillio o waith archwilio allanol a mewnol
- adolygu ymateb y rheolwyr i faterion rheolaeth fewnol
- cymeradwyo ffi'r archwiliad allanol
- trafod eu strategaeth a'u cynlluniau gyda'r archwilwyr allanol
- adolygu annibyniaeth yr archwilwyr, ac yn arbennig, ystyried a chymeradwyo unrhyw wasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig ag archwilio
- adolygu perfformiad ac effeithiolrwydd yr archwilwyr allanol
- adolygu adroddiadau'r archwilwyr allanol
- adolygu a chymeradwyo'r datganiadau ariannol

Wrth adolygu datganiadau ariannol y BBC, mae'r Pwyllgor yn ystyried unrhyw faterion arwyddocaol, a pha mor briodol yw polisïau cyfrifo a fabwysiadwyd mewn perthynas â thrafodion sylweddol neu anarferol pan y gallai mwy nag un polisi fod yn berthnasol.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys Llywodraethwyr y BBC yn unig. Mae aelodau o'r tîm rheoli gweithredol yn mynychu cyfarfodydd ar gais y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried yr argymhellion a gynhwysir yn adroddiad y Cyngor Cofnodion Ariannol (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2003), Adroddiad Smith, ac maent wedi gweithredu'r mesurau angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y BBC yn bodloni'r argymhellion hynny yn llawn.

***Annibyniaeth archwilwyr allanol***

Mae gan y Pwyllgor a'r archwilwyr allanol eu hunain gamau diogelwch ar waith er mwyn osgoi'r posibilrwydd o gyfaddawdu gwrthrychedd ac annibyniaeth yr archwilwyr.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu annibyniaeth ei archwilwyr allanol, sef KPMG LLP ar hyn o bryd, yn rheolaidd. Mae'r Pwyllgor yn cynnal trafodaethau gyda'r archwilwyr allanol heb fod y rheolwyr yn bresennol. Mae'r Pwyllgor yn adolygu lefel ffioedd nad ydynt yn gysylltiedig ag archwilio a delir i KPMG LLP. Cynhelir proses dendro gystadleuol ar gyfer unrhyw waith ymgynghori sylweddol. Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio cyn recriwtio o KPMG LLP i unrhyw swydd uwch reolwr.

Polisïau'r BBC mewn perthynas â gwasanaethau a gaffaelwyd gan yr archwilwyr allanol yw:

- bod yn rhaid hysbysu'r Pwyllgor Archwilio am yr holl wasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig ag archwilio y bwriedir eu comisiynu gan yr archwilwyr allanol
- bod yn rhaid cyflwyno'r gwaith arfaethedig uwchlaw isafswm lefel i dendr gystadleuol a, phetai'r contract yn cael ei ddyfarnu i'r archwilwyr allanol, bod yn rhaid cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio ymlaen llaw
- eithrir yr archwilwyr allanol yn benodol rhag cael eu hystyried ar gyfer mathau penodol o waith, lle gallai hynny effeithio ar eu gallu i fynegi barn annibynnol a gwrthrychol

***Digwyddiadau'r flwyddyn***

Bwriedir i system o reolaethau'r BBC, fel y nodwyd uchod, reoli risgiau yn hytrach na'u dileu yn llwyr. Yn ystod y flwyddyn, mae'r BBC wedi adolygu'r gwersi a ddysgwyd o'r digwyddiadau canlynol, gan ddiweddaru rheolaethau lle yr ystyriwyd bod hynny'n briodol.

***Oryx***

Yn ystod y flwyddyn, setlodd y BBC her gyfreithiol gydag Oryx Natural Resources, gan dalu iawndal a chostau i Oryx. Deilliodd yr hawliad am enllib o adroddiad a gynhwyswyd mewn bwletin newyddion arbennig ar 31 Hydref 2001. Cyhoeddodd y BBC ymddiheuriad am yr adroddiad anghywir ym mis Tachwedd 2001. Ymchwiliodd y BBC i'r amgylchiadau a arweiniodd at yr adroddiad anghywir ac mae wedi cymryd camau priodol er mwyn ceisio atal y peth rhag digwydd eto.

***Cwricwlwm Digidol***

Yn ystod y flwyddyn, nododd y BBC fod rhai gweithgareddau amhriodol wedi digwydd mewn perthynas â'r gwasanaeth Cwricwlwm Digidol arfaethedig. Ar y pryd, roedd y Cwricwlwm Digidol yn aros am gymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Canfu'r BBC fod y gweithgaredd a ddigwyddodd yn mynd yn groes i ddatgeliadau mewn rhai datganiadau a gyflwynwyd i'r llys wrth baratoi ar gyfer amddiffyniad y BBC mewn achos cyfreithiol a ddygwyd gan RM ccc. Cynhaliwyd ymchwiliad mewnol gan Bennaeth Archwiliad Mewnol y BBC ar ran Cadeirydd y BBC er mwyn cadarnhau pam bod y gweithgareddau wedi digwydd. Yn dilyn yr ymchwiliad, penderfynodd

dau uwch aelod o staff y BBC adael. Yn dilyn hynny, tynnodd RM ccc ei her gyfreithiol yn ôl gyda phob parti yn talu ei gostau cyfreithiol ei hun.

**Datganiad o gydymffurfiad â'r *Cod Arfer Gorau Cyfunol***

Mae'r BBC wedi cydymffurfio drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003 â'r darpariaethau penodol yn Adran 1 o'r *Cod Cyfunol* ac eithrio'r darpariaethau hynny sy'n ymwneud â gofynion cyfarwyddwyr anweithredol a chyfranddalwyr nad ydynt, fel y trafodwyd yn gynharach, yn berthnasol i'r BBC.

## 4 Cyfrifoldebau corfforaethol eraill

### Polisi moesegol

Mae'r BBC yn ceisio cyrraedd y safonau uchaf mewn perthynas ag arfer moesegol, arfer cyflogaeth ac arfer amgylcheddol. Mae gan y BBC god ymddygiad sy'n mynnu bod ei gyflenwyr yn gweithredu yn unol â'r un egwyddorion. Mae hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i bob cyflenwr uniongyrchol, y mae angen iddynt hefyd oruchwylio eu his-gontractwyr yn ei dro, arsylwi arfer gorau yn y meysydd canlynol: arferion cyflogaeth cyffredinol, cyflogi gweithwyr priodol, yswiriant gweithwyr, amgylchedd gwaith, parch at y gweithiwr unigol, safonau amgylcheddol, cyfle cyfartal a rhyddid o ran cysylltiadau.

### Adnoddau dynol

Mae'r BBC yn parhau i ddal yr achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP) ar draws y BBC cyfan. Mae'n cymryd camau gweithredol tuag at wella ei berfformiad ym mhob maes drwy raglen o hunan-asesu llym bob blwyddyn. Mae'r BBC yn buddsoddi swm sylweddol o arian a llawer o amser er mwyn hyfforddi a datblygu ei staff fel y nodir ar dudalen 67.

Mae'r BBC yn monitro barn ei staff drwy arolwg staff blynyddol. Mae ganddo ddulliau ymgynghori amrywiol hefyd, gan gynnwys, ar lefel gorfforaethol, Fforwm y BBC. Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd ag undebau cydnabyddedig: BECTU (Undeb Darlledu, Adloniant, Sinema a Theatr), NUJ (Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr) ac AMICUS (AEEU yn flaenorol).

### Cyfathrebu mewnol

Caiff y cynnydd o ran gwella cyfathrebu mewnol ei fesur drwy arolwg blynyddol o farn y staff a gynhelir gan MORI. Dangosodd yr arolwg diweddaraf, a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2002, fod y BBC yn parhau i wneud cynnydd mewn meysydd allweddol o gyfathrebu ac mae'n parhau i fod ymhlith deg sefydliad gorau MORI.

### Iechyd a diogelwch

Mae'r BBC yn ymrwymedig i ddarparu lle diogel ac iach i weithio ac i sicrhau nad yw ei staff a phobl eraill mewn perygl o ganlyniad i'w weithgareddau. Er mwyn sicrhau bod y BBC yn annog gwelliant parhaus yn erbyn yr ymrwymiad hwn, ac o ganlyniad i fwy o fygythiadau o ran terfysg a gwrthdaro, daethpwyd â'r swyddogaethau iechyd a diogelwch galwedigaethol a diogelwch at ei gilydd o dan un pennaeth, a sicrhawyd bod eu gwasanaethau integredig yn fwy hygyrch i wneuthurwyr rhaglenni a rheolwyr.

Anelwyd swm sylweddol o adnoddau tuag at y materion a oedd yn ymwneud â'r rhyfel yn Irac ac ymateb i fygythiad gan derfysgwyr, gyda gweithdrefnau ar draws y BBC cyfan a'r is-adrannau yn cael eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau y gall newyddiadurwyr/criwiau'r BBC yn y maes, canolfannau/swyddfeydd dramor, a safleoedd a staff yn y DU, wneud eu gwaith yn ddiogel.

Mae'r BBC yn parhau i hyrwyddo gwybodaeth am ddatblygu arferion diogel o fewn y diwydiannau darlledu a chynhyrchu, ac yn cyfrannu at y broses honno, drwy gyrff y ddau ddiwydiant. Ar lefel ryngwladol, mae'r BBC yn chwarae rôl allweddol wrth gael y diwydiant cyfan i dderbyn bod angen i holl aelodau staff y cyfryngau sy'n ymwneud â gweithgareddau casglu newyddion fabwysiadu arferion diogel.

Gostyngodd nifer y damweiniau a nodwyd yn y DU ar gyfer y 12 mis diwethaf o 65 i 48 ac ni fu unrhyw farwolaethau. O'r achosion yr oedd angen eu nodi, roedd 20 yn 'anafiadau difrifol'. Gan ystyried y damweiniau a ddigwyddodd i gyflogeion y BBC yn y DU, 188 oedd cyfradd y damweiniau ar gyfer pob 100,000 o gyflogeion ar gyfer y 12 mis, sef gostyngiad o 26% ar gyfer yr un grŵp yn y flwyddyn cyn hynny. Parhaodd yr achosion tybiedig o salwch yn gysylltiedig â galwedigaeth a welwyd gan swyddogion iechyd y BBC i ostwng hefyd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn 2002/2003, 17.78 oedd y gyfradd o achosion tybiedig o salwch galwedigaethol (o bob math) ar gyfer pob 1,000 o gyflogeion y flwyddyn. Mae hyn o'i gymharu â 19.47 ar gyfer pob 1,000 o gyflogeion y flwyddyn yn 2001/2002.

Mae'r gofynion a gynhwysir yn her *Adfywio Iechyd a Diogelwch* y *Llywodraeth* wedi golygu ei bod yn ofynnol cynnal arolwg mewnol helaeth o'r dulliau gweithredu ar gyfer casglu a choladu gwybodaeth. Mae hyn wedi arwain at fabwysiadu cronfa ddata damweiniau/achosion ar draws y BBC cyfan.

Ni fu'r BBC yn destun unrhyw gamau gorfodi gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac nid oedd ganddo unrhyw euogfarnau ar gyfer troseddau iechyd a diogelwch.

Yn ystod y darllediadau o'r rhyfel yn Irac, bu dau ddigwyddiad sylweddol a arweiniodd at farwolaeth dyn camera llawrydd a chyfieithydd a oedd yn gweithio'n lleol a thorrwyd troed cynhyrchydd tîm newyddion i ffwrdd. Yn ogystal, dioddefodd nifer o staff y BBC glwyfau shrapnel ac mae swyddogion iechyd galwedigaethol yn monitro eu hiechyd.

Am nifer o flynyddoedd mae'r BBC wedi sicrhau, drwy gymhwyso ei Bolisi Amgylcheddau Anghyfeillgar, bod pawb a anfonir i ardaloedd lle mae rhyfel yn mynychu cwrs hyfforddi dwys am chwe diwrnod mewn perthynas ag ymdopi ag amgylchedd anghyfeillgar. Yn ogystal, o ganlyniad i natur y gwrthdaro, cyflwynodd y BBC hyfforddiant penodol ar gyfer bygythiadau cemegol, biolegol, radiolegol a niwclear, gan gynnwys dosbarthu gwisgoedd ac offer arbenigol.

# Cydymffurfiad

**5 Adroddiad ar gydnabyddiaeth y Llywodraethwyr**
Mae'r adroddiad hwn yn nodi polisi'r BBC ar gydnabyddiaeth Llywodraethwyr y BBC ac aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol. Er bod y BBC wedi'i eithrio rhag y gofynion a gyflwynwyd gan Reoliadau Adroddiadau ar Gydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr 2002 a rheoliadau'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, paratowyd yr adroddiad fel petai'r gofynion hynny yn berthnasol lle bynnag y mae'r darpariaethau datgelu yn berthnasol. Dim ond yr adrannau canlynol o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth y Llywodraethwyr sy'n agored i'w harchwilio: Cydnabyddiaeth a dderbyniwyd a phensiynau'r Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Gweithredol.

**Pwyllgor Cydnabyddiaeth: cyfansoddiad a gweithrediad**
Caiff y polisi cydnabyddiaeth ar gyfer aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol ei lunio gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, is-bwyllgor o Fwrdd y Llywodraethwyr. Mae'r Pwyllgor hwn yn ymdrin â'r holl faterion sy'n ymwneud â chydnabyddiaeth aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol ac mae'n atebol i Fwrdd y Llywodraethwyr o ran pennu a chadw at y polisi cydnabyddiaeth cyfan ac o ran adolygu cyflogau sylfaenol, taliadau bonws a buddiannau'r Pwyllgor Gweithredol, gan gynnwys trefniadau pensiwn, ac o ran cytuno arnynt. Mae'r Pwyllgor yn ystyried perfformiad aelodau unigol y Pwyllgor Gweithredol cyn argymell eu cydnabyddiaeth a'u taliadau bonws blynyddol i Fwrdd llawn y Llywodraethwyr.

Aelodau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn oedd Gavyn Davies (Cadeirydd), Y Farwnes Hogg, y Fonesig Pauline Neville-Jones a'r Arglwydd Ryder. Yn ogystal, mynychir cyfarfodydd gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol sy'n cynghori ar faterion yn ymwneud ag aelodau eraill o'r Pwyllgor Gweithredol a pherfformiad cyffredinol y BBC a chan y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Chyfathrebu Mewnol. Nid ydynt yn bresennol pan ystyrir materion yn ymwneud â'u cydnabyddiaeth hwy.

Yn ei gyfansoddiad a'i weithrediad mae'r Pwyllgor yn cydymffurfio â'r *Combined Code on Corporate Governance*. Mae'r Pwyllgor yn ystyried bod annibyniaeth ei brosesau gwneud penderfyniadau yn hollbwysig. Gan ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Chyfathrebu Mewnol a Phennaeth Iawndal a Buddiannau'r BBC, mae'r Pwyllgor yn derbyn cyngor arbenigol gan ymgynghorwyr proffesiynol allanol ar faterion penodol yn ymwneud â chydnabyddiaeth, yn arbennig o ran ystyried arfer yn y farchnad allanol. Yn ystod y flwyddyn, enwebodd a derbyniodd y Pwyllgor gyngor annibynnol gan Bartneriaeth Monks a Grŵp Hay ar ddata cymharol yn y farchnad er mwyn cynorthwyo gyda'r broses o bennu cyflogau a buddiannau'r Pwyllgor Gweithredol.

**Llywodraethwyr: polisi cydnabyddiaeth**
Caiff y Llywodraethwyr ffi a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ad-delir iddynt hefyd gostau yr eir iddynt wrth ymwneud â busnes y BBC. Caiff treuliau a ystyrir gan Gyllid y Wlad yn rhai trethadwy eu setlo'n llawn gan y BBC, yn cynnwys unrhyw daliadau treth cysylltiedig, ac fe'u cofnodir fel buddiannau yn y tabl ar dudalen 78. Y cynnydd yn y gydnabyddiaeth flynyddol a gofnodwyd ar gyfer 2002/2003 oedd 2.5% i'r Is-Gadeirydd a'r Llywodraethwyr cenedlaethol, a 2.5% i'r Cadeirydd a'r Llywodraethwyr eraill (2001/2002 2.7% a 3.6% yn y drefn honno).

**Pwyllgor Gweithredol: polisi cydnabyddiaeth**
Mae'r polisi cydnabyddiaeth ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Gweithredol yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng statws y BBC fel corfforaeth gyhoeddus (a'r disgwyliad bod yn rhaid i bob maes gwario, gan gynnwys cydnabyddiaeth swyddogion gweithredol, ddarparu gwerth i dalwyr y drwydded) a'r ffaith bod y BBC yn gweithredu mewn amgylchedd cystadleuol a masnachol a bod angen iddo gynnig cydnabyddiaeth sy'n galluogi iddo ddenu, cadw a chymell unigolion o safon sy'n meddu ar y sgiliau a'r gallu i arwain y BBC.

Wrth wneud hynny, mae'r polisi cydnabyddiaeth yn ceisio:
- talu cydnabyddiaeth deg i unigolion am eu cyfrifoldeb a'u cyfraniad unigol, tra'n darparu elfen o gyflog yn seiliedig ar berfformiad, yn adlewyrchu perfformiad sylfaenol y BBC
- ystyried polisi cyflogau ac amodau cyflogaeth ehangach o fewn gweddill y BBC a'r berthynas a ddylai fodoli rhwng cydnabyddiaeth aelodau'r Pwyllgor Gweithredol a chyflogeion eraill
- ystyried lefelau canolig y farchnad mewn perthynas â chyfanswm gwobrau ariannol sefydliadau tebyg perthnasol yn y sectorau cyhoeddus a phreifat

Bydd ymagwedd y Pwyllgor tuag at ddatblygu polisi yn parhau i adlewyrchu'r egwyddorion hyn, wedi'i ategu gan broses reolaidd o adolygu a monitro polisi ac arfer o ran cydnabyddiaeth mewn sefydliadau y tu allan i'r BBC.

Dengys data allanol a adolygir gan y Pwyllgor fod cyflogau a dalwyd ar brif lefel Bwrdd ar draws y sector preifat cyfan, ac yn y diwydiant cyfryngau yn arbennig, yn sylweddol uwch nag yn y BBC ar gyfer sefydliadau o faint a chymhlethdod tebyg, tra bod y cyfleoedd ar gyfer taliadau bonws blynyddol a hir dymor yn fwy o lawer hefyd. I'r gwrthwyneb, mae'r lefelau cyflog ar gyfer uwch weision sifil a rheolwyr eraill yn y sector cyhoeddus yn is. Mae'r lefelau cydnabyddiaeth a bennir gan y Llywodraethwyr yn disgyn rhwng cyflogau'r uwch reolwyr mwyaf profiadol sy'n gweithio ym maes gwasanaeth cyhoeddus a'r rhai mewn busnesau masnachol tebyg er mwyn adlewyrchu statws unigryw'r BBC fel sefydliad a ariennir yn gyhoeddus sy'n gweithredu ac yn cystadlu mewn diwydiant masnachol.

***Elfennau cydnabyddiaeth***
*Cyflog sylfaenol*
Adolygir cyflogau sylfaenol bob mis Awst, gan ystyried lefelau'r farchnad allanol a chymariaethau mewnol yn ogystal â chyfrifoldebau a pherfformiad yr unigolyn. Telir y cyflog sylfaenol fel swm misol sefydlog mewn arian parod.

*Bonws blynyddol*
Yn ystod 2002, cynhaliodd y Pwyllgor arolwg trylwyr o'r polisi a'r ymagwedd tuag at gyflog amrywiol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Gweithredol. Gan gydnabod pwysigrwydd cynnal cydbwysedd

rhwng cyflog sylfaenol a chynllun bonws blynyddol sy'n adlewyrchu perfformiad a chyfraniad unigolion, ystyriodd y Pwyllgor ei bod yn briodol i fonysau blynyddol gael eu pennu ar uchafswm lefel o 30% o'r cyflog sylfaenol a chymysgedd o dargedau a mesurau ansoddol a meintiol. Eleni, am y tro cyntaf, arferodd y Pwyllgor ei ddisgresiwn i addasu lefel y taliadau er mwyn ystyried ffactorau ehangach yn y farchnad allanol. O ganlyniad, bu gostyngiad yn y taliadau bonws ar gyfartaledd, er gwaethaf lefel perfformiad cryf iawn yn erbyn amcanion y BBC.

Mae cyflawni amcanion ar draws y BBC yn dylanwadu ar hyd at 30% o'r uchafswm bonws, gyda'r un lefel o fonws yn berthnasol i bob aelod o'r Pwyllgor Gweithredol, gan atgyfnerthu gwerth a phwysigrwydd perfformiad cyfunol. Mae cyflawni amcanion is-adrannol yn dylanwadu ar hyd at 40% o unrhyw ddyfarniad, a pherfformiad a chyfraniad unigol ar y 30% o'r dyfarniad sy'n weddill. Ar gyfer y flwyddyn dan sylw roedd y targedau'n ymwneud yn bennaf ag amcanion a bennwyd gan y Llywodraethwyr ac a gyhoeddwyd yn *Adroddiad Blynyddol* 2001/2002.

Yn achos y busnesau masnachol (BBC Worldwide a BBC Ventures Group), mae'r cynllun bonws blynyddol wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â chyflawni targedau perfformiad ariannol penodol sy'n ymwneud â gwerthiannau, llif arian ac elw cyn llog a threthiant. Er bod uchafswm y bonws blynyddol yn 30%, sy'n gyffredin ag aelodau eraill o'r Pwyllgor Gweithredol, mae'r fframwaith yn seiliedig ar:

- ar gyfer Prif Weithredwr BBC Ventures Group, hyd at 80% o unrhyw ddyfarniad ar gyfer cyflawni targedau elw cyn llog a threthiant a llif arian a hyd at 20% ar gyfer perfformiad unigol
- ar gyfer Prif Weithredwr BBC Worldwide, hyd at 66% o unrhyw ddyfarniad ar gyfer cyflawni targedau gwerthiannau, arian parod, ac elw cyn llog a threthiant a hyd at 33% ar gyfer perfformiad unigol

Adlewyrchir taliadau bonws yn y datganiadau ariannol ar sail croniadau ar gyfer y cyfnod perfformiad dan sylw. Gwneir taliadau gwirioneddol ym mis Gorffennaf bob blwyddyn.

Mae cynllun cymhelliant hir dymor hefyd ar waith ar gyfer Prif Weithredwr BBC Worldwide sy'n darparu ar gyfer bonws o hyd at uchafswm o 20% o gyflog yn seiliedig ar gyflawni prif dargedau llif arian y BBC dros gyfnod o dair blynedd. Daeth y cyfnod tair blynedd cyntaf yn y cynllun, a ddechreuodd ym mis Ebrill 1999, i ben ar 31 Mawrth 2002 a chynhyrchodd daliad i Rupert Gavin o 14.75% o'i gyflog. Ar gyfer eleni, a'r blynyddoedd i ddod, adlewyrchir unrhyw ddyfarniadau o dan y cynllun yn y datganiadau ariannol ar sail croniadau. Mae'r Llywodraethwyr hefyd wedi cymeradwyo'r cynnig i sefydlu cynllun tebyg ar gyfer Prif Weithredwr BBC Ventures Group yn seiliedig ar gyflawni targedau perfformiad ariannol.

*Buddiannau*

Yn ogystal â chyflog a bonws, y prif fuddiannau cytundebol a ddarperir yw car a lwfans tanwydd, yswiriant iechyd preifat, pensiwn ac yswiriant bywyd. Ac eithrio swydd Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau, bu'n bolisi ers rhai blynyddoedd nad yw aelodau newydd a benodir i'r Pwyllgor Gweithredol yn gymwys i gael car â gyrrwr. Mae contract y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn darparu ar gyfer car â gyrrwr ond nid oes ganddo'r hawl ychwanegol i gael car personol na lwfans tanwydd.

*Pensiynau*

Mae pob aelod o'r Pwyllgor Gweithredol yn gymwys i gymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y BBC, sy'n darparu buddiannau pensiwn sy'n gysylltiedig â chyflog ar sail buddiannau diffiniedig, gyda chyfradd gronni o 1/60fed o'r cyflog terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth, yn amodol ar derfyn enillion Cyllid y Wlad lle y bo'n briodol. Dim ond cyflog sylfaenol sy'n bensiynadwy. Mae'r cynllun yn darparu ar gyfer ymddeoliad cynnar ar sail feddygol ac yswiriant bywyd o bedair gwaith y cyflog.

Gwnaed amrywiaeth o drefniadau arbennig ar gyfer yr unigolion hynny a ymunodd â'r BBC yn hwyr yn eu gyrfaoedd, y mae eu henillion dros derfynau Cyllid y Wlad, gan gynnwys trefniadau wedi'u hariannu a heb eu hariannu y tu allan i Gynllun Pensiwn y BBC.

***Contractau cyflogaeth***

Yn ôl polisi'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth, dylai contractau cyflogaeth aelodau'r Pwyllgor Gweithredol gynnwys uchafswm cyfnod rhybudd gadael o flwyddyn. Mae pob contract yn dod i ben ar ben-blwydd y cyfarwyddwr yn 60 oed, sef oedran ymddeol arferol y BBC, ond mae'n agored i'w derfynu'n gynt am reswm penodol neu os rhoddir rhybudd gadael o dan y contract. Nid oes hawl i unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol yn achos terfyniad cynnar heblaw am yn achos terfynu ar sail diswyddiad.

***Buddiannau allanol***

Pan nad oes potensial ar gyfer buddiannau sy'n gwrthdaro a thrwy gytundeb ymlaen llaw gyda Bwrdd y Llywodraethwyr, gall aelodau'r Pwyllgor Gweithredol ddal swyddi cyfarwyddwyr allanol. Mae'n debygol na ellir dal mwy na dwy swydd cyfarwyddwr allanol ar yr un pryd, a dim ond un o'r rhain ddylai fod mewn sefydliad masnachol. Mae Llywodraethwyr yn asesu ceisiadau o'r fath yn erbyn meini prawf llym er mwyn sicrhau na fydd buddiannau yn gwrthdaro. Telir cydnabyddiaeth sy'n deillio o swyddi cyfarwyddwyr y cytunwyd arnynt ers cyflwyno'r polisi hwn ym 1997, neu yn dilyn penodiad, i'r BBC. Yn ystod y flwyddyn, dim ond dau aelod o'r Pwyllgor Gweithredol a oedd yn dal swyddi fel cyfarwyddwyr gweithredol sefydliadau allanol.

***Cydnabyddiaeth a dderbyniwyd***

Caiff cydnabyddiaeth Llywodraethwyr neu aelodau'r Pwyllgor Gweithredol a benodir neu sy'n gadael yn ystod y flwyddyn ei chynnwys mewn perthynas â chyfnod eu haelodaeth yn unig.

| Llywodraethwyr | Ffioedd £000 | Budd-iannau £000 | **Cyfan-swm 2003 £000** | Cyfan-swm 2002 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Gavyn Davies (Cadeirydd) | 80 | 19 | **99** | 66* |
| Y Fonesig Ruth Deech (penodwyd 23 Hydref 2002) | 7 | 2 | **9** | – |
| Syr Richard Eyre | 15 | 2 | **17** | 17 |
| Dermot Gleeson | 15 | 8 | **23** | 22 |
| Y Farwnes Hogg | 15 | 3 | **18** | 17 |
| Yr Athro Merfyn Jones (penodwyd 1 Ionawr 2003) | 7 | – | **7** | – |
| Roger Jones (ymddeolodd 31 Rhagfyr 2002) | 20 | 1 | **21** | 30 |
| Yr Athro Fabian Monds | 27 | 1 | **28** | 32 |
| Y Fonesig Pauline Neville-Jones | 27 | 7 | **34** | 29 |
| Y Gwir Anrh Arglwydd Ryder (Is-Gadeirydd) | 27 | 3 | **30** | 7** |
| Angela Sarkis (penodwyd 23 Hydref 2002) | 7 | 2 | **9** | – |
| Syr Robert Smith | 27 | 1 | **28** | 32 |
| Ranjit Sondhi | 20 | 1 | **21** | 22 |
| Syr Anthony Young (ymddeolodd 31 Gorffennaf 2002) | 5 | 2 | **7** | 18 |
| | 299 | 52 | **351** | 292 |
| Llywodraethwyr a ymddeolodd yn ystod 2001/2002 | – | – | **–** | 55 |
| | 299 | 52 | **351** | 347 |

** Penodwyd yn Gadeirydd hanner ffordd drwy 2001/2002*

***Penodwyd yn Llywodraethwr hanner ffordd drwy 2001/2002*

*Am dri mis, talwyd y ffioedd a oedd yn ymwneud â Syr Robert Smith yn uniongyrchol i Deutsche Bank, a oedd yn ei ryddhau am y cyfnod angenrheidiol i'r BBC. Ers mis Gorffennaf 2002, talwyd ffioedd yn uniongyrchol i Syr Robert Smith*

| Pwyllgor Gweithredol | Cyflog £000 | Bonws blyn-yddol £000 | Budd-iannau treth-adwy £000 | **Cyfan-swm 2003 £000** | Cyfan-swm 2002 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Greg Dyke | 368 | 88 | 8 | **464** | 469 |
| Jenny Abramsky | 211 | 45 | 18 | **274** | 273 |
| Jana Bennett[1] (penodwyd 20 Ebrill 2002) | 216 | 47 | 181 | **444** | – |
| Glenwyn Benson | 185 | 37 | 16 | **238** | 226 |
| Mark Byford | 235 | 54 | 17 | **306** | 294 |
| Stephen Dando | 221 | 49 | 2 | **272** | 222* |
| Andy Duncan[2] | 231 | 55 | 15 | **301** | 235* |
| Carolyn Fairbairn[2,3] | 122 | 32 | 15 | **169** | 248 |
| Roger Flynn | 231 | 65 | 18 | **314** | 243* |
| Rupert Gavin | 278 | 62 | 22 | **362** | 339 |
| Ashley Highfield | 230 | 45 | 19 | **294** | 294 |
| Pat Loughrey | 191 | 41 | 48 | **280** | 259 |
| Peter Salmon | 205 | 46 | 28 | **279** | 273 |
| Richard Sambrook | 222 | 49 | 16 | **287** | 260 |
| John Smith | 227 | 47 | 26 | **300** | 311 |
| Michael Stevenson (ymddiswyddodd 23 Ionawr 2003) | 151 | – | 24 | **175** | 233 |
| Caroline Thomson | 179 | 35 | 22 | **236** | 226 |
| Alan Yentob[4] | 228 | 67 | 26 | **321** | 302 |
| | 3,931 | 864 | 521 | **5,316** | 4,707 |
| Aelodau a ymddiswyddodd yn ystod 2001/2002 | – | – | – | **–** | 399 |
| | 3,931 | 864 | 521 | **5,316** | 5,106 |
| Taliadau o dan gynlluniau cymhelliant hir dymor[5] | | | | **45** | 40 |
| Taliad i gyn gyfarwyddwr[6] | 128 | – | 2 | **130** | – |

** Penodwyd i'r Pwyllgor hanner ffordd drwy 2001/2002*

*1) Cynhwysir £167,000 yn y buddiannau ar gyfer Jana Bennett ar gyfer costau a dalwyd mewn cysylltiad â'i hadleoli o UDA er mwyn dechrau ei swydd gyda'r BBC. Mae cyfran sylweddol o'r swm hwn yn deillio o ychwanegu ffioedd gros sy'n gysylltiedig â gwerthu ei chyn-gartref yn UDA at ddibenion treth.*

*2) Mae'r ffigurau bonws ar gyfer Andy Duncan a Carolyn Fairbairn yn cynnwys taliad ychwanegol o £5,000 yr un sy'n adlewyrchu eu cyfraniad tuag at sicrhau'r Trwyddedau Teledu Daearol Digidol.*

*3) Cymerodd Carolyn Fairbairn gyfnod o wyliau heb dâl yn ystod y flwyddyn.*

*4) Mae'r ffigur bonws ar gyfer Alan Yentob yn cynnwys taliad ychwanegol o £20,000 mewn cysylltiad â'i weithgaredd cyflwyno ar y sgrîn yn ystod y flwyddyn.*

*5) Mae'r cynllun cymhelliant hir dymor yn gynllun ar gyfer Rupert Gavin.*

*6) Ymddiswyddodd Michael Stevenson o'r Pwyllgor Gweithredol ond parhaodd i fod yn aelod o staff y BBC tan 30 Ebrill 2003. Roedd £94,000 o'r £128,000 yn daliad yn lle rhybudd gadael yn unol â hawliau ei gontract.*

***Pensiynau'r Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Gweithredol***

Mae'r BBC yn darparu buddiannau pensiwn i Gadeirydd y Llywodraethwyr ac aelodau'r Pwyllgor Gweithredol. Dangosir manylion yr hawliadau buddiannau diffiniedig i aelodau'r Pwyllgor Gweithredol a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ym mhum colofn gyntaf y tabl canlynol. Mae'r BBC hefyd yn gwneud cyfraniadau i gynlluniau prynu arian mewn perthynas â rhai aelodau, fel y dangosir yn y ddwy golofn olaf.

Ildiodd Gavyn Davies ei hawl i fuddiannau pensiwn gan y BBC yn 2003 a 2002.

| Aelod o'r Pwyllgor Gweithredol (oedran ar 31 Mawrth 2003) | Cynlluniau buddiannau diffiniedig: Gwerthoedd blynyddol – Pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2003 £000 y flwyddyn | Cynlluniau buddiannau diffiniedig: Gwerthoedd blynyddol – Cynnydd mewn pensiwn cronedig yn ystod y flwyddyn £000 y flwyddyn | Cynlluniau buddiannau diffiniedig: Gwerthoedd trosglwyddo[4] – Gwerth trosglwyddo'r pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2003 £000 | Cynlluniau buddiannau diffiniedig: Gwerthoedd trosglwyddo[4] – Gwerth trosglwyddo'r pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2002 £000 | Cynlluniau buddiannau diffiniedig: Cynnydd mewn gwerth trosglwyddo llai cyfraniadau'r cyfarwyddwr yn ystod y flwyddyn £000 | Cynlluniau cyfraniadau diffiniedig: Cyfraniadau'r BBC i gynlluniau prynu arian 2003 £000 | Cynlluniau cyfraniadau diffiniedig: Cyfraniadau'r BBC i gynlluniau prynu arian 2002 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Greg Dyke (55) | 6 | 2 | 92 | 58 | 30 | 59 | 52 |
| Jenny Abramsky (56) | 126 | 8 | 2,566 | 2,279 | 275 | – | – |
| Jana Bennett[1,2] (47) | 2 | 2 | 14 | – | 10 | 37 | – |
| Glenwyn Benson (55) | 24 | 4 | 497 | 388 | 97 | 26 | 17 |
| Mark Byford (44) | 88 | 12 | 774 | 887 | (124) | – | – |
| Stephen Dando (41) | 3 | 2 | 18 | 10 | 4 | 50 | 37* |
| Andy Duncan (40) | 3 | 2 | 18 | 10 | 4 | 40 | 21* |
| Carolyn Fairbairn (42) | 9 | 2 | 61 | 66 | (10) | 18 | 18 |
| Roger Flynn (40) | 3 | 2 | 18 | 10 | 4 | 40 | 22* |
| Rupert Gavin (48) | 8 | 2 | 75 | 67 | 4 | 36 | 35 |
| Ashley Highfield (37) | 4 | 2 | 21 | 16 | 1 | 40 | 34 |
| Pat Loughrey (47) | 83 | 8 | 888 | 979 | (101) | – | – |
| Peter Salmon[3] (46) | 32 | 10 | 337 | 281 | 52 | 32 | 21 |
| Richard Sambrook (46) | 90 | 11 | 936 | 1,007 | (85) | – | – |
| John Smith (45) | 87 | 9 | 814 | 945 | (147) | – | – |
| Michael Stevenson (42) | 13 | 2 | 107 | 123 | (20) | 22 | 18 |
| Caroline Thomson (48) | 45 | 3 | 543 | 580 | (42) | 24 | 16 |
| Alan Yentob (56) | 113 | 13 | 2,294 | 1,916 | 363 | – | – |
| | | | | | | 424 | 291 |
| Aelodau a ymddiswyddodd yn 2001/2002 | | | | | | – | 5 |
| | | | | | | 424 | 296 |

* *Penodwyd hanner ffordd drwy 2001/2002*

*1) Penodwyd Jana Bennett yn ystod y flwyddyn. Mae'r cynnydd yn y gwerthoedd trosglwyddo a'r pensiwn cronedig yn y tabl uchod mewn perthynas â'r cyfnod o'i phenodiad ar 20 Ebrill 2002*

*2) Mae'r buddiannau cronedig a ddangosir ar gyfer Jana Bennett yn tybio y bydd yn cwblhau'r cyfnod gwasanaeth o ddwy flynedd sy'n ofynnol cyn y gellir hawlio buddiannau*

*3) Mae'r cynnydd yn y pensiwn cronedig ar gyfer Peter Salmon yn cynnwys pensiwn ychwanegol o £7,000 y flwyddyn yn deillio o fewndrosglwyddo £106,000 yn ystod y flwyddyn*

*4) Mae gwerth trosglwyddo'r buddiannau pensiwn cronedig yn cynrychioli cost amcangyfrifedig darparu'r buddiannau pensiwn a gronnwyd hyd yn hyn i'r cynllun pensiwn. Mae nifer o ffactorau yn effeithio ar y gwerth, sy'n cynnwys oedran yr unigolyn, cyflog pensiynadwy, nifer y blynyddoedd o wasanaeth pensiynadwy ac amodau'r farchnad fuddsoddi ar ddyddiad y cyfrifiad (yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd Actiwaraidd GN11). Nid yw'n swm a delir nac yn swm sy'n ddyledus i'r unigolyn ac felly ni ellir ei ychwanegu'n ystyrlon at y gydnabyddiaeth. Mae effaith amodau'r farchnad fuddsoddi ar y gwerth trosglwyddo yn amrywio yn unol ag oedran y person. I aelodau hŷn, mae'r cyfrifiad yn adlewyrchu'r elw ar giltiau sy'n gysylltiedig â mynegai, tra bo'r cyfrifiad yn adlewyrchu'r elw difidendau ar Fynegai Holl Gyfranddaliadau'r FTSE i aelodau iau. Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2003, mae'r elw ar giltiau sy'n gysylltiedig â mynegai wedi gostwng, gan gynyddu gwerthoedd trosglwyddo sy'n gysylltiedig â giltiau, tra bod elw difidendau yr holl Gyfranddaliadau wedi cynyddu (o ganlyniad i ostyngiad yng ngwerthoedd y farchnad), gan ostwng gwerthoedd trosglwyddo sy'n gysylltiedig ag ecwiti. Yr effaith a gaiff hyn yw bod gwerthoedd trosglwyddo wedi cynyddu i aelodau hŷn ac wedi gostwng i aelodau iau.*

## 6 Rhaglenni, sianelau a hyrwyddiadau

Bydd y fframwaith ar gyfer rheoleiddio cynnwys y mae'r BBC yn gweithredu oddi tano yn newid yn sylweddol yn ystod y flwyddyn i ddod wrth i Ofcom ymgymryd â'i bwerau statudol. Mae'r adran hon yn cyflwyno adroddiad ar nifer o faterion o ran cydymffurfiad golygyddol, y bydd Ofcom yn rhannol gyfrifol am rai ohonynt maes o law.

### Cynnal safonau golygyddol

Mae'r Llywodraethwyr yn sicrhau bod y BBC yn cynnal safonau golygyddol uchel, gan fonitro ei gydymffurfiad â'r *BBC Producers' Guidelines* a'r *Code on Impartiality and Accuracy* sy'n rhan ohonynt. Yn gyffredinol, roedd y Llywodraethwyr yn fodlon bod y BBC wedi cyrraedd y safonau a ddisgwylid ganddo yn 2002/2003. Fodd bynnag, nodasant achos difrifol o dorri'r canllawiau yn ymwneud ag amlygrwydd cynnyrch ym mhennod y Nadolig o *Absolutely Fabulous*. Ymchwiliwyd yn drylwyr i hyn ac ymddangosodd mai gwyriad oedd yr achos hwn yn hytrach nag arwydd o broblemau difrifol ar y rhaglen honno neu yn rhywle arall; cymerwyd camau i atal hyn rhag digwydd eto.

Cododd y modd y portreadir pobl go iawn mewn dramâu hefyd faterion i wneuthurwyr rhaglenni, yn arbennig ym meysydd caniatâd, cywirdeb ffeithiol a phreifatrwydd. Nododd y Llywodraethwyr hefyd fod cael cydbwysedd rhwng disgwyliadau'r gynulleidfa o amgylch adeg y trothwy yn her gynyddol. O ganlyniad i seminar gan y Llywodraethwyr, bydd project mewnol yn edrych ar ddisgwyliadau cynulleidfaoedd ar gyfer sianelau newydd. Ymdrinnir hefyd â'r broses o labelu cynnwys anodd yn ystod y flwyddyn i ddod.

Roedd goruchwyliaeth y Llywodraethwyr o ran bod yn ddiduedd yn cynnwys cyflwyno adroddiadau chwarterol yn hytrach na phob hanner blwyddyn a chyflwyno proses asesu gan arbenigwyr allanol annibynnol. Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd y Llywodraethwyr yn ymgymryd â mwy o waith i fodloni eu hunain bod darllediadau'r BBC yn parhau i gyrraedd y safonau uchaf o ran bod yn ddiduedd.

Mae'r Llywodraethwyr yn cymeradwyo'r *BBC Producers' Guidelines* a'r holl ddiwygiadau dilynol, yn derbyn adroddiad chwarterol ar gwynion gan BBC Gwybodaeth, gan gynnwys cwynion i'r Uned Cwynion am Raglenni (PCU) a phenaethiaid adrannau'r BBC, ac yn cynnal arolwg o'r polisi golygyddol ddwywaith y flwyddyn. Mae Pwyllgor Cwynion am Raglenni'r Llywodraethwyr (GPCC) yn ystyried apeliadau gan achwynwyr yn erbyn penderfyniadau ar gwynion golygyddol difrifol a wnaed gan y PCU neu gan reolwyr y BBC ac mae'n cyflwyno gwybodaeth i'r Bwrdd yn fisol ar ffurf adroddiad. Ar ran y Llywodraethwyr, mae'r GPCC hefyd yn sicrhau yr ymdrinnir â chwynion i'r BBC mewn dull priodol (gweler tudalen 62).

# Cydymffurfiad

**Cymeradwyo gwasanaethau newydd**
Mae angen i bob gwasanaeth cyhoeddus newydd a lansiwyd gan y BBC ers 1 Ionawr 1997 gael cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Cynhwysir y telerau allweddol ar gyfer cymeradwyaeth yn y Datganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer pob un o'r gwasanaethau hyn hefyd. Mae'r adran nesaf yn cyflwyno adroddiad ar berfformiad yn erbyn y Datganiadau ar gyfer 2002/2003 gan nodi'r eithriadau.

**Datganiadau o Bolisi Rhaglenni'r BBC**
Roedd *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni'r BBC 2002/2003* yn cynnwys nifer fawr o ymrwymiadau mesuradwy. Dengys tabl 1 ar dudalen 122 fod y BBC wedi cyflawni'r rhain heblaw am yr eithriadau canlynol:

- 1Xtra: Ymrwymodd 1Xtra i ddarparu tua 20% o ddarllediadau llafar gyda hanner ohonynt yn newyddion, rhaglenni dogfen a gweithredu cymdeithasol. Yn ystod ei wyth mis cyntaf ar yr awyr, cyflawnodd 19.1% o ddarllediadau llafar gyda 6.9% o newyddion, rhaglenni dogfen a materion cymdeithasol. Mae rheolwyr Radio a Cherddoriaeth wedi cymryd camau i sicrhau bod 1Xtra ar y trywydd cywir i gyflawni'r ddau ymrwymiad hyn yn ystod ei flwyddyn lawn gyntaf, a fydd yn sicrhau ei fod yn bodloni telerau ei gymeradwyaeth gan yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.
- Gogledd Iwerddon: Ymrwymodd BBC Northern Ireland i gyflenwi 100 awr o ddarllediadau gwleidyddol yn 2002/2003 ond dim ond 77 awr a gyflawnodd, yn bennaf o ganlyniad i gau Cynulliad Gogledd Iwerddon ym mis Hydref 2002.
- Rhanbarthau Lloegr: Ymrwymodd Rhanbarthau Lloegr y BBC i sicrhau bod yr holl brif raglenni newyddion rhanbarthol am 6.30pm ar gael ar loeren ddigidol ond mae bellach yn disgwyl cyflawni hyn erbyn mis Hydref 2003. Mae hyn yn gysylltiedig â phenderfyniad y BBC i ddarlledu ei wasanaethau heb eu seiffro ar loeren ddigidol.
- Cynhyrchu rhanbarthol: Dywedodd Teledu'r BBC y byddai o leiaf 33% o'i ddarllediadau rhwydwaith ar draws holl sianelau teledu'r BBC yn cael eu gwneud y tu allan i Lundain a De Ddwyrain Lloegr. Eleni cynhyrchwyd 31% y tu allan i Lundain a De Ddwyrain Lloegr – ychydig yn llai na'r ffigur a ailddatganwyd ar gyfer 2001/2002, sef 32%, er gwaethaf cynnydd mewn buddsoddiad (gweler tabl 14 tudalen 130). Ailddatganwyd ffigur y llynedd yn dilyn arolwg o'r meini prawf cymhwyster er mwyn adlewyrchu newidiadau yn narllediadau'r BBC ers i'r ymrwymiad gael ei lunio yn wreiddiol ddeng mlynedd yn ôl. Yn y dyfodol, bydd Ofcom yn cytuno ar dargedau o'r fath gyda'r BBC fel rhan o'i reoliad cynnwys Lefel 2, felly cyhoeddir newidiadau pellach yn y meini prawf cymhwyster yn *Adroddiad Blynyddol* y flwyddyn nesaf.

**Cwotâu rhaglenni'r DU**
O dan Ddeddf Darlledu 1990 mae gan y BBC ddyletswydd i sicrhau nad oes llai na 25% o'r amser a ddyrennir i ddarlledu rhaglenni teledu cymhwysol yn cael ei ddyrannu i ddarlledu ystod ac amrywiaeth o gynyrchiadau annibynnol. Mae'n rhaid i Gyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Masnachu Teg (OFT) gyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar y graddau y mae'r BBC, yn ei farn ef, wedi cyflawni'r ddyletswydd honno.

Cyhoeddwyd ei adroddiad ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2001 hyd 31 Mawrth 2002 ym mis Mawrth 2003. Daeth i'r casgliad, er bod y BBC wedi cyflawni ystod ac amrywiaeth boddhaol o gynyrchiadau annibynnol, nad oedd wedi cyflawni'r cwota – gan gyflawni 21.8%.

Mae achosion meddiannu diweddar gan ddarlledwyr cynhyrchwyr annibynnol mawr wedi cael yr effaith o ddileu eu statws fel cynhyrchwyr annibynnol at ddiben deddfwriaeth y DU ac yn ei gwneud yn fwy fwy anodd i'r BBC gyflawni'r cwota. Pe bai cwmnïau cynhyrchu o'r fath wedi eu cyfrif yng nghyfanswm 2001/2002, byddai'r BBC wedi cyrraedd ei darged oriau.

Mae'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cydnabod y mater hwn ac wedi ymrwymo i newid yr is-ddeddfwriaeth berthnasol i adfer cyflenwyr fel Endemol, sy'n gyflenwr pwysig i'r BBC ond y newidiwyd ei statws yn dilyn achos meddiannu gan ddarlledwr tramor. Ni fydd cynhyrchwyr y mae darlledwyr yn y DU yn berchen arnynt yn gallu hawlio statws annibynnol o hyd.

Cyfanswm ymrwymiad y BBC yn 2001/2002 i gyflenwadau allanol o ddarllediadau cymhwysol oedd 27.5% o oriau a 29.4% o wariant.

**Cwotâu rhaglenni'r UE yn y flwyddyn galendr 2002**
Mae deddfwriaeth y Gymuned Ewropeaidd yn mynnu bod Aelod-Wladwriaethau yn sicrhau bod darlledwyr yn neilltuo'r rhan fwyaf o'u hamser darlledu ar y teledu i weithiau Ewropeaidd ac eithrio'r amser a neilltuir i newyddion, digwyddiadau chwaraeon, gemau, hysbysebion, gwasanaethau teletestun a thelesiopa. Mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu hefyd bod darlledwyr yn neilltuo o leiaf 10% o'u hamser darlledu i weithiau Ewropeaidd (ac eithrio gweithiau o'r math a ddisgrifir uchod) a wneir gan gynhyrchwyr annibynnol.

Aeth y BBC y tu hwnt i gwotâu'r UE yn y flwyddyn galendr 2002. O ran darllediadau perthnasol BBC One a BBC Two, roedd 81% o darddiad Ewropeaidd (79% yn 2001) a gwnaed 13% gan gynhyrchwyr annibynnol Ewropeaidd (11% yn 2001). O ran darllediadau perthnasol holl sianelau'r BBC (gan gynnwys BBC Choice – BBC Three bellach, BBC Four, CBeebies, CBBC a BBC News 24), roedd 85% o darddiad Ewropeaidd (88% yn 2001) a gwnaed 19% gan gynhyrchwyr annibynnol Ewropeaidd (20% yn 2001).

**Rheoleiddio darlledu sianelau Ewropeaidd**
Mae'r BBC yn darlledu dwy sianel deledu yn Ewrop, sef BBC Prime a BBC World. Gweithredwyd y ddwy sianel yn wreiddiol gan European Channel Broadcasting Limited, is-gwmni y mae BBC Worldwide Limited yn berchen yn llwyr arno, ond ar 1 Rhagfyr 2002, cymeradwyodd yr Ysgrifennydd Gwladol y cynnig i drosglwyddo busnes ac asedion y sianel BBC World i gwmni newydd, BBC World Limited, a ddaeth yn is-gwmni y mae BBC Commercial Holdings Limited yn berchen yn llwyr arno. Trwyddedir

y ddwy sianel gan ITC fel gwasanaethau teledu lloeren.

Yn unol â'r egwyddorion a oedd yn sail i gymeradwyaeth wreiddiol yr Ysgrifennydd Gwladol:

- cynhaliwyd cydberthnasau masnachu hyd braich rhwng y BBC a'r cwmnïau sy'n gyfrifol am sianelau BBC World a BBC Prime
- cydymffurfiodd y cwmnïau sy'n gweithredu'r sianelau yn llawn â'r *BBC Commercial Policy Guidelines* a'r Ymrwymiad Masnachu Teg a chyda darpariaethau perthnasol cyfraith yr UE
- cydymffurfiodd y rhaglenni a ddangoswyd ar y ddwy sianel â chodau perthnasol yr ITC a chynhyrchwyd y rhaglenni a wnaed gan y BBC yn unol â'r *BBC Producers' Guidelines*

**Hyrwyddiadau ar yr awyr: ymrwymiad y Swyddfa Masnachu Teg**
Yn dilyn adroddiad 1992 gan y Comisiwn Monopolïau a Chyfuniadau (ar roi cyhoeddusrwydd, yn ystod darlledu, i nwyddau a gyflenwir gan y darlledwr), ymrwymodd y BBC â'r Swyddfa Masnachu Teg i ddefnyddio hysbysebion llonydd yn unig i roi gwybodaeth am gylchgronau'r BBC. Mae telerau'r ymrwymiad hefyd yn golygu na all y BBC fynd y tu hwnt i gyfanswm o saith munud ar draws cyfnod o saith niwrnod mewn perthynas â hyrwyddo cylchgronau'r BBC ar yr awyr ar ei wasanaethau teledu. Er mai dim ond i gylchgronau'r BBC y mae'r rhwymedigaeth gyfreithiol yn berthnasol, mae Ymrwymiad Masnachu Teg y Llywodraethwyr yn ymrwymo i gymhwyso ysbryd yr ymrwymiad i'r holl hyrwyddiadau ar yr awyr ar gyfer cynnyrch masnachol.

Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2002 i 31 Mawrth 2003 y cyfanswm ar gyfer pob un o gylchgronau'r BBC ar wasanaethau teledu'r BBC (gan gynnwys y *Radio Times*) oedd 3 awr 10 munud a 30 eiliad o ddarlledu (2001/2002 2 awr 25 munud 30 eiliad), sef cyfartaledd o 3 munud 40 eiliad mewn cyfnod o saith niwrnod (2001/2002 2 funud 45 eiliad). Y cyfanswm ar gyfer yr holl gynnyrch masnachol (gan gynnwys BBC Worldwide a chynnyrch annibynnol) oedd 4 awr 38 munud (2002 4 awr 37 munud a 30 eiliad) sef cyfartaledd o 5 munud 20 eiliad (2001/2002 5 munud 19 eiliad) mewn cyfnod o saith niwrnod.

**7 Rhoddion a chydnabyddiaethau**
Mae'n bolisi gan y BBC i beidio â gwneud rhoddion gwleidyddol.


Yn ogystal â'r apeliadau darlledu a grybwyllir ar dudalen 65, rhoddodd busnesau masnachol y BBC gyfanswm o tua £9,000 i elusennau yn ystod y flwyddyn (2002 £8,500). Talwyd cyfanswm o £1.1miliwn mewn breindaliadau hawlfraint i Golden Jubilee Events Limited mewn perthynas â chytundeb rhwng y BBC, Golden Jubilee Events Limited a BBC Worldwide Limited i gynhyrchu, cynnal a darlledu cyngherddau cerddorol y Jiwbilî Aur ym Mhalas Buckingham ym mis Mehefin 2002. Mae Golden Jubilee Events Limited yn un o is-gwmnïau'r Queen's Golden Jubilee Trust, a rhoddir ei holl elw i'r ymddiriedolaeth hon.

Mae'r BBC yn cydnabod grantiau ariannol gan y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer projectau ymchwil technegol amrywiol.

# Arolwg ariannol

**Crynodeb**
Yn ystod haf 2000 lluniwyd strategaeth uchelgeisiol gan y BBC ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd y Siarter bresennol ym mis Rhagfyr 2006. Mae hyn yn golygu llawer iawn o fuddsoddi newydd mewn cynnwys a lansio sawl sianel deledu a radio newydd. Gwelwyd cynnydd mawr ym mlwyddyn ariannol 2002/2003 tuag at gyflawni'r strategaeth honno. Lansiwyd pedair sianel newydd, a chynyddodd y gwariant blynyddol ar raglenni £346miliwn (17%).

**Gwariant UK Public Service Broadcasting yn erbyn strategaeth 2000**





Mabwysiadwyd ymagwedd arloesol tuag at ddosbarthiad teledu gyda Freeview a gwnaed cynnydd sylweddol o ran rhaglen ailadeiladu eiddo'r BBC hefyd yn ystod y flwyddyn.

Cyflawnwyd hyn i gyd drwy lwyddo i leihau achosion o osgoi talu ffi'r drwydded, gwelliannau ym mherfformiad yr is-gwmnïau masnachol, a thrwy ddefnyddio'r balans ariannol dros ben a gronnwyd mewn blynyddoedd cynharach.

Oherwydd hyn symudodd balans ariannol y Grŵp o warged o £285miliwn ar ddechrau'r flwyddyn i ddyled net y Grŵp o £74miliwn ar y diwedd. Caiff y cyfnod canol y Siarter hwn ei nodweddu gan lefelau gwariant uwch nag incwm sy'n achosi dyled dros dro yn UK Public Service Broadcasting. Rhagwelwyd y gostyngiad arian parod yn ystod y tair blynedd flaenorol ond digwyddodd yn fwy graddol na'r hyn a gynlluniwyd yn wreddiol. Gydag incwm yn codi bob blwyddyn – yn sgîl effeithiau cyfunol

## Lefelau arian parod/dyled




gwelliannau yn effeithiolrwydd casglu ffi'r drwydded a'r RPI + cynnydd blynyddol o 1.5% yn lefel ffi'r drwydded – dim ond ychydig o flynyddoedd a fydd pan ddefnyddir cyllid y banc a'r nod yw adennill y costau dros gyfnod y Siarter.

**Incwm**
Ffi'r drwydded
Mae ffi'r drwydded yn parhau i ddarparu ymhell dros 94% o'r arian sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau'r BBC. Yn 2002/2003 syrthiodd cyfraddau osgoi talu o 7.9% i 7.2%. Mae cynnal a gwella effeithlonrwydd casglu yn hollbwysig ac un o amcanion y BBC ar gyfer 2002/2003 oedd cynyddu'r mewnlif arian parod i'r BBC o ddull gwell o gasglu ffi'r drwydded. Cyflawnwyd yr amcan hwn.

Bu cynnydd o £126miliwn yn refeniw ffi'r drwydded o £2,659miliwn ers 2001/2002:

| | £m |
|---|---|
| Gwelliannau yn effeithiolrwydd y dull o gasglu | 54 |
| Chwyddiant | 38 |
| Cynnydd yn uwch na chwyddiant yn ffi'r drwydded | 34 |
| Cynnydd o un flwyddyn i'r llall | 126 |

Cyflawnwyd y cynnydd hwn yn erbyn cefndir o newid mawr, gyda chontractwyr newydd, Capita ac AMV, yn cael eu cyflwyno yn ystod 2002 i ymgymryd â'r gwaith o gasglu a gorfodi am y tro cyntaf. Mae Capita yn cyflwyno llawer o newidiadau yng ngweithrediad y drwydded deledu gydag offer canfod newydd, canolfannau galw newydd, amserau cyflawni cyflymach, a chronfa ddata newydd. Arweiniodd y newidiadau hyn at gynnydd yn y costau casglu ar gyfer 2002/2003 ar ôl swm anarferol o isel y llynedd. Dychwelodd y costau casglu yn 2002/2003 at y duedd tymor canolig o 5.5% o incwm.

Yn ystod y flwyddyn cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ei hadroddiad, *Collecting the Television Licence,* lle y canmolwyd y BBC gan Syr John Bourne, Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, am y gwaith da a wnaeth i leihau'r gyfradd osgoi talu a chryfhau'r trefniadau casglu a gorfodi.

Enillion masnachol
Mae sawl un o fusnesau masnachol y BBC yn cynhyrchu llif arian ychwanegol wrth ymelwa ar asedion ffisegol ac eiddo deallusol y BBC. Defnyddir y ffynhonnell ychwanegol hon o lif arian i gynyddu'r arian sydd ar gael ar gyfer rhaglenni yn UK Public Service Broadcasting.

Yn ystod y flwyddyn, creodd y BBC gwmni dal newydd, BBC Commercial Holdings Limited, ar gyfer ei holl fusnesau masnachol. Mae'r strwythur newydd hwn yn darparu mwy o eglurder wrth wahanu gweithrediadau gwasanaethau cyhoeddus y BBC oddi wrth ei weithgareddau masnachol ac yn darparu ffordd o drosglwyddo benthyciadau i'r grŵp masnachol, y cymeradwyodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon derfyn benthyca ar wahân o £350miliwn ar ei gyfer ym mis Gorffennaf 2002. Sefydlwyd cyfleusterau bancio ar gyfer y grŵp hwn ym mis Mawrth 2003.

O dan setliad presennol ffi'r drwydded, heriodd y Llywodraeth y BBC i gynyddu'r swm a godai o weithrediadau masnachol. Hwn hefyd oedd un o'r amcanion ariannol a bennwyd gan y Llywodraethwyr i'r BBC ar gyfer 2002/2003. Er gwaethaf amodau masnachu anodd, cyflawnwyd yr amcan hwn gyda chynnydd bach o un flwyddyn i'r llall. Yn ystod 2002/2003 cyfrannodd y busnesau masnachol gyda'i gilydd £124miliwn i'r BBC mewn arian parod. Yn ogystal, sicrhawyd bod £23miliwn arall ar gael ar gyfer rhaglenni drwy arbedion a wnaed o ran costau cymorth ar wasanaethau a ddarparwyd i'r BBC gan y busnesau masnachol. Yn gyffredinol, cyfrannodd y busnesau masnachol gyfanswm o £147miliwn o'i gymharu â £142miliwn yn 2001/2002.

### BBC Worldwide a BBC World

O'r busnesau masnachol, cyfranna BBC Worldwide y mwyaf i'r BBC. Yn ystod 2002/2003 cynyddodd BBC Worldwide ei elw ariannol i £123miliwn, cynnydd ar £106miliwn yn 2001/2002.

Wynebodd BBC World, tra'n cynyddu ei ddosbarthiad ledled y byd, farchnad hysbysebu anodd yn 2002/2003. Yn ystod 2002/2003 roedd ganddo all-lif arian parod o £14miliwn (y caiff £9miliwn ohono mewn perthynas â'r cyfnod cyn i BBC World rannu oddi wrth BBC Worldwide Group ei gynnwys yng nghanlyniad ariannol BBC Worldwide). Er nad yw wedi gwneud elw hyd yma, nac yn cyfrannu arian i'r BBC, cyrhaeddodd y sianel ei thargedau ar gyfer y flwyddyn a bwriedir iddi ddod yn gyfrannwr net arian parod yn y blynyddoedd i ddod.

### BBC Ventures Group

Cafodd BBC Ventures Group flwyddyn werthu gref, wedi ei hybu gan lefel uchel o weithgaredd o fewn y BBC ac yn allanol yn y ddarpariaeth o adnoddau rhaglenni a gwasanaethau technoleg. Am y tro cyntaf gwnaeth yr holl fusnesau yn y Grŵp hwn elw, gan gynnwys BBC Broadcast na ddechreuodd fasnachu tan ddechrau'r flwyddyn a BBC Resources a fu'n gwneud colled ers iddo gael ei ffurfio ym 1998. Cyfrannodd y Grŵp £6miliwn mewn arian parod yn gyffredinol. Bu gostyngiad yn y cyfraniad ariannol hwn o'i gymharu â 2001/2002 oherwydd buddsoddiad sylweddol yn ystod y flwyddyn gan y Grŵp mewn asedion cyfalaf ac mae'r Grŵp yn disgwyl cynhyrchu mwy o gyfraniadau oddi wrthynt mewn blynyddoedd i ddod. Mae'r busnesau hyn hefyd yn helpu'r BBC drwy gyfrannu at ostyngiadau o ran costau yng nghyflenwad y cyfleusterau a ddaeth i £23miliwn yn 2002/2003, cynnydd ar £12milwn yn y flwyddyn flaenorol.

## Gwariant

### Gwariant ar raglenni

Addawodd y BBC gynyddu gwariant ar raglenni o leiaf £450miliwn yn y ddwy flynedd hyd at 2002/2003. Cyflawnwyd yr amcan hwn a rhagorwyd arno gyda chyfanswm cynnydd o £616miliwn (yn cynnwys chwyddiant) dros y cyfnod o ddwy flynedd, y gwelwyd cynnydd o £346miliwn yn 2002/2003. Defnyddiwyd y gwariant ychwanegol hwn i wella ansawdd rhaglenni, yn arbennig ar BBC One, i gynyddu'r ystod o raglenni lleol penodol ac i lansio'r gwasanaethau digidol newydd. Yn ystod y flwyddyn, lansiwyd BBC Three a thair sianel radio ddigidol newydd (lXtra, BBC 7 a BBC Asian Network) gan y BBC.

Dangosir rhaniad gwariant y BBC ar draws ei sianelau a'i wasanaethau gwahanol yn Nodyn 2b i'r datganiadau ariannol ar dudalen 95. Dyrennir holl gostau uniongyrchol rhaglenni i bob gwasanaeth. Mae gwariant yn gysylltiedig â rhaglenni ar feysydd fel casglu newyddion, cymdeithasau casglu, cerddorfeydd a grwpiau hawliau perfformio, a ddosrannwyd ar draws gwasanaethau unigol yn y flwyddyn flaenorol, wedi ei ddadansoddi ar wahân ar gyfer eleni er mwyn i'r broses fod yn fwy eglur. Ailddatganwyd ffigurau cymharol 2002 yn unol â hynny.

Gwariodd y BBC £280miliwn ar raglenni digidol yn 2002/2003 sef cynnydd ar £184miliwn yn 2001/2002. Dim ond 13.7% o wariant rhaglenni'r BBC sydd ar wasanaethau digidol, ond gall 47.1% o'r boblogaeth yn awr dderbyn teledu digidol.

Yn ystod 2002/2003 gwariodd y BBC £976miliwn yn y diwydiant creadigol y tu allan i'r BBC, cynnydd ar £828miliwn yn 2001/2002 (gweler tabl 19 ar dudalen 131).

### Gorbenion

Addawodd y BBC leihau gorbenion o 24% dair blynedd yn ôl i 15% erbyn mis Mawrth 2004. Cyrhaeddwyd y targed hwn yn gynnar ac yn 2002/2003 cyrhaeddodd isafbwynt newydd o 13%.

### Dosbarthiad

Fel rhan o'i ymgyrch i leihau costau, gwnaeth y BBC newidiadau mawr i'w drefniadau dosbarthu sianelau. Yn ystod mis Tachwedd 2002 gwnaeth y BBC gynnig llwyddiannus am drwydded teledu daearol digidol (DTT) 12 mlynedd. Mae'r BBC wedi ymrwymo i gyd-fenter â Crown Castle a BSkyB i ddatblygu'r cynnig digidol 'free-to-air' Freeview. Bu hyn yn llwyddiannus iawn a gwerthwyd 680,000 o flychau pen set gan fanwerthwyr erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r gyd-fenter hon yn ffordd gost effeithiol o ddenu gwylwyr a gwrandawyr newydd i wasanaethau digidol y BBC.

O fis Gorffennaf 2003 bydd y BBC yn darlledu ei wyth sianel deledu heb eu seiffro ar loeren ddigidol. Bydd hyn yn sicrhau bod gwasanaethau digidol y BBC ar gael i fwy o bobl a bydd hefyd yn galluogi'r BBC i wneud arbedion sylweddol.

### Canlyniad am y flwyddyn

Nid oes gan y BBC gyfranddalwyr ac felly nid yw'n anelu at wneud elw. Mae gwargedion a diffygion gweithredol yn cynrychioli gwahaniaethau amseru tymor byr rhwng incwm a gwariant a fydd yn gwrthdroi mewn blynyddoedd i ddod. Mae'r canlyniad ar gyfer 2002/2003, diffyg o £315miliwn, yn unol â chynllun pum mlynedd y BBC lle y cyflawnir y gwelliant mawr mewn gwariant ar raglenni a gwasanaethau drwy wneud defnydd o falansau ariannol uchel hanesyddol y BBC a chyllid dros dro y banc o fewn y nod cyffredinol o adennill costau dros gyfnod y Siarter.

# Arolwg ariannol

**Asedion a rhwymedigaethau**

Eiddo

Yn ystod 2002/2003, mae'r BBC wedi parhau â'i raglen uchelgeisiol iawn i uwchraddio ei ystad eiddo o 8 miliwn troedfedd sgwâr. Mae traean o 100 o adeiladau gorau'r BBC wedi eu huwchraddio neu mae gwaith ar droed, gyda thraean arall ar gam cynllunio. Ymhlith y datblygiadau allweddol mae adeiladau newydd ar gyfer BBC Radio Stoke, Leicester, Leeds a Tunbridge Wells a sicrhau adeiladau newydd modern yng nghanolfan siopa Mailbox yn Birmingham a'r Forum Building yn Norwich.

Gwelwyd y cynlluniau mwyaf i gyd yn datblygu yn ystod y flwyddyn. Yn Glasgow, rhoddwyd cymeradwyaeth fewnol ar gyfer canolfan ddarlledu hollol newydd i gynnwys BBC Scotland yn Pacific Quay. Caiff ceisiadau cynllunio eu cyflwyno yr haf hwn. Yn White City yn Llundain, daeth y gwaith o adeiladu 550,000 o droedfeddi sgwâr o adeiladau newydd bron i ben a bellach mae'r gwaith o symud i'r swyddfeydd newydd chwe mis ar y blaen i'r amserlen. Yn Broadcasting House yng nghanol Llundain, cymeradwywyd ceisiadau cynllunio a dechreuwyd ar y gwaith o ailddatblygu prif bencadlys y BBC a darparu canolfan ddarlledu newydd ar gyfer y rhwydweithiau radio, BBC World Service a newyddiaduraeth newyddion rhwydwaith y BBC. Mae'r tri chynllun hyn yn cael eu cyflawni drwy'r bartneriaeth â Land Securities Trillium.

Cronfa bensiwn

Mae Cynllun Pensiwn y BBC, y mae'r mwyafrif o'r cyflogeion yn perthyn iddo, yn gynllun (buddiannau diffiniedig) cyflog terfynol. Mae'r cynllun hwn yn rhan allweddol o'r cynnig cydnabyddiaeth ar gyfer staff y BBC ac mae'r BBC wedi ailgadarnhau ei ymrwymiad i'r cynllun hwn ac y bydd yn parhau i fod yn gynllun buddiannau diffiniedig.


Er bod y cynllun yn cael ei reoli gan yr ymddiriedolwyr gan ddefnyddio prisiadau actiwaraidd hir dymor, mae'n ofynnol i'r datganiadau ariannol o dan safon gyfrifo ddadleuol FRS 17 gynnwys y cynllun pensiwn ar brisiad sy'n adlewyrchu gwerth marchnad asedion y cynllun ar ddiwrnod penodol mewn amser waeth beth yw eu perfformiad hir dymor. Fel yn achos llawer o gronfeydd pensiwn buddiannau diffiniedig effeithiwyd ar brisiad y farchnad eleni gan ddirywiad sydyn mewn gwerthoedd ecwiti er bod hyn wedi dechrau gwrthdroi yn ddiweddar. At hynny, mae gostyngiad mewn cyfraddau llog wedi arwain at gynnydd yng ngwerth presennol damcaniaethol rhwymedigaethau pensiwn yn y dyfodol. Mae hyn wedi mynd â phrisiad net y cynllun pensiwn a gyfrifwyd o dan FRS 17 i ddiffyg o £1,070miliwn ar 31 Mawrth 2003.

Ynghyd â sawl cwmni blaenllaw arall, mabwysiadodd y BBC FRS 17 yn gynnar. Fodd bynnag, nid yw llawer o gwmnïau eraill wedi mabwysiadu'r safon hon ac mae'r Bwrdd Safonau Cyfrifo wedi gohirio ei ddyddiad mabwysiadu ffurfiol tan 2005, fel rhan o broject trosi'r Safonau Cofnodi Ariannol Rhyngwladol.

Er mwyn rhoi methodoleg gyfrifo FRS 17 mewn persbectif, dylid ystyried pa mor iach yw Cynllun Pensiwn y BBC yng ngoleuni'r ffactorau canlynol:

- pennir y gyfradd ddisgownt ar gyfer rhwymedigaethau'r cynllun gan FRS 17 fel arennill bond hirfaith; waeth pa mor aeddfed yw rhwymedigaethau'r cynllun. Mae rhwymedigaethau'r cynllun ymhell o fod yn aeddfed ac nid yw'r ffaith bod arenillion bond hirfaith wedi gostwng yn ddiweddar yn rheswm i gredu bod y rhwymedigaethau wedi cynyddu yn ymarferol
- syrthiodd Mynegai Holl Gyfranddaliadau'r FTSE 32% yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2003 o'i gymharu â gostyngiad yn asedion Cynllun Pensiwn y BBC o 21% (o £6,219miliwn i £4,903miliwn). Mae Mynegai Holl Gyfranddaliadau'r FTSE wedi codi ers 31 Mawrth 2003 felly pe bai prisiad ased yn cael ei gynnal yn fwy diweddar byddai'r darlun yn hollol wahanol
- mae'r cynllun yn dal i gronni gwerth bob blwyddyn. Mae derbynebion arian parod i'r cynllun, o gyfraniadau ac incwm o fuddsoddiadau, yn parhau i fod yn fwy na chostau arian parod i'r aelodau
- er mwyn sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn iach, mae'r BBC wedi penderfynu cynyddu ei gyfraniadau ariannol i'r cynllun o'r 4.5% presennol i 6%. Bydd y cynnydd o 0.5% y flwyddyn ar gyfer pob un o'r tair blynedd nesaf yn dod i rym o 1 Ebrill 2003. Mae cyflogeion y BBC hefyd yn cynyddu eu cyfraniadau gan swm tebyg gyda'u cynnydd cyntaf o 0.5% yn dod i rym o 1 Ebrill 2004. Mae'r newidiadau hyn yn cynyddu gwerth y gronfa tua £200miliwn. Nid yw FRS 17 yn caniatáu i'r newidiadau hyn gael eu hadlewyrchu yn y ffigurau, ond cred y BBC y bydd y cynnydd mewn cyfraniadau yn helpu i sicrhau y bydd y cynllun yn parhau i fod yn iach a bydd y BBC yn comisiynu prisiad teirblwydd interim 18 mis yn gynnar yn ystod hydref 2003 i adolygu eu heffaith
- cost ariannol flynyddol Cynllun Pensiwn y BBC i'r BBC yw £33miliwn y flwyddyn. Mae hyn yn llai nag 1% o incwm y BBC sy'n rhoi cryn dipyn o hyblygrwydd ar gyfer y dyfodol
- mae ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn y BBC yn rheoli'r cynllun yn yr hir dymor. Cytunant ar benderfyniadau ariannu yn seiliedig ar farn hir dymor (actiwaraidd) o'r asedion sy'n ofynnol i ariannu rhwymedigaethau'r cynllun. Dengys y prisiad actiwaraidd diweddaraf (Ebrill 2002) warged o £441miliwn gyda digon o asedion i gwmpasu 109% o'r buddiannau sy'n ddyledus i aelodau

Gan ystyried yr holl ffactorau hyn, mae'r BBC yn parhau i gredu bod y cynllun wedi ei ariannu'n dda ac erys yn ymrwymedig i sicrhau y bydd ei sefyllfa ariannol yn yr hir dymor yn iach.



John Smith
*Cyfarwyddwr Cyllid, Eiddo a Materion Busnes*

# Datganiad cyfunol incwm a gwariant

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth

Nid yw'n nod gan y BBC i wneud elw. Mae gwargedion a diffygion yn cynrychioli gwahaniaethau amseru yn y tymor byr rhwng incwm a gwariant a fydd yn gwrthdroi mewn blynyddoedd dilynol.

| | Nodyn | **2003** **£m** | 2002 £m |
|---|---|---|---|
| **Incwm grŵp** | 1 | **3,532.0** | 3,382.9 |
| Gwariant gweithredol | 2 | **(3,938.6)** | (3,556.3) |
| **Diffyg gweithredol y grŵp** | | **(406.6)** | (173.4) |
| Cyfran o warged gweithredol partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | | **2.9** | 1.4 |
| **Diffyg gweithredol** | 3 | **(403.7)** | (172.0) |
| (Colled)/elw wrth werthu a therfynu gweithrediadau | 5 | **(0.4)** | 7.7 |
| (Colled)/elw wrth waredu asedion sefydlog | 6 | **(14.3)** | 11.7 |
| **Diffyg cyn llog a threthiant** | | **(418.4)** | (152.6) |
| Llog net derbyniadwy ac eitemau tebyg eraill | 7 | **5.1** | 21.6 |
| Incwm cyllid arall (o gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig) | 8a | **114.3** | 133.9 |
| **(Diffyg)/gwarged cyn trethiant a buddiannau lleiafrifol** | | **(299.0)** | 2.9 |
| Trethiant | 9 | **(15.7)** | (17.7) |
| Buddiannau lleiafrifol | | **0.1** | (1.1) |
| **Diffyg am y flwyddyn ariannol** | 18 | **(314.6)** | (15.9) |

Mae'r BBC wedi ymuno â rhai cyd-fentrau penodol gyda Flextech a Discovery Communications Inc. ond nid oes ganddo unrhyw ymrwymiad i dalu ei gyfran o'u colledion gweithredol cronnol (gweler Nodyn 13d).

Mae'r canlyniadau uchod yn deillio o weithrediadau parhaus yn y cyfnodau ariannol presennol a blaenorol.

Nid oes unrhyw wahaniaeth perthnasol rhwng y canlyniadau fel y'u datgelwyd uchod a'r canlyniadau ar sail cost hanesyddol.

# Mantolenni

ar 31 Mawrth

| | Nodyn | Grŵp 2003 £m | Grŵp 2002 £m | UK Public Service Broadcasting 2003 £m | UK Public Service Broadcasting 2002 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedion sefydlog** | | | | | |
| Asedion sefydlog anghyffyrddadwy | 10 | **15.7** | 15.4 | **–** | – |
| Asedion sefydlog cyffyrddadwy | 11 | **802.9** | 760.8 | **554.2** | 520.8 |
| Buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol | 12 | **108.3** | 111.8 | **–** | – |
| Buddsoddiadau eraill | 13 | **17.8** | 16.8 | **318.3** | 299.2 |
| | | **944.7** | 904.8 | **872.5** | 820.0 |
| **Asedion cyfredol** | | | | | |
| Stociau | 14 | **468.9** | 449.4 | **437.7** | 425.3 |
| Dyledwyr tymor hir | 15 | **158.6** | 137.2 | **131.8** | 113.8 |
| Dyledwyr cyfredol | 15 | **605.5** | 663.6 | **487.3** | 542.8 |
| **Cyfanswm y dyledwyr** | | **764.1** | 800.8 | **619.1** | 656.6 |
| Buddsoddiadau tymor byr | 20 | **64.9** | 356.8 | **32.9** | 356.8 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 20 | **69.5** | 0.3 | **7.9** | – |
| | | **1,367.4** | 1,607.3 | **1,097.6** | 1,438.7 |
| **Credydwyr – symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | 16 | **(920.5)** | (871.2) | **(782.9)** | (767.9) |
| **Asedion cyfredol net** | | **446.9** | 736.1 | **314.7** | 670.8 |
| **Cyfanswm yr asedion llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **1,391.6** | 1,640.9 | **1,187.2** | 1,490.8 |
| **Credydwyr – symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | 16 | **(159.4)** | (102.5) | **(56.2)** | (46.1) |
| **Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau** | 17 | **(72.0)** | (82.6) | **(64.3)** | (74.6) |
| **Asedion net ac eithrio ased a rhwymedigaeth pensiwn** | | **1,160.2** | 1,455.8 | **1,066.7** | 1,370.1 |
| Ased pensiwn | 8 | **–** | 965.0 | **–** | – |
| Rhwymedigaeth pensiwn | 8 | **(1,074.5)** | (3.9) | **–** | – |
| **Asedion net** | | **85.7** | 2,416.9 | **1,066.7** | 1,370.1 |
| **Wedi eu cynrychioli gan** | | | | | |
| Cronfa weithredol wrth gefn ac eithrio ased a rhwymedigaeth pensiwn | 18 | **296.0** | 646.2 | **203.0** | 561.1 |
| Cronfa bensiwn wrth gefn | 18 | **(1,074.5)** | 961.1 | **–** | – |
| Cronfa weithredol wrth gefn | | **(778.5)** | 1,607.3 | **203.0** | 561.1 |
| Cronfa gyfalaf wrth gefn | 18 | **858.1** | 802.6 | **858.1** | 802.6 |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | 18 | **5.6** | 6.4 | **5.6** | 6.4 |
| | | **85.2** | 2,416.3 | **1,066.7** | 1,370.1 |
| Buddiannau lleiafrifol | | **0.5** | 0.6 | **–** | – |
| | | **85.7** | 2,416.9 | **1,066.7** | 1,370.1 |

Mae'r BBC wedi ymuno â rhai cyd-fentrau penodol gyda Flextech a Discovery Communications Inc. ond nid oes ganddo unrhyw ymrwymiad i dalu ei gyfran o'r rhwymedigaethau net a ddaeth ar 31 Mawrth 2003 i gyfanswm o £62.9 miliwn (2002 £82.5 miliwn). Nid yw'r rhwymedigaethau hyn wedi eu cynnwys yn y datganiadau ariannol (gweler Nodyn 13d).

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan y Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Gweithredol ar 19 Mehefin 2003 ac fe'u llofnodwyd ar eu rhan gan:

**Gavyn Davies** *Cadeirydd*
**Greg Dyke** *Cyfarwyddwr Cyffredinol*
**John Smith** *Cyfarwyddwr Cyllid, Eiddo a Materion Busnes*

# Datganiad llif arian parod cyfunol

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth

| | Nodyn | **2003 £m** | 2002 £m |
|---|---|---|---|
| **(All-lif)/mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredol** | 19 | **(68.3)** | 217.5 |
| **Difidendau a dderbyniwyd o gyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt** | | **1.3** | 1.1 |
| **Adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | **11.5** | 24.9 |
| Llog a dalwyd | | **(2.0)** | (2.8) |
| Llog a dalwyd ar brydlesau cyllid | | **(0.2)** | – |
| **Mewnlif arian parod net o'r adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | **9.3** | 22.1 |
| **Trethiant** | | | |
| Trethiant a dalwyd | | **(12.9)** | (13.9) |
| **Gwariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol** | | | |
| Prynu asedion sefydlog cyffyrddadwy | | **(179.9)** | (194.2) |
| Buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol | | **(85.5)** | (83.2) |
| Buddsoddi mewn asedion sefydlog anghyffyrddadwy | | **(2.7)** | (8.7) |
| Enillion o werthu buddsoddiadau | | **–** | 0.6 |
| Enillion o werthu buddsoddiadau mewn rhaglenni | | **0.4** | 5.9 |
| Enillion o werthu asedion sefydlog cyffyrddadwy | | **5.4** | 46.8 |
| **All-lif arian parod net o wariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol** | | **(262.3)** | (232.8) |
| **Caffaeliadau a gwarediadau** | | | |
| Prynu is-gwmni net o'r gorddrafftiau a gaffaelwyd | | **–** | (9.1) |
| Buddsoddiadau mewn cyd-fentrau | | **(1.2)** | (11.4) |
| Enillion o werthu a therfynu gweithrediadau | | **3.2** | 9.0 |
| Enillion o waredu buddiannau mewn cyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt | | **0.1** | – |
| **Mewnlif/(all-lif) arian parod net o gaffaeliadau a gwarediadau** | | **2.1** | (11.5) |
| **All-lif arian parod net cyn defnyddio adnoddau rhydd ac ariannu** | | **(330.8)** | (17.5) |
| **Rheoli adnoddau rhydd** | | | |
| Arian parod net a godwyd o'r adneuon | | **–** | 15.0 |
| Gwerthu/(prynu) adnoddau rhydd eraill | 20 | **291.9** | (103.4) |
| **Mewnlif/(all-lif) arian parod net o reoli adnoddau rhydd** | | **291.9** | (88.4) |
| **Ariannu** | | | |
| Benthyciadau newydd | 20 | **85.0** | 10.3 |
| Ad-dalu benthyciadau | 20 | **(25.9)** | – |
| Ad-dalu prydlesau cyllid | | **(21.2)** | – |
| Ad-dalu nodiadau benthyca | 20 | **(0.5)** | – |
| **Mewnlif arian parod net o ariannu** | | **37.4** | 10.3 |
| **Gostyngiad mewn arian parod yn ystod y flwyddyn** | 20,21 | **(1.5)** | (95.6) |

# Datganiad cyfunol o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth

| | Nodyn | 2003 £m | 2002 £m |
|---|---|---|---|
| Diffyg y grŵp am y flwyddyn ariannol | | **(314.6)** | (15.9) |
| Gwahaniaethau cyfnewid wrth aildrosi is-gwmnïau tramor | | **(3.1)** | 0.5 |
| Colled actiwaraidd ar gynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig | 8 | **(2,013.4)** | (725.4) |
| **Cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig sy'n berthnasol i'r flwyddyn** | | **(2,331.1)** | (740.8) |

# Cysoni symudiad mewn cronfeydd wrth gefn

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth

| | Grŵp 2003 £m | Grŵp 2002 £m | UK Public Service Broadcasting 2003 £m | UK Public Service Broadcasting 2002 £m |
|---|---|---|---|---|
| Diffyg am y flwyddyn ariannol | **(314.6)** | (15.9) | **(303.4)** | (9.3) |
| Enillion a cholledion cydnabyddedig eraill sy'n berthnasol i'r flwyddyn (net) | **(2,016.5)** | (724.9) | **–** | – |
| Gostyngiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn | **(2,331.1)** | (740.8) | **(303.4)** | (9.3) |
| Cronfeydd agoriadol wrth gefn | **2,416.3** | 3,157.1 | **1,370.1** | 1,379.4 |
| **Cronfeydd terfynol wrth gefn** | **85.2** | 2,416.3 | **1,066.7** | 1,370.1 |

# Datganiad o bolisïau cyfrifo

**Mae'r adran hon yn esbonio prif bolisïau cyfrifo'r BBC, a gymhwyswyd yn gyson trwy gydol y flwyddyn, a'r flwyddyn flaenorol, oni nodir yn wahanol. Ceir ôl-nodyn mewn italig ar ôl rhai polisïau isod sy'n esbonio mewn iaith syml yr agweddau technegol ar y driniaeth gyfrifo.**

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â darpariaethau Siarter a Chytundeb y BBC. Er nad yw'n orfodol, mae'r BBC wedi dewis dilyn darpariaethau cyfrifo a datgelu Deddf Cwmnïau 1985, safonau cyfrifo y DU sy'n berthnasol a rheolau Awdurdod Rhestru'r DU er mwyn sicrhau bod ei ddatganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail sy'n gyson â chwmnïau cyfyngedig cyhoeddus y DU. Yn unol â chwmnïau eraill, mae'r BBC yn cofnodi datganiadau ariannol archwiliedig gyda Thŷ'r Cwmnïau ar gyfer ei holl is-gwmnïau.

**Sail y cyfrifo**
Cyflwynir y datganiadau ariannol o dan y confensiwn cyfrifo cost hanesyddol fel y'i diwygiwyd trwy ailbrisio peiriannau, dodrefn a ffitiadau penodol.

**Sail y cyfuno**
Mae Grŵp y BBC yn cynnwys

- UK Public Service Broadcasting a'r is-gwmnïau hynny a ymgorfforir i weithredu ar ei ran yn unig (sef Centre House Productions Limited, BBC Property Limited a BBC Property Investments Limited),
- BBC World Service (a'i is-gwmnïau)
- Is-gwmnïau masnachol yn cynnwys BBC Resources Limited a BBC Commercial Holdings Limited a'i is-gwmnïau amrywiol (sef BBC Worldwide Group, BBC World Group a BBC Ventures Group).

Oni nodir fel arall, mabwysiadwyd y dull caffael o gyfrifo. O dan y dull hwn, cynhwysir canlyniadau'r is-gwmnïau a gaffaelwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn yn y datganiad cyfunol o incwm a gwariant o'r dyddiad caffael neu hyd at y dyddiad gwaredu.

Mae partner cyswllt yn ymrwymiad lle y mae gan y Grŵp fuddiant hir dymor, fel arfer rhwng 20% a 50% o'r hawliau pleidleisio ecwiti, ac y mae ganddo ddylanwad sylweddol arno. Ystyr cyd-fenter yw ymrwymiad lle y mae gan y Grŵp fuddiant hir dymor a lle y gweithreda reolaeth ar y cyd. Cynhwysir cyfran y Grŵp o elw llai colledion cwmnïau cyswllt a chyd-fentrau yn y datganiad cyfunol o incwm a gwariant a chynhwysir ei fuddiant yn eu hasedion net yn y fantolen gyfunol.

Ni chyflwynwyd cyfrif incwm a gwariant ar wahân yn adlewyrchu canlyniadau UK Public Service Broadcasting fel y caniateir yn ôl Adran 230 Deddf Cwmnïau 1985.

*Mae cyfrifon Grŵp y BBC yn cynnwys canlyniadau UK Public Service Broadcasting, BBC World Service a phob busnes a reolir gan y BBC (is-gwmnïau) ynghyd â chyfran y BBC o ganlyniadau busnesau lle mae gan y BBC ddylanwad ond nid rheolaeth drostynt (partneriaethau cyswllt) a'r rheini y mae'r BBC yn eu rheoli ar y cyd (cyd-fentrau).*

**Buddsoddiadau**
Cofnodir buddsoddiadau ar fantolen UK Public Service Broadcasting ar gost llai darpariaeth ar gyfer unrhyw ostyngiad yn y gwerth. Mae ariannu UK Public Service Broadcasting a BBC World Service yn gyfreithiol ar wahân ac ni chaniateir rhoi croesgymorthdaliadau. Yn unol â hyn, at ddibenion paratoi mantolen UK Public Service Broadcasting, ystyrir bod gan UK Public Service Broadcasting fuddsoddiad yn BBC World Service sy'n gyfartal ag asedion net BBC World Service.

**Incwm**
Mae incwm, sy'n eithrio treth ar werth, gostyngiadau masnachol a gwerthiannau rhwng cwmnïau'r Grŵp, yn cynnwys y dosbarthiadau allweddol canlynol o refeniw, a gydnabyddir fel a ganlyn:

- **Trwyddedau teledu**
  Mae incwm sy'n deillio o drwyddedau teledu, sy'n dderbyniadwy gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn cynrychioli gwerth trwyddedau a ddosbarthwyd yn ystod y flwyddyn. Ni all y swm y gellir ei dalu mewn arian parod i'r BBC am unrhyw un flwyddyn fod yn fwy na chyfanswm yr hyn y pleidleisiwyd arno gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn honno. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng gwerth y trwyddedau a ddosbarthwyd a'r swm y pleidleisiwyd arno ei addasu yn swm yr arian parod a dderbynnir yn y flwyddyn ganlynol. Caiff unrhyw symiau nas talwyd i'r BBC eu cynnwys o dan ddyledwyr.
- **Grant-mewn-Cymorth gan y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad**
  Bwriedir i incwm BBC World Service, sy'n deillio'n bennaf o Grant-mewn-Cymorth gan y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad, dalu am y gwariant amcangyfrifedig yn ystod y flwyddyn ond nid yw derbynebion am y flwyddyn nas gwariwyd, o fewn terfynau a nodwyd ymlaen llaw, yn agored i gael eu hildio.
- **Darparu offer, cyfleusterau a gwasanaethau**
  Ac eithrio contractau hir dymor, cydnabyddir incwm pan ddarperir yr offer, y cyfleusterau a'r gwasanaethau i gwsmeriaid.

  Ar gyfer contractau hir dymor, cydnabyddir swm yr elw y gellir ei briodoli i'r cam cwblhau pan ellir rhagweld canlyniad y contract gyda chryn sicrwydd. Nodir trosiant ar gyfer contractau o'r fath ar y gost sy'n briodol i'w cam cwblhau ynghyd ag elw priodoladwy, llai symiau a gydnabyddir mewn blynyddoedd blaenorol. Gwneir darpariaeth ar gyfer unrhyw golledion cyn gynted ag y'u rhagwelir.
- **Darparu cyfleusterau a gwasanaethau gwneud rhaglenni** – cydnabyddir wrth ddarparu gwasanaeth
- **Ffioedd y drwydded yn sgîl dosbarthu cyd-gynyrchiadau** – cydnabyddir naill ai wrth gyflwyno hawliau neu ar ddechrau cyfnod y drwydded, p'un bynnag sydd hwyraf
- **Dosbarthu rhaglenni ac incwm y sianel** – cydnabyddir wrth ddarparu gwasanaeth
- **Gwerthu nwyddau hysbysebol** – cydnabyddir wrth eu darparu

*Mae'r gwahaniaeth rhwng yr amrywiol ffynonellau incwm yn bwysig. Mae'r BBC yn ofalus i beidio â rhoi croesgymorthdaliadau i weithgareddau masnachol, gweithgareddau UK Public Service neu weithgareddau BBC World Service. Ceir rhagor o wybodaeth ar ofynion a pholisïau masnachu teg y BBC ar dudalennau 68 i 71 yr adroddiad hwn.*

**Trosi arian cyfred tramor**
Trosir trafodion mewn arian cyfred tramor yn sterling ar y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion hynny.

Trosir asedion a rhwymedigaethau ariannol mewn arian cyfred tramor yn sterling ar y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar 31 Mawrth neu ar flaen-gyfraddau pan fydd contractau rhagfantoli perthnasol yn eu lle. Cynhwysir gwargedau a diffygion sy'n codi o drosi asedion a rhwymedigaethau ar y cyfraddau cyfnewid hyn,

# Datganiad o bolisïau cyfrifo

ynghyd â gwahaniaethau cyfnewid sy'n codi yn sgîl masnachu, yn y datganiad o incwm a gwariant.

Trosir cyfrifon elw a cholled a llif arian is-gwmnïau tramor yn sterling ar y cyfraddau cyfartalog ar gyfer y flwyddyn. Cymerir gwahaniaethau cyfnewid, sy'n codi wrth gyfuno pan gaiff asedion net agoriadol is-gwmnïau tramor ac unrhyw fenthyciadau arian cyfred tramor hir dymor eu haildrosi, yn uniongyrchol i'r gronfa weithredol wrth gefn, ynghyd â'r gwahaniaethau sy'n deillio o aildrosi'r cyfrifon elw a cholled ar y cyfraddau sydd mewn grym ar ddiwedd y flwyddyn. Cymerir gwahaniaethau cyfnewid eraill i'r datganiad o incwm a gwariant.

*Gan fod y datganiadau ariannol hyn yn cael eu paratoi mewn sterling, mae'n rhaid trosi trafodion a balansau arian cyfred tramor y BBC, ar gyfraddau cyfnewid priodol, yn sterling. Mae'r polisi hwn yn nodi sut y cynhwysir yr enghreifftiau hynny o aildrosi yn y datganiadau ariannol ac mae'n gyson â'r dulliau a ddefnyddir gan lawer o gwmnïau.*

**Costau pensiwn**
Mae'r BBC yn gweithredu cynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig a chyfraniadau diffiniedig er budd y cyflogeion.

Mae'r symiau a godir fel gwariant am y cynllun cyfraniadau diffiniedig yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy gan y BBC ar gyfer y cyfnodau cyfrifo mewn perthynas â'r cynllun hwn.

Mae'r cynlluniau buddiannau diffiniedig, y mae'r mwyafrif o'r staff yn aelodau ohonynt, yn darparu buddiannau yn seiliedig ar y cyflog pensiynadwy terfynol. Codir tâl y symiau ar y gwariant er mwyn lledaenu cost y pensiynau dros fywyd gwaith y cyflogeion gyda'r BBC. Delir asedion prif gynllun y BBC ar wahân i rai'r Grŵp.

Mae UK Public Service Broadcasting a'i ymgymeriadau is-gwmnïau wedi manteisio ar y darpariaethau a gynhwysir yn FRS 17, *Retirement benefits,* ac yn rhoi cyfrif ar gyfer y cynllun fel pe bai yn gynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae hyn oherwydd bod y cynllun pensiwn wedi ei reoli'n ganolog ar draws y Grŵp cyfan ac nid yw'n bosibl dyrannu asedion a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun ar sail resymol a chyson. Felly bydd y tâl a godir ar wariant o dan FRS 17 ar gyfer UK Public Service Broadcasting a'i ymgymeriadau is-gwmnïau yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy yn y flwyddyn.

*Ar eu hymddeoliad, telir pensiynau aelodau prif gynllun pensiwn y BBC o gronfa a gedwir ar wahân i Grŵp y BBC. Mae'r BBC yn gwneud cyfraniadau arian parod i'r gronfa honno cyn i'r aelodau ymddeol.*

**Ymchwil a datblygiad**
Dilëir gwariant ymchwil a datblygiad wrth iddo gael ei wario.

**Asedion sefydlog anghyffyrddadwy**
Ewyllys da
Caiff ewyllys da a brynir sy'n codi wrth gaffael is-gwmni neu fusnes (gan gynrychioli gormodedd gwerth teg yr ystyriaeth brynu ynghyd ag unrhyw gostau caffael cysylltiedig dros y gwerth teg sy'n briodoladwy i'r asedion net gwahanadwy a gaffaelwyd) ei gyfalafu a'i amorteiddio dros ei fywyd economaidd defnyddiol. Wrth waredu neu derfynu busnes wedi hynny, cyfrifir y gwarged neu'r diffyg ar ôl codi tâl ar unrhyw ewyllys da cysylltiedig heb ei amorteiddio. Fel y caniateir gan FRS 10, *Goodwill and intangible assets*, mae ewyllys da sy'n codi mewn cyfnodau hyd at 1 Ebrill 1998 yn parhau i wrthbwyso yn erbyn y gronfa weithredol wrth gefn. Wrth waredu, caiff ewyllys da a ddilëwyd yn flaenorol yn erbyn cronfeydd wrth gefn ei drosglwyddo i'r datganiad o incwm a gwariant am y flwyddyn.

Hawliau eiddo deallusol
Caiff hawliau eiddo deallusol a brynir eu cyfalafu a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros fywyd defnyddiol disgwyliedig yr asedion.

**Asedion sefydlog cyffyrddadwy**
Caiff gwariant ar asedion sefydlog ei gyfalafu ynghyd â chostau llafur uniongyrchol mewnol a chronedig a wariwyd ar brojectau cyfalaf.

Cyfrifir dibrisiant er mwyn dileu cost neu brisiad, llai gwerth gweddilliol amcangyfrifedig asedion sefydlog ar sail llinell syth drwy gydol eu bywydau defnyddiol disgwyliedig. Mae dibrisiant yn cychwyn o'r dyddiad y bydd ased yn dechrau gwasanaethu.

At ddibenion dibrisio, bywydau defnyddiol y BBC ar gyfer y prif gategorïau o asedion yw:

| | |
|---|---|
| **Tir ac adeiladau** | |
| Tir rhydd-ddaliad | – dim dibrisiant |
| Adeiladau rhydd-ddaliad ac adeiladau ar brydles hir | – hanner can mlynedd |
| Tir ac adeiladau ar brydles fer | – tymor prydles annarfodedig |
| **Offer a pheiriannau** | |
| Offer cyfrifiadurol | – tair i bum mlynedd |
| Seilwaith trydanol a mecanyddol | – deng mlynedd i bum mlynedd ar hugain |
| Arall | – tair i ddeng mlynedd |
| **Dodrefn a ffitiadau** | – tair i ddeng mlynedd |

Nodir offer a pheiriannau UK Public Service Broadcasting ar gost adnewyddu gyfredol amcangyfrifedig yr asedion, ar 31 Mawrth 1993, wedi'i haddasu ar gyfer parhad eu defnydd, neu'r gost os cawsant eu caffael ar ôl hynny, llai dibrisiant cronedig.

Nodir offer a pheiriannau a dodrefn a ffitiadau BBC World Service ar gost adnewyddu gyfredol amcangyfrifedig yr asedion, ar 1 Ebrill 1996, fel y'i haddaswyd ar gyfer parhad eu defnydd neu'r gost os cawsant eu caffael ar ôl hynny, llai dibrisiant cronedig.

Nid oes unrhyw wahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net yr asedion sefydlog cyffyrddadwy hyn a'u gwerth fel y'u pennwyd ar sail cost hanesyddol.

*Mae'r BBC wedi ailbrisio ei asedion unwaith, pan gyflwynwyd y farchnad fewnol, ond dewisodd beidio ag ailbrisio ei asedion cyffyrddadwy ar sail barhaus. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y'u defnyddir o fewn y BBC yn hytrach na chael eu cadw ar gyfer eu hailwerthu neu oherwydd eu potensial buddsoddi. Felly cynhwysir asedion ar y swm yr oeddynt wedi'i gostio pan gawsant eu prynu neu eu hadeiladu (yn y naill achos neu'r llall llai dibrisiant dilynol).*

**Buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol**
Caiff buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol ei nodi ar gost, ar ôl dileu costau rhaglenni a ystyrir yn anadferadwy, llai amorteiddiad cronedig. Codir tâl am amorteiddio buddsoddiadau mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol ar y cyfrif incwm a gwariant dros fywyd marchnadadwy amcangyfrifedig genre y rhaglen ar gyfartaledd sydd fel arfer rhwng dwy flynedd a deng mlynedd. Gostyngir cost ac amorteiddiad cronedig buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol gan raglenni a ddilëir yn llwyr.

*Codir tâl am gost y rhaglenni sydd ar werth ar y cyfrif incwm a gwariant i gyfateb ag amseriad disgwyliedig incwm yn sgîl gwerthiannau yn y dyfodol.*

**Stociau o raglenni gwreiddiol a gynhyrchwyd yn fewnol a gwaith sy'n mynd rhagddo**
Caiff stociau o raglenni gwreiddiol a gynhyrchwyd yn fewnol a gwaith sy'n mynd rhagddo, gan gynnwys y rheini a gomisiynwyd gan gynhyrchwyr annibynnol, eu datgan ar yr isaf o'r gost a'r gwerth sylweddoladwy net. Ac eithrio costau ailddarlledu rhaglenni annibynnol rhagdaledig, dilëir gwerth llawn y stoc wrth ddarlledu am y tro cyntaf.

Mae'r gost yn cynnwys yr holl gostau uniongyrchol, gorbenion cynhyrchu a chyfran o orbenion priodoladwy eraill.

Mae'r gwerth sylweddoladwy net yn seiliedig ar brisiau contract hyd braich a gyd-drafodir rhwng rheolwyr y sianel a'r gwneuthurwyr rhaglenni.

**Stociau o raglenni a ffilmiau a gaffaelwyd**
Dilëir costau stociau o raglenni a ffilmiau a gaffaelwyd ar eu darllediad cyntaf ac eithrio i'r graddau bod darllediadau ychwanegol yn debygol yn y dyfodol agos, pan gânt eu dileu yn unol â'u proffil darlledu disgwyliedig.

Cydnabyddir asedion a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â rhaglenni a gaffaelwyd ar adeg talu neu gychwyn cyfnod y drwydded, p'un bynnag a ddaw gyntaf. Datgelir cytundebau ar gyfer prynu rhaglenni yn y dyfodol nad yw eu cyfnod trwydded wedi cychwyn a phan na thalwyd erbyn dyddiad y fantolen fel ymrwymiadau prynu.

**Stociau eraill**
Nodir deunyddiau crai a stociau ffisegol eraill ar yr isaf o'r gost a'r gwerth sylweddoladwy net.

**Treth ohiriedig**
Cyfrifir treth ohiriedig o dan y dull rhwymedigaeth. Gwneir darpariaeth lawn, heb ddisgowntio, mewn perthynas â gwahaniaethau amseru rhwng eitemau penodol yn y datganiadau ariannol a'r modd y cânt eu trin at ddibenion trethiant ar ddyddiad y fantolen ac eithrio fel sy'n ofynnol fel arall gan FRS 19, *Deferred tax.* Cydnabyddir asedion treth ohiriedig i'r graddau yr ystyrir eu bod yn fwy tebygol o gael eu hadfer na pheidio.

*Treth gorfforaeth yw treth ohiriedig nad yw'n daladwy ar adeg benodol ond y disgwylir iddi gael ei thalu yn y dyfodol.*

**Prydlesau gweithredol**
Dilëir rhenti prydlesau gweithredol ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

*Prydles lle nad yw'r prydlesai wedi ymrwymo i'r risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar yr ased a'i weithredu yw prydles weithredol. Nid yw'r prydlesai – y BBC – wedi caffael ased ond mae'n ei logi, felly cynhwysir y tâl llogi yng nghostau'r BBC.*

**Prydlesau cyllid**
Cynhwysir asedion a gaffaelwyd o dan brydlesau cyllid o fewn asedion sefydlog ar gyfanswm y taliadau prydles sy'n ddyledus dros fywyd y brydles wedi'i ostwng ar gyfradd y llog sy'n gynhenid yn y brydles. Cynhwysir yr un swm o dan gredydwyr. Dosrennir taliadau rhent rhwng yr elfen ariannol, y codir tâl amdani ar y cyfrif incwm a gwariant, a'r elfen gyfalaf, sy'n lleihau credydwr y brydles.

*Prydles sy'n trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a'r manteision o fod yn berchen ar ased a'i weithredu i'r prydlesai yw prydles gyllid. Mewn gwirionedd, y prydlesai sy'n berchen ar yr ased ac mae wedi ei ariannu drwy fenthyg, felly caiff yr ased a'r benthyciad eu cynnwys ar wahân yn y fantolen.*

**Cronfeydd wrth gefn**
Mae gwerth y gronfa gyfalaf yn gyfwerth â gwerth llyfr net cyfunol asedion sefydlog UK Public Service Broadcasting a BBC World Service ar gost hanesyddol.

Mae'r gronfa ailbrisio wrth gefn yn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr net asedion sefydlog UK Public Service Broadcasting a BBC World Service ar gost hanesyddol o'i gymharu â'u swm wedi'i ailbrisio.

Gwarged cronedig y cyfrif incwm a gwariant hyd yn hyn yw'r gronfa weithredol wrth gefn.

*Mae'r BBC yn ofalus i beidio â chymysgu cronfeydd wrth gefn UK Public Service Broadcasting a BBC World Service. O ganlyniad, dangosir cronfeydd wrth gefn BBC World Service ar wahân yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.*

**Arian parod ac adnoddau rhydd**
Mae arian, at ddibenion y datganiad llif arian, yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuon sy'n ad-daladwy ar orchymyn, llai gorddrafftiau sy'n daladwy ar orchymyn. Buddsoddiadau asedion cyfredol yw adnoddau rhydd y gellir eu trosi'n hawdd yn symiau hysbys o arian parod ar eu gwerthoedd cario neu'n agos atynt neu'n adnoddau rhydd y gellir eu masnachu mewn marchnad weithredol. Mae adnoddau rhydd yn cynnwys adneuon banc nad ydynt yn ad-daladwy ar orchymyn a buddsoddiadau tymor byr eraill sy'n cynnwys giltiau, tystysgrifau adneuon a phapur masnachol.

**Offerynnau ariannol**
Nid yw'r Grŵp yn ymrwymo i gontractau deilliadol hapfasnachol. Ymrwymir i rai contractau rhagfantoli er mwyn cyfyngu ar amlygiad y Grŵp i amrywiadau mewn arian cyfred tramor (eglurir y driniaeth gyfrifo ar gyfer y contractau hyn yn y polisi cyfrifo trosi arian cyfred tramor).

Datgelir benthyciadau ac asedion a rhwymedigaethau ariannol eraill y Grŵp yn Nodyn 23 i'r datganiadau ariannol.

# Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Mae Nodyn 1 yn darparu dadansoddiad o'r meysydd busnes gwahanol o fewn y BBC.

Mae Grŵp UK Public Service Broadcasting (y cyfeirir ato fel 'Home Services' yn Siarter y BBC) yn cynnwys gweithrediadau darlledu cyhoeddus y DU a'r is-gwmnïau a ymgorfforir i weithredu ar ran y gweithrediadau cyhoeddus hynny yn unig.

Mae BBC World Service yn cynnwys gweithgareddau BBC World Service a ariennir gan y Llywodraeth a gweithgareddau monitro'r cyfryngau.

Mae Busnesau Masnachol yn cynnwys busnesau sy'n cynhyrchu incwm allanol wrth fanteisio ar raglenni'r BBC, asedion eraill a'r cyflenwad o sgiliau.

## 1 Dadansoddiad o incwm, (diffyg)/gwarged ac asedion net

### 1a Dadansoddiad o incwm, (diffyg)/gwarged ac asedion net yn ôl gweithgaredd

| | *Nodyn* | Grŵp UK Public Service Broadcasting £m | BBC World Service £m | Busnesau Masnachol £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| **2003** | | | | | |
| **Cyfanswm yr incwm** | | 2,797.3 | 224.2 | 1,144.0 | **4,165.5** |
| **Llai: Incwm mewnol y Grŵp** | | (116.1) | (0.5) | (437.4) | **(554.0)** |
| **Llai: Cyfran y cyd-fentrau** | | – | – | (79.5) | **(79.5)** |
| **Incwm allanol y Grŵp** | *1b,d,g* | **2,681.2** | **223.7** | **627.1** | **3,532.0** |
| **(Diffyg)/gwarged cyn llog a threthiant** | *1e* | (331.1) | 7.9 | 41.3 | **(281.9)** |
| **Cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig** | | | | | |
| **– costau gweithredol ychwanegol*†** | | | | | **(136.5)** |
| **– incwm ariannu arall*** | | | | | **114.3** |
| **Llog net i'w dderbyn** | | | | | **5.1** |
| **Diffyg cyn trethiant a buddiannau lleiafrifol** | | | | | **(299.0)** |
| **Asedion net (ac eithrio rhwymedigaeth pensiwn)** | | 771.6 | 142.8 | 245.8 | **1,160.2** |
| **Rhwymedigaeth pensiwn*** | | | | | **(1,074.5)** |
| **Asedion net** | | | | | **85.7** |
| **2002** | | | | | |
| Cyfanswm yr incwm | | 2,698.2 | 211.1 | 1,017.2 | 3,926.5 |
| Llai: Incwm mewnol y Grŵp | | (130.3) | (0.4) | (331.3) | (462.0) |
| Llai: Cyfran o gyd-fentrau | | – | – | (81.6) | (81.6) |
| Incwm allanol Grŵp | *1b,d,g* | 2,567.9 | 210.7 | 604.3 | 3,382.9 |
| (Diffyg)/gwarged cyn llog a threthiant | *1e* | (30.8) | 9.4 | 20.3 | (1.1) |
| Cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig | | | | | |
| – costau gweithredol ychwanegol*† | | | | | (151.5) |
| – incwm cyllid arall* | | | | | 133.9 |
| Llog net i'w dderbyn* | | | | | 21.6 |
| Gwarged cyn trethiant a buddiannau lleiafrifol | | | | | 2.9 |
| Asedion net (ac eithrio ased a rhwymedigaeth pensiwn) | | 1,083.7 | 134.3 | 237.8 | 1,455.8 |
| Ased pensiwn (net)* | | | | | 961.1 |
| Asedion net | | | | | 2,416.9 |

** Fel y caniateir gan FRS 17 ni rennir yr eitemau hyn rhwng dosbarthiadau busnes gan y'u rheolir yn ganolog ar draws y Grŵp cyfan ac nid yw'n bosibl eu dyrannu ar sail ddibynadwy a rhesymol*

*† Cynhwysir cyfraniad arian parod gwirioneddol y cyflogwr i'r cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yn y (diffyg)/gwarged cyn llog a threthiant ar gyfer pob endid. Y gost weithredol ychwanegol yw'r gost i'r Grŵp sy'n fwy na'r cyfraniadau arian parod hyn*

## 1b Incwm Grŵp UK Public Service Broadcasting

Mae'r incwm o drwyddedau yn cynrychioli gwerth pob trwydded a ddosbarthwyd yn ystod y flwyddyn.

Mae incwm ac addasiadau eraill sy'n ymwneud â ffi'r drwydded yn cynnwys effaith trwyddedau, flwyddyn ar ôl blwyddyn, a ddosbarthwyd yn ystod y flwyddyn ond nad ydynt mewn grym ar 31 Mawrth naill ai o ganlyniad i adnewyddu hwyr neu gynnar neu drwy ad-daliadau.

Mae incwm arall yn cynnwys darparu cynnwys a gwasanaethau i ddarlledwyr dramor, tocynnau cyngherddau a werthir a defnyddio'r archif rhaglenni.

| Incwm o ffi'r drwydded | **2003 £m** | 2002 £m |
|---|---|---|
| Lliw | **2,271.3** | 2,164.3 |
| Du a gwyn | **2.8** | 3.4 |
| Consesiynol | **0.9** | 0.8 |
| Pobl sydd dros 75 oed | **370.9** | 350.0 |
| Premiwm cynllun talu chwarterol | **15.9** | 16.3 |
| Incwm ac addasiadau eraill sy'n ymwneud â ffi'r drwydded | **(3.3)** | (1.8) |
| Cyfanswm yr incwm o ffi'r drwydded | **2,658.5** | 2,533.0 |
| Y Brifysgol Agored | **0.1** | 7.7 |
| Incwm arall | **22.6** | 27.2 |
| Cyfanswm yr incwm allanol | **2,681.2** | 2,567.9 |

Yn ystod y flwyddyn dosbarthwyd 3.2 miliwn (2002 3.3 miliwn) o drwyddedau lliw o dan y cynllun talu chwarterol ar bremiwm o £5 yr un (2002 £5).

Trwyddedau mewn grym yw'r rhai sy'n ddilys o hyd ar 31 Mawrth bob blwyddyn.

| Trwyddedau mewn grym | **2003 Nifer m** | 2002 Nifer m |
|---|---|---|
| Lliw | **20.1** | 19.9 |
| Du a gwyn | **0.1** | 0.1 |
| Pobl sydd dros 75 oed | **3.7** | 3.6 |
| Consesiynol | **0.2** | 0.2 |
| | **24.1** | 23.8 |

Mae gan gartrefi lle mae un neu ragor o bobl dros 75 oed yn byw ynddynt, fel eu prif breswylfa, yr hawl i gael trwydded am ddim. Ad-delir y BBC am y trwyddedau am ddim hyn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Pennir ffi'r drwydded gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

| Ffi'r drwydded | **2003 £** | 2002 £ |
|---|---|---|
| Lliw | **112.00** | 109.00 |
| Du a gwyn | **37.50** | 36.50 |
| Consesiynol | **5.00** | 5.00 |

O 1 Ebrill 2003, cynyddwyd y ffioedd trwyddedau lliw a du a gwyn i £116 a £38.50 yn y drefn honno. Parhaodd y drwydded gonsesiynol ar £5.

## 1c Dadansoddiad daearyddol o Grŵp UK Public Service Broadcasting

Mae incwm a gwarged Grŵp UK Public Service Broadcasting yn codi yn y DU. Lleolir yr asedion net a ddefnyddir gan y gweithrediadau hyn yn y DU.

## 1d Incwm BBC World Service

Cynhyrchir incwm arall o werthu rhaglenni, cytundebau cyd-gynhyrchu, gweithgareddau cyhoeddi a darparu gwasanaethau monitro'r cyfryngau.

| | **2003 £m** | 2002 £m |
|---|---|---|
| Grant-mewn-Cymorth | **201.0** | 187.9 |
| Tanysgrifiadau | **16.1** | 15.6 |
| Incwm arall | **6.6** | 7.2 |
| Cyfanswm yr incwm allanol | **223.7** | 210.7 |

## 1e Gwarged BBC World Service cyn llog a threthiant yn ôl gweithgaredd

| | **2003 £m** | 2002 £m |
|---|---|---|
| Darlledu | **6.5** | 8.6 |
| Monitro'r BBC | **1.4** | 0.8 |
| Cyfanswm y gwarged cyn llog a threthiant | **7.9** | 9.4 |

### 1f Dadansoddiad daearyddol o BBC World Service

Mae incwm a gwarged BBC World Service yn codi yn y DU.

| Lleoliad asedion net BBC World Service: | 2003 £m | 2002 £m |
|---|---|---|
| DU | **56.1** | 50.2 |
| Tramor | **86.7** | 84.1 |
| Asedion net | **142.8** | 134.3 |

### 1g Dadansoddiad o incwm Busnesau Masnachol yn ôl gweithgaredd

| | 2003 £m | 2002 £m |
|---|---|---|
| Cyhoeddi a chyfryngau newydd | **338.0** | 331.7 |
| Dosbarthu rhaglenni | **168.8** | 172.3 |
| Sianelau | **79.0** | 71.8 |
| Darparu gwasanaethau darlledu a rheoli sianelau | **98.3** | – |
| Darparu cyfleusterau a gwasanaethau gwneud rhaglenni | **157.7** | 148.9 |
| Darparu gwasanaethau technoleg | **222.1** | 208.5 |
| beeb Ventures Limited | **0.6** | 2.4 |
| Llai incwm mewnol y Grŵp | **(437.4)** | (331.3) |
| Cyfanswm yr incwm allanol | **627.1** | 604.3 |

Darparwyd gwasanaethau darlledu a rheoli sianelau gan un o is-adrannau mewnol UK Public Service Broadcasting yn 2002. Ar 2 Ebrill 2002 trosglwyddodd y dasg o ddarparu'r gwasanaethau hyn i BBC Broadcast Limited.

Dengys y tabl hwn lle y lleolir cwsmeriaid Busnesau Masnachol y BBC.

### 1h Dadansoddiad daearyddol o Fusnesau Masnachol

| | Y Deymas Unedig £m | Yr Americas £m | Gweddill y byd £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| **2003** | | | | |
| **Incwm yn ôl cyrchfan** | **370.0** | **112.0** | **145.1** | **627.1** |
| **Gwarged/(diffyg) cyn llog a threthiant** | **31.6** | **(2.5)** | **12.2** | **41.3** |
| **Asedion net** | **208.1** | **37.4** | **0.3** | **245.8** |
| 2002 | | | | |
| Incwm yn ôl cyrchfan | 348.6 | 110.5 | 145.2 | 604.3 |
| Gwarged cyn llog a threthiant | 6.9 | 0.7 | 12.7 | 20.3 |
| Asedion net | 195.4 | 42.4 | – | 237.8 |

Mae'r holl incwm masnachol yn codi yn y DU gan mai dyma lle y datblygir hawliau ymelwa a sgiliau a gwasanaethau Busnesau Masnachol.

## 2 Gwariant gweithredol

### 2a Dadansoddiad o wariant gweithredol yn ôl gweithgaredd

| | Nodyn | Cyfanswm 2003 £m | Cyfanswm 2002 £m |
|---|---|---|---|
| Grŵp UK Public Service Broadcasting | 2b | **2,999.4** | 2,602.1 |
| BBC World Service* | 2c | **215.8** | 204.6 |
| Busnesau Masnachol | 2d | **586.9** | 598.1 |
| Costau gweithredol cynllun pensiwn anariannol** | | **136.5** | 151.5 |
| | | **3,938.6** | 3,556.3 |

**Nid yw gwariant BBC World Service o £215.8miliwn (2002 £204.6miliwn) yn cynnwys £0.5miliwn (2002 £0.4miliwn) o wariant ar ddarparu gwasanaethau i gwmnïau eraill Grŵp y BBC*

***Fel y caniateir gan FRS 17 ni rennir y costau gweithredol anariannol rhwng y gweithgareddau busnes gan nad yw'n bosibl gwneud hyn ar sail resymol a chyson*

Eleni, ehangwyd y nodyn hwn i roi rhagor o fanylion am wariant yn gysylltiedig â rhaglenni. Ailddadansoddwyd ffigurau 2002 yn unol â hynny.

## 2b Gwariant Grŵp UK Public Service Broadcasting

| | Nodyn | 2003 £m | 2002 £m |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau analog** | | | |
| BBC One | | **858.9** | 731.0 |
| BBC Two | | **367.4** | 311.6 |
| Teledu cenedlaethol a rhanbarthol | | **211.1** | 188.6 |
| Radio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol | | **130.8** | 116.1 |
| BBC Radio 1 | | **17.2** | 16.8 |
| BBC Radio 2 | | **21.6** | 21.8 |
| BBC Radio 3 | | **30.2** | 31.0 |
| BBC Radio 4 | | **64.8** | 62.5 |
| BBC Radio Five Live | | **53.8** | 50.3 |
| | | **1,755.8** | 1,529.7 |
| **Gwasanaethau digidol** | | | |
| CBBC, CBeebies | i | **39.9** | 11.0 |
| BBC Three (BBC Choice yn flaenorol) | ii | **75.5** | 44.2 |
| BBC News 24 | | **23.8** | 25.7 |
| BBC Parliament | | **2.7** | 2.5 |
| BBC Four | i | **41.2** | 24.5 |
| Testun digidol a theledu rhyngweithiol | | **9.5** | 7.3 |
| 1Xtra | iii | **4.0** | – |
| BBC Five Live Sports Extra | iii | **1.7** | 0.7 |
| 6 Music | iii | **4.0** | 0.2 |
| BBC 7 | iii | **2.2** | – |
| BBC Asian Network | | **3.1** | 1.8 |
| BBCi ar y rhyngrwyd | | **72.3** | 66.5 |
| | | **279.9** | 184.4 |
| **Gwariant ar raglenni a ddarlledwyd** | iv | **2,035.7** | 1,714.1 |
| **Gwariant yn gysylltiedig â rhaglenni** | | | |
| Casglu newyddion | | **94.2** | 94.8 |
| Marchnata, y wasg, cyhoeddusrwyddd a digwyddiadau | v | **63.5** | 48.3 |
| Pytiau rhagflas ar yr awyr a dulliau tywys | | **25.5** | 22.0 |
| Ymchwil i'r farchnad | | **12.7** | 11.7 |
| Cymdeithasau casglu | | **52.0** | 50.4 |
| Cerddorfeydd a grwpiau perfformio | | **15.5** | 14.6 |
| Llinellau cymorth, digwyddiadau unigol a gwariant arall yn gysylltiedig â rhaglenni | | **79.2** | 76.1 |
| | | **342.6** | 317.9 |
| **Cyfanswm y gwariant ar raglenni** | | **2,378.3** | 2,032.0 |
| **Gorbenion** | vi | **346.0** | 347.5 |
| **Cyfanswm y gwariant ar ddarllediadau** | | **2,724.3** | 2,379.5 |
| **Canran gwariant darllediadau ar raglenni** | | **87%** | 85% |
| **Costau casglu ffi'r drwydded** | vii | **146.4** | 95.4 |
| **Costau darlledu** | viii | **141.7** | 127.2 |
| | | **288.1** | 222.6 |
| **Cyfanswm y gwariant darlledu*** | | **3,012.4** | 2,602.1 |

**Mae cyfanswm y gwariant darlledu yn cynnwys colled eithriadol wrth waredu asedion sefydlog o fewn gorbenion o £13.0miliwn (gweler Nodyn 6).*

i) Dengys sianelau plant a BBC Four gynnydd mewn costau yn adlewyrchu eu blwyddyn lawn gyntaf o ddarlledu. Mae costau BBC Four yn fwy na chostau ei ragflaenydd BBC Knowledge oherwydd lefelau uwch o raglennu gwreiddiol.

ii) Lansiwyd BBC Three ym mis Chwefror 2003 i gymryd lle BBC Choice. Aeth BBC Three i fwy o gostau oherwydd costau lansio'r sianel newydd a chomisiynau ychwanegol cyn lansio.

**2b Gwariant UK Public Service Broadcasting** *parhad*

iii) Lansiwyd BBC Five Live Sports Extra a 6 Music ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2002, felly maent wedi talu eu costau am y flwyddyn lawn gyntaf yn 2003. Lansiwyd lXtra ym mis Awst 2002 a lansiwyd BBC 7 ym mis Rhagfyr 2002.

iv) Mae cyfanswm y gwariant ar ddarllediadau wedi codi yn unol ag amcan penodol y BBC i gynyddu gwariant ar raglennu.

v) Bu gwariant marchnata ychwanegol yn ystod y flwyddyn i gefnogi achlysur lansio BBC Three a'r rhwydweithiau radio digidol ac i hyrwyddo gwasanaethau teledu digidol, gan gynnwys Freeview.

vi) Mae gorbenion yn cynnwys costau canolog adeiladau, technoleg, cyllid ac adnoddau dynol.

vii) Bu costau casglu ffi'r drwydded yn anarferol o isel yn 2002 oherwydd nifer o ddigwyddiadau unigol fel yr ad-daliad gan Consignia am fethu â chyflawni rhwymedigaethau'r contract. O dan y contractwr newydd, mae taliadau yn 2003 wedi dychwelyd i'w lefelau arferol (£131.9miliwn oedd y costau casglu yn 2001).

viii) O'r costau darlledu, mae £73.2miliwn yn cyfeirio at wasanaethau analog a £68.5miliwn at wasanaethau digidol.

Nid yw gwariant BBC World Service yn cynnwys gwariant a wariwyd ar weithgareddau mewnol y Grŵp.

**2c Gwariant BBC World Service**

| | **2003 £m** | 2002 £m |
|---|---|---|
| Radio | **149.8** | 142.1 |
| Monitro | **22.4** | 22.6 |
| Costau darlledu | **33.2** | 30.6 |
| Gweithgaredd y rhyngrwyd | **10.4** | 9.3 |
| | **215.8** | 204.6 |

Dim ond i'r incwm allanol y mae'r gwariant a ddangosir ar gyfer Busnesau Masnachol yn berthnasol ac nid yw'n cynnwys gwariant sy'n berthnasol i werthiannau o fewn y BBC.

**2d Gwariant Busnesau Masnachol**

| | *Nodyn* | **2003 £m** | 2002 £m |
|---|---|---|---|
| Costau gwerthu | | **314.8** | 323.4 |
| Costau dosbarthu | | **133.4** | 147.0 |
| Costau gweinyddol a chostau eraill | | **50.3** | 41.3 |
| Amorteiddio buddsoddiad mewn rhaglenni | *12* | **88.4** | 86.4 |
| | | **586.9** | 598.1 |

## 3 Diffyg gweithredol

| Nodir y diffyg gweithredol ar ôl codi tâl ar yr eitemau canlynol: | **2003 £m** | 2002 £m |
|---|---|---|
| Taliadau o dan brydlesau gweithredol | | |
| – tir ac adeiladau | **28.8** | 26.4 |
| – offer a pheiriannau | **6.5** | 9.6 |
| – arall | **14.0** | 18.4 |
| Ymchwil a datblygiad | **17.0** | 15.2 |
| Datblygu rhaglenni | **30.6** | 23.7 |
| Dibrisiant | | |
| – asedion a feddir | **126.5** | 121.8 |
| – asedion a brydlesir | **10.8** | 10.9 |
| Colled wrth waredu asedion sefydlog cyffyrddadwy | **4.5** | 1.4 |
| Amorteiddio buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol | **88.4** | 86.4 |
| Amorteiddio asedion sefydlog anghyffyrddadwy | **4.5** | 1.4 |

## 3 Diffyg gweithredol *parhad*

| | 2003 £m | 2002 £m |
|---|---|---|
| Cydnabyddiaeth yr archwilwyr (KPMG LLP) | | |
| – archwilio ariannol – UK Public Service Broadcasting | **0.6** | 0.4 |
| – arall | **0.5** | 0.5 |
| – gwasanaethau sicrwydd pellach | **0.6** | 0.3 |
| – gwasanaethau cynghori ar dreth | **0.2** | 0.2 |
| – gwasanaethau eraill nad ydynt yn wasanaethau archwilio | **0.3** | 0.2 |
| Cydnabyddiaeth yr archwilwyr masnachu teg (PricewaterhouseCoopers LLP) | **0.3** | 0.3 |

## 4 Cyflogeion a chydnabyddiaeth

### 4a Pobl a gyflogir

Nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn oedd:

| | Cyfartaledd ar gyfer y flwyddyn 2003 Nifer | 2002 Nifer |
|---|---|---|
| UK Public Service Broadcasting | **19,206** | 18,606 |
| BBC World Service | **2,057** | 1,797 |
| Busnesau Masnachol | **5,885** | 5,165 |
| Cyfanswm y Grŵp | **27,148** | 25,568 |

O fewn y cyfartaleddau uchod, cafodd 2,628 (2002 2,166) o gyflogeion rhan amser eu cynnwys ar eu ffigur cyfwerth ag amser llawn o 1,324 (2002 1,238).

Yn ogystal â'r uchod, cyflogodd y Grŵp 1,117 (2002 1,043) o bobl ar gyfartaledd cyfwerth ag amser llawn ar sail achlysurol a niferoedd Cerddorfa a Chantorion y BBC a gyflogwyd ar gontractau rhaglenni oedd 385 (2002 382) o bobl cyfwerth ag amser llawn.

Ar 2 Ebrill 2002, trosglwyddodd cyfanswm o 762 o gyflogeion cyfwerth ag amser llawn i BBC Broadcast Limited o UK Public Service Broadcasting. Nid adlewyrchir y trosglwyddiad hwn yn y cyfartaledd ar gyfer 2002.

### 4b Costau staff

| | Nodyn | 2003 £m | 2002 £m |
|---|---|---|---|
| Cyflogau | | **988.4** | 895.1 |
| Costau nawdd cymdeithasol | | **83.0** | 77.9 |
| Costau pensiwn | | | |
| – prif gynllun (budd diffiniedig) | *8a* | **169.7** | 177.2 |
| – cynlluniau eraill | *8c* | **2.0** | 2.3 |
| Costau diswyddo | | **22.6** | 29.6 |
| | | **1,265.7** | 1,182.1 |
| Gan gynnwys: | | | |
| UK Public Service Broadcasting | | **804.2** | 758.3 |
| BBC World Service | | **73.2** | 65.4 |
| Busnesau Masnachol | | **251.8** | 206.9 |
| Cost weithredol ychwanegol y prif gynllun pensiwn (budd diffiniedig)* | | **136.5** | 151.5 |
| | | **1,265.7** | 1,182.1 |

** Telir cyfraniadau ariannol gwirioneddol y cyflogwr i'r cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig gan bob busnes. Y gost weithredol ychwanegol yw'r gost i'r Grŵp yn ychwanegol at y cyfraniadau hyn. Nid yw'n bosibl dyrannu hyn i bob busnes ar sail resymol a chyson*

### 4c Cydnabyddiaeth Bwrdd y Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Gweithredol

Datgelir tâl y Llywodraethwyr ac aelodau'r Pwyllgor Gweithredol ar dudalennau 76 i 79 yn adroddiad cydnabyddiaeth y Llywodraethwyr.

## 5 (Colled)/elw wrth werthu a therfynu gweithrediadau

| | 2003 £m | 2002 £m |
|---|---|---|
| beeb Ventures Limited | | |
| – gwarediad rhannol | **–** | 9.0 |
| – cost terfynu | **(1.5)** | (1.3) |
| Wood Norton Hall a'r Ganolfan Gynadledda | **1.1** | – |
| | **(0.4)** | 7.7 |

Ar 22 Ebrill 2002, cyhoeddodd BBC Worldwide ei fwriad i derfynu'r busnes beeb.com a gadael y sector siopa ar y rhyngrwyd. Cyfunwyd rhai o wefannau beeb.com ynghyd â beeb.net yng ngweithrediadau craidd BBC Worldwide. Yn dilyn y penderfyniad hwn, cynhaliwyd arolwg o werth cario asedion sefydlog beeb Ventures Limited ar 31 Mawrth 2002 ac arweiniodd at leihau'r gwerth £1.3miliwn a godwyd ar y cyfrif incwm a gwariant yn 2002. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003 codwyd costau diswyddo a chostau cau eraill o £1.5miliwn ar y cyfrif incwm a gwariant.

Ar 31 Mai 2002, gwerthodd y Grŵp ei fusnes Wood Norton Hall a'r Ganolfan Gynadledda i drydydd parti am dâl o £5.1miliwn. Yr elw o werthu oedd £1.1miliwn ar ôl didynnu costau'r gwaredu.

## 6 (Colled)/elw wrth waredu asedion sefydlog

| | 2003 £m | 2002 £m |
|---|---|---|
| (Colled)/elw wrth waredu asedion sefydlog cyffyrddadwy | **(14.3)** | 1.0 |
| Elw wrth waredu buddsoddiadau | **–** | 3.4 |
| Elw wrth waredu asedion anghyffyrddadwy | **–** | 7.3 |
| | **(14.3)** | 11.7 |

Yn ystod 2003 dechreuodd y Grŵp ailddatblygu safle Broadcasting House, a oedd yn cynnwys dymchwel dau eiddo gyferbyn â Broadcasting House. Codwyd gwerth llyfr net yr asedion nas defnyddir sef £13.0miliwn, ar y cyfrif incwm a gwariant.

Gwaredodd BBC Technology asedion sefydlog amrywiol gan arwain at golled o £1.3miliwn yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod 2002, gwaredodd yr Eurosport Consortium, y mae gan y BBC fuddiant ynddo, ei gyfranddaliad o 50% yn SETS (sy'n berchen ar y nod masnach Eurosport) i TFI, cwmni darlledu o Ffrainc, gan arwain at elw net o £3.4miliwn o ganlyniad i waredu buddsoddiadau. Gwaredodd y Grŵp hefyd ei hawliau a'i nodau masnach a oedd yn weddill i rai brandiau di-graidd a roddodd elw net o £7.3miliwn.

## 7 Llog net i'w dderbyn ac eitemau tebyg eraill

| | 2003 £m | 2002 £m |
|---|---|---|
| Llog i'w dderbyn | **7.5** | 24.6 |
| Llog sy'n daladwy ar fenthyciadau banc a benthyciadau eraill | **(2.0)** | (2.8) |
| Taliadau cyllid sy'n daladwy mewn perthynas â phrydlesau cyllid | **(0.4)** | (0.2) |
| Llog net i'w dderbyn | **5.1** | 21.6 |

## 8 Pensiynau

### 8a Tâl pensiwn

Mae'r Grŵp yn gweithredu sawl cynllun pensiwn. Mae Cynllun Pensiwn y BBC a chynllun pensiwn bach heb ei ariannu, sydd ar gau i aelodau newydd, yn gynlluniau buddiannau diffiniedig cyfrannol. Yn ogystal, mae Cynllun Pensiwn Personol y Grŵp a chynlluniau bach eraill yn gynlluniau cyfraniadau diffiniedig. Cyfanswm y taliadau pensiwn am y flwyddyn oedd:

| | **Cost weithredol 2003 £m** | **Incwm cyllid net 2003 £m** | **Cost net 2003 £m** | Cost weithredol 2002 £m | Incwm cyllid net 2002 £m | Cost net 2002 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun Pensiwn y BBC (Nodyn 8b) | **169.7** | **(114.6)** | **55.1** | 177.2 | (133.9) | 43.3 |
| Cynlluniau buddiannau diffiniedig nas ariannwyd (Nodyn 8c) | **0.2** | **0.3** | **0.5** | 0.2 | – | 0.2 |
| Cynlluniau cyfraniadau diffiniedig (Nodyn 8c) | **1.8** | **–** | **1.8** | 2.1 | – | 2.1 |
| Cyfanswm y gost/(credyd) | **171.7** | **(114.3)** | **57.4** | 179.5 | (133.9) | 45.6 |

O dan y cynllun hwn mae'r cyflogeion yn derbyn pensiwn yn seiliedig ar eu cyflog terfynol.

### 8b Y prif gynllun

Prif gynllun pensiwn Grŵp y BBC yw Cynllun Pensiwn y BBC ac mae'n cwmpasu'r rhan fwyaf o'r cyflogeion. Mae'r cynllun hwn yn darparu buddiannau pensiwn sy'n gysylltiedig â chyflog ar sail buddiannau diffiniedig o asedion a ddelir mewn cronfeydd ar wahân, a weinyddir gan ymddiriedolwyr.

Mae'r prisiad actiwaraidd yn ystyried adenillion buddsoddi yn y dyfodol ac yn darparu arolwg hir dymor ar gyflwr y cynllun yn hytrach na'r prisiad FRS 17 'ciplun'.

**Prisiad actiwaraidd**

Caiff y cynllun ei brisio'n annibynnol gan actiwari sy'n gymwys yn broffesiynol o leiaf bob tair blynedd, ac ar y sail hon mae'r actiwari yn ardystio cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr. Mae disgwyl i'r rhain, ynghyd â'r cyfraniadau penodol sy'n daladwy gan gyflogeion ac elw o asedion y cynllun, fod yn ddigonol i ariannu'r buddiannau sy'n daladwy o dan y cynllun.

Paratowyd prisiad actiwaraidd llawn diweddaraf y cynllun ar 1 Ebrill 2002 gan Watson Wyatt, sef yr actiwarïaid ymgynghorol, gan ddefnyddio dull yr uned gynlluniedig. Dangosodd y prisiad actiwaraidd warged o £441miliwn (i lawr o £611miliwn ym 1999) ac roedd gwerth actiwaraidd yr asedion yn ddigon i gwmpasu 109% o'r buddiannau a oedd yn ddyledus i'r aelodau ar ôl caniatáu ar gyfer cynnydd disgwyliedig mewn enillion yn y dyfodol.

Mae'r incwm i'r cynllun pensiwn yn fwy na'i gostau ariannol bob blwyddyn a dengys mesurau perfformiad hir dymor fod y cynllun wedi ei ariannu'n ddigonol ac felly mae cyfraniadau'r cyflogwr wedi aros yn gyson ers nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, yng ngoleuni anwadalrwydd tymor byr diweddar y farchnad stoc, cytunwyd â'r ymddiriedolwyr y bydd cyfraniadau'r cyflogwr yn codi 0.5% y flwyddyn am dair blynedd o'r cyfraniad presennol o 4.5% o gyflog pensiynadwy, gyda'r cynnydd cyntaf o 0.5% yn dod i rym o 1 Ebrill 2003. Yn ogystal, bydd cyfraniadau'r cyflogeion yn codi 0.5% y flwyddyn o 4.5% i 6% dros y cyfnod o dair blynedd yn dechrau 1 Ebrill 2004.

Mae prisiad y farchnad yn darparu 'ciplun' ar ddyddiad y fantolen. Mae'n anwadal iawn a gall amrywio llawer o ddydd i ddydd.

**Prisiadau'r farchnad**

Mae Watson Wyatt yn cynhyrchu prisiad dros dro bob blwyddyn yn seiliedig ar werthoedd marchnad asedion a rhwymedigaethau'r cynllun, fel sy'n ofynnol yn ôl FRS 17.

Defnyddir amcangyfrif o godiadau o ran chwyddiant a chyflogau yn y dyfodol i ragweld cost ariannu pensiynau aelodau'r cynllun pensiwn yn y dyfodol.

**Tybiaethau ariannol ym mhrisiad y cynllun**

Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari ym mhob prisiad oedd:

| | **2003** | 2002 | 2001 |
|---|---|---|---|
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | **4.5%** | 4.7% | 4.5% |
| Cyfradd y cynnydd mewn taliadau pensiwn | **2.5%** | 2.7% | 2.5% |
| Tybiaeth chwyddiant | **2.5%** | 2.7% | 2.5% |
| Cyfradd ostyngol | **5.4%** | 6.0% | 6.0% |

## 8 Pensiynau *parhad*

Dengys y tabl hwn werth yr asedion y mae'r cynllun pensiwn yn berchen arnynt a'r gyfradd twf a ddisgwylir gan yr ymddiriedolwyr dros amser.

Yr asedion yn y cynllun a'r cyfraddau adenillion disgwyliedig o'r asedion hynny oedd:

| | **Cyfradd adenillion hir dymor a ddisgwyliwyd ar 31 Mawrth 2003** | **Gwerth ar 31 Mawrth 2003 £m** | Cyfradd adenillion hir dymor a ddisgwyliwyd ar 31 Mawrth 2002 | Gwerth ar 31 Mawrth 2002 £m | Cyfradd adenillion hir dymor a ddisgwyliwyd ar 31 Mawrth 2001 | Gwerth ar 31 Mawrth 2001 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ecwitïau | **8.3%** | **3,032** | 7.5% | 4,421 | 7.0% | 4,655 |
| Bondiau a giltiau | **4.5%** | **1,021** | 5.2% | 908 | 4.7% | 939 |
| Eiddo | **6.4%** | **620** | 6.3% | 606 | 6.0% | 606 |
| Arian parod | **4.0%** | **230** | 4.7% | 284 | 4.5% | 279 |
| **Cyfanswm gwerth marchnad yr asedion** | | **4,903** | | 6,219 | | 6,479 |
| **Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun** | | **(5,973)** | | (5,254) | | (4,771) |
| **(Diffyg)/gwarged yn y cynllun** | | **(1,070)** | | 965 | | 1,708 |
| **Ased/(rhwymedigaeth) treth ohiriedig berthnasol** | | **–** | | – | | – |
| **(Rhwymedigaeth)/ased pensiwn net** | | **(1,070)** | | 965 | | 1,708 |

Ni fydd ased na rhwymedigaeth treth ohiriedig yn codi ar gyfer y Grŵp, gan nad yw'r rhan fwyaf o weithgaredd cyhoeddus y Grŵp yn agored i drethiant.

### Symud yn y gwarged yn ystod y flwyddyn

| | **2003 £m** | 2002 £m |
|---|---|---|
| Gwarged yn y cynllun ar ddechrau'r flwyddyn | **965.0** | 1,708.0 |
| Symud yn ystod y flwyddyn | | |
| – cyfraniadau | **33.4** | 25.7 |
| – cost gwasanaethu presennol | **(155.7)** | (132.3) |
| – costau gwasanaethu yn y gorffennol | **(14.0)** | (44.9) |
| – incwm cyllid arall | **114.6** | 133.9 |
| – colled actiwaraidd | **(2,013.4)** | (725.4) |
| **(Diffyg)/gwarged yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn** | **(1,070.1)** | 965.0 |

### Dadansoddiad o'r swm a godir ar wariant gweithredol

Y gost gwasanaethu bresennol yw'r gost i'r BBC o hawliau pensiwn a enillwyd gan gyflogeion yn ystod y flwyddyn.

| | **2003 £m** | 2002 £m |
|---|---|---|
| Cost gwasanaethu presennol | **155.7** | 132.3 |
| Cost gwasanaethu yn y gorffennol | **14.0** | 44.9 |
| **Cyfanswm y tâl gweithredol a godir** | **169.7** | 177.2 |

### Dadansoddiad o'r swm a gredydir i incwm cyllid arall

Amcangyfrifon yw'r symiau yma sy'n seiliedig ar ragolygon perfformiad ac amodau economaidd yn y dyfodol.

| | **2003 £m** | 2002 £m |
|---|---|---|
| Adenillion disgwyliedig ar asedion y cynllun pensiwn | **424.0** | 416.4 |
| Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | **(309.4)** | (282.5) |
| **Adenillion net** | **114.6** | 133.9 |

## 8 Pensiynau *parhad*

Yr enillion a'r colledion actiwaraidd yw'r rhai sy'n deillio o berfformiad gwirioneddol sy'n wahanol i'r un a ragwelwyd – er enghraifft o newidiadau mewn amodau economaidd neu broffil demograffig cyflogeion y BBC.

**Dadansoddiad o'r swm a gydnabuwyd yn natganiad cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig**

| | **2003 £m** | 2002 £m |
|---|---|---|
| Adenillion gwirioneddol llai adenillion disgwyliedig ar asedion y cynllun pensiwn | **(1,607,9)** | (532.0) |
| Profi enillion a (cholledion) sy'n codi ar rwymedigaethau'r cynllun | **(12.4)** | 26.6 |
| Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | **(393.1)** | (220.0) |
| **Colled actiwaraidd a gydnabuwyd yn natganiad cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig** | **(2,013.4)** | (725.4) |

Bwriedir i'r nodyn hwn ddangos tueddiadau dros sawl blwyddyn. Dim ond tair blynedd sydd ar gael ar hyn o bryd ers mabwysiadu FRS 17.

**Hanes profi enillion a cholledion**

| | **2003** | 2002 | 2001 |
|---|---|---|---|
| Gwahaniaeth rhwng yr adenillion disgwyliedig a gwirioneddol ar asedion y cynllun: | | | |
| Swm (£miliwn) | **1,607.9** | 532.0 | 950.9 |
| Canran asedion y cynllun | **32.8%** | 8.6% | 14.7% |
| Profi enillion a (cholledion) ar rwymedigaethau'r cynllun: | | | |
| Swm (£miliwn) | **12.4** | (26.6) | (35.7) |
| Canran gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | **0.2%** | 0.5% | 0.7% |
| Cyfanswm a gydnabuwyd yn natganiad cyfanswm yr enillion a'r (colledion) cydnabyddedig: | | | |
| Swm (£miliwn) | **(2,013.4)** | (725.4) | (708.2) |
| Canran gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | **33.7%** | 13.8% | 14.8% |

**8c Cynlluniau eraill**

Prisir y cynllun pensiwn bach nas ariennir gan ddefnyddio tybiaethau sydd yr un peth â'r rhai ar gyfer y prif gynllun. Ar 31 Mawrth 2003 y rhwymedigaeth oedd £4.4miliwn (2002 £3.9miliwn) y darperir ar ei chyfer yn llawn yn y cyfrifon. Y gost bresennol am y flwyddyn ar gyfer y cynllun hwn oedd £0.5miliwn (2002 £0.2 miliwn) y codwyd £0.2miliwn ohono (2002 £0.2miliwn) ar y costau gweithredol a £0.3miliwn (2002 £dim) fel llog ar rwymedigaethau pensiwn.

Daeth cyfanswm y tâl ar gyfer cynllun pensiwn personol y Grŵp a chynlluniau cyfraniadau diffiniedig eraill i gyfanswm o £1.8miliwn (2002 £2.1miliwn).

**8d UK Public Service Broadcasting**

Mae UK Public Service Broadcasting wedi manteisio ar y darpariaethau yn FRS 17 ac yn cyfrifo'r cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae hyn am nad yw'n bosibl nodi eu cyfran hwy o asedion a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun ar sail resymol a chyson. Felly mae'r tâl gwariant a godir ar gyfer UK Public Service Broadcasting yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn. Pennir y cyfraniadau hyn yn seiliedig ar yr anghenion ariannu a nodwyd o'r prisiad actiwaraidd ac maent yn elwa ar y gwarged actiwaraidd. Felly maent yn is na'r gost reolaidd.

## 9 Trethiant

### 9a Dadansoddiad o'r taliadau a godwyd am y cyfnod

Roedd y tâl a godwyd am y flwyddyn, yn seiliedig ar gyfradd treth gorfforaeth o 30% (2002 30%), yn cynnwys:

| | Nodyn | 2003 £m | 2002 £m |
|---|---|---|---|
| **Treth gyfredol** | | | |
| Treth gorfforaeth y DU | | **17.7** | 12.7 |
| Didynnu: rhyddhad treth dwbl | | **(3.5)** | (2.9) |
| | | **14.2** | 9.8 |
| Addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol | | **(3.0)** | – |
| | | **11.2** | 9.8 |
| Treth dramor | | **5.4** | 7.6 |
| Cyfran o dreth partneriaethau cyswllt | | **1.1** | 0.3 |
| **Cyfanswm y dreth gyfredol** | *9b* | **17.7** | 17.7 |
| **Treth ohiriedig** | | | |
| Tarddiad a gwrthdroad y gwahaniaethau amseru | | **–** | 2.8 |
| Addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol | | **(2.0)** | (2.8) |
| **Cyfanswm y dreth ohiriedig** | *9d* | **(2.0)** | – |
| **Cyfanswm y tâl a godwyd am y flwyddyn** | | **15.7** | 17.7 |

### 9b Ffactorau sy'n effeithio ar y tâl treth a godir

Dim ond ar y gweithgareddau hynny a gyflawnir gyda'r bwriad o wneud elw ac ar rent, breindaliadau a llog i'w dderbyn y mae'r Grŵp yn agored i drethiant. Felly nid yw'r BBC yn cael rhyddhad ar gyfer ei holl wariant ac o ganlyniad, mae'r dreth a asesir am y flwyddyn yn wahanol i gyfradd safonol treth gorfforaeth y DU. Eglurir y gwahaniaethau isod:

| | Nodyn | 2003 £m | 2002 £m |
|---|---|---|---|
| (Diffyg)/gwarged cyn treth | | **(299.0)** | 2.9 |
| (Diffyg)/gwarged cyn treth wedi ei luosi â chyfradd treth gorfforaeth safonol yn y DU o 30% (2002 30%) | | **(89.7)** | 0.9 |
| **Effeithiau** | | | |
| Incwm allanol trethadwy UK Public Service Broadcasting | | **5.7** | 6.5 |
| Colled nad yw'n drethadwy yn UK Public Service Broadcasting | | **95.4** | – |
| Tâl net pensiwn Grŵp FRS 17 a godir | | **6.7** | 5.2 |
| **Gweithgareddau masnachol** | | | |
| Incwm nad yw'n drethadwy | | **(0.4)** | (3.9) |
| Gwariant nas caniateir | | **1.6** | 1.6 |
| Dibrisiant sy'n fwy na lwfansau cyfalaf | | **–** | 1.8 |
| Colledion treth nas rhyddheir gan y Grŵp | | **–** | 1.4 |
| Gwahaniaeth treth ar enillion tramor | | **1.8** | 4.4 |
| Arall | | **0.4** | (0.2) |
| Addasiadau mewn perthynas â chyfnodau blaenorol | | **(3.0)** | – |
| Tâl treth presennol a godir am y flwyddyn | *9a* | **17.7** | 17.7 |

### 9c Ffactorau a allai effeithio ar daliadau treth a godir yn y dyfodol

Mae'r Grŵp yn rhagweld na fydd y tâl treth a godir yn y dyfodol yn newid yn sylweddol gan fod yr holl incwm o ffi'r drwydded yn ddi-dreth.

### 9d Dadansoddiad o dreth ohiriedig

| Symudiad yn y ddarpariaeth/(ased) treth ohiriedig yn y flwyddyn | *Nodyn* | **2003 £m** | 2002 £m |
|---|---|---|---|
| Darpariaeth ar ddechrau'r flwyddyn | | **–** | – |
| Addasiad cyfnewid | | **0.5** | – |
| Credyd treth ohiriedig | *9a* | **(2.0)** | – |
| Ased treth ohiriedig ar ddiwedd y flwyddyn | | **(1.5)** | – |
| **Dadansoddiad o ased/(rhwymedigaeth) treth ohiriedig ar ddiwedd y flwyddyn*** | | | |
| Lwfansau cyfalaf cyflym | | **(4.1)** | 1.5 |
| Gwahaniaethau amseru eraill | | **–** | 0.8 |
| Gwahaniaethau amseru'r UD | | **5.6** | 1.8 |
| | | **1.5** | 4.1 |

** Yn 2002 ni chydnabuwyd yr ased treth ohiriedig o £4.1miliwn*

## 10 Asedion sefydlog anghyffyrddadwy

Ewyllys da yw'r gwahaniaeth rhwng y gwerth a dalwyd am fusnes a gwerth teg ei asedion net. Mae'n cynrychioli'r swm y mae'r prynwr yn barod i'w dalu am enw ac enw da y busnes a'i gynlluniau elw disgwyliedig yn y dyfodol.

| | Hawliau eiddo deallusol £m | Ewyllys da £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|
| **Cost** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 8.7 | 8.1 | 16.8 |
| Ychwanegiadau | 4.7 | 0.1 | 4.8 |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **13.4** | **8.2** | **21.6** |
| **Amorteiddio** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 1.1 | 0.3 | 1.4 |
| Tâl a godwyd am y flwddyn | 4.0 | 0.5 | 4.5 |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **5.1** | **0.8** | **5.9** |
| **Gwerth llyfr net** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **8.3** | **7.4** | **15.7** |
| Ar 31 Mawrth 2002 | 7.6 | 7.8 | 15.4 |

Caiff ewyllys da ei amorteiddio ar sail llinell syth dros 20 mlynedd i adlewyrchu'r bywyd economaidd defnyddiol, yn amodol ar adolygiadau ar gyfer amhariad.

Mae'r ychwanegiadau o £4.7miliwn o fewn hawliau eiddo deallusol yn ymwneud â chaffael trwyddedau meddalwedd gan BBC Technology. Fe'u hamorteiddir ar sail llinell syth dros fywyd y drwydded.

Ar 28 Chwefror 2003 caffaelodd BBC Worldwide 100% o gyfalaf cyfranddaliadau Parentwise Limited am swm nominal. Roedd gan y cwmni rwymedigaethau net o £0.1miliwn ac mae ewyllys da o £0.1miliwn wedi codi ar y trafodyn.

Nid oedd unrhyw wahaniaeth rhwng y gwerth llyfr, fel y'i cofnodir yng nghofnodion Parentwise Limited cyn y caffaeliad, a gwerth teg yr asedion a gaffaelwyd.

## 11 Asedion sefydlog cyffyrddadwy

### 11a Y Grŵp

| | Tir ac adeiladau £m | Offer a pheiriannau £m | Dodrefn a ffitiadau £m | Asedion yn cael eu hadeiladu £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost neu brisiad | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 457.9 | 876.3 | 122.4 | 106.4 | **1,563.0** |
| Ychwanegiadau | 3.8 | 80.5 | 8.0 | 114.8 | **207.1** |
| Dygwyd i wasanaeth | 9.3 | 60.9 | 3.6 | (73.8) | **–** |
| Gwarediadau | (16.4) | (37.0) | (7.9) | (2.3) | **(63.6)** |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **454.6** | **980.7** | **126.1** | **145.1** | **1,706.5** |
| Dibrisiant | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 199.0 | 540.1 | 63.1 | – | **802.2** |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 15.5 | 109.8 | 12.0 | – | **137.3** |
| Dileu mewn perthynas â gwarediadau | (6.0) | (25.2) | (4.7) | – | **(35.9)** |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **208.5** | **624.7** | **70.4** | **–** | **903.6** |
| Gwerth llyfr net | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **246.1** | **356.0** | **55.7** | **145.1** | **802.9** |
| Ar 31 Mawrth 2002 | 258.9 | 336.2 | 59.3 | 106.4 | **760.8** |

Mae £16.4miliwn (2002 £19.6miliwn) o asedion a ddelir o dan brydlesau cyllid wedi ei gynnwys o fewn offer a pheiriannau.

Mae gan un o bartneriaid cyd-fentrau'r BBC, Crown Castle UK Limited, dâl o £3.0miliwn dros asedion Grŵp BBC Technology.

Mae £24miliwn wedi ei gynnwys o fewn asedion sefydlog ar gost sy'n berthnasol i orsaf drosglwyddo yng Ngwlad y Thai a ddefnyddir gan BBC World Service. Mae'r asedion hyn yn drosglwyddadwy i Lywodraeth Frenhinol Gwlad y Thai yn gyfnewid am dalu swm nominal. Bydd BBC World Service yn cadw'r hawliau i ailbrynu'r asedion pe bai'r gweithrediad hwn yn dod i ben, am swm nominal tebyg. Nid yw'r trafodyn hwn yn effeithio ar y modd y caiff yr asedion hyn eu defnyddio ac felly byddant yn parhau i gael eu cario ar gost llai dibrisiant priodoladwy yn y fantolen.

### 11b UK Public Service Broadcasting

| | Tir ac adeiladau £m | Offer a pheiriannau £m | Dodrefn a ffitiadau £m | Asedion yn cael eu hadeiladu £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost neu brisiad | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 400.0 | 429.4 | 93.3 | 55.1 | **977.8** |
| Ychwanegiadau | 2.6 | 39.2 | 6.9 | 83.9 | **132.6** |
| Dygwyd i wasanaeth | 3.9 | 25.2 | 3.0 | (32.1) | **–** |
| Trosglwyddiadau (i)/o is-gwmnïau | – | (30.4) | – | 0.6 | **(29.8)** |
| Gwarediadau | (16.2) | (14.8) | (6.2) | (1.6) | **(38.8)** |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **390.3** | **448.6** | **97.0** | **105.9** | **1,041.8** |
| Dibrisiant | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 168.2 | 247.5 | 41.3 | – | **457.0** |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 12.7 | 43.2 | 9.4 | – | **65.3** |
| Trosglwyddiadau i is-gwmnïau | (0.2) | (16.2) | – | – | **(16.4)** |
| Dileu mewn perthynas â gwarediadau | (6.0) | (9.1) | (3.2) | – | **(18.3)** |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **174.7** | **265.4** | **47.5** | **–** | **487.6** |
| Gwerth llyfr net | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **215.6** | **183.2** | **49.5** | **105.9** | **554.2** |
| Ar 31 Mawrth 2002 | 231.8 | 181.9 | 52.0 | 55.1 | 520.8 |

**11b UK Public Service Broadcasting** *parhad*

Mae £6.7miliwn (2002 £19.8miliwn) o asedion a ddelir o dan brydlesau cyllid gydag un o gwmnïau eraill y Grŵp wedi ei gynnwys o fewn offer a pheiriannau.

Mae'r cynnydd mewn asedion yn cael eu hadeiladu yn berthnasol i'r rhaglen buddsoddi mewn eiddo sydd ar y gweill ar hyn o bryd (gweler Arolwg ariannol tudalennau 82 i 84).

**11c Mae tir ac adeiladau ar werth llyfr net yn cynnwys:**

| | **Grŵp 2003 £m** | Grŵp 2002 £m | **UK Public Service Broadcasting 2003 £m** | UK Public Service Broadcasting 2002 £m |
|---|---|---|---|---|
| Rhydd-ddaliadau | **208.9** | 226.0 | **193.4** | 210.1 |
| Prydlesau hir | **9.9** | 9.9 | **9.9** | 9.9 |
| Prydlesau byr | **27.3** | 23.0 | **12.3** | 11.8 |
| | **246.1** | 258.9 | **215.6** | 231.8 |

Nid amharwyd ar werthoedd cario eiddo rhydd-ddaliol ar ddyddiad y fantolen.

Mae tir ac adeiladau yn y Grŵp yn cynnwys tir rhydd-ddaliol ar gost o £35.0miliwn (2002 £34.8miliwn) ac yn UK Public Service Broadcasting £30.8miliwn (2002 £30.6miliwn). Nid oes dim ohono wedi ei ddibrisio.

## 12 Buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol

| | Grŵp £m |
|---|---|
| **Cost** | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 323.8 |
| Addasiad cyfnewid | (12.7) |
| Ychwanegiadau | 86.7 |
| Buddiant ariannu | (0.4) |
| Dileu rhaglenni wedi eu hamorteiddio'n llwyr | (76.0) |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **321.4** |
| **Amorteiddio** | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 212.0 |
| Addasiad cyfnewid | (11.3) |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 88.4 |
| Dileu rhaglenni wedi eu hamorteiddio'n llwyr | (76.0) |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **213.1** |
| **Gwerth llyfr net** | |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **108.3** |
| Ar 31 Mawrth 2002 | 111.8 |

Mae buddsoddiadau gan BBC Worldwide mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol yn berthnasol i raglenni a ddarperir gan y BBC a chynhyrchwyr allanol. Mae'r ffigur ychwanegiadau uchod yn cynnwys £82.7miliwn o fuddsoddiad uniongyrchol yn rhaglenni'r BBC (2002 £80.5miliwn).

Mae £4.5miliwn (2002 £4.2miliwn) sy'n berthnasol i fuddsoddiadau a ddelir o dan gytundeb trwydded wedi ei gynnwys yn y gwerth llyfr net. Mae'r buddiant ariannu yn berthnasol i arian a dderbyniwyd am gredydau treth ar fuddsoddiadau mewn rhaglenni gwerthu ac adlesu.

## 13 Buddsoddiadau eraill (gan gynnwys asedion net BBC World Service)

### 13a Symudiadau yn ystod y flwyddyn i'r Grŵp

| | Buddiannau mewn cyd-fentrau (Nodyn 13d) £m | Buddiannau mewn partneriaethau cyswllt (Nodyn 13e) £m | Buddsoddiadau eraill £m | Cyfanswm y Grŵp £m |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2002 | 11.5 | 4.9 | 0.4 | 16.8 |
| Ychwanegiadau | 1.2 | – | – | 1.2 |
| Gwarediadau | – | (0.2) | – | (0.2) |
| Addasiad cyfnewid | – | 0.2 | – | 0.2 |
| Darpariaeth yn erbyn buddsoddiadau | – | (0.4) | (0.4) | (0.8) |
| Cyfran yr elw/(colledion) a gadwyd | 5.2 | (24.8) | – | (19.6) |
| Difidend a dderbyniwyd | – | (1.3) | – | (1.3) |
| Addasiad i adlewyrchu rhwymedigaethau gwirioneddol | (4.8) | 26.3 | – | 21.5 |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **13.1** | **4.7** | **–** | **17.8** |

### 13b Symudiadau yn ystod y flwyddyn ar gyfer UK Public Service Broadcasting

| | Buddiant yn asedion net BBC World Service £m | Cyfranddaliadau mewn is-gwmnïau £m | Buddiannau mewn cyd-fentrau £m | Buddsoddiadau eraill £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2002 | 134.3 | 155.3 | 9.2 | 0.4 | 299.2 |
| Gwarged cronnol | 8.5 | – | – | – | 8.5 |
| Ychwanegiadau | – | 83.3 | 1.0 | – | 84.3 |
| Gwarediadau | – | (73.3) | – | (0.4) | (73.7) |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **142.8** | **165.3** | **10.2** | **–** | **318.3** |

Mae ychwanegiadau i gyfranddaliadau mewn is-gwmnïau yn cynnwys 10,000,000 o gyfranddaliadau cyffredin a ddyroddwyd am £1 yr un ar 2 Ebrill 2002 i alluogi BBC Broadcast i ariannu caffael y busnes oddi wrth y BBC.

Mae gwarediadau mewn cyfranddaliadau mewn is-gwmnïau yn berthnasol i drosglwyddo buddsoddiadau yn BBC Technology o £63.0miliwn, BBC Broadcast o £10.0miliwn, a BBC Worldwide o £0.3miliwn i'r BBC Commercial Holdings Group. Yn gydnabyddiaeth am hyn, dyroddodd BBC Commercial Holdings 73,250,000 o gyfranddaliadau cyffredin am £1 yr un a gafodd eu tanysgrifio'n llawn gan UK Public Service Broadcasting.

Mae ymgymeriadau is-gwmnïau yn fusnesau a reolir gan y BBC.

### 13c Ymgymeriadau is-gwmnïau

Mae UK Public Service Broadcasting yn berchen ar 100% o gyfalaf cyfranddaliadau a ddyroddwyd gan y cwmnïau canlynol a ymgorfforir ym Mhrydain Fawr:

BBC Commercial Holdings Limited
BBC Resources Limited
BBC Free to View Limited
BBC News Limited
BBC Property Limited
BBC Property Investments Limited
BBC Property Development Limited (cwsg)
Centre House Productions Limited
BBC Digital Programme Services Limited
BBC Subscription Television Limited (cwsg)
BBC Investments Limited (cwsg)

**13c Ymgymeriadau is-gwmnïau** *parhad*

Y Grŵp hefyd sydd â'r buddiant rheoli yn y prif ymgymeriadau is-gwmnïau canlynol a ddelir gan BBC World Service sy'n berchen ar 100% o'r cyfalaf cyfranddaliadau a ddyroddwyd:

**Delir gan BBC World Service:**
BBC East Asia Relay Company Limited (yn gorfforedig yn Hong Kong)
BBC Radiocom (Bulgaria) EOOD (yn gorfforedig ym Mwlgaria)
BBC Radiocom (Hungary) KFT (yn gorfforedig yn Hwngari)
BBC Radiocom (Praha) s.r.o. (yn gorfforedig yng Ngweriniaeth Tsiec)
BBC Radiocom (Slovakia) s.r.o. (yn gorfforedig yng Ngweriniaeth Slofacia)
BBC Romania SRL (yn gorfforedig yn Rwmania)
BBC Polska Sp. z.o.o. (yn gorfforedig yng Ngwlad Pŵyl)
BBC do Brazil Limitada (yn gorfforedig ym Mrasil)
BBC Radiocom Deutschland GmbH (yn gorfforedig yn yr Almaen)
BBC Croatia d.o.o. (yn gorfforedig yn Croatia)
BBC World Service Trust*

** Mae'r BBC World Service Trust yn gwmni elusennol cyfyngedig drwy warant, a'r BBC yw'r unig aelod*

Mae'r Grŵp hefyd yn dal buddiant rheoli'r is-gwmnïau canlynol sydd, oni nodir yn wahanol, wedi eu hymgorffori ym Mhrydain Fawr:

| | Dal cyfranddaliadau cyffredin % |
|---|---|
| **Delir gan BBC Commercial Holdings Limited:** | |
| BBC Worldwide Limited | 100 |
| BBC World Limited | 100 |
| BBC Ventures Group Limited | 100 |
| **Delir gan BBC Ventures Group Limited:** | |
| BBC Technology Holdings Limited | 100 |
| BBC Broadcast Limited | 100 |
| **Delir gan BBC Technology Holdings Limited:** | |
| BBC Technology Limited | 100 |
| BBC Technology Services Limited | 100 |
| BBC Technology Supply Limited | 100 |
| Kingswood Warren Ventures Limited (ailenwyd yn BBC Vecta Limited ym mis Mai 2003) | 100 |
| BBC Technology Holdings LLC (yn gorfforedig yn UDA) | 100 |
| BBC Technology Consultancy LLC (yn gorfforedig yn UDA) | 100 |
| **Delir gan BBC Worldwide Limited:** | |
| ***Cyhoeddi*** | |
| BBC Magazines Inc. (yn gorfforedig yn UDA) | 100 |
| Galleon Limited | 100 |
| Broadcasting Dataservices Limited | 75 |
| Cover to Cover Cassettes Limited | 100 |
| BBC Audiobooks Limited (Chivers Press Limited yn flaenorol) | 100 |
| ***Dosbarthu rhaglenni*** | |
| BBC Worldwide Americas Inc. (yn gorfforedig yn UDA) | 100 |
| BBC Worldwide Music Limited | 100 |
| UK Programme Distribution Limited | 95 |
| BBC Worldwide Japan KK Limited (yn gorfforedig yn Japan) | 100 |
| BBC Worldwide France SARL (yn gorfforedig yn Ffrainc) | 100 |
| BBC Worldwide Germany GmbH (yn gorfforedig yn yr Almaen) | 100 |
| BBC Worldwide Canada Limited (yn gorfforedig yng Nghanada) | 100 |
| ***Sianelau*** | |
| New Video Channel America LLC (yn gorfforedig yn UDA) | 100 |
| European Channel Broadcasting Limited | 100 |
| European Channel Management Limited | 100 |

### 13c Ymgymeriadau is-gwmnïau *parhad*

| | Dal cyfranddaliadau cyffredin % |
|---|---|
| ***Cwmnïau buddsoddi*** | |
| Worldwide America Investments Inc. (yn gorfforedig yn UDA) | 100 |
| BBC Worldwide Investments Limited | 100 |
| BBC World Service Television Limited | 100 |
| Worldwide Channel Investments Limited | 100 |
| Worldwide Channel Investments (Europe) Limited | 100 |
| Worldwide Channel Investments (Ontario) Limited (yn gorfforedig yng Nghanada) | 100 |
| ***Rhyngrwyd*** | |
| beeb Ventures Limited | 86.9 |
| **Delir gan BBC World Limited:** | |
| BBC World Distribution Limited | 100 |
| Satellite News Corporation Limited (yn gorfforedig yn Japan ac wedi ei ailenwi yn BBC World Distribution Japan Limited ym mis Ebrill 2003) | 100 |
| BBC World (Singapore) Private Limited (yn gorfforedig yn Singapore) | 100 |
| BBC World (Australia) Pty Limited (yn gorfforedig yn Awstralia) | 100 |
| BBC Worldwide (India) Private Limited (yn gorfforedig yn India)* | 75 |

** Mae BBC Worldwide Limited yn dal y buddiant o 25% sy'n weddill yng nghyfranddaliadau cyffredin y cwmni hwn*

Busnesau y mae'r BBC yn eu rheoli ar y cyd â phartïon eraill yw cyd-fentrau.

### 13d Buddiannau mewn cyd-fentrau

Mae gan y Grŵp fuddiant ecwiti o 50% yn y cyd-fentrau canlynol. Ymgorfforir pob un ohonynt yn y DU, oni nodir fel arall:

| Enw'r endid | Gweithgaredd | Partner | Dyddiad cyfrifo |
|---|---|---|---|
| UK Channel Management Limited | Sianelau | Flextech | 31 Rhagfyr 2002 |
| UK Gold Holdings Limited | Sianelau | Flextech | 31 Rhagfyr 2002 |
| UKTV New Ventures Limited | Sianelau | Flextech | 31 Rhagfyr 2002 |
| UKTV Interactive Limited | Sianelau | Flextech | 31 Rhagfyr 2002 |
| JV Programmes LLC† | Sianelau | Discovery Communications Inc. | 31 Rhagfyr 2002 |
| BBC Haymarket Exhibitions Limited | Cyhoeddi | Haymarket Exhibitions Limited | 31 Rhagfyr 2002 |
| Insight Property Partnership | Eiddo | Land Securities Trillium Limited | 31 Mawrth 2003 |
| DTV Services Limited* | Marchnata | Crown Castle UK Limited, British Sky Broadcasting Limited | Chwe mis hyd at 31 Mawrth 2003 |

*† yn gorfforedig yn UDA*

** buddiant ecwiti o 33%*

Yn ystod y flwyddyn ymrwymodd y BBC i gyd-fenter newydd, DTV Services Limited, i ddarparu gwasanaethau marchnata ar gyfer sianelau digidol ar lwyfan daearol yn y DU. Sefydlodd y BBC is-gwmni, BBC Free to View Limited (gweler Nodyn 13c), i ddal trwydded amlneges ddaearol ddigidol y BBC a'i fuddiant ecwiti yn y gyd-fenter i sicrhau y rheolir costau'r gyd-fenter hon ar wahân i weithgareddau a ariennir gan ffi'r drwydded.

Ers nifer o flynyddoedd mae'r BBC, drwy ei is-gwmni BBC Worldwide, wedi bod mewn partneriaeth â Flextech, is-adran gynnwys Telewest Communications plc, i gynhyrchu a marchnata sianelau tanysgrifio yn y DU a chyda Discovery Communications Inc. ar gyfer ymgorffori sianelau newydd ledled y byd a darparu arian cyd-gynhyrchu newydd ar gyfer rhaglenni. Mae'r cynghreiriau hyn yn gweithredu'r cyd-fentrau a restrir uchod.

Cyfran y Grŵp o'r trosiant ar gyfer cyd-fenter Haymarket oedd £4.2miliwn (2002 £6.4miliwn) a chyfran ei warged gweithredol oedd £0.7miliwn (2002 £0.3miliwn).

Mae'r gyd-fenter gyda Land Securities Trillium Limited yn darparu ystod o wasanaethau eiddo a datblygu i'r BBC. Sefydlwyd cyd-fentrau cysylltiedig a chwmnïau cyswllt i ddatblygu eiddo penodol y BBC.

Mae'r datgeliadau canlynol yn cynrychioli cyfrannau ecwiti'r Grŵp o asedion a rhwymedigaethau ei gyd-fentrau yn seiliedig ar y canlyniadau ar gyfer y cyfnodau cyfrifo diweddaraf fel y dangosir uchod.

**13d Buddiannau mewn cyd-fentrau** *parhad*

| Cyfran Grŵp y BBC o: | UK Gold Holdings Limited* £m | UK Channel Management Limited* £m | Cyd-fentrau eraill* £m | **Cyfanswm y cyd-fentrau £m** |
|---|---|---|---|---|
| 2003 | | | | |
| Trosiant | 31.7 | 28.6 | 19.7 | **80.0** |
| Elw/(colled) cyn treth | 9.5 | 0.3 | (1.0) | **8.8** |
| Trethiant | (2.7) | – | (0.9) | **(3.6)** |
| Elw/(colled) ar ôl treth | **6.8** | **0.3** | **(1.9)** | **5.2** |
| Asedion sefydlog | – | – | 2.3 | **2.3** |
| Ewyllys da | – | – | 10.2 | **10.2** |
| Asedion cyfredol | 14.3 | 27.6 | 19.4 | **61.3** |
| Rhwymedigaethau llai na blwyddyn | (10.3) | (3.5) | (13.0) | **(26.8)** |
| Rhwymedigaethau mwy na blwyddyn | (38.5) | (46.8) | (11.5) | **(96.8)** |
| Addasiad i adlewyrchu ymrwymiadau gwirioneddol | 34.5 | 22.7 | 5.7 | **62.9** |
| Gwerth llyfr net | **–** | **–** | **13.1** | **13.1** |
| 2002 | | | | |
| Trosiant | 34.8 | 28.4 | 18.4 | **81.6** |
| Elw/(colled) cyn treth | 13.2 | (3.0) | (1.9) | **8.3** |
| Trethiant | (3.4) | – | (0.2) | **(3.6)** |
| Elw/(colled) ar ôl treth | 9.8 | (3.0) | (2.1) | **4.7** |
| Asedion sefydlog | – | 0.1 | 2.2 | **2.3** |
| Ewyllys da | – | – | 9.2 | **9.2** |
| Asedion cyfredol | 14.2 | 14.0 | 19.6 | **47.8** |
| Rhwymedigaethau llai na blwyddyn | (9.4) | (7.1) | (11.6) | **(28.1)** |
| Rhwymedigaethau mwy na blwyddyn | (46.0) | (44.6) | (11.6) | **(102.2)** |
| Addasiad i adlewyrchu ymrwymiadau gwirioneddol | 41.2 | 37.6 | 3.7 | **82.5** |
| Gwerth llyfr net | – | – | 11.5 | **11.5** |

** Seilir y ffigurau ar gyfer 2003 ar ddatganiadau ariannol heb eu harchwilio (2002 heb eu harchwilio)*

Yn unol â thelerau'r cytundeb â Flextech a Discovery, nid oes unrhyw reidrwydd ar y Grŵp i ariannu colledion yr aethpwyd iddynt gan yr endidau nac i ad-dalu eu rhwymedigaethau net. O ganlyniad, nid yw'r Grŵp yn rhannu colledion yr endidau perthnasol ac felly ni chynhwysir unrhyw gyfran o'r colledion yn y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003 (2002 £dim). Mae gan y Grŵp yr hawl i'w gyfran o unrhyw elw neu asedion net unwaith y bydd elw cronnol y mentrau yn fwy na'r colledion cronnol ers yr ymgorfforiad.

Busnesau yw partneriaethau cyswllt y mae gan y BBC gryn ddylanwad drostynt ond nid rheolaeth lwyr.

**13e Buddiannau mewn partneriaethau cyswllt**

Mae'r Grŵp yn dal buddiannau sylweddol yn y prif bartneriaethau cyswllt canlynol sydd, oni nodir yn wahanol, wedi eu hymgorffori ym Mhrydain Fawr:

| | Dal cyfranddaliadau cyffredin a ddyroddwyd % |
|---|---|
| **Delir gan UK Public Service Broadcasting:** | |
| Parliamentary Broadcasting Unit Limited | 33 |
| Broadcasters Audience Research Board Limited | * |
| The Commonwealth Broadcasting Association | * |
| Radio Joint Audience Research Limited (RAJAR) | 50 |
| **Delir gan BBC World Service:** | |
| Caribbean Relay Company Limited (yn gorfforedig yn Antigua) | 45 |
| Multimedia Ventures Limited | 50 |
| WRG-FM SA (yn gorfforedig yn y Swistir) | 40 |
| **Delir gan BBC Worldwide Limited:** | |
| ***Cyhoeddi*** | |
| Frontline Limited | 23 |
| ***Sianelau*** | |
| UKTV Pty Limited (yn gorfforedig yn Awstralia) | 20 |
| Animal Planet (Latin America) LLC (yn gorfforedig yn UDA)† | 50 |
| People and Arts (Latin America) LLC (yn gorfforedig yn UDA)† | 50 |
| Animal Planet LLC (yn gorfforedig yn UDA)† | 20 |
| JV Network LLC (yn gorfforedig yn UDA)† | 50 |
| Animal Planet (Asia) LLC (yn gorfforedig yn UDA)† | 50 |
| The Animal Planet Europe Partnership† | 50 |
| Animal Planet Japan KK (yn gorfforedig yn Japan)† | 33 |
| Animal Planet Japan LLP (yn gorfforedig yn UDA)† | 50 |
| Jasper Broadcasting Inc. (yn gorfforedig yng Nghanada) | 20 |
| Jasper Junior Broadcasting Inc. (yn gorfforedig yng Nghanada) | 20 |
| Animal Planet Canada Company ULC (yn gorfforedig yng Nghanada)† | 23 |
| **Delir gan BBC Resources Limited:** | |
| 3sixtymedia Limited | 10 |
| **Delir gan BBC Property Limited:** | |
| White City Development Partnership | ** |

** Mae Broadcasters Audience Research Board Limited a The Commonwealth Broadcasting Association yn gwmnïau cyfyngedig drwy warant, ac mae'r BBC yn gyd-aelod ohonynt ynghyd â darlledwyr eraill*

*† Partneriaeth gyswllt Discovery*

*** Cyfranddaliad partneriaeth o 50%*

**13e Buddiannau mewn partneriaethau cyswllt** *parhad*

Seilir y datgeliadau ychwanegol canlynol ar ganlyniadau partneriaethau cyswllt Discovery am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2002 a seilir datgeliadau y partneriaethau cyswllt sy'n weddill ar y canlyniadau ar ddyddiad eu datganiadau ariannol unigol. Mae'r datgeliadau ychwanegol hyn yn cynrychioli cyfran ecwiti y Grŵp o asedion a rhwymedigaethau'r endidau hynny.

| Buddiannau Grŵp y BBC mewn partneriaethau cyswllt | **2003 £m** | 2002 £m |
|---|---|---|
| Cyfran y trosiant | **37.5** | 39.1 |
| Cyfran yr asedion sefydlog | **51.0** | 61.4 |
| Cyfran yr asedion cyfredol | **14.7** | 23.9 |
| Cyfran y rhwymedigaethau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | **(16.4)** | (22.3) |
| Cyfran y rhwymedigaethau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | **(114.5)** | (104.9) |
| Addasiad i adlewyrchu ymrwymiad gwirioneddol | **69.9** | 46.8 |
| **Buddiannau net mewn partneriaethau cyswllt** | **4.7** | 4.9 |

Mae'r canlyniadau yn cynnwys cyfran y Grŵp o elw gweithredol UKTV Pty Limited o £0.2miliwn (2002 £0.1miliwn) a Frontline Limited o £2.0miliwn (2002 £0.1miliwn). Cyfrifir y ddau ar wahân i bartneriaethau cyswllt Discovery. Cyfran y Grŵp o'r partneriaethau cyswllt sy'n weddill, gan gynnwys Jasper Broadcasting Inc. a Jasper Junior Broadcasting Inc., a weithredir mewn partneriaeth ag Alliance Atlantis, oedd £dim (2002 £dim).

Yn unol â thelerau'r cytundebau gyda Discovery ac Alliance Atlantis, nid oes gan y Grŵp unrhyw ymrwymiad i ariannu colledion yr endidau nac i ad-dalu eu rhwymedigaethau net. O ganlyniad, nid yw'r Grŵp yn rhannu colledion yr endidau perthnasol ac yn unol â hynny ni chynhwysir unrhyw gyfran o'r colledion yn y datganiadau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003 (2002 £dim). Mae gan y Grŵp yr hawl i'w gyfran o unrhyw elw neu asedion net unwaith y bydd elw cronnol y mentrau yn fwy na'r colledion cronnol ers yr ymgorfforiad, ac eithrio JV Network LLC. Sefydlwyd JV Network LLC i ddarparu arian o Discovery i gyd-fentrau eraill Discovery ac nid oes gan BBC Worldwide yr hawl i unrhyw elw sy'n codi o fewn yr endid hwn.

## 14 Stociau

| | **Grŵp 2003 £m** | Grŵp 2002 £m | **UK Public Service Broadcasting 2003 £m** | UK Public Service Broadcasting 2002 £m |
|---|---|---|---|---|
| Deunyddiau crai | **4.2** | 2.4 | **–** | – |
| Gwaith yn mynd rhagddo | | | | |
| – rhaglenni gwreiddiol a gynhyrchwyd yn fewnol | **245.2** | 254.5 | **245.1** | 254.5 |
| – eraill | **7.3** | 6.6 | **–** | 0.1 |
| Rhaglenni a orffennwyd | | | | |
| – rhaglenni a ffilmiau a gaffaelwyd | **97.2** | 89.0 | **97.2** | 89.0 |
| – rhaglenni gwreiddiol a gynhyrchwyd yn fewnol | **94.9** | 80.7 | **94.9** | 80.7 |
| Arall | **20.1** | 16.2 | **0.5** | 1.0 |
| **Cyfanswm** | **468.9** | 449.4 | **437.7** | 425.3 |

## 15 Dyledwyr

| | **Grŵp 2003 £m** | Grŵp 2002 £m | **UK Public Service Broadcasting 2003 £m** | UK Public Service Broadcasting 2002 £m |
|---|---|---|---|---|
| **Derbyniadwy o fewn blwyddyn** | | | | |
| Dyledwyr masnach | **142.6** | 146.4 | **21.9** | 27.5 |
| Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon – dyledwyr ffi'r drwydded | **254.3** | 255.5 | **254.3** | 255.5 |
| Symiau sy'n ddyledus gan is-gwmnïau | **–** | – | **56.0** | 58.1 |
| Symiau sy'n ddyledus gan bartneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | **4.9** | 9.2 | **–** | – |
| TAW adferadwy | **38.0** | 39.6 | **34.1** | 30.7 |
| Dyledwyr eraill | **22.7** | 36.4 | **5.6** | 14.2 |
| Treth gorfforaeth | **–** | 0.6 | **–** | 0.7 |
| Rhagdaliadau | **143.0** | 175.9 | **115.4** | 156.1 |
| | **605.5** | 663.6 | **487.3** | 542.8 |
| **Derbyniadwy ar ôl mwy na blwyddyn** | | | | |
| Dyledwyr masnach | **–** | 0.2 | **–** | 0.2 |
| Dyledwyr eraill | **6.9** | – | **–** | – |
| Rhagdaliadau | **151.7** | 137.0 | **131.8** | 113.6 |
| | **158.6** | 137.2 | **131.8** | 113.8 |
| Cyfanswm | **764.1** | 800.8 | **619.1** | 656.6 |

Mae'r rhagdaliadau sy'n dderbyniadwy ar ôl mwy na blwyddyn yn cynnwys swm mewn perthynas ag adeilad White City a brydlesir gan y bartneriaeth rhwng y BBC a Land Securities Trillium. Caiff ei ryddhau yn ystod tymor y brydles.

## 16 Credydwyr

### 16a Polisi talu'n brydlon

Polisi'r BBC yw cydymffurfio â chod talu prydlon y CBI mewn perthynas â thalu cyflenwyr, ar yr amod bod y cyflenwyr yn cydymffurfio â thelerau ac amodau perthnasol eu contractau. Mae'r BBC yn monitro cydymffurfiad yn erbyn telerau'r cod hwn. Gwneir taliadau ar gyfer caffaeliadau rhaglenni yn unol â thelerau cytundebol. Roedd gan Grŵp y BBC 44 o ddiwrnodau credydwyr heb eu talu mewn perthynas â chredydwyr masnach eraill ar 31 Mawrth 2003 (2002 52 o ddiwrnodau).

## 16b Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | Nodyn | **Grŵp 2003 £m** | Grŵp 2002 £m | **UK Public Service Broadcasting 2003 £m** | UK Public Service Broadcasting 2002 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Gorddrafftiau banc a benthyciadau eraill | 23 | | | | |
| Gorddrafftiau banc | | **70.7** | – | **70.7** | 60.9 |
| Benthyciadau banc a benthyciadau eraill | | **0.9** | – | **–** | – |
| Nodiadau benthyca nas gwarantwyd | | **1.7** | 1.9 | **–** | – |
| | | **73.3** | 1.9 | **70.7** | 60.9 |
| Taliadau a dderbyniwyd ar gyfrif | | **–** | 2.2 | **–** | – |
| Credydwyr masnach | | | | | |
| Credydwyr rhaglenni | | **76.2** | 75.9 | **72.6** | 75.5 |
| Caffaeliadau rhaglenni | | **35.4** | 44.0 | **35.0** | 44.0 |
| Cyflogau | | **48.6** | 29.0 | **27.2** | 18.2 |
| Taliadau hawlfraint gweddilliol | | **41.8** | 56.5 | **–** | – |
| Credydwyr masnach eraill | | **164.5** | 178.9 | **104.5** | 121.7 |
| | | **366.5** | 384.3 | **239.3** | 259.4 |
| Credydwyr eraill | | | | | |
| Treth gorfforaeth | | **3.1** | – | **1.3** | – |
| Trethiant arall a nawdd cymdeithasol | | **32.6** | 41.0 | **25.8** | 24.6 |
| Symiau sy'n ddyledus i is-gwmnïau | | **–** | – | **69.2** | 57.9 |
| Symiau sy'n ddyledus i bartneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | | **0.7** | 1.7 | **–** | – |
| Ymrwymiadau o dan brydlesau cyllid | | **8.8** | 7.2 | **–** | – |
| Symiau sy'n ddyledus i is-gwmnïau mewn perthynas â phrydlesau cyllid | | **–** | – | **1.9** | 10.1 |
| | | **45.2** | 49.9 | **98.2** | 92.6 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | | | | | |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | | **327.4** | 302.4 | **266.6** | 224.5 |
| Adneuon stampiau cynilo trwydded a rhandaliadau debyd uniongyrchol | | **108.1** | 130.5 | **108.1** | 130.5 |
| | | **435.5** | 432.9 | **374.7** | 355.0 |
| Cyfanswm | | **920.5** | 871.2 | **782.9** | 767.9 |

## 16c Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | Nodyn | **Grŵp 2003 £m** | Grŵp 2002 £m | **UK Public Service Broadcasting 2003 £m** | UK Public Service Broadcasting 2002 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau banc a benthyciadau eraill | 23 | **87.2** | 29.4 | **–** | – |
| Credydwyr masnach | | | | | |
| Caffaeliadau rhaglenni | | **33.1** | 36.4 | **33.1** | 36.4 |
| Credydwyr masnach eraill | | **–** | 2.9 | **–** | – |
| | | **33.1** | 39.3 | **33.1** | 36.4 |
| Credydwyr eraill | | | | | |
| Ymrwymiadau o dan brydlesau cyllid | 23 | **39.1** | 33.8 | **–** | – |
| Symiau sy'n ddyledus i is-gwmnïau | | **–** | – | **18.3** | – |
| Symiau sy'n ddyledus i is-gwmnïau mewn perthynas â phrydlesau cyllid | 23 | **–** | – | **4.8** | 9.7 |
| | | **39.1** | 33.8 | **23.1** | 9.7 |
| Cyfanswm | | **159.4** | 102.5 | **56.2** | 46.1 |

## 17 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| Grŵp | Ar 1 Ebrill 2002 £m | Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn £m | Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn £m | Tâl a godwyd am y flwyddyn £m | **Ar 31 Mawrth 2003 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffi'r drwydded | 24.9 | (20.9) | (1.5) | 19.8 | **22.3** |
| Ailstrwythuro | 14.1 | (8.3) | (3.9) | 5.2 | **7.1** |
| Ymgyfreitha ac yswiriant | 14.6 | (2.9) | (2.5) | 5.6 | **14.8** |
| Eiddo | 10.5 | – | – | 2.4 | **12.9** |
| Arall | 18.5 | (9.6) | (16.4) | 22.4 | **14.9** |
| **Cyfanswm** | 82.6 | (41.7) | (24.3) | 55.4 | **72.0** |

Mae darpariaethau eiddo yn cynnwys rhwymedigaeth BBC World Service o £3.6miliwn (2002 £3.6miliwn) i adfer Bush House i'w gyflwr gwreiddiol, ynghyd â symiau sy'n berthnasol i ddadfeiliadau ac adleoliadau eraill.

Mae darpariaethau eraill yn cynnwys nifer o falansau sy'n codi ar draws y BBC wrth iddo gynnal ei fusnes yn ôl yr arfer.

| UK Public Service Broadcasting | Ar 1 Ebrill 2002 £m | Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn £m | Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn £m | Tâl a godwyd am y flwyddyn £m | **Ar 31 Mawrth 2003 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffi'r drwydded | 24.9 | (20.9) | (1.5) | 19.8 | **22.3** |
| Ailstrwythuro | 11.9 | (7.3) | (2.7) | 4.0 | **5.9** |
| Ymgyfreitha ac yswiriant | 14.6 | (2.9) | (2.5) | 5.6 | **14.8** |
| Eiddo | 6.9 | – | – | 2.4 | **9.3** |
| Arall | 16.3 | (9.6) | (12.5) | 17.8 | **12.0** |
| **Cyfanswm** | 74.6 | (40.7) | (19.2) | 49.6 | **64.3** |

## 18 Cronfeydd wrth gefn

| | Cronfa weithredol wrth gefn ac eithrio cronfa bensiwn wrth gefn £m | Cronfa bensiwn wrth gefn £m | Cyfanswm y gronfa weithredol wrth gefn £m | Cronfa gyfalaf wrth gefn £m | Cronfa ailbrisio wrth gefn £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grŵp** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 646.2 | 961.1 | 1,607.3 | 802.6 | 6.4 | **2,416.3** |
| Addasiadau cyfnewid | (3.1) | – | (3.1) | – | – | **(3.1)** |
| Diffyg am y flwyddyn ariannol | (314.6) | – | (314.6) | – | – | **(314.6)** |
| Colled actiwaraidd ar gynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig | – | (2,013.4) | (2,013.4) | – | – | **(2,013.4)** |
| Trosglwyddiad cronfa ailbrisio wrth gefn | 0.8 | – | 0.8 | – | (0.8) | **–** |
| Trosglwyddiad cronfa bensiwn wrth gefn | 22.2 | (22.2) | – | – | – | **–** |
| Trosglwyddiad cronfa gyfalaf wrth gefn | (55.5) | – | (55.5) | 55.5 | – | **–** |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | 296.0 | (1,074.5) | (778.5) | 858.1 | 5.6 | **85.2** |
| **Cynrychiolwyd gan:** | | | | | | |
| Cronfeydd wrth gefn y Grŵp Cyffredinol | 287.2 | (1,074.5) | (787.3) | 729.7 | – | **(57.6)** |
| Cronfeydd wrth gefn BBC World Service | 8.8 | – | 8.8 | 128.4 | 5.6 | **142.8** |
| | 296.0 | (1,074.5) | (778.5) | 858.1 | 5.6 | **85.2** |

Ariennir gweithrediadau UK Public Service Broadcasting a BBC World Service o ffynonellau gwahanol. Fel y cyfryw, cedwir y cronfeydd wrth gefn sy'n berthnasol i BBC World Service ar wahân i weddill y Grŵp a chyfyngir eu defnydd i weithgareddau BBC World Service yn unig.

O dan safon gyfrifo FRS 10, *Goodwill and intangible assets*, mae'n rhaid cyfalafu unrhyw ewyllys da newydd sy'n codi a'i amorteiddio dros ei fywyd defnyddiol. Yn ôl yr hyn a ganiateir gan y safon, bydd ewyllys da o £6.8miliwn (2002 £6.8miliwn) sy'n codi mewn cyfnodau cyn 1999 yn parhau i gael ei wrthbwyso yn erbyn y gronfa weithredol wrth gefn.

## 18 Cronfeydd wrth gefn *parhad*

| | Cronfa weithredol wrth gefn £m | Cronfa gyfalaf wrth gefn £m | Cronfa ailbrisio wrth gefn £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|
| **UK Public Service Broadcasting** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 561.1 | 802.6 | 6.4 | **1,370.1** |
| Diffyg am y flwyddyn ariannol | (303.4) | – | – | **(303.4)** |
| Trosglwyddiad cronfa ailbrisio wrth gefn | 0.8 | – | (0.8) | **–** |
| Trosglwyddiad cronfa gyfalaf wrth gefn | (55.5) | 55.5 | – | **–** |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | 203.0 | 858.1 | 5.6 | **1,066.7** |
| **Cynrychiolwyd gan:** | | | | |
| Cronfeydd wrth gefn UK Public Service Broadcasting | 194.2 | 729.7 | – | **923.9** |
| Cronfeydd wrth gefn BBC World Services | 8.8 | 128.4 | 5.6 | **142.8** |
| | 203.0 | 858.1 | 5.6 | **1,066.7** |

## 19 Cysoni diffyg gweithredol y Grŵp i'r (all-lif)/mewnlif arian parod net yn sgîl gweithgareddau gweithredol

| | **2003 £m** | 2002 £m |
|---|---|---|
| Diffyg gweithredol y Grŵp | **(406.6)** | (173.4) |
| Dibrisio ac amorteiddio | **230.2** | 220.5 |
| Costau gweithredol y cynlluniau pensiwn (anariannol) | **136.5** | 151.5 |
| Colled wrth waredu asedion sefydlog cyffyrddadwy | **4.5** | 1.4 |
| Cynnydd mewn stociau | **(19.5)** | (51.8) |
| Gostyngiad/(cynnydd) mewn dyledwyr | **37.3** | (43.3) |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn credydwyr | **(36.0)** | 83.2 |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn darpariaethau | **(14.7)** | 29.4 |
| **(All-lif)/mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredol** | **(68.3)** | 217.5 |

## 20 Dadansoddiad o newidiadau mewn cronfeydd/(dyled) net

| | Ar 1 Ebrill 2002 £m | Llifau arian parod £m | Symudiadau anariannol £m | **Ar 31 Mawrth 2003 £m** |
|---|---|---|---|---|
| **Arian parod net** | | | | |
| Gorddrafftiau banc | – | (70.7) | – | **(70.7)** |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 0.3 | 69.2 | – | **69.5** |
| | 0.3 | (1.5) | – | **(1.2)** |
| **Adnoddau rhydd** | | | | |
| Buddsoddiadau tymor byr | 356.8 | (291.9) | – | **64.9** |
| **Cronfeydd gros** | 357.1 | (293.4) | – | **63.7** |
| **Dyled:** | | | | |
| Benthyciadau gan drydydd partïon | (29.4) | (59.1) | 0.4 | **(88.1)** |
| Nodiadau benthyca nas gwarantwyd | (1.9) | 0.5 | (0.3) | **(1.7)** |
| Prydlesau cyllid | (41.0) | 21.4 | (28.3) | **(47.9)** |
| **Cronfeydd/(dyled) net** | 284.8 | (330.6) | (28.2) | **(74.0)** |

Caiff yr ad-daliadau ar brydlesau cyllid a ddelir gan Centre House Productions Limited eu gwrthbwyso'n uniongyrchol gan incwm a enillir ar adneuon cyfatebol, fel na fydd unrhyw effaith o ran llif arian parod .

## 21 Cysoni llif arian parod net i symudiad mewn cronfeydd net

| | 2003 £m | 2002 £m |
|---|---|---|
| Gostyngiad mewn arian parod yn ystod y flwyddyn | **(1.5)** | (95.6) |
| (Mewnlif)/all-lif arian parod net o reoli adnoddau rhydd | **(291.9)** | 88.4 |
| Mewnlif arian parod net o gynnydd mewn benthyciadau a phrydlesau cyllid | **(37.2)** | (10.3) |
| Newid mewn cronfeydd net sy'n deillio o lifau arian | **(330.6)** | (17.5) |
| Symudiad anariannol ar fenthyciadau | **0.1** | (1.9) |
| Cynnydd mewn prydlesau cyllid | **(28.3)** | (30.5) |
| **Newid mewn cronfeydd net** | **(358.8)** | (49.9) |
| Cronfeydd net ar ddechrau'r flwyddyn | **284.8** | 334.7 |
| **(Dyled)/cronfeydd net ar ddiwedd y flwyddyn** | **(74.0)** | 284.8 |

## 22 Terfynau benthyca

Pan roddodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon derfyn benthyca newydd o £350miliwn i BBC Commercial Holdings Limited ym mis Gorffennaf 2002, diffiniwyd tri chyfamod ariannol y mae'n ofynnol iddynt gael eu bodloni ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Ar 31 Mawrth 2003 roedd BBC Commercial Holdings Group yn cydymffurfio â phob un o'r cyfamodau hyn.

O'r terfyn masnachol o £350miliwn, dim ond £210miliwn sydd ar gael ar hyn o bryd i'r gweithrediadau masnachol nes bod BBC Resources Limited yn cael ei drosglwyddo i'r grŵp sydd o dan arweiniad BBC Commercial Holdings Limited. Mae'n ofynnol i hyn ddigwydd cyn 30 Medi 2003.

Pennir terfyn benthyca'r Gwasanaethau Cyhoeddus o fewn Siarter y BBC.

| | 2003 £m | 2002 £m |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau Cyhoeddus** | | |
| Terfyn benthyca gros | **200.0** | 200.0 |
| **Benthyciadau** | | |
| Gorddrafftiau banc | **70.7** | 60.9 |
| Prydlesau cyllid* | **6.7** | 19.8 |
| | **77.4** | 80.7 |
| **Adneuon stampiau cynilo trwydded a rhandaliadau debyd uniongyrchol i'r graddau nas cwmpesir gan arian parod ac adnoddau rhydd**** | | |
| Adneuon stampiau cynilo trwydded a rhandaliadau debyd uniongyrchol | **108.1** | 130.5 |
| Llai: buddsoddiadau tymor byr | **(32.9)** | (356.8) |
| Llai: arian yn y banc ac mewn llaw | **(20.4)** | (11.4) |
| **Swm nas cwmpesir gan arian parod ac adnoddau rhydd** | **54.8** | – |
| **Benthyciadau gros** | **132.2** | 80.7 |

**Yn cynnwys prydlesau cyllid gydag is-gwmnïau masnachol ond heb gynnwys prydlesau cyllid Centre House Productions*

*** Rhaid i'r BBC allu ad-dalu'r rhain ar orchymyn ac felly i'r graddau nad yw'n dal cronfeydd arian parod wrth gefn sy'n cyfateb â'r rhwymedigaeth, pennir y balans yn erbyn y terfyn benthyca*

Pennwyd terfyn benthyca'r Busnesau Masnachol yn ystod 2003 gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

| | 2003 £m | 2002 £m |
|---|---|---|
| **Busnesau Masnachol** | | |
| Terfyn benthyca net | **350.0** | dd/g |
| Benthyciadau gan drydydd partïon | **88.1** | |
| Nodiadau benthyca nas gwarantwyd | **1.7** | |
| Prydlesau cyllid | **15.9** | |
| **Benthyciadau gros** | **105.7** | |
| Llai: Cronfeydd gros | **(74.3)** | |
| **Benthyciadau net** | **31.4** | |

## 23 Offerynnau ariannol

### 23a Rheolaeth trysorlys ac offerynnau ariannol

Rheolir gweithrediadau trysorlys y Grŵp gan swyddogaeth trysorlys grŵp o fewn paramedrau a ddiffinnir yn ffurfiol o fewn y llawlyfr polisïau a gweithdrefnau y cytunir arno gan y Pwyllgor Gweithredol. Cyflwynir adroddiad ar weithgaredd Trysorlys y Grŵp yn rheolaidd i'r Pwyllgor Gweithredol a Bwrdd y Llywodraethwyr ac mae'n destun arolwg gan archwilwyr mewnol ac allanol.

Mae Trysorlys y Grŵp yn defnyddio offerynnau ariannol i godi arian ac i reoli risg ariannol sy'n deillio o'i weithrediadau yn unol â'i amcanion sef:

- sicrhau yr ariennir busnes y BBC, y Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gwasanaethau Masnachol, yn llawn yn y ffordd fwyaf effeithlon a'i fod yn parhau i gydymffurfio â'r terfynau benthyca
- cael yr adenillion mwyaf posibl ar gronfeydd gwarged, tra'n sicrhau y cedwir digon o arian i fodloni gofynion hylifedd rhagweladwy
- diogelu gwerth asedion, rhwymedigaethau a llifau arian parod y BBC, rhag effeithiau cyfraddau llog anffafriol ac amrywiadau o ran cyfraddau cyfnewid tramor

Mae offerynnau ariannol y Grŵp, heblaw'r rhai a ddefnyddir at ddibenion rheoli risg trysorlys, yn cynnwys adnoddau arian parod ac adnoddau rhydd, benthyciadau ac eitemau amrywiol fel dyledwyr a chredydwyr masnach sy'n codi'n uniongyrchol o'i weithrediadau. Mae'r Grŵp yn ariannu ei weithrediadau o'r offerynnau ariannol hyn. Y prif risgiau i'w rheoli yn hyn o beth yw sicrhau bod gan y Grŵp ddigon o arian rhydd i gyflawni ei ymrwymiadau pan ddônt yn ddyledus a'i fod yn cydymffurfio â'i derfynau benthyca a osodir gan y Siarter, gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a chan gyfamodau benthyca allanol.

Mae'r Grŵp hefyd yn llunio trafodion rhagfantoli cyfraddau llog a chyfnewid tramor cyfyngedig i reoli ei risg arian cyfred a'i risg o ran y gyfradd llog. Mae'r Grŵp yn sefydliad domestig yn bennaf gyda'r rhan fwyaf o'r trafodion a'r asedion yn cael eu gwneud yn y DU ac yn rhai sterling. Fodd bynnag, mae'r Grŵp yn cynnal rhai trafodion mewn arian cyfred heblaw sterling ac yn llunio blaen-gontractau arian cyfred tramor i reoli'r risg arian cyfred hon. Ers mis Mawrth 2003 mae'r Grŵp hefyd wedi ymrwymo i gyfnewidiadau'r gyfradd llog i reoli'r risg o ran y gyfradd llog nawr bod ganddo lefel fwy sylweddol o fenthyciadau.

Nid yw'r Grŵp yn cynnal trafodion trysorlys hapfasnachol.

### 23b Cyfleusterau arian parod a benthyca

Mae'r Grŵp yn buddsoddi arian parod gwarged tymor byr mewn cynnyrch buddsoddi cyfradd sefydlog. Dim ond mewn sefydliadau sydd ag isafswm dosbarthiad hir dymor AA y buddsoddir arian.

Ar 31 Mawrth 2003 roedd cyfleusterau gorddrafft o £13.2miliwn gan UK Public Service Broadcasting a mynediad i linellau marchnad arian dwyffordd heb ymrwymiad yn gwneud cyfanswm o £45miliwn. Mae llog yn daladwy ar y cyfleuster gorddrafft ar orswm o 1% ac ar y cyfleusterau marchnad arian rhwng 0.125% a 0.5%.

Mae benthyciadau BBC Commercial Holdings yn cynnwys cytundeb cyfleuster credyd tro mewn sawl arian cyfred o £350miliwn sy'n ad-daladwy yn llawn ym mis Mawrth 2008. Ar 31 Mawrth 2003 roedd £85miliwn wedi ei ddefnyddio. Mae llog yn daladwy ar y Gyfradd Cynnig Rhwng Banciau Llundain (LIBOR) plws 0.375%, yn codi i LIBOR plws 0.45%, unwaith y bydd mwy na 50% o'r cyfleuster wedi ei ddefnyddio. O'r cyfanswm, mae £100miliwn ar gael ar ffurf llythyrau credyd i'w rhoi o blaid Banc Buddsoddi Ewrop i ategu ei fenthyciadau o dan y cyfleusterau a nodir isod.

Mae Banc Buddsoddi Ewrop wedi sicrhau bod dau gyfleuster benthyca ar gael i BBC Commercial Holdings. Mae'r cyntaf, am swm o £66miliwn, ar gael i'w ddefnyddio tan fis Mawrth 2005 a rhaid ei ad-dalu naill ai yn llawn fel un ad-daliad erbyn mis Mawrth 2013 neu ar sail amorteiddio erbyn mis Mawrth 2015. Mae'r ail, am £25miliwn, ar gael i'w ddefnyddio tan fis Tachwedd 2003 ac mae'n ad-daladwy mewn un taliad erbyn mis Tachwedd 2007. Pennir y gyfradd llog sy'n gymwys ar y ddau gyfleuster drwy gyfeirio at gost ariannu Banc Buddsoddi Ewrop ei hun ac nid oes unrhyw orswm yn uwch na'r gyfradd ariannu hon. Ar 31 Mawrth 2003, ni ddefnyddiwyd unrhyw beth o dan y naill gyfleuster na'r llall.

Mae benthyciadau eraill yn cynnwys benthyciad o $5miliwn yr UD gan Discovery (2002 $5miliwn yr UD) sy'n ad-daladwy yn y camau canlynol: $1.5miliwn yr UD yn ddyledus 31 Mawrth 2004; $3.5miliwn yr UD yn ddyledus 31 Mawrth 2005. Mae llog yn daladwy ar gyfradd LIBOR plws 1%.

Ym mis Mehefin 2003 rhoddwyd cyfleuster benthyca £100miliwn newydd ar waith ar gyfer UK Public Service Broadcasting sydd ar gael naill ai fel benthyciad tro yn seiliedig ar LIBOR neu orddrafft hyd at fis

**23b Cyfleusterau arian parod a benthyca** *parhad*

Mai 2004 yn ogystal ag opsiwn i ymestyn y cyfleuster hyd at fis Mai 2005. Mae'r cyfleuster yn dwyn llog ar orswm o 0.2% ac mae'r cyfleuster gorddrafft yn dwyn llog ar gyfraddau sylfaenol banc plws 1%.

Ar ôl diwedd y flwyddyn lluniodd BBC Resources gytundeb cyfleuster credyd tro o £50miliwn sy'n ad-daladwy yn llawn ym mis Medi 2004. Mae llog yn daladwy ar gyfradd LIBOR plws 0.375%.

**23c Aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol**

Mae'r Grŵp yn trefnu ei fenthyciadau i fodloni llifau arian parod a ragwelir fel bod gan UK Public Service Broadcasting fynediad i ddigon o arian i gyflawni ei ymrwymiadau. Cyflawnir hyblygrwydd tymor byr drwy gyfleusterau gorddrafft.

Proffil aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol y Grŵp, heblaw credydwyr tymor byr, ar 31 Mawrth oedd:

| 2003 | Gorddrafft £m | Benthyciadau banc £m | Nodiadau benthyca nas gwarantwyd £m | Prydlesau cyllid £m | Credydwyr masnach £m | **Cyfanswm 2003 £m** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | 70.7 | 0.9 | 1.7 | 8.8 | – | **82.1** |
| Rhwng blwyddyn a dwy flynedd | – | 2.2 | – | 5.0 | 18.2 | **25.4** |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | – | 85.0 | – | 2.0 | 14.9 | **101.9** |
| Mwy na phum mlynedd | – | – | – | 32.1 | – | **32.1** |
| | **70.7** | **88.1** | **1.7** | **47.9** | **33.1** | **241.5** |
| 2002 | | | | | | |
| O fewn blwyddyn | – | – | 1.9 | 7.2 | – | 9.1 |
| Rhwng blwyddyn a dwy flynedd | – | 1.9 | – | 10.7 | 39.3 | 51.9 |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | – | 27.5 | – | 2.3 | – | 29.8 |
| Mwy na phum mlynedd | – | – | – | 20.8 | – | 20.8 |
| | – | 29.4 | 1.9 | 41.0 | 39.3 | 111.6 |

Mae'r rhwymedigaethau o dan brydlesau cyllid yn ymwneud â chaledwedd gyfrifiadurol sef £15.9miliwn (2002 £19.6miliwn) a phrydlesau y mae Centre House Productions Limited yn ymrwymo iddynt sef £32.0miliwn (2002 £21.4miliwn).

Mae Centre House Productions Limited yn ymrwymo i brydlesau cyllid fel ffordd o ariannu cynyrchiadau drama sy'n arwain at gostau cynhyrchu is i'r BBC. Cyfatebir y prydlesau cyllid hyn ag adneuon dirymu na ellir ond eu defnyddio i setlo'r rhwymedigaethau prydlesau cyllid ac felly nid ydynt yn cynrychioli asedion a rhwymedigaethau ar wahân. O ganlyniad, cânt eu clirio o gyfrif y credydwr prydlesau cyllid i ddangos y rhwymedigaeth net na ellir cyfateb ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r adneuon dirymu hyn, £275.3miliwn ar 31 Mawrth 2003 (2002 £227.4miliwn), wedi eu strwythuro yn y fath fodd fel bod y prifswm ar adnau a'r llog a enillir yn ddigon i dalu rhwymedigaethau rhent y prydlesau cyllid tan ddiwedd y brydles. Yn unol â hynny, ni chaiff ei gynnwys fel benthyca at ddibenion cydymffurfio â therfynau benthyca'r BBC.

Proffil aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol UK Public Service Broadcasting, heblaw credydwyr tymor byr, ar 31 Mawrth oedd:

| 2003 | Gorddrafft £m | Prydlesau cyllid £m | Credydwyr masnach £m | Credydwyr cydgwmnïau £m | **Cyfanswm 2003 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | 70.7 | 1.9 | – | – | **72.6** |
| Rhwng blwyddyn a dwy flynedd | – | – | 33.1 | 1.6 | **34.7** |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | – | 4.8 | – | 6.8 | **11.6** |
| Mwy na phum mlynedd | – | – | – | 9.9 | **9.9** |
| | **70.7** | **6.7** | **33.1** | **18.3** | **128.8** |
| 2002 | | | | | |
| O fewn blwyddyn | 60.9 | 10.1 | – | – | **71.0** |
| Rhwng blwyddyn a dwy flynedd | – | 9.7 | 36.4 | – | **46.1** |
| | **60.9** | **19.8** | **36.4** | **–** | **117.1** |

Mae'r rhwymedigaethau o dan brydlesau cyllid yn ymwneud â chaledwedd gyfrifiadurol.

### 23d Cyfraddau llog

Mae prif amlygiad y Grŵp i amrywiadau yn y gyfradd llog yn codi ar fenthyciadau allanol. Ers mis Mawrth 2003 mae'r Grŵp wedi benthyca ar gyfraddau llog sefydlog ac arnawf ac yna wedi defnyddio ei gyfnewidiadau cyfradd llog i gynhyrchu'r proffil llog a ddymunir ac i reoli amlygiad y Grŵp i amrywiadau yn y gyfradd llog.

Daw asedion ariannol y Grŵp, ac eithrio dyledwyr tymor byr, i £140.4miliwn ar 31 Mawrth 2003 y mae £134.4miliwn ohono yn agored i gyfradd llog arnawf ac nid yw'r £6.0miliwn sy'n weddill o ddyledwyr eraill yn denu unrhyw log.

Ar ôl ystyried yr amrywiol gyfnewidiadau'r gyfradd llog a'r blaen-gontractau arian cyfred tramor yr ymrwymodd y Grŵp iddynt, roedd proffil cyfradd llog rhwymedigaethau ariannol y Grŵp ar 31 Mawrth 2003 yn:

| | | | | Rhwymedigaethau cyfradd sefydlog | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm £m | Rhwymedigaeth-au ariannol na thelir unrhyw log arnynt £m | Rhwymedigaeth-au ariannol y gyfradd arnawf £m | Swm £m | Cyfradd llog gyfartalog gymhwysol % | Cyfnod cyfartalog cymhwysol nes eu bod yn aeddfed |
| **2003** | | | | | | |
| Sterling | 238.4 | 65.2 | 87.4 | 85.8 | 3.8 | 4.5 mlynedd |
| Doler yr UD | 3.1 | – | – | 3.1 | 4.1 | 1.4 mlynedd |
| **Cyfanswm** | **241.5** | **65.2** | **87.4** | **88.9** | | |

Cyflawnir benthyciadau cyfradd sefydlog sterling drwy lunio trafodion cyfnewidiadau'r gyfradd llog. Yn ogystal â'r £70miliwn o gyfnewidiadau a gynhwysswyd yn y rhwymedigaethau cyfradd sefydlog o £85.8miliwn a ddangosir uchod, a oedd yn weithredol ar ddiwedd y flwyddyn, trafodwyd £116miliwn ychwanegol o gyfnewidiadau blaen-gychwynnol i gwmpasu benthyciadau rhagamcanol. Trafodwyd y cyfnewidiadau ychwanegol hyn ar gyfradd gyfartalog o 4.63% yn aeddfedu ym mis Mawrth 2008.

### 23e Amlygiad i arian cyfred

Lleolir y mwyafrif o weithrediadau'r Grŵp yn y DU. Mae gan y Grŵp un gweithrediad sylweddol dramor sef BBC Worldwide America, sy'n gweithredu yn UDA ac y mae eu refeniw a'u treuliau wedi'u dynodi yn noleri'r UD yn unig. Mae'r Grŵp yn lleihau rhan o'i amlygiad ar fantolen ei Grŵp i symudiadau yng nghyfradd gyfnewid doler yr UD a sterling ar gyfer y gweithrediad tramor hwn drwy fenthyciadau wedi eu henwi mewn doleri.

Mae gan y Grŵp nifer o drafodion yn ymwneud â phartïon tramor sydd wedi eu prisio yn arian cyfred y partïon hynny. Polisi'r Grŵp yw dileu amlygiad i arian cyfred ar adeg y trafodyn drwy ddefnyddio blaen-gontractau.

Ar 31 Mawrth 2003, ar ôl ystyried effeithiau blaen-gontractau cyfnewid tramor, nid oedd gan y Grŵp unrhyw amlygiad sylweddol i arian cyfred.

### 23f Enillion a cholledion ar gontractau rhagfantoli

Mae'r Grŵp yn cynnal rhai trafodion mewn marchnadoedd rhyngwladol. Oherwydd symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid dros amser, gall y swm y mae'r Grŵp yn disgwyl ei dalu pan fydd yn ymrwymo i drafodyn fod yn wahanol i'r swm a gaiff mewn gwirionedd neu a delir ganddo pan fydd yn setlo'r trafodyn. Mae'r Grŵp yn rheoli ei amlygiad i symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid drwy lunio blaen-gontractau rhagfantoli cyfnewid. Mae'r rhain yn caniatáu i'r Grŵp setlo trafodion ar gyfraddau cyfnewid hysbys, gan ddileu llawer o'r ansicrwydd hwn.

Ar 31 Mawrth 2003 roedd y Grŵp wedi gwneud ymrwymiad net i brynu arian cyfred tramor o £84.5miliwn sy'n aeddfedu yn y cyfnod hyd at 2007 er mwyn pennu cost sterling ymrwymiadau drwy gydol y cyfnod hwn.

Daeth enillion a cholledion nas gwireddwyd ar flaen-gontractau rhagfantoli cyfnewid i gyfanswm o ennill nas gwireddwyd o £0.6miliwn ar ddyddiad y fantolen.

O fis Mawrth 2003, dechreuodd y Grŵp ddefnyddio cyfnewidiadau cyfradd llog i reoli ei broffil cyfradd llog. Nid oedd unrhyw enillion na cholledion arwyddocaol nas gwireddwyd ar y contractau hyn ar 31 Mawrth 2003.

### 23g Gwerthoedd teg asedion a rhwymedigaethau ariannol
Nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol mewn gwerth rhwng gwerth llyfr offerynnau ariannol y Grŵp a'u gwerth teg.

## 24 Ymrwymiadau

### 24a Contractau a osodwyd ar gyfer gwariant yn y dyfodol

| | **Grŵp 2003 £m** | Grŵp 2002 £m | **UK Public Service Broadcasting 2003 £m** | UK Public Service Broadcasting 2002 £m |
|---|---|---|---|---|
| Ychwanegiadau asedion sefydlog | **95.6** | 45.9 | **76.7** | 13.4 |
| Caffaeliadau rhaglenni a hawliau chwaraeon | **670.1** | 754.4 | **670.0** | 715.2 |
| Rhaglenni annibynnol | **68.5** | 69.4 | **68.5** | 69.4 |
| | **834.2** | 869.7 | **815.2** | 798.0 |

Prydles weithredol yw prydles lle nad yw'r prydlesai wedi derbyn y risgiau a'r gwobrau o fod yn berchen ar yr ased a'i weithredu. Mae'r prydlesai (y BBC) yn llogi yn hytrach na phrynu ased.

### 24b Prydlesau gweithredol
Ymrwymiadau prydlesau gweithredol sy'n daladwy yn y flwyddyn ganlynol, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod pan ddaw'r brydles i ben:

| | **Tir ac adeiladau 2003 £m** | Tir ac adeiladau 2002 £m | **Arall 2003 £m** | Arall 2002 £m |
|---|---|---|---|---|
| Grŵp | | | | |
| O fewn blwyddyn | **2.6** | 2.7 | **2.3** | 5.3 |
| Ymhen dwy i bum mlynedd | **11.0** | 12.1 | **8.8** | 9.3 |
| Ar ôl pum mlynedd | **17.6** | 13.0 | **1.9** | 2.5 |
| | **31.2** | 27.8 | **13.0** | 17.1 |
| UK Public Service Broadcasting | | | | |
| O fewn blwyddyn | **1.7** | 1.3 | **1.2** | 1.0 |
| Ymhen dwy i bum mlynedd | **3.1** | 4.4 | **3.2** | 10.8 |
| Ar ôl pum mlynedd | **15.1** | 11.8 | **0.1** | – |
| | **19.9** | 17.5 | **4.5** | 11.8 |

### 24c Ymrwymiadau ariannol eraill
Wrth gynnal ei fusnes fel arfer mae'r BBC yn llunio nifer fawr o gontractau ag artistiaid ac awduron a chyda darparwyr gwasanaethau eraill gan gynnwys y rhai sy'n casglu ffi'r drwydded a dosbarthu sianelau.

## 25 Rhwymedigaethau amodol
Ar 31 Mawrth 2003 roedd gan y Grŵp rwymedigaethau amodol nas darparwyd yr amcangyfrifwyd eu bod yn werth £1.6miliwn (2002 £2.3miliwn) mewn perthynas â gwarantau ac indemniadau.

Mae gan y Grŵp nifer o rwymedigaethau amodol hefyd sy'n codi o ymgyfreitha. Gwna'r BBC ddarpariaeth benodol (gweler Nodyn 17) yn erbyn amcangyfrif o unrhyw iawndal a chostau a allai gael eu dyfarnu.

Mae partïon cysylltiedig yn cynnwys y Llywodraethwyr, y Pwyllgor Gweithredol ac uwch reolwyr eraill, eu teuluoedd agos ac endidau allanol a reolir ganddynt.

## 26 Trafodion partïon perthnasol

Cyflwynwyd trafodion partïon cysylltiedig y Grŵp yn unol â FRS 8, *Related party disclosures.* O dan ddarpariaethau FRS 8 nid yw'r BBC wedi datgelu trafodion rhwng endidau'r Grŵp lle y rheolir mwy na 90% o hawliau pleidleisio'r endidau hynny o fewn y Grŵp. Nid yw UK Public Service Broadcasting yn gwarantu unrhyw un o weithgareddau neu rwymedigaethau'r is-gwmnïau.

### 26a Trafodion â chyd-fentrau ac ymgymeriadau cysylltiedig

Caiff incwm o UKTV o £33.1miliwn sy'n ymwneud â gwerthu rhaglenni ac incwm o JV Programmes LLC o £27.1miliwn yn ymwneud â gwerthu rhaglenni eu cynnwys yn y cyfrif incwm a gwariant. Ceir £6.0miliwn hefyd o incwm gan bartneriaethau cyswllt amrywiol eraill yn ymwneud â gwerthu rhaglenni. Mae'r incwm a gwariant yn cynnwys incwm o £0.3miliwn gan BBC Haymarket Exhibitions Limited yn ymwneud â difidendau a ffioedd rheoli. Yn ogystal, cododd Frontline Limited £2.7miliwn i ddosbarthu cylchgrawn BBC Worldwide Limited. Ymhob un o'r trafodion, negodwyd y telerau masnachu ar sail hyd braich.

Mae'r BBC a Land Securities Trillium Limited yn bartneriaid yn yr Insight Property Partnership a'r White City Development Partnership. Ar adeg eu ffurfio yn 2001 cyfrannodd y BBC ei fuddiant yn safle White City yn gyfnewid am gydnabyddiaeth a oedd yn cynnwys gostyngiadau mewn taliadau gwasanaethau ar gyfer gwasanaethau eiddo yn y dyfodol a ddelir fel rhagdaliadau ar fantolen y BBC. Cododd y bartneriaeth £111miliwn ar y BBC am wasanaethau eiddo yn ystod y flwyddyn (2002 £25miliwn).

Datgelir y symiau sy'n ddyledus gan/i gyd-fentrau ac ymgymeriadau cysylltiedig ar ddiwedd y flwyddyn yn Nodiadau 15 ac 16. Ymhob un o'r trafodion, negodwyd y telerau masnachu ar sail hyd braich.

### 26b Trafodion eraill

Mae Ranjit Sondhi, Llywodraethwr, yn briod ag Anita Bhalla, a gyflogwyd gan y BBC ers 1987 mewn rolau cynhyrchu a darlledu amrywiol. Ei rôl bresennol yw Pennaeth Materion Gwleidyddol a Chymunedol Rhanbarthau Lloegr. Seilir ei chydnabyddiaeth ar delerau ac amodau safonol y BBC sy'n gymwys i aelodau eraill o staff a gyflogir mewn swydd o'r fath.

Mae gan y Fonesig Ruth Deech, Llywodraethwr, ferch sydd yn newyddiadurwraig yn adran Newyddion y BBC. Seilir ei chydnabyddiaeth ar delerau ac amodau safonol y BBC sy'n gymwys i aelodau eraill o staff a gyflogir mewn swydd o'r fath.

Mae gan Syr Robert Smith, Llywodraethwr, fab yng nghyfraith a weithiodd i BBC Cymru yn ystod y flwyddyn ac sydd bellach yn gweithio i adran Newyddion y BBC ar sail llawrydd. Seilir ei gydnabyddiaeth a'i ffioedd llawrydd ar delerau ac amodau safonol y BBC sy'n gymwys i aelodau eraill o staff a gyflogir mewn swydd o'r fath.

Syr Richard Eyre, Llywodraethwr, yw Cadeirydd a Rheolwr Gyfarwyddwr Chestermead Limited hefyd. Yn ystod y flwyddyn derbyniodd Syr Richard, naill ai'n uniongyrchol, neu drwy Chestermead, daliadau gwerth £3,754 am gyfweliadau a chyfraniadau i raglenni'r BBC. Nid oedd unrhyw symiau yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn. Mae gwraig Syr Richard Eyre, Sue Birtwhistle, yn gweithio ar sail llawrydd i'r BBC. Yn ystod 2002/2003 derbyniodd £19,080 gan y BBC.

Mae'r Gwir Anrhydeddus Yr Arglwydd Ryder, Llywodraethwr, hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol ac yn gyfranddeiliad Clwb Pêl-droed Ipswich Town. Yn ystod y flwyddyn talodd y BBC £94,814 i'r clwb mewn perthynas â darllediadau teledu a radio.

Mae'r Farwnes Hogg, Llywodraethwr, hefyd yn Gadeirydd anweithredol Frontier Economics. Yn ystod y flwyddyn talodd y BBC £5,925 i Frontier Economics am broject a oedd yn gysylltiedig ag ymgorffori BBC Broadcast Limited. Nid oedd unrhyw symiau'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.

Wrth gynnal ei fusnes fel arfer, ceir nifer o drafodion rhwng y BBC a phartïon eraill sy'n gysylltiedig oherwydd bod uwch gyflogeion y BBC yn briod â rhywun neu'n perthyn i rywun sy'n berchen ar neu a gyflogir gan gwmnïau eraill sy'n ymwneud â'r cyfryngau, cynhyrchu a darlledu.

Mae gan y BBC weithdrefnau penodol ar gyfer delio â sefyllfaoedd o'r fath er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau. Pan fo trafodion wedi codi rhwng partïon cysylltiedig, ni fu Llywodraethwr y BBC na chyflogai'r BBC yn rhan o'r broses gymeradwyo.

# Ffeithiau a ffigurau darlledu

Diwygiwyd yr adran hon yn unol â rhwymedigaethau newydd y BBC o ran cyflwyno adroddiadau mewn perthynas â'r *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni*. Mae'r tabl ar y dudalen hon yn ymddangos am y tro cyntaf. Mae nifer o dablau a gynhwyswyd yn hanesyddol yn yr adran ond nad ydynt yn berthnasol bellach wedi'u hepgor. Rhagwelir y bydd diwygiadau pellach i gynnwys yr adran yn adroddiad y flwyddyn nesaf yn dilyn cyflwyno gofynion Ofcom o ran cyflwyno adroddiadau yn ystod y flwyddyn.

**Tabl 1 Datganiadau o Bolisi Rhaglenni'r BBC 2002/2003**

| Sianel neu wasanaeth | Ymrwymiad | Cyflawnwyd | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| **Teledu'r BBC** | 33% o'r darllediadau i'w gwneud y tu allan i Lundain a De Ddwyrain Lloegr | N | Gweler tudalen 80 |
| **BBC One a BBC Two** | 245 awr o gerddoriaeth a'r celfyddydau, oll fwy neu lai o fewn oriau brig neu yn agos at oriau brig | D | Gweler tabl 7 (tudalen 126). Darlledwyd 109 awr yn llwyr o fewn oriau brig yn ogystal â 125 awr yn agos at oriau brig |
| **BBC One** | 570 awr o raglenni newyddion, heb gynnwys gwasanaeth dros nos BBC News 24 | D | Gweler tabl 7 (tudalen 126) |
| | 80 awr o faterion cyfoes, gan gynnwys pedair rhaglen *Panorama* arbennig | D | Gweler tabl 7 (tudalen 126) |
| | 45 awr o raglenni cerddoriaeth a'r celfyddydau | D | Gweler tabl 7 (tudalen 126) |
| | Mwy o wariant ar ddrama | D | Gweler tabl 7 (tudalen 126), tabl 18 (tudalen 131) |
| | 650 awr o raglenni ffeithiol gwreiddiol wedi'u cynhyrchu'n fewnol | D | Gweler tabl 7 (tudalen 126) |
| | Tua 25 o gyfresi a rhaglenni unigol ffeithiol nodedig ar draws pob genre yn ystod oriau brig | D | Gweler tudalen 22 |
| | 260 awr o chwaraeon | D | Gweler tabl 7 (tudalen 126) |
| | 80 awr o grefydd wedi'i amserlennu cyn canol nos | D | Gweler tabl 7 (tudalen 126) |
| | 400 awr o raglenni i blant | D | Gweler tabl 7 (tudalen 126) |
| | Llai na 10% o ailddarllediadau yn ystod oriau brig | D | 7.3%* |
| **BBC Two** | 100 awr o newyddion | D | Gweler tabl 7 (tudalen 126) |
| | 230 awr o faterion cyfoes | D | Gweler tabl 7 (tudalen 126) |
| | 500 awr o raglenni ffeithiol | D | Gweler tabl 7 (tudalen 126) |
| | 200 awr o gerddoriaeth a'r celfyddydau | D | Gweler tabl 7 (tudalen 126) |
| | 430 awr o chwaraeon | D | Gweler tabl 7 (tudalen 126) |
| | 100 awr o raglennu newydd i blant | D | Gweler tabl 7 (tudalen 126) Mae hyn yn cynnwys pob darllediad i blant lle roedd 425 awr yn ailddarllediadau |
| | 20 awr o raglenni crefyddol | D | Gweler tabl 7 (tudalen 126) |
| **BBC Four** | Tua 70% o'r amser ar yr awyr yn cynnwys cynyrchiadau gwreiddiol | D | 68.2%* |
| | Tua 70% o'r darllediadau wedi'u gwneud yn yr UE/AEE | D | 95%* |
| | O leiaf un project dysgu sylweddol i'w gomisiynu | D | Gweler tudalen 47 |
| **CBeebies** | O leiaf 90% o'r darllediadau wedi'u gwneud yn yr UE/AEE | D | 95.8%* |
| | Tua 80% o'r darllediadau i fod yn rhaglennu gwreiddiol gan y BBC | D | 81%* |
| **CBBC** | Tua 75% o'r darllediadau wedi'u gwneud yn yr UE/AEE | D | 81%* |
| **BBC News 24** | Gwasanaeth newyddion rhyngweithiol estynedig | D | Gweler tudalen 44 |
| **BBC Parliament** | Darllediadau estynedig o Ewrop | D | Gweler tudalen 45 |
| | Mwy o raglennu yn ystod y seibiant | D | Gweler tudalen 45 |
| **BBCi** | Hafan ddysgu yn cynnig siop un cam ar gyfer yr holl gyfleoedd dysgu a gynigir gan y BBC | D | Gweler tudalen 49 |
| | Swm sylweddol fwy o ryngweithedd ar y teledu, gan gynnwys gwell rhaglennu ar sianelau newydd | D | Gweler tudalen 49 |
| | Rhwydwaith gwefannau lleol estynedig | D | Gweler tudalen 37 a thudalen 49 |
| | Dros 85% o'r gyllideb yn cael ei gwario ar gynnwys | D | 93.5%* |
| | Cost lai fesul ymweliad â thudalen a mwy o amser yn cael ei dreulio ar-lein gan ddefnyddwyr | D | Gweler tabl 10 (tudalen 129) a Nodyn 2b (tudalen 95) |
| **BBC Radio 1** | 40% o'r rhestr chwarae i gynnwys artistiaid o'r DU | D | 48.8%* |
| | 2,500 awr o gerddoriaeth arbenigol y flwyddyn | D | 3,144 awr* |
| | 250 awr o newyddion a materion cyfoes y flwyddyn | D | Gweler tabl 9 (tudalen 128) |

| Sianel neu wasanaeth | Ymrwymiad | Cyflawnwyd | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| **BBC Radio 2** | 1,000 awr o gerddoriaeth arbenigol | D | 1,194 awr* |
| | 150 awr o ddarllediadau crefyddol | D | Gweler tabl 9 (tudalen 128) |
| | 500 awr o newyddion a materion cyfoes | D | Gweler tabl 9 (tudalen 128) (gan gynnwys Trafodaeth Genedlaethol) |
| **BBC Radio 3** | 600 awr o ddarllediadau gwreiddiol gan grwpiau perfformio'r BBC | D | 625 awr* |
| | Dros 4,000 awr o raglennu byw neu wedi'i recordio'n arbennig; dros 50% o'r darllediadau | D | 4,028 awr (57.9%)* |
| **BBC Radio 4** | 15,000 o raglenni'r flwyddyn ar draws 14 genre | D | Gweler tabl 9** (tudalen 128) |
| | 700 awr o fwletinau newyddion | D | Gweler tabl 9 (tudalen 128) wedi'i gynnwys o fewn newyddion a'r tywydd |
| | 1,300 awr o faterion cyfoes dyddiol | D | Gweler tabl 9 (tudalen 128) wedi'i gynnwys o fewn newyddion a'r tywydd |
| | 440 awr o raglenni materion cyfoes, busnes a gwleidyddol wythnosol | D | Gweler tabl 9 (tudalen 128) wedi'i gynnwys o fewn newyddion a'r tywydd |
| | 800 awr o ddrama a darlleniadau gwreiddiol y flwyddyn | D | Gweler tabl 9 (tudalen 128) |
| | 300 awr o gomedi gwreiddiol | D | Gweler tabl 9 (tudalen 128) |
| | 180 awr o raglennu crefyddol | D | Gweler tabl 9 (tudalen 128) |
| **BBC Radio Five Live** | 75% o newyddion a materion cyfoes, 25% o chwaraeon | D | Gweler tabl 9 (tudalen 128) |
| **1Xtra** | 250 awr o sioeau trafod dyddiol y flwyddyn | D | Cyflawnwyd 161 awr yn erbyn targed pro rata o 155 awr* |
| | Tua 20% o'r darllediadau i fod yn llafar, gyda 10% ohonynt yn newyddion, rhaglenni dogfen a rhaglenni gweithredu cymdeithasol | N | 19.1% llafar ond dim ond 6.9% newyddion, rhaglenni dogfen a rhaglenni gweithredu cymdeithasol* Gweler tudalen 80 |
| **BBC Asian Network** | Mwy o fuddsoddiad | D | Gweler tabl 15 (tudalen 131) |
| | 50% o raglennu llafar o ansawdd | D | Gweler tabl 9 (tudalen 128) |
| **Yr Alban** | 100 awr o ddadansoddi a thrafod gwleidyddol ar BBC Two | D | Gweler tabl 8 (tudalen 127) |
| | Tua 515 awr o newyddion a darllediadau gwleidyddol | D | Gweler tabl 8 (tudalen 127) |
| | O leiaf 20 awr o raglenni ffeithiol yn ystod oriau brig | D | 23 awr* |
| | O leiaf 16 awr o gerddoriaeth a'r celfyddydau ar draws BBC One a BBC Two | D | Gweler tabl 8 (tudalen 127) |
| | Darparu 15% o'r holl raglenni i blant ar BBC One a BBC Two | D | Gweler tabl 8 (tudalen 127) |
| | Mwy o oriau a darllediadau ar y gwasanaeth Gaeleg, BBC Radio nan Gaidheal | D | Gweler tabl 13 (tudalen 130) |
| **Gogledd Iwerddon** | 100 awr o wleidyddiaeth | N | Gweler tabl 8 (tudalen 127) a thudalen 80 |
| | 25 awr o'r sioe gylchgrawn adloniant a'r celfyddydau *First Stop* a phedair awr ychwanegol o gerddoriaeth a'r celfyddydau | D | Gweler tabl 8 (tudalen 127) |
| **Cymru** | 10 awr o deledu Cymraeg yr wythnos i'w ddarlledu ar S4C | D | Gweler tudalen 37 |
| **Rhanbarthau Lloegr** | Mwy o fuddsoddiad wedi'i ganolbwyntio ar annog rhyngweithio cymunedol lleol | D | Gweler tabl 14 (tudalen 130) a thudalen 37 |
| | Ymchwilwyr i'r celfyddydau amrywiol ymhob un o Ranbarthau'r BBC | D | Penodwyd 11 o gydlynwyr gwreiddiau* |
| | Nifer gynyddol o Ganolfannau Agored a pharthau symudol | D | Gweler tudalen 37 |
| | Pob prif raglen newyddion rhanbarthol am 6.30pm ar gael ar loeren ddigidol | N | Dylai hyn fod ar gael erbyn mis Tachwedd 2003 |
| | Mwy o ddarpariaeth newyddion lleol ar-lein | D | Gweler tudalen 37 |
| | 16 awr o raglenni materion cyfoes nodedig rhanbarthol bob blwyddyn | D | 34 awr* |
| | 135 awr o drafodaeth wleidyddol, wedi'i hategu gan ryngweithedd ar-lein | D | Gweler tabl 8 (tudalen 127). Mae'r *Politics Show* hefyd yn cynnwys 20 munud o newyddion rhanbarthol bob wythnos ymhob rhanbarth |

* *Gwybodaeth a ddarparwyd gan is-adrannau'r BBC ac a ddilyswyd gan adran Archwiliad Mewnol y BBC ar sail sampl*
** *Mae* Datganiadau o Bolisi Rhaglenni'r BBC *yn cyfeirio at gategoreiddiad rhaglenni manylach*

# Ffeithiau a ffigurau darlledu

Cyflwynodd BARB banel cynulleidfa newydd ym mis Ionawr 2002. Felly dylid bod yn ofalus wrth ystyried cymariaethau o ran cyrhaeddiad oherwydd gallai newidiadau fod yn rhannol o ganlyniad i effaith fethodolegol. Oherwydd trafferthion cychwynnol yn dilyn y newid hwn, bu mân newidiadau i rai o'r ffigurau gwylio yn *Adroddiad Blynyddol y BBC* y llynedd, ac felly fe'u hailddatganwyd. Nid oedd y gwasanaeth codio a ddefnyddiwyd i fesur cyrhaeddiad cyfun Radio a Theledu'r BBC yn ôl genre (Tabl 6 y llynedd) ar gael ar ôl mis Rhagfyr 2001. Disodlwyd yr arolwg hwnnw gan un sy'n casglu data mwy cadarn ar gyfer nifer lai o raglenni. Felly nid yw'r cyrhaeddiad yn ôl genre ar draws amrywiaeth llawn darllediadau Radio'r BBC ar gael. Dim and ar gyfer y cyfnod ers lansio y nodir data ar gyfer gwasanaethau digidol newydd y BBC. I weld dyddiadau lansio ac esboniad o derminoleg yn yr adran hon gweler tudalen 133.

**Tabl 2 Cyrhaeddiad wythnosol 15 munud yn ôl gwasanaeth a llwyfan**

| | Pob cartref | | Pob amlsianel | | Analog daearol | | Cartrefi digidol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2002/2003 (55.6m*) %** | 2001/2002 (55.3m*) % | **2002/2003 (29.5m*) %** | 2001/2002 (28.0m*) % | **2002/2003 (26.0m*) %** | 2001/2002 (27.4m*) % | **2002/2003 (26.2m*) %** | 2001/2002 (24.5m*) % |
| Cyfanswm cyrhaeddiad Teledu a Radio'r BBC | **92.7** | 93.0 | **–** | – | **–** | – | **–** | – |
| Teledu'r BBC | **87.1** | 86.8 | **84.1** | 83.1 | **90.5** | 90.4 | **83.6** | 83.1 |
| BBC One | **82.9** | 83.1 | **78.9** | 78.2 | **87.2** | 87.7 | **78.3** | 77.9 |
| BBC Two | **67.0** | 66.1 | **56.6** | 55.0 | **78.1** | 76.8 | **54.3** | 53.1 |
| BBC Three | **8.0** | – | **15.1** | – | **–** | – | **16.9** | – |
| BBC Choice | **4.9** | 5.5 | **9.5** | 11.2 | **–** | – | **11.0** | 14.9 |
| BBC Four | **1.0** | 1.1 | **2.0** | 2.0 | **–** | – | **2.2** | 2.7 |
| BBC Knowledge | **–** | 0.9 | **–** | 1.8 | **–** | – | **–** | 2.3 |
| CBBC | **1.1** | 1.1 | **2.2** | 2.0 | **–** | – | **2.0** | 2.6 |
| CBeebies | **4.1** | 3.4 | **8.2** | 6.6 | **–** | – | **9.1** | 8.0 |
| BBC News 24 | **4.1** | 2.9 | **7.7** | 6.0 | **–** | – | **7.3** | 5.4 |
| Radio'r BBC | **63.4** | 63.5 | | | | | | |
| BBC Radio 1 | **22.6** | 23.5 | | | | | | |
| BBC Radio 2 | **24.2** | 22.9 | | | | | | |
| BBC Radio 3 | **3.8** | 3.7 | | | | | | |
| BBC Radio 4 | **18.1** | 17.7 | | | | | | |
| BBC Radio Five Live | **11.9** | 11.2 | | | | | | |
| Radio Lleol y BBC (yn cynnwys y Gwledydd) | **19.6** | 19.9 | | | | | | |

*Ffynhonnell: BARB, TNS/Infosys, RAJAR, 4+ oed, cyfartaledd ar gyfer y flwyddyn*
** Pobl 4+ oed ym mis Mawrth 2003, ffynhonnell: BARB*
*Nodyn: Nid yw'n bosibl mesur cyrhaeddiad gwasanaethau radio digidol*

**Tabl 3 Cyfran yn ôl gwasanaeth a llwyfan**

| | Pob cartref | | Pob amlsianel | | Analog daearol | | Cartrefi digidol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2002/2003 (55.6m*) %** | 2001/2002 (55.3m*) % | **2002/2003 (29.5m*) %** | 2001/2002 (28.0m*) % | **2002/2003 (26.0m*) %** | 2001/2002 (27.4m*) % | **2002/2003 (26.2m*) %** | 2001/2002 (24.5m*) % |
| Cyfanswm cyfran Teledu a Radio'r BBC | **44.4** | 44.1 | **–** | – | **–** | – | **–** | – |
| Teledu'r BBC | **39.1** | 38.6 | **29.9** | 28.8 | **49.6** | 48.5 | **27.7** | 27.2 |
| BBC One | **26.5** | 26.5 | **20.2** | 20.0 | **33.5** | 32.9 | **18.8** | 18.8 |
| BBC Two | **11.2** | 11.1 | **7.0** | 6.8 | **16.0** | 15.3 | **6.0** | 6.1 |
| BBC Three | **0.7** | – | **1.4** | – | **–** | – | **1.4** | – |
| BBC Choice | **0.4** | 0.6 | **0.8** | 1.2 | **–** | – | **0.8** | 1.5 |
| BBC Four | **0.1** | 0.1 | **0.1** | 0.0 | **–** | – | **0.1** | 0.1 |
| BBC Knowledge | **–** | 0.1 | **–** | 0.1 | **–** | – | **–** | 0.1 |
| CBBC | **0.1** | 0.1 | **0.2** | 0.1 | **–** | – | **0.1** | 0.1 |
| CBeebies | **0.7** | 0.6 | **1.3** | 1.1 | **–** | – | **1.4** | 1.3 |
| BBC News 24 | **0.4** | 0.3 | **0.7** | 0.5 | **–** | – | **0.6** | 0.5 |
| Radio'r BBC | **50.6** | 50.2 | | | | | | |
| BBC Radio 1 | **8.8** | 9.7 | | | | | | |
| BBC Radio 2 | **14.7** | 14.1 | | | | | | |
| BBC Radio 3 | **1.1** | 1.1 | | | | | | |
| BBC Radio 4 | **10.8** | 10.5 | | | | | | |
| BBC Radio Five Live | **4.4** | 4.1 | | | | | | |
| Radio Lleol y BBC (yn cynnwys y Gwledydd) | **10.6** | 10.7 | | | | | | |

*Ffynhonnell: BARB, TNS/Infosys, RAJAR, 4+ oed, cyfartaledd ar gyfer y flwyddyn*
** Pobl 4+ oed ym mis Mawrth 2003, ffynhonnell: BARB*
*Nodyn: Nid yw'n bosibl mesur cyfran gwasanaethau radio digidol*
*Gwahaniaethau o ganlyniad i dalgrynnu*
*Nid yw'r gyfran analog daearol yn cynnwys gorsafoedd teledu daearol lleol*

**Tabl 4 Darllediadau ag is-deitlau ar Deledu'r BBC**

| | Oriau ag is-deitlau | | Targed ar gyfer y flwyddyn | | Gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 |
| BBC One | **10,656** | 10,016 | **76%** | 72% | **76.8%** | 74.6% |
| BBC Two | **7,421** | 7,379 | **76%** | 72% | **76.0%** | 73.5% |
| BBC Three/BBC Choice | **1,453** | 4,331 | **40%** | 35% | **54.0%** | 64.4% |
| BBC Four/BBC Knowledge | **1,155** | 4,029 | **40%** | 30% | **43.5%** | 67.9% |
| CBBC | **2,589** | 311 | **40%** | 30% | **59.7%** | 55.6% |
| CBeebies | **3,772** | 560 | **40%** | 30% | **80.2%** | 92.7% |
| BBC News 24 | **3,579** | 2,327 | **40%** | 30% | **41.0%** | 26.6% |

*Nodyn: Gosodwyd targed o gael is-deitlau ar gyfer 100% o raglenni erbyn 2008/2009*

**Tabl 5 Disgrifiadau sain**

| | Oriau â disgrifiadau sain | | Targed ar gyfer y flwyddyn | | Gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 |
| BBC One | **415** | 360 | **4.0%** | 2.8% | **4.9%** | 4.2% |
| BBC Two | **374** | 268 | **4.0%** | 2.8% | **4.5%** | 3.2% |
| BBC Three/BBC Choice | **307** | 314 | **4.0%** | 2.8% | **11.4%** | 4.7% |
| BBC Four/BBC Knowledge | **117** | 405 | **4.0%** | 2.8% | **4.4%** | 6.8% |
| CBBC | **174** | 3 | **4.0%** | 4.0% | **4.0%** | 0.5% |
| CBeebies | **227** | 13 | **4.0%** | 4.0% | **4.8%** | 2.2% |

*Nodyn: Gosodwyd targedau o gael disgrifiadau sain ar gyfer 10% o raglenni erbyn 2008/2009*

**Tabl 6 Arwyddeg**

| | Oriau a ddehonglwyd drwy arwyddeg | | Targed ar gyfer y flwyddyn | | Gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 |
| BBC One | **170** | 121 | **2.0%** | 1.4% | **2.0%** | 1.4% |
| BBC Two | **218** | 132 | **2.0%** | 1.4% | **2.6%** | 1.6% |
| BBC Three/BBC Choice | **63** | 145 | **2.0%** | 1.4% | **2.3%** | 2.2% |
| BBC Four/BBC Knowledge | **58** | 103 | **2.0%** | 1.4% | **2.2%** | 1.7% |
| CBBC | **94** | 15 | **2.0%** | 2.0% | **2.2%** | 2.8% |
| CBeebies | **97** | 13 | **2.0%** | 2.0% | **2.1%** | 2.1% |
| BBC News 24 | **180** | 120 | **2.0%** | 1.4% | **2.1%** | 1.4% |

*Nodyn: Gosodwyd targedau i ddarparu arwyddeg ar gyfer 5% o raglenni erbyn 2008/2009*

# Ffeithiau a ffigurau darlledu

**Tabl 7 Oriau darlledu teledu rhwydwaith**

| | Ar bob llwyfan | | | | Ar lwyfannau digidol yn unig | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | BBC One | | BBC Two | | BBC Three/ BBC Choice | | BBC Four/ BBC Knowledge | |
| | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 |
| Ffeithiol a dysgu | **1,442** | 1,341 | **974** | 927 | **522** | 256 | **597** | 3,337 |
| Addysg i blant | **–** | 12 | **683** | 678 | **–** | – | **–** | – |
| Newyddion a'r tywydd | **2,690** | 2,792 | **467** | 381 | **299** | 257 | **118** | 84 |
| Materion cyfoes | **88** | 84 | **230** | 192 | **19** | 7 | **150** | – |
| Seneddol | **34** | 32 | **149** | 117 | **–** | – | **–** | – |
| Adloniant | **712** | 802 | **610** | 682 | **1,039** | 1,370 | **38** | 3 |
| Chwaraeon | **626** | 519 | **835** | 864 | **6** | 1 | **–** | – |
| Plant | **449** | 533 | **568** | 494 | **–** | – | **–** | 6 |
| Drama | **586** | 561 | **69** | 62 | **196** | 310 | **153** | 216 |
| Cerddoriaeth a'r celfyddydau | **55** | 28 | **270** | 231 | **175** | 64 | **916** | 1,375 |
| Crefydd | **84** | 102 | **33** | 18 | **–** | 4 | **18** | 55 |
| Y Brifysgol Agored | **–** | – | **586** | 784 | **–** | – | **–** | – |
| Parth Dysgu'r BBC | **–** | – | **601** | 601 | **–** | – | **–** | – |
| Rhaglenni a gaffaelwyd | **1,528** | 1,511 | **2,025** | 2,121 | **333** | 257 | **617** | 695 |
| Parhad | **257** | 246 | **270** | 272 | **118** | 230 | **71** | 176 |
| **Cyfanswm rhwydwaith** | **8,551** | 8,563 | **8,370** | 8,424 | **2,707** | 2,756 | **2,678** | 5,947 |

| | Ar lwyfannau digidol yn unig | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | CBBC | | CBBC ar BBC Choice/CBeebies | | BBC News 24 | | BBC Parliament | |
| | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 |
| Addysg i blant | **584** | 72 | **134** | – | **–** | – | **–** | – |
| Newyddion a'r tywydd | **–** | – | **–** | – | **8,687** | 8,687 | **–** | – |
| Seneddol | **–** | – | **–** | – | **–** | – | **6,820** | 5,253 |
| Plant | **2,451** | 327 | **3,191** | 3,443 | **–** | – | **–** | – |
| Rhaglenni a gaffaelwyd | **1,021** | 146 | **914** | 1,068 | **–** | – | **–** | – |
| Parhad | **293** | 38 | **475** | 78 | **73** | 73 | **12** | 12 |
| **Cyfanswm rhwydwaith** | **4,349** | 583 | **4,714** | 4,589 | **8,760** | 8,760 | **6,832** | 5,265 |

*Nodyn: Roedd CBBC ar BBC Choice yn wasanaeth ar gyfer cynulleidfaoedd cyn oed ysgol*

## Tabl 8 Oriau darlledu teledu yn ôl tarddiad

| | Rhaglenni a wnaed yn | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llundain | | Lloegr (heb gynnwys Llundain) | | Gogledd Iwerddon | | Yr Alban | | Cymru | | Cyfanswm | |
| | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 |
| Darlledaid cyntaf: Rhaglenni gwreiddiol a gynhyrchwyd yn fewnol BBC One a BBC Two Rhwydwaith | | | | | | | | | | | | |
| Ffeithiol a dysgu | **875** | 870 | **573** | 627 | **–** | 1 | **36** | 48 | **10** | 4 | **1,496** | 1,550 |
| Addysg i blant | **68** | 36 | **6** | 3 | **2** | 1 | **6** | 6 | **1** | 1 | **83** | 47 |
| Newyddion a'r tywydd | **3,131** | 3,168 | **–** | – | **–** | – | **–** | 1 | **–** | – | **3,131** | 3,169 |
| Materion cyfoes | **224** | 203 | **52** | 59 | **–** | – | **4** | 3 | **–** | – | **278** | 265 |
| Seneddol | **180** | 148 | **–** | – | **–** | – | **–** | – | **–** | – | **180** | 148 |
| Adloniant | **663** | 723 | **111** | 145 | **10** | 4 | **15** | 13 | **3** | – | **802** | 885 |
| Chwaraeon | **1,442** | 1,341 | **4** | – | **–** | – | **–** | – | **–** | – | **1,446** | 1,341 |
| Plant | **355** | 258 | **48** | 84 | **–** | – | **70** | 111 | **–** | – | **473** | 453 |
| Drama | **294** | 278 | **169** | 125 | **18** | 16 | **23** | 23 | **–** | 6 | **504** | 448 |
| Cerddoriaeth a'r celfyddydau | **192** | 161 | **33** | 8 | **–** | 12 | **11** | 11 | **9** | 16 | **245** | 208 |
| Crefydd | **7** | 10 | **104** | 101 | **–** | 1 | **4** | 3 | **1** | – | **116** | 115 |
| **Is-gyfanswm** | **7,431** | 7,196 | **1,100** | 1,152 | **30** | 35 | **169** | 219 | **24** | 27 | **8,754** | 8,629 |
| Sianelau digidol | | | | | | | | | | | | |
| Ffeithiol a dysgu | **113** | 42 | **41** | 18 | **–** | – | **8** | 2 | **5** | 2 | **167** | 64 |
| Addysg i blant | **12** | – | **10** | – | **–** | – | **–** | – | **–** | – | **22** | – |
| Newyddion a'r tywydd | **8,085** | 8,136 | **–** | 1 | **–** | – | **–** | – | **–** | – | **8,085** | 8,137 |
| Materion cyfoes | **50** | 12 | **2** | 1 | **6** | 1 | **–** | 1 | **–** | – | **58** | 15 |
| Seneddol | **3,728** | 3,813 | **–** | – | **86** | 86 | **123** | 123 | **123** | 123 | **4,060** | 4,145 |
| Adloniant | **261** | 127 | **9** | 1 | **2** | – | **–** | 6 | **4** | – | **276** | 134 |
| Chwaraeon | **–** | – | **–** | – | **–** | – | **–** | – | **–** | – | **–** | – |
| Plant | **993** | 170 | **22** | – | **–** | – | **116** | 11 | **–** | – | **1,131** | 181 |
| Drama | **20** | 15 | **7** | 2 | **–** | 5 | **2** | 5 | **–** | – | **29** | 27 |
| Cerddoriaeth a'r celfyddydau | **211** | 93 | **28** | 7 | **2** | – | **48** | 16 | **31** | 15 | **320** | 131 |
| Crefydd | **–** | 2 | **3** | 2 | **1** | – | **–** | – | **–** | – | **4** | 4 |
| **Is-gyfanswm** | **13,473** | 12,410 | **122** | 32 | **97** | 92 | **297** | 164 | **163** | 140 | **14,152** | 12,838 |
| Y Gwledydd a'r Rhanbarthau | | | | | | | | | | | | |
| Ffeithiol a dysgu | **–** | – | **–** | – | **107** | 88 | **94** | 95 | **85** | 73 | **286** | 256 |
| Addysg i blant | **–** | – | **–** | – | **2** | 2 | **7** | 7 | **6** | 9 | **15** | 18 |
| Newyddion a'r tywydd | **285** | 186 | **3,116** | 3,004 | **334** | 342 | **379** | 375 | **353** | 324 | **4,467** | 4,231 |
| Materion cyfoes | **11** | 5 | **112** | 101 | **27** | 23 | **35** | 31 | **42** | 13 | **227** | 173 |
| Seneddol | **15** | 16 | **120** | 128 | **49** | 80 | **116** | 109 | **82** | 111 | **382** | 444 |
| Adloniant | **–** | – | **–** | – | **103** | 84 | **38** | 49 | **38** | 43 | **179** | 176 |
| Chwaraeon | **–** | – | **32** | – | **96** | 108 | **239** | 235 | **250** | 244 | **617** | 587 |
| Plant | **–** | – | **–** | – | **–** | 7 | **14** | 21 | **–** | – | **14** | 28 |
| Drama | **–** | – | **–** | – | **1** | – | **28** | 4 | **11** | 13 | **40** | 17 |
| Cerddoriaeth a'r celfyddydau | **–** | – | **–** | – | **3** | 5 | **30** | 29 | **26** | 30 | **59** | 64 |
| Crefydd | **–** | – | **–** | – | **–** | – | **–** | – | **–** | – | **–** | – |
| **Is-gyfanswm** | **311** | 207 | **3,380** | 3,233 | **722** | 739 | **980** | 955 | **893** | 860 | **6,286** | 5,994 |
| **Rhaglenni a gaffaelwyd** | **1,076** | 1,028 | **9** | 13 | **2** | – | **8** | 5 | **2** | 3 | **1,097** | 1,049 |
| **Cyfanswm darllediadau cyntaf** * | **22,291** | 20,841 | **4,611** | 4,430 | **851** | 866 | **1,454** | 1,343 | **1,082** | 1,030 | **30,289** | 28,510 |

**Tabl 8 Oriau darlledu teledu yn ôl tarddiad** *parhad*

| | Rhaglenni a wnaed yn | | | | | | | | | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llundain | | Lloegr (heb gynnwys Llundain) | | Gogledd Iwerddon | | Yr Alban | | Cymru | | | |
| | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 |
| Ailddarllediadau | | | | | | | | | | | | |
| Rhwydwaith | **17,096** | 17,369 | **2,522** | 2,270 | **41** | 27 | **500** | 221 | **133** | 60 | **20,292** | 19,947 |
| Y Gwledydd a'r Rhanbarthau | **–** | – | **2** | 1 | **201** | 195 | **142** | 124 | **296** | 108 | **641** | 428 |
| Parhad | **1,483** | 1,042 | **26** | 20 | **51** | 99 | **170** | 114 | **149** | 137 | **1,879** | 1,412 |
| Y Brifysgol Agored | **586** | 784 | **–** | – | **–** | – | **–** | – | **–** | – | **586** | 784 |
| Parth Dysgu'r BBC | **498** | 590 | **100** | 8 | **–** | 1 | **3** | 1 | **–** | 1 | **601** | 601 |
| **Cyfanswm oriau darlledu** | **41,954** | 40,626 | **7,261** | 6,729 | **1,144** | 1,188 | **2,269** | 1,803 | **1,660** | 1,336 | **54,288** | 51,682 |
| * O'u plith yn annibynnol | | | | | | | | | | | | |
| Rhwydwaith | **1,528** | 1,040 | **418** | 442 | **25** | 38 | **82** | 76 | **22** | 4 | **2,075** | 1,600 |
| Y Gwledydd a'r Rhanbarthau | **–** | – | **12** | 11 | **93** | 104 | **113** | 112 | **121** | 125 | **339** | 352 |

**Tabl 9 Oriau darlledu radio rhwydwaith**

| | Gorsafoedd analog | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | BBC Radio 1* | | BBC Radio 2 | | BBC Radio 3 | | BBC Radio 4 | | BBC Radio Five Live | |
| | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 |
| Cerddoriaeth | **8,460** | 8,472 | **7,448** | 7,422 | **8,109** | 8,126 | **–** | – | **–** | – |
| Newyddion a'r tywydd | **270** | 272 | **455** | 420 | **18** | 18 | **2,585** | 2,563 | **650** | 469 |
| Chwaraeon | **29** | 33 | **–** | – | **–** | – | **759** | 696 | **2,179** | 2,239 |
| Gwybodaeth | **–** | – | **70** | 86 | **–** | 17 | **1,721** | 1,736 | **27** | 27 |
| Trafodaeth genedlaethol | **34** | 25 | **170** | 165 | **–** | – | **776** | 765 | **5,748** | 5,817 |
| Drama | **–** | – | **13** | 13 | **106** | 102 | **1,079** | 1,075 | **–** | – |
| Y celfyddydau | **–** | – | **85** | 118 | **204** | 167 | **333** | 340 | **–** | – |
| Comedi ac adloniant | **–** | – | **71** | 79 | **–** | – | **418** | 416 | **16** | 31 |
| Crefydd | **–** | – | **192** | 193 | **56** | 63 | **182** | 180 | **–** | – |
| Ysgolion/addysg barhaus | **15** | 15 | **–** | – | **208** | 208 | **46** | 44 | **–** | – |
| Hamdden | **65** | 69 | **60** | 85 | **–** | – | **59** | 62 | **–** | 37 |
| Cyflwyniadau a rhagflasu rhaglenni | **148** | 145 | **196** | 179 | **59** | 59 | **55** | 55 | **140** | 140 |
| **Cyfanswm** | **9,021** | 9,031 | **8,760** | 8,760 | **8,760** | 8,760 | **8,013** | 7,932 | **8,760** | 8,760 |

** Mae BBC Radio 1 yn gweithredu system rhaglenni penodol yn y Gwledydd o* The Evening Session *gyda'r nos yn ystod yr wythnos*

| | Gorsafoedd digidol | | | | | | | | | | Cyfanswm radio rhwydwaith | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | BBC Five Live Sports Extra | | 1Xtra | | 6 Music | | BBC 7 | | BBC Asian Network | | | |
| | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 |
| Cerddoriaeth | **–** | – | **4,472** | dd/g | **7,876** | 454 | **–** | dd/g | **1,395** | dd/g | **37,760** | 24,474 |
| Newyddion a'r tywydd | **–** | – | **153** | dd/g | **263** | 15 | **–** | dd/g | **198** | dd/g | **4,592** | 3,757 |
| Chwaraeon | **1,320** | 200 | **43** | dd/g | **–** | – | **–** | dd/g | **149** | dd/g | **4,479** | 3,168 |
| Gwybodaeth | **–** | – | **–** | dd/g | **–** | – | **163** | dd/g | **366** | dd/g | **2,347** | 1,866 |
| Trafodaeth genedlaethol | **–** | – | **134** | dd/g | **–** | – | **–** | dd/g | **564** | dd/g | **7,426** | 6,772 |
| Drama | **–** | – | **–** | dd/g | **–** | – | **1,004** | dd/g | **–** | dd/g | **2,202** | 1,190 |
| Y celfyddydau | **–** | – | **–** | dd/g | **–** | – | **–** | dd/g | **–** | dd/g | **622** | 625 |
| Comedi ac adloniant | **–** | – | **–** | dd/g | **–** | – | **744** | dd/g | **28** | dd/g | **1,277** | 526 |
| Crefydd | **–** | – | **–** | dd/g | **–** | – | **–** | dd/g | **121** | dd/g | **551** | 436 |
| Ysgolion/addysg barhaus | **–** | – | **–** | dd/g | **–** | – | **–** | dd/g | **–** | dd/g | **269** | 267 |
| Hamdden | **–** | – | **36** | dd/g | **–** | – | **–** | dd/g | **160** | dd/g | **380** | 253 |
| Cyflwyniadau a rhagflasu rhaglenni | **–** | – | **616** | dd/g | **621** | 35 | **–** | dd/g | **–** | dd/g | **1,835** | 613 |
| **Cyfanswm** | **1,320** | 200 | **5,454** | dd/g | **8,760** | 504 | **1,911** | dd/g | **2,981** | dd/g | **63,740** | 43,947 |

*Nodyn: Darlledir pob rhwydwaith radio digidol drwy Ddarlledu Sain Digidol (DAB), cebl digidol (Dcable), lloeren ddigidol (Dsat), teledu daearol digidol (DTT) a'u ffrydio ar-lein*

## Tabl 10 Ymweliadau misol â thudalennau rhyngrwyd BBCi

| | **Mawrth 2003 Miliynau** | Mawrth 2002 Miliynau |
|---|---|---|
| Newyddion a chwaraeon* | **630.4** | 226.2 |
| Addysg | **41.7** | 32.6 |
| BBCi arall | **509.6** | 290.5 |
| **Cyfanswm BBCi ar y rhyngrwyd (heb gynnwys beeb.com)** | **1,181.7** | 549.3 |
| BBC World Service, drwy wefannau BBCi | **71.9** | 26.2 |
| BBC World Service, drwy bartneriaid allweddol | **5.4** | 2.7 |
| **Cyfanswm BBC World Service** | **77.3** | 28.9 |

*Ffynhonnell: Cofnodion gwasanaethydd*
*Nodyn: Mae gwefannau partneriaid allweddol yn cynnal testun a sain BBC World Service*
** Lansiwyd gwefan ryngwladol newydd ym mis Gorffennaf 2002. Mae 150.4 miliwn o ymweliadau â thudalennau mis Mawrth 2003 yn berthnasol i'r gwasanaeth newydd hwn*

## Tabl 11 Cyrhaeddiad misol BBCi ar y rhyngrwyd a theledu rhyngweithiol (miliynau o ddefnyddwyr)

| | **Mawrth 2003 Miliynau** | Mawrth 2002 Miliynau |
|---|---|---|
| BBCi ar y rhyngrwyd* | **8.3** | 5.7 |
| BBCi ar deledu rhyngweithiol** | **6.2** | 3.7 |
| **Cyfanswm BBCi***** | **13.3** | 8.8 |

*Ffynhonnell: *BMRB Access, Arolwg Omnibws Misol, oedolion 15+ oed*
*Ffynhonnell: ** Astudiaeth olrhain teledu rhyngweithiol, oedolion 15+ oed, Gorffennaf 2001 hyd y presennol ar gyfer lloeren ddigidol. Dechreuwyd astudiaeth daearol digidol ym mis Gorffennaf 2001 ond daeth i ben ym mis Mai 2002 gyda diwedd ITV Digital*
**** Dim ond unwaith yn unig y caiff unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau BBCi ar y rhyngrwyd ac ar deledu rhyngweithiol ei gyfrif ar gyfer cyfanswm BBCi (defnydd lloeren ddigidol yn unig, nid oes ffigurau dibynadwy ar gael ar gyfer llwyfannau eraill)*

## Tabl 12 Oriau darlledu radio rhwydwaith yn ôl tarddiad

| | Gorsafoedd analog | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | BBC Radio 1 | | BBC Radio 2 | | BBC Radio 3 | | BBC Radio 4 | | BBC Radio Five Live | |
| | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 |
| **Rhaglenni a gynhyrchwyd yn Llundain** | **8,332** | 8,349 | **5,723** | 5,784 | **6,572** | 6,617 | **6,241** | 6,220 | **8,510** | 8,472 |
| **Rhaglenni a gynhyrchwyd y tu allan i Lundain** | | | | | | | | | | |
| Lloegr heb gynnwys Llundain | **422** | 412 | **2,893** | 2,837 | **1,191** | 1,219 | **1,487** | 1,434 | **248** | 283 |
| Gogledd Iwerddon | **90** | 90 | **14** | 15 | **89** | 99 | **47** | 44 | **2** | 5 |
| Yr Alban | **89** | 90 | **124** | 120 | **404** | 367 | **162** | 163 | **–** | – |
| Cymru | **88** | 90 | **6** | 4 | **504** | 458 | **76** | 71 | **–** | – |
| **Is-gyfanswm** | **689** | 682 | **3,037** | 2,976 | **2,188** | 2,143 | **1,772** | 1,712 | **250** | 288 |
| **Cyfanswm oriau darlledu** | **9,021** | 9,031 | **8,760** | 8,760 | **8,760** | 8,760 | **8,013** | 7,932 | **8,760** | 8,760 |

| | Gorsafoedd digidol | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | BBC Five Live Sports Extra | | 1Xtra | | 6 Music | | BBC 7 | | BBC Asian Network | |
| | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 |
| **Rhaglenni a gynhyrchwyd yn Llundain** | **1,320** | 200 | **5,452** | dd/g | **7,659** | 504 | **1,911** | dd/g | **330** | dd/g |
| **Rhaglenni a gynhyrchwyd y tu allan i Lundain** | | | | | | | | | | |
| Lloegr heb gynnwys Llundain | **–** | – | **2** | dd/g | **1,101** | – | **–** | dd/g | **2,651** | dd/g |
| Gogledd Iwerddon | **–** | – | **–** | dd/g | **–** | – | **–** | dd/g | **–** | dd/g |
| Yr Alban | **–** | – | **–** | dd/g | **–** | – | **–** | dd/g | **–** | dd/g |
| Cymru | **–** | – | **–** | dd/g | **–** | – | **–** | dd/g | **–** | dd/g |
| **Is-gyfanswm** | **–** | – | **2** | dd/g | **1,101** | – | **–** | dd/g | **2,651** | dd/g |
| **Cyfanswm oriau darlledu** | **1,320** | 200 | **5,454** | dd/g | **8,760** | 504 | **1,911** | dd/g | **2,981** | dd/g |

| | Cyfanswm radio rhwydwaith | | Radio'r Gwledydd a radio lleol* | | Cyfanswm radio | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 | **2002/2003** | 2001/2002 |
| **Rhaglenni a gynhyrchwyd yn Llundain** | **52,050** | 36,146 | **8,736** | 8,736 | **60,786** | 44,882 |
| **Rhaglenni a gynhyrchwyd y tu allan i Lundain** | | | | | | |
| Lloegr heb gynnwys Llundain | **9,995** | 6,185 | **218,028** | 213,583 | **228,023** | 219,768 |
| Gogledd Iwerddon | **242** | 253 | **8,776** | 8,754 | **9,018** | 9,007 |
| Yr Alban | **779** | 740 | **10,620** | 10,394 | **11,399** | 11,134 |
| Cymru | **674** | 623 | **13,898** | 13,570 | **14,572** | 14,193 |
| **Is-gyfanswm** | **11,690** | 7,801 | **251,322** | 246,301 | **263,012** | 254,102 |
| **Cyfanswm oriau darlledu** | **63,740** | 43,947 | **260,058** | 255,037 | **323,798** | 298,984 |

** Gan gynnwys BBC Asian Network tan iddo ddod yn orsaf ddigidol*

### Tabl 13 Oriau darlledu radio'r Gwledydd a radio lleol

| Radio'r Gwledydd | Poblogaeth* 15+ oed (000oedd) | Cyfanswm 2002/2003 | 2001/2002 |
|---|---|---|---|
| Gogledd Iwerddon: | | | |
| BBC Radio Ulster | 1,339 | **6,055** | 6,119 |
| BBC Radio Foyle | 113 | **2,721** | 2,635 |
| Yr Alban: | | | |
| BBC Radio Scotland (gan gynnwys BBC Radio Orkney/Shetland) | 4,190 | **8,004** | 8,326 |
| BBC Radio nan Gaidheal | 4,190 | **2,616** | 2,068 |
| Cymru: | | | |
| BBC Radio Wales | 2,412 | **6,992** | 6,810 |
| BBC Radio Cymru | 2,412 | **6,906** | 6,760 |
| **Is-gyfanswm** | | **33,294** | 32,718 |
| **Radio lleol** | | | |
| Berkshire | 794 | **3,714** | 3,329 |
| Bristol (yn cynnwys rhaglenni penodol Somerset Sound) | 1,238 | **7,555** | 7,550 |
| Cambridgeshire | 612 | **6,373** | 5,710 |
| Cleveland | 794 | **5,302** | 5,093 |
| Cornwall | 416 | **5,735** | 5,493 |
| Cumbria | 384 | **5,853** | 5,666 |
| Derby | 588 | **5,127** | 5,130 |
| Devon (yn cynnwys rhaglenni penodol Plymouth) | 916 | **6,327** | 6,367 |
| Essex | 1,173 | **5,522** | 5,269 |
| Gloucestershire | 464 | **5,175** | 5,291 |
| GMR | 2,081 | **6,871** | 6,705 |
| Guernsey | 50 | **4,231** | 4,179 |
| Hereford & Worcester | 492 | **5,192** | 5,287 |
| Humberside | 729 | **5,786** | 5,459 |
| Jersey | 74 | **4,294** | 4,228 |
| Kent | 1,293 | **6,281** | 5,535 |
| Lancashire | 1,134 | **5,785** | 5,865 |
| Leeds | 1,506 | **6,406** | 6,266 |
| Leicester | 760 | **5,223** | 5,069 |
| Lincolnshire | 490 | **5,263** | 5,311 |
| London 94.9 | 10,384 | **8,736** | 8,736 |
| Merseyside | 1,623 | **6,178** | 6,107 |
| Newcastle | 1,361 | **6,450** | 5,858 |
| Norfolk | 683 | **6,430** | 6,229 |
| Northampton | 440 | **5,004** | 5,089 |
| Nottingham | 736 | **6,708** | 5,753 |
| Oxford | 504 | **5,497** | 5,469 |
| Sheffield | 1,227 | **5,875** | 5,654 |
| Shropshire | 361 | **5,306** | 5,251 |
| Solent (yn cynnwys rhaglenni penodol Dorset ) | 1,659 | **6,684** | 7,364 |
| Southern Counties Radio (yn cynnwys rhaglenni penodol Brighton, Sussex a Surrey) | 2,383 | **8,460** | 6,735 |
| Stoke | 603 | **5,144** | 5,127 |
| Suffolk | 422 | **5,113** | 5,140 |
| Three Counties Radio | 958 | **6,895** | 6,699 |
| Wiltshire Sound | 498 | **7,287** | 6,910 |
| WM (yn cynnwys rhaglenni penodol Coventry & Warks.) | 2,770 | **8,818** | 8,907 |
| York | 467 | **6,249** | 5,548 |
| **Is-gyfanswm** | | **222,849** | 215,378 |
| BBC Asian Network** | 4,976 | **3,915** | 6,941 |
| **Cyfanswm oriau** | | **260,058** | 255,037 |

** Yn seiliedig ar Gyfanswm Ardal yr Arolwg (yr ardal a ddefnyddir i fesur cynulleidfa gorsafoedd radio at ddibenion ymchwil), 15+ oed, ar gyfer cofnodion RAJAR*
*** BBC Asian Network tan iddo ddod yn orsaf ddigidol*
*Nodyn: Mae gwasanaeth radio rhaglenni penodol yn darlledu rhywfaint o'i raglenni ei hun ar gyfer ei ardal leol, gan 'eithrio' o'r prif wasanaeth*
*Nodyn: Mae manylion am amleddau radio'r BBC ar gael ar www.bbc.co.uk/radio neu drwy ffonio 08700 100 123*

### Tabl 14 Gwariant y tu allan i Lundain

| | 2002/2003 £m | 2001/2002 £m |
|---|---|---|
| **Cost rhaglenni teledu gwreiddiol a gynhyrchir yn fewnol yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau** | | |
| Lloegr | **80** | 75 |
| Yr Alban | **51** | 47 |
| Cymru | **35** | 31 |
| Gogledd Iwerddon | **31** | 27 |
| | **197** | 180 |
| Cost cynyrchiadau rhanbarthol y BBC a chynyrchiadau annibynnol ar gyfer teledu rhwydwaith | **261** | 229 |
| **Cyfanswm cost rhaglenni teledu gwreiddiol a gynhyrchir yn fewnol yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau** | **458** | 409 |
| **Cost rhaglenni radio gwreiddiol a gynhyrchir yn fewnol gan radio'r Gwledydd a radio lleol** | | |
| Lloegr – radio lleol | **87** | 79 |
| Yr Alban | **21** | 19 |
| Cymru | **18** | 18 |
| Gogledd Iwerddon | **10** | 10 |
| | **136** | 126 |
| Cost cynyrchiadau rhanbarthol y BBC a chynyrchiadau annibynnol ar gyfer radio rhwydwaith | **43** | 40 |
| **Cyfanswm cost rhaglenni radio gwreiddiol a gynhyrchir yn fewnol yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau** | **179** | 166 |
| Costau rhaglenni eraill y tu allan i Lundain | **56** | 51 |
| Costau eraill, gan gynnwys darlledu | **95** | 86 |
| **Cyfanswm gwariant yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau** | **788** | 712 |

### Tabl 15 Cost fesul awr o raglenni gwreiddiol a gynhyrchir yn fewnol

| | 2002/2003 £000 | 2001/2002 £000 |
|---|---|---|
| **Sianelau teledu** | | |
| BBC One | **160.3** | 146.1 |
| BBC Two | **108.7** | 98.2 |
| BBC Three/BBC Choice* | **129.0** | 107.6 |
| BBC Four | **58.9** | 98.5 |
| BBC Knowledge | **dd/g** | 72.0 |
| CBBC | **27.4** | 19.6 |
| CBeebies | **39.6** | 42.2 |
| BBC News 24 | **5.7** | 5.8 |
| BBC Parliament | **0.7** | 0.7 |
| **Gorsafoedd radio** | | |
| BBC Radio 1 | **2.7** | 2.7 |
| BBC Radio 2 | **4.2** | 4.0 |
| BBC Radio 3 | **4.0** | 3.8 |
| BBC Radio 4 | **11.0** | 10.7 |
| BBC Radio Five Live | **7.9** | 7.4 |
| BBC Five Live Sports Extra | **1.3** | 1.7 |
| 1Xtra | **0.8** | dd/g |
| 6 Music | **0.5** | 0.4 |
| BBC 7 | **9.0** | dd/g |
| BBC Asian Network | **0.5** | dd/g |
| **Y Gwledydd a'r Rhanbarthau** | | |
| Teledu (BBC One/BBC Two/BBC Choice) | **31.3** | 28.5 |
| Radio (Radio lleol/radio'r Gwledydd) | **0.5** | 0.5 |

**Roedd BBC Choice yn cynnwys bloc wedi'i frandio o raglenni plant a ddangosir rhwng 6am a 6pm*

### Tabl 16 BBC News 24

Mae Nodyn 2b (tudalen 95) yn nodi cost gwasanaethau a sianelau'r BBC. Eleni nodir rhai categorïau o wariant, gan gynnwys casglu newyddion, a ddyrannwyd yn y gorffennol i wasanaethau a sianelau unigol, ar wahân. Pe byddai rhan o'r gwariant hwn wedi cael ei dyrannu i BBC News 24, byddai ei gostau wedi bod fel a ganlyn:

| | 2002/2003 £m | 2001/2002 £m |
|---|---|---|
| Cyfanswm costau cynhyrchu fel y nodir yn Nodyn 2b | **23.8** | 25.7 |
| Dyraniad casglu newyddion | **18.8** | 19.3 |
| Dyraniad costau canolog | **7.5** | 7.4 |

*Nodyn: Darlledwyd 1,146 awr o raglennu BBC News 24 ar BBC One a 156 awr ar BBC Two (2001/2002 1,381 awr ar BBC One a 77 awr ar BBC Two)*

### Tabl 17 Costau dosbarthu

| | 2002/2003 £m | 2001/2002 £m |
|---|---|---|
| Analog | **73** | 75 |
| Digidol | **69** | 52 |
| **Cyfanswm costau dosbarthu** | **142** | 127 |

### Tabl 18 Cost fesul awr o raglenni gwreiddiol a gynhyrchir yn fewnol yn ôl genre

| | 2002/2003 £000 | 2001/2002 £000 |
|---|---|---|
| **Rhaglenni teledu analog** | | |
| Ffeithiol a dysgu | **110.6** | 104.2 |
| Addysg i blant | **119.1** | 85.2 |
| Newyddion a'r tywydd | **50.1** | 51.7 |
| Materion cyfoes | **123.3** | 117.5 |
| Seneddol | **49.7** | 73.0 |
| Adloniant | **177.3** | 176.9 |
| Chwaraeon | **192.2** | 127.8 |
| Plant | **83.7** | 100.1 |
| Drama | **526.7** | 518.0 |
| Cerddoriaeth a'r celfyddydau | **142.7** | 111.9 |
| Crefydd | **112.7** | 107.6 |
| **Rhaglenni teledu digidol** | | |
| Ffeithiol a dysgu | **114.3** | 109.4 |
| Addysg i blant | **–** | – |
| Newyddion a'r tywydd | **6.8** | 6.2 |
| Materion cyfoes | **57.5** | 74.1 |
| Seneddol | **0.7** | 0.9 |
| Adloniant | **162.6** | 162.6 |
| Chwaraeon | **–** | – |
| Plant | **29.4** | 25.0 |
| Drama | **234.8** | 267.5 |
| Cerddoriaeth a'r celfyddydau | **65.3** | 52.9 |
| Crefydd | **87.0** | 59.5 |

### Tabl 19 Gwariant creadigol y tu allan i'r BBC

| | 2002/2003 £m | 2001/2002 £m |
|---|---|---|
| Cynyrchiadau rhaglenni annibynnol a ddarlledwyd | **319** | 257 |
| Cyfleusterau ac adnoddau rhaglenni allanol | **270** | 212 |
| Rhaglenni a gaffaelwyd a ddarlledwyd | **103** | 96 |
| Artistiaid, cyfranwyr a hawlfraint | **284** | 263 |
| | **976** | 828 |

# Cysylltu â'r BBC

**BBC Gwybodaeth**
Os oes gennych gwestiwn neu sylw am raglenni neu wasanaethau'r BBC, gallwch ffonio BBC Gwybodaeth 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Mae gwasanaethau Cymraeg ar gael pan fyddwch yn ffonio neu'n ysgrifennu.
**Ysgrifennwch at:**
BBC Information
PO Box 1922
Glasgow G2 3WT
**Ffôn:** 08700 100 222*
**Ffôn testun:** 08700 100 212
**Gwefan:** www.bbc.co.uk/info
**Ffacs:** 0141 307 5770

**I gael gwybodaeth am sut i dderbyn gwasanaethau digidol y BBC**
**Ffôn:** 08700 101 010*
**Gwefan:** www.bbc.co.uk/digital

**I gael cyngor cyffredinol ar dderbyn teledu a radio**
**Ysgrifennwch at:**
BBC Reception Advice
BBC Television Centre
London W12 7RJ
**Ffôn:** 08700 100 123* (24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos)
**Ffôn testun:** 08700 100 212
**Gwefan:** www.bbc.co.uk/reception

**I rannu eich barn ar ein rhaglenni teledu**
**Ysgrifennwch at:**
*Points of View*
BBC Birmingham
B5 7QQ
**Ffôn/Ffacs:** 0121 472 7988 (yn weithredol pan fydd y rhaglen ar yr awyr)
**E-bost:** pov@bbc.co.uk
**Gwefan:** www.bbc.co.uk/pov

**I rannu eich barn ar ein rhaglenni radio**
**Ysgrifennwch at:**
*Feedback*
PO Box 2100
London W1A 1QT
**Ffôn:** 08700 100 400* (rhwng 7am a chanol nos bob dydd)
**Ffacs:** 020 7436 2800
**E-bost:** feedback@bbc.co.uk
**Gwefan:**
www.bbc.co.uk/radio/feedback

**Cwynion am raglenni**
Os byddwch o'r farn i raglen fethu'n ddifrifol wrth gyrraedd safonau golygyddol y BBC, gallwch ysgrifennu at:

Head of Programme Complaints
Programme Complaints Unit
BBC Broadcasting House
London W1A 1AA

Neu gallwch ysgrifennu at y Comisiwn Safonau Darlledu, corff statudol annibynnol sy'n ystyried cwynion am safonau a thegwch a phreifatrwydd wrth ddarlledu yn:

Broadcasting Standards Commission
7 The Sanctuary
London SW1P 3JS

**Cynghorau Darlledu a Chynghorau Ymgynghorol y BBC**
Mae'r Cynghorau Darlledu Cenedlaethol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a Chynghorau Ymgynghorol Rhanbarthol a Lleol Lloegr yn cynorthwyo Llywodraethwyr y BBC wrth iddynt oruchwylio'r BBC. Gallwch ysgrifennu atynt i ddatgan eich barn drwy:

Yr Ysgrifennydd
Cyngor Darlledu Cymru y BBC
Canolfan Ddarlledu'r BBC
Llandaf
Caerdydd CF5 2YQ

The Secretary
BBC Broadcasting Council for Scotland
Room 3152
BBC Broadcasting House
Queen Margaret Drive
Glasgow G12 8DG

The Secretary
BBC Broadcasting Council for Northern Ireland
BBC Broadcasting House
Ormeau Avenue
Belfast BT2 8HQ

The Secretary
BBC English Regions
BBC Broadcasting Centre
Pebble Mill Road
Birmingham B5 7QQ

Mae'r Pwyllgor Ymgynghorol Canolog ar Grefydd (CRAC) yn cynghori'r BBC ar bolisi darlledu a rhaglenni crefyddol. Gallwch ysgrifennu at CRAC i ddatgan eich barn drwy:

Head of Public Accountability
BBC Broadcasting House
Portland Place
London W1A 1AA

**Tocynnau am ddim**
I gael tocynnau am ddim i sioeau radio a theledu'r BBC:
**Ysgrifennwch at:**
BBC Audience Services
PO Box 3000
BBC Television Centre
London W12 7RJ
**Ffôn:** 020 8576 1227
**Ffôn testun:** 020 8225 8090
**Ffacs:** 020 8576 8802
**E-bost:** tv.ticket.unit@bbc.co.uk neu radio.ticket.unit@bbc.co.uk
**Gwefan:** www.bbc.co.uk/tickets

**Ymweld â'r BBC**
Gallwch fynd ar daith o amgylch BBC Television Centre yn Llundain. I gael rhagor o wybodaeth ac i drefnu ymweliad:
**Ffôn:** 0870 603 0304*
O'r tu allan i'r DU, ffoniwch +44 2890 535 904
**Ffôn testun:** 0870 903 0304
**E-bost:** bbctours@bbc.co.uk
**Gwefan:** www.bbc.co.uk/tours

Gall BBC Cymru, BBC Scotland, BBC Northern Ireland a chanolfannau rhanbarthol a gorsafoedd radio lleol yn Lloegr drefnu teithiau ar gyfer myfyrwyr y cyfryngau, sefydliadau proffesiynol a grwpiau eraill. Cysylltwch â'ch canolfan leol am fanylion.

**Cynnyrch y BBC**
Gallwch brynu DVDs, fideos, llyfrau, teganau a nwyddau eraill ar gyfer rhai o raglenni'r BBC. Am resymau hawlfraint, yn gyffredinol nid yw'n bosibl cael tapiau o raglenni eraill.
**Ffôn:** BBC Products and Sales 0870 600 7080*
**Gwefan:** www.bbcshop.com

**Cyfrannu at raglenni**
Mae gan y BBC Ddatabas Cysylltiadau o gyfranwyr posibl i helpu gwneuthurwyr rhaglenni'r BBC i ddod o hyd i wynebau a lleisiau newydd, ac i adlewyrchu amrywiaeth llawn cymdeithas y DU yn well. Mae gennym ddiddordeb penodol i glywed gan bobl anabl, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a phobl hŷn. I gael ffurflen gais:
**Ysgrifennwch at:**
Diversity Database Project Administrator
Room 7021
BBC Television Centre
London W12 7RJ
**Ffôn:** 020 8576 4807
**Ffacs:** 020 8742 9066
**E-bost:** diversity.database@bbc.co.uk

**I gael gwybodaeth am gael profiad gwaith yn y BBC**
**Ysgrifennwch at:**
BBC Work Experience
PO Box 27118
London W1A 6ZL
**E-bost:** work.experience@bbc.co.uk
**Gwefan:**
www.bbc.co.uk/workexperience

**I gael gwybod am swyddi gwag o fewn y BBC**
**Ysgrifennwch at:**
BBC Recruitment
PO Box 7000
London W1A 6GJ
**Ffôn:** 0870 333 1330*
**E-bost:** recruitment@bbc.co.uk
**Gwefan:** www.bbc.co.uk/jobs

**Ar gyfer ymholiadau am eich trwydded deledu**
Ymholiadau cyffredinol
**Ffôn:** TV Licensing (Dydd Llun i ddydd Sadwrn 8.30am-9pm) 08705 763 763*
Ar gyfer taliadau debyd uniongyrchol
**Rhadffôn:** 0800 328 2020
**Ffacs:** 0870 240 1187
**Gwefan:** www.tvlicensing.co.uk

** Efallai y caiff galwadau eu monitro neu eu recordio at ddibenion hyfforddiant.*

# Rhestr termau a gwybodaeth arall

Mae copïau o *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC* ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus ledled y DU ac ar wefan y BBC yn www.bbc.co.uk/annual report. Mae hefyd ar gael yn Saesneg, mewn fersiwn sain, mewn Braille ac mewn fersiwn wedi'i deilwra ar gyfer pobl sydd ag anawsterau dysgu.

Rydym hefyd yn cyhoeddi *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni'r BBC*, sy'n nodi amcanion a chynlluniau'r BBC ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae hwn ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus ac ar wefan y BBC yn www.bbc.co.uk/info. Mae hefyd ar gael yn Saesneg, mewn fersiwn sain ac mewn Braille.

Cyhoeddir *Arolygon Blynyddol* gan BBC Cymru, BBC Scotland, BBC Northern Ireland a Rhanbarthau Lloegr y BBC ar yr un pryd â'r ddogfen hon, felly hefyd *Arolwg Blynyddol* BBC World Service.

Gellir cael copïau o unrhyw un o'r cyhoeddiadau hyn drwy ffonio 08703 665 466* neu drwy gysylltu â BBC Gwybodaeth (manylion i'r chwith).

**Datganiad amgylcheddol**
Cynhyrchwyd y cyhoeddiad hwn gan ddefnyddio inciau soia sydd 100% yn rhydd o olew mwynau ac allyriadau niweidiol o elfennau organig ffrwydrol. Mae ein hargraffydd yn gweithredu ar System Ailgylchu EcoTrans, sy'n ailgylchu'r cemegau a ddefnyddir o fewn y broses argraffu ac yn sicrhau bod unrhyw wastraff yn pH niwtral.

Mae'r papur yn cynnwys 50% o bwlp di-glorîn llwyr o goedwigoedd plannu, a 50% o ffibrau wedi'u hailgylchu a'u dadincio, ac ymdriniwyd ag unrhyw wastraff yn y broses orffen a'i leihau i'r eithaf.

**Dyddiadau lansio gwasanaethau newydd y BBC**

**2002/2003**

| | |
|---|---|
| BBC Three | 9 Chwefror 2003 |
| *(Daeth BBC Choice i ben ar 8 Chwefror 2003)* | |
| lXtra | 16 Awst 2002 |
| BBC Asian Network (digidol) | 28 Hydref 2002 |
| BBC 7 | 15 Rhagfyr 2002 |

**2001/2002**

| | |
|---|---|
| CBBC/CBeebies | 11 Chwefror 2002 |
| BBC Four | 2 Mawrth 2002 |
| *(Daeth BBC Knowledge i ben ar 1 Mawrth 2002)* | |
| BBC Five Live Sports Extra | 2 Chwefror 2002 |
| 6 Music | 11 Mawrth 2002 |

**Termau technegol a thalfyriadau**
**BARB** Bwrdd Ymchwil Cynulleidfa Darlledwyr. Cyd-bwyllgor y diwydiant, wedi'i ariannu gan gwmnïau teledu ac asiantaethau hysbysebu, sy'n cynhyrchu mesuriadau o'r gynulleidfa a data am ymatebion cynulleidfaoedd ar gyfer y diwydiant teledu. Cyhoeddir data yn fisol. Ers 1 Ionawr 2002 addaswyd y ffordd y mae BARB yn casglu ffigurau gwylio. O ganlyniad, nid yw'n bosibl cymharu'r ffigurau ar gyfer 2001 a 2002 yn fanwl gywir. Mae data BARB yn seiliedig ar bob unigolyn 4+ oed.

**BREEAM** Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu.

**DCMS** Yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Adran y Llywodraeth sy'n gyfrifol am ddarlledu.

**Ailddarllediadau naratif** Rhaglenni sy'n ymddangos ddwywaith mewn amserlen wythnosol.

**Rhaglenni rhwydwaith** Y term a ddefnyddir gan y BBC i olygu rhaglenni a ddarlledir i o leiaf 11 o'n 14 o Wledydd a Rhanbarthau.

**Rhaglenni gwreiddiol a gynhyrchir yn fewnol** Ystyr rhaglenni gwreiddiol a gynhyrchir yn fewnol yw rhaglenni a gynhyrchir neu a gomisiynir yn uniongyrchol gan y BBC ac a ddangosir am y tro cyntaf.

**Ymweliadau â thudalennau** Mae ymweliadau â thudalennau yn mesur cyfanswm nifer yr ymweliadau â'n tudalennau gwefan.

**RAJAR** Radio Joint Audience Research Limited. Yn eiddo i Gymdeithas y Cwmnïau Radio Annibynnol a'r BBC. Mae RAJAR yn gweithredu system mesur cynulleidfaoedd ar gyfer y diwydiant radio. Cyhoeddir data bob chwarter sy'n seiliedig ar bob oedolyn (15+ oed). Yr eithriad i hyn yw BBC Radio 1 sy'n cofnodi unigolion 4+ oed. Mae tablau 2 a 3 yn yr adran Ffeithiau a ffigurau darlledu a'r siartiau ar dudalen 7 yn defnyddio data blynyddol ar gyfer pob unigolyn 4+ oed er mwyn cofnodi data teledu a radio ar yr un sail.

**Cyrhaeddiad** Canran y bobl sy'n gwylio neu'n gwrando ar ddarllediadau am gyfnod diffiniedig.

Y diffiniad safonol ar gyfer teledu (BARB) yw tair munud yn olynol, a'r diffiniad ar gyfer radio (RAJAR) yw 15 munud yn olynol. Mae'r BBC yn defnyddio cyrhaeddiad o 15 munud yn olynol ar gyfer teledu er mwyn sicrhau data cadarn. Fel arfer fe'i mesurir yn ddyddiol neu'n wythnosol.

Cyrhaeddiad ar-lein yw nifer neu ganran yr oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd (15+ oed) sy'n nodi eu bod wedi defnyddio gwefan BBCi yn ystod y mis diwethaf.

**RTS** Y Gymdeithas Deledu Frenhinol.

**Cyfran** Swm y gwylio/gwrando mewn perthynas â gorsaf neu wasanaeth penodol – wedi'i fynegi fel canran o'r holl wylio/gwrando – yn ystod cyfnod amser diffiniedig.

Cynlluniwyd a chynhyrchwyd gan C&FD.

Cyfieithwyd gan Wasanaeth Cyfieithu Prysg.

Argraffwyd yn Lloegr gan Cousin.

Atgynhyrchwyd y ffotograffau canlynol drwy garedigrwydd:

**PA photos** llun ar y clawr blaen, tudalennau 11 (*Fame Academy*), 35 (Paula Radcliffe), 43 (y Jiwbilî), 44 (damwain reilffordd Potters Bar), 45 (streic y gwasanaeth tân), 56 (*Party at the Palace*)
**William Cherry/Pacemaker** tudalen 2 (Gavyn Davies)
**Richard Kendal** tudalennau 4, 18, 19 (Llywodraethwyr a Phwyllgor Gweithredol y BBC)
**EMPICS** tudalennau 8 (Cwpan Ryder) a 40 (Celtic vs Rangers)
**Rolf Harris** tudalen 8 (*Rolf on Art*)
**Huw Davies** tudalen 12 (project *Straeon Digidol* )
**Chris Capstick** tudalennau 16 (Greg Dyke) a 67 (*Making it Happen*)
**Thomas Hegenbart/Focus/Network** tudalen 16 (John Simpson)
**Catherine Ashmore** tudalen 17 (*Sophie's Choice*)
**Associated Press** tudalennau 22 (David Beckham), 50 (gwrando ar y radio yn Baghdad)
**Luke Holland** tudalen 26 (*Storyville*)
**Penelope Films** tudalen 26 (*Tryst*)
**Rob Dawson/Guzelian** tudalen 32 (y Gerddorfa)
**Roy Peters Photography** tudalen 36 (bws y BBC, Sunderland)
**Simon Evans** tudalen 38 (project *Lleisiau* gyda'r Sipsiwn)
**Alex Skibinski** tudalen 41 (Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC)
**Elizabeth Malby, *The Baltimore Sun*** tudalen 42 (cymorth bwyd yn Irac)
**Annie Heslop** tudalen 52 (gwneuthurwyr ffilmiau yn eu harddegau o India)
**Pixsil/Didier Ruef** tudalen 53 (Lyse Doucet)
**Simon Rix** tudalennau 58 a 63 (digwyddiad atebolrwydd)
**Lee Agnew** tudalen 61 (*Lleisiau* yn Dallow)

British Broadcasting Corporation
Broadcasting House
London W1A 1AA
Gwefan: www.bbc.co.uk/annualreport
ⓗBBC 2003